Rhif 36 | Ionawr 2024 | ISSN 1741-4261

RHIFYN ARBENNIG: DEONGLIADAU NEWYDD O'R WLADFA GYMREIG

# Gwerddon

Cyfnodolyn Academaidd Cymraeg

Golygydd: Yr Athro Anwen Jones

Cyhoeddwyd gyda chymorth: Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Rhif 36 | Ionawr 2024 | ISSN 1741-4261

# Gwerddon

Cyfnodolyn Academaidd Cymraeg

Golygydd: Yr Athro Anwen Jones

# Bwrdd Golygyddol


| | |
|---|---|
| Golygydd: | Yr Athro Anwen Jones, Prifysgol Aberystwyth |
| Is-Olygydd: | Dr Hywel M. Griffiths, Prifysgol Aberystwyth |
| Golygydd Gwadd: | Dr Iwan Wyn Rees, Prifysgol Caerdydd |
| Cynorthwywyr Golygyddol: | Lowri Pugh Rees, Dr Angharad Watkins a Mari Fflur |
| Cadeirydd y Bwrdd Golygyddol: | Dr Paula Roberts |
| Aelodau'r Bwrdd Golygyddol: | Dr Sarah Cooper, Prifysgol Bangor |
| | Dr Gwennan Higham, Prifysgol Abertawe |
| | Dr Rhian Hodges, Prifysgol Bangor |
| | Dr Sioned Vaughan Hughes, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant |
| | Yr Athro Philip Jonathan, Prifysgol Caerhirfryn |
| | Dr Huw Morgan, Prifysgol Aberystwyth |
| | Dr Geraint Palmer, Prifysgol Caerdydd |
| | Yr Athro Simon Ward, Prifysgol Caerdydd |
| | Dr Kelly Young, Prifysgol Metropolitan Caerdydd |


E-gyfnodolyn academaidd cyfrwng Cymraeg yw *Gwerddon*. Y mae'n cyhoeddi ymchwil ysgolheigaidd yn y Gwyddorau, y Celfyddydau a'r Dyniaethau. Cyhoeddir *Gwerddon* ar y we o leiaf ddwywaith y flwyddyn. Arfernir cyfraniadau gan arbenigwyr yn y meysydd perthnasol yn y modd arferol. Ceir gwybodaeth lawn am amcanion, polisïau golygyddol, canllawiau i awduron a chanllawiau i arfarnwyr ar y wefan: www.gwerddon.cymru


Cyllidir *Gwerddon* gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.



Cysylltwch â *Gwerddon* drwy e-bostio gwybodaeth@gwerddon.cymru neu drwy'r post: Gwerddon, Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Y Llwyfan, Heol y Coleg, Caerfyrddin, SA31 3EQ.



ISSN 1741-4261



Hawlfraint *Gwerddon*

www.gwerddon.cymru

# Cynnwys


Rhagair y Golygydd Gwadd v

Lleoliad Talaith Chubut, ynghyd â deongliadau o'r term 'Y Wladfa' x

Fernando Williams, 'Dŵr a Phŵer yn Nyffryn Camwy: heriau a gwrthdaro ynghylch sefydlu a rheoli system ddyfrhau' 1

Guillermo Williams, 'Darllen ac ysgrifennu gorffennol y Wladfa: dadleuon am hanes a chof yn ymsefydliad Cymreig Chubut' 28

Huw L. Williams, 'Heb ei fai, heb ei eni: 'Disgwrs' a Moeseg y Wladfa' 49

Sara Borda Green, 'Paradocs wrth bortreadu Patagonia yn y Gymru ddatganoledig: Archwiliad cychwynnol o *Separado!* (Gruff Rhys a Dylan Goch 2010)' 67

Iwan Wyn Rees, '"Un o fethiannau godidocaf" puryddiaeth ieithyddol? Dadansoddiad o batrymau geirfaol Cymraeg y Wladfa heddiw mewn cyd-destun hanesyddol' 87

Cyfranwyr 118

# Rhagair y Golygydd Gwadd

Iwan Wyn Rees

*Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd*

Ysgogiad cychwynnol y rhifyn arbennig hwn o *Gwerddon* – 'Deongliadau newydd o'r Wladfa Gymreig' – oedd cynhadledd amlddisgyblaethol, dairieithog ar yr un testun a drefnwyd gennyf ac a gynhaliwyd ym Medi 2021 ar gyfer Canolfan Uwchefrydiau Cymry America Prifysgol Caerdydd. Mae cyfran sylweddol o'r papurau a draddodwyd yn y digwyddiad hwnnw gan 16 academydd o ddwy ochr yr Iwerydd ar gael bellach ar ffurf recordiadau clyweledol ar sianel YouTube y brifysgol.

Ond nid dyna unig ffrwyth y gynhadledd chwaith, oherwydd flwyddyn yn ddiweddarach ym Medi 2022, yn sgil y consensws a gafwyd yn 2021 fod dirfawr angen fforwm amlddisgyblaethol rhyngwladol ar gyfer tynnu ynghyd academyddion sy'n ymddiddori mewn amryfal agweddau ar y Wladfa, cynhaliwyd digwyddiad cyntaf Rhwydwaith Astudiaethau Cyfoes ar Batagonia Gymreig (y mae ei gynnyrch hefyd ar gael ar safle YouTube) o dan arweiniad Geraldine Lublin. Ymysg y cyfraniadau, cafwyd cyflwyniad athronyddol gwerthfawr gan Huw L. Williams ar ystyriaethau moesegol sy'n codi yng nghyd-destun y Wladfa, a chan fod y pwnc hwnnw yn amlwg yn gydnaws â thema ganolog y rhifyn hwn, nid oedd dim amdani ond gwahodd Huw yntau i rannu ei ddehongliad o'r Wladfa yma. Wrth lawenhau iddo dderbyn y gwahoddiad felly, gan roi cyfanswm o bum dehongliad newydd i'r rhifyn hwn, rhaid imi hefyd gydnabod fy nyled i Geraldine fel yr un a'i hysgogodd yn y lle cyntaf i roi ei syniadau athronyddol ar waith.

Wedi ymdrechion y cynadleddau, teg gofyn pam y mae sefydlu rhwydwaith ryngwladol o academyddion ar gyfer rhannu deongliadau newydd o'r Wladfa Gymreig yn bwysig, a pham fy mod i'n argyhoeddedig fod y testun hwn yn deilwng o rifyn arbennig o *Gwerddon*? Clamp o gwestiwn yn wir, ond gellir ei ateb yn gryno â dihareb (sydd hefyd, fel mae'n digwydd, yn arwyddair gwiw gan Brifysgol Aberystwyth, fy *alma mater* innau): 'nid byd, byd heb wybodaeth'. Rhagfarnau – neu ramanteiddio cibddall – ar sail anwybodaeth yw'r opsiwn arall ac ni ddylem byth fodloni ar hynny.

Oeddwn, roeddwn innau (fel sawl un arall, rwy'n siŵr) yn bryderus ac yn rhwystredig pan dynnwyd fy sylw at stormydd o ddadleuon ac ymosodiadau tanllyd (os nad eithafol) yn ymwneud â'r Wladfa ar y cyfryngau cymdeithasol yn ôl yn 2020. Yn ffodus, gan y rhoddir sylw manwl yn un o'r erthyglau sy'n dilyn i gyfyngiadau Twitter – neu X bellach – o safbwynt annog trafodaethau aeddfed ar faterion cymhleth fel y Wladfa, nid oes rhaid ymhelaethu yma. Digon yw nodi mai un peth a'm blinai yn ystod y 'stormydd' rhithwir hyn oedd diffyg parodrwydd y *Twitterati* Cymreig yn gyffredinol i gydnabod cymhlethdod 'eithriadol' sefyllfa'r Wladfa, heb sôn am brinder cyfeiriadaeth at astudiaethau academaidd yn y maes, neu hyd yn oed yr amgyffrediad lleiaf o arwyddocâd y Wladfa yn y traddodiad deallusol

Cymreig. Tybed faint o ymgyrchwyr YesCymru sydd wedi ystyried barn yr arch-genedlaetholwr Cymreig Saunders Lewis ar y Wladfa, er enghraifft, gan gynnwys clo dadleuol ei adolygiad o *Cymry Patagonia* (1944) R. Bryn Williams yn *Ysgrifau Dydd Mercher* (1945)? Deuthum yn boenus o ymwybodol hefyd mai prin iawn yw dadansoddiadau academaidd diweddar o'r diaspora Cymreig ym Mhatagonia a anelir yn benodol at ddarllenwyr Cymraeg, ffaith dra eironig o ystyried pwyslais cynnar y Wladfa ar ymreolaeth Gymreig a'r arloesi ieithyddol chwyldroadol a esgorwyd gan hynny.

Fel e-gyfnodolyn agored ei fynediad i ddarllenwyr Cymraeg o bob math, *Gwerddon* oedd y platfform amlwg i fynd i'r afael â'r bylchau hyn felly. Nid rhifyn arbennig cwbl arferol mo hwn er hynny: er bod tri o'r awduron yn dwyn y cyfenw Williams, mwy arwyddocaol o'r hanner yw'r ffaith fod y Cymry a gyfrannodd (o ran eu hunaniaeth sifig o leiaf) yn y lleiafrif, diolch i'r tri ysgolhaig Archentaidd (o dras Gymreig) a fu mor barod i rannu ffrwyth eu hymchwil â chynulleidfa newydd. O'r diwedd, bydd gan ddarllenwyr Cymraeg sy'n ymddiddori yn y Wladfa gyfle i glywed amrywiaeth o leisiau cyfoes o'r ddwy ochr i'r Iwerydd, a'r rheini'n rhai nad ydynt wedi eu cyfyngu gan ddealltwriaeth angloffon o'r byd.

Cysylltiedig â'r ddemograffeg drawsgenedlaethol hon wedyn yw ymgais y rhifyn hwn i dorri tir newydd yn ieithyddol yn hanes *Gwerddon* drwy gynnwys cyfieithiadau o ddwy erthygl (o'r Sbaeneg i'r Gymraeg yn uniongyrchol, noder). Yn y cyswllt hwnnw, nid dibwys ar unrhyw gyfrif oedd y dewis gyfieithydd, sef Walter Ariel Brooks, un y mae fy nyled yn enfawr iddo. Ac yntau hefyd yn hanu o Dalaith Chubut (er ei fod wedi hen fwrw gwreiddiau yng Nghymru bellach), ac yn academydd ei hun sy'n arbenigo ar y wasg Gymraeg a Chymreig yn y Wladfa, nid gormodiaith fyddai honni bod pedwar llais Patagonaidd clir yn greiddiol i'r rhifyn hwn.

Mantais fawr cael Archentwr amlieithog yn gyfieithydd oedd bod hyn eto'n fodd o osgoi tueddiadau y gellid eu hystyried yn Gambro-ganolog, os nad yn neo-drefedigaethol hyd yn oed. Er enghraifft, yn erthygl Fernando Williams, defnyddiwyd 'trofa (afon)' yn gyson, yn hytrach na'r 'ystum' sy'n fwy cyfarwydd i'r sawl a astudiodd Ddaearyddiaeth drwy gyfrwng y Gymraeg yng Nghymru, gan mai dyna'r term sydd wedi hen ennill ei blwyf yn y Wladfa ac sy'n amlwg iawn yn nhoponymeg Gymraeg Dyffryn Camwy. Yn yr un modd, yn achos cyfraniad Guillermo Williams, penderfynwyd trosi *gobernador* y Sbaeneg i 'Rhaglaw (Talaith Chubut)', gan ymwrthod â'r 'Llywodraethwr' mwy cyfarwydd a llythrennol oherwydd mai'r ffurf gyntaf sy'n codi'n arferol yn archif Gymraeg y Wladfa ac sydd i'w chlywed gan rai siaradwyr traddodiadol hyd heddiw. Cymerwyd cryn ofal hefyd wrth gyfieithu *colonia* gan ystyried cynodiadau tra gwahanol 'gwladychfa', 'gwladfa' a 'trefedigaeth' yn y Gymraeg (gweler ymdriniaeth fanylach â'r cymhlethdod hwn gan Geraldine Lublin (2009) yn 'Y Wladfa: Gwladychu heb drefedigaethu?', *Gwerddon* (4)), a chan gofio hefyd fod trosi *(agricultural) settlement* y Saesneg i *colonia* yn arfer gyffredin yn yr Ariannin. Gellid amlhau ystyriaethau tebyg, ond mynd rhagddi i amlinellu cynnwys yr erthyglau sydd raid.

Erthygl o natur ddaearyddol-hanesyddol a gawn yn gyntaf gan Fernando Williams, wrth iddo ganolbwyntio ar ystyron newidiol y seilwaith dyfrhau yn Nyffryn Camwy a sefydlwyd gan yr ymfudwyr cyntaf o Gymru. Gyda'r cwmni dyfrhau yn sefydliad a ganiataodd i'r

Cymry aros yn y rhanbarth hwn o Batagonia, yn ogystal ag yn elfen allweddol ar gyfer ehangu'r Gymraeg i beuoedd newydd, rhoddir sylw teilwng yma i'r gwrthdaro a welwyd rhwng y gwladfawyr Cymreig a gwladwriaeth yr Ariannin yn sgil y penderfyniad i wladoli'r weinyddiaeth ddyfrhau ym 1943. Mewn gwirionedd, gellir ystyried yr astudiaeth drwyadl hon yn olynydd i gyfrol arloesol Glyn Williams, *The Welsh in Patagonia: The State and the Ethnic Community* (1991), fel sy'n wir hefyd am yr ail erthygl.

Ymdriniaeth wahanol ei gogwydd a geir gan yr hanesydd Guillermo Williams er hynny, lle y dadansoddir gwahanol ddeongliadau a gafwyd o hanes y Wladfa o fewn naratifau swyddogol o orffennol Chubut mewn gwahanol gyfnodau hanesyddol. I ddarllenwyr Cymraeg di-Sbaeneg sy'n ymddiddori yn hanesyddiaeth y Wladfa, bydd tystiolaeth yr amrywiol ffynonellau Sbaeneg mewn cyfieithiad heb os yn werthfawr ar gyfer gwerthfawrogi safbwyntiau Archentaidd 'allanol' ar Gymry Patagonia a'u disgynyddion. Gan mai darlun o berthynas gymhleth a newidiol a geir eto rhwng y gymuned Gymreig ac actorion eraill yn y gymuned Archentaidd ehangach, cwestiwn anodd a gyfyd yng ngoleuni'r erthygl hon yw i ba raddau y gallai'r grŵp diwylliannol Cymreig heddiw (pe dymunai) wrthwynebu naratifau amdanynt gan actorion grymus megis Llywodraeth Chubut ei hun? Yn sicr, mae sail gadarn yma i ymchwil pellach yn y maes hwn, nid yn unig oherwydd cefnogaeth hanesyddol rhai aelodau blaenllaw o'r gymuned Gymreig i statws hegemonaidd y Wladfa fel man cychwyn hanesyddiaeth 'swyddogol' Chubut (yn enwedig ers 1958 pan roddwyd statws taleithiol i'r hen 'diriogaeth genedlaethol' o'r un enw), ond hefyd o ystyried dadansoddiad amserol yr erthygl hon o'r modd y portreadwyd hanes y gwladfawyr Cymreig ar adeg canmlwyddiant a hanner y Wladfa yn 2015, a'r tensiynau mwy diweddar a ddilynodd yr achlysur hwnnw.

Yr athronydd gwleidyddol Huw L. Williams yw awdur y drydedd erthygl ac fel yr awgrymwyd eisoes, hon yw'r ymdriniaeth estynedig gyntaf â'r Wladfa o safbwynt athroniaeth foesol, neu Foeseg. Ond nid athroniaeth sych er ei mwyn ei hun a geir yma o bell ffordd, eithr ymateb amserol a deallus i'r tueddiad diweddar i gollfarnu'r gwladfawyr Cymreig a'u disgynyddion ar sail foesol. Mae'n werth crybwyll yn y cyswllt hwn farn awdur Archentaidd y bedwaredd erthygl fod newid cyffredinol i'w weld mewn dyfarniadau Cambro-ganolog o'r Wladfa, o 'fethiant gwleidyddol' yn y gorffennol i 'fethiant moesol' yn yr unfed ganrif ar hugain. Ond byrdwn y drydedd erthygl yw bod angen cryn ofal cyn dod i unrhyw ddedfryd ar foesoldeb Cymry Patagonia, ac wrth gymhwyso fframwaith moesegol penodol i hanes y Wladfa awgrymir yn hytrach mai ein gweithredoedd *heddiw* a ddylai fod yn flaenoriaeth.

Gan hynny, gobeithio y bydd casgliad cytbwys yr erthygl hon yn annog rhai Cymry i ddwysystyried rhai o'u gweithredoedd ('anfoesol'?) diweddar ac i roi heibio eu tuedd i gollfarnu a difrïo aelodau o gymuned Gymreig Chubut heddiw, a hynny ar sail eu dyfarniad o anfoesoldeb ymfudwyr o Oes Fictoria sy'n gymaint rhan o hanes Cymru ag ydynt o dreftadaeth eu disgynyddion yn yr Ariannin. Rhaid gofyn hefyd yn y cyswllt hwn i ba raddau y mae ymosod ar grŵp amlethnig, lleiafrifol y mae iaith dreftadol nifer ohonynt yn parhau'n fregus yng ngweriniaeth fawr Sbaeneg eu mebyd yn gyson â mwynhau diwylliannau eraill y mae eu cyswllt ag imperialaeth Ewropeaidd yn llawer amlycach?

Patagoniad arall (fel awduron y ddwy erthygl gyntaf) yw Sara Borda Green, ond yn

wahanol i eiddo'r awduron Archentaidd eraill, portreadau o'r Wladfa *yng Nghymru* sydd dan y chwyddwydr yn y bedwaredd erthygl sy'n gorwedd ym maes astudiaethau ffilm a theledu. Drwy ganolbwyntio'n bennaf ar y rhaglen ddogfen *Separado!* (2010) gan Gruff Rhys a Dylan Goch, un o ergydion y dadansoddiad meddylgar, llawn gwreiddioldeb hwn yw bod y rhaglen ddogfen hon yn arddangos tueddiadau (os nad ystrydebau) sy'n rhan o batrwm ehangach ac a welir mewn portreadau Cymreig eraill o'r Wladfa, sef bod 'defnydd' y rhain o Batagonia yn ymwneud yn fwy â phryderon gwleidyddol y Cymry eu hunain nag ag unrhyw ddiddordeb gwirioneddol ym mywydau Archentwyr Cymreig heddiw. Mae'n bur debyg felly y bydd yr erthygl hon yn peri anesmwythyd i sawl un ohonom ni yng Nghymru sy'n grediniol ein bod wastad yn wrthdrefedigaethol ein bydolwg am ei bod yn y bôn yn ein gorfodi i ofyn un cwestiwn bach i ni'n hunain: i ba raddau y bu – neu y mae – rhyw ddirmyg neo-drefedigaethol yn rhan o'n hymagwedd ninnau at y Wladfa 'Fictoraidd' honno y mae a wnelo fwy â'n dychymyg rhamantus ni nag unrhyw realiti ar lawr gwlad yn Nhalaith Chubut fodern? Oes, mae angen 'deryn glân i ganu!

Yn olaf, caiff natur y cysylltiadau trawsgenedlaethol rhwng Chubut a Chymru (neu Brydain) sylw eto mewn erthygl gennyf innau, ond yn yr achos hwn, dadansoddiad tafodieithegol a geir sy'n dangos sut y mae'r amrywio geirfaol sydd ar waith yng Nghymraeg y Wladfa wedi ei gyflyru i raddau helaeth gan yr amrywiaeth o gefndiroedd ieithyddol a welir bellach ymhlith siaradwyr Cymraeg Chubut. Mewn gwirionedd, hon yw'r astudiaeth gyntaf i ddadlennu effeithiau ieithyddol 'Cynllun yr Iaith Gymraeg' y Cyngor Prydeinig ar eirfa dysgwyr Cymraeg y dalaith. Ar sail rhai o'i chanlyniadau empiraidd felly, ystyrir a oes perygl i rai ideolegau ieithyddol arwain at ledaenu 'safonau' neu 'normau' o Gymru heddiw, gan danseilio hyder siaradwyr traddodiadol Cymraeg y Wladfa. Gan hynny, cynigir model addysgol amgen 'dad-drefedigaethu ieithoedd safonol' a ddefnyddiwyd mewn cyd-destunau ôl-drefedigaethol eraill, gan ymdrin â manteision posib hyn i gymuned Gymreig Chubut heddiw.


I gloi, rhaid pwysleisio bod y cyhoeddiad hwn yn amserol, nid lleiaf oherwydd y galw cynyddol bellach i ddad-drefedigaethu cwricwla addysgol, ond hefyd yn sgil dyfodiad y 'Cwricwlwm i Gymru' newydd lle y mae creu 'dinasyddion egwyddorol, gwybodus' â'r gallu i greu cysylltiadau rhwng 'eu diwylliant, eu cymuned, eu cymdeithas a'r byd' yn un o'i bedwar diben creiddiol. Mawr obeithiaf felly y bydd y cymhlethdodau amrywiol a gyflwynir yn y rhifyn hwn o *Gwerddon* yn argyhoeddi addysgwyr, amgueddfeydd, darlledwyr ac eraill yng Nghymru o bwysigrwydd astudiaethau ar y Wladfa o safbwynt eu potensial i ddangos gwedd unigryw Gymreig ar wladychu. Gall y rhifyn fod yn gyfeirbwynt hefyd ar gyfer cymell darllenwyr Cymraeg (gan gynnwys cenedlaetholwyr Cymreig) i ystyried y berthynas gymhleth rhwng dyheadau'r gwladfawyr cynnar am ymreolaeth Gymreig a phrosesau trefedigaethol ehangach gwladwriaeth yr Ariannin.

Ymhellach, gobaith arall gennyf yw y bydd y rhifyn penodol hwn yn fodd o gynyddu ymwybyddiaeth o beryglon neo-drefedigaethol *o du Cymru*, e.e. yng nghyswllt y berthynas sy'n parhau rhwng athrawon o Gymru a disgyblion ysgolion dwyieithog Chubut. Os llwydda amrywiol leisiau'r rhifyn hwn i ddarbwyllo trwch darllenwyr y Gymraeg fod cymhlethdod

sefyllfa'r Wladfa yn gofyn am ofal mawr a phwyll, heb anghofio am barch at aelodau o ddiaspora Cymreig amlethnig yr Ariannin sy'n dal i ymfalchïo yn y cysylltiad rhwng y Wladfa a'r 'Hen Wlad', bydd wedi gwireddu ei amcan pwysicaf.

Hoffwn ddiolch o galon i dîm *Gwerddon*, gan gynnwys Anwen Jones fel golygydd cyffredinol, am yr holl gefnogaeth wrth gyhoeddi'r rhifyn arbennig hwn, ac i Huw Meirion Edwards – cyn-ddarlithydd arnaf fel mae'n digwydd a'm cyflwynodd (yn berthnasol ddigon) i lenyddiaeth Gymraeg y bedwaredd ganrif ar bymtheg – a Ffion Emyr am eu gwaith golygu trwyadl. Rwy'n ddyledus hefyd i bob un o arfarnwyr anhysbys yr erthyglau am eu gwaith a'u sylwadau cefnogol. Yn olaf, dymunaf ddiolch i Gronfa Gydweithredol Bremen-Caerdydd fy mhrifysgol am ariannu costau cyfieithu'r ddwy erthygl gyntaf, yn ychwanegol at y cyllid a gafwyd ar gyfer trefnu'r gynhadledd a ysbrydolodd y rhifyn hwn.

# Lleoliad Talaith Chubut, ynghyd â deongliadau o'r term 'Y Wladfa'




Prif leoliadau Talaith Chubut, gan gynnwys mannau a ystyrir yn rhan o'r Wladfa Gymreig, a lleoliad y dalaith o fewn yr Ariannin (ffynhonnell: R. O. Jones 1998: t. 289)

Perthyn i Dalaith Chubut yn ne'r Ariannin (gweler y map yn y gornel dde isaf) y mae'r 'Wladfa (Gymreig)' heddiw (ers 1955). Nid yw'n arferol cysylltu'r Wladfa â'r dalaith i gyd er hynny, ond yn hytrach â thair ardal benodol, sef Dyffryn Camwy, sydd yn nwyrain y rhanbarth yn ymestyn o Rawson i diroedd y tu hwnt i Ddolavon; porthladd Porth Madryn, tua 65 cilomedr i'r gogledd o Rawson; a Chwm Hyfryd, sy'n ffinio â Chile ac yn cynnwys trefi Esquel a Threvelin (fel y gwelir oddi wrth brif fap y ffigur uchod). Dylid pwysleisio bod cysylltiadau teuluol a diwylliannol cryfion yn parhau'n amlwg rhwng Dyffryn Camwy a Chwm Hyfryd er gwaetha'r 550 cilomedr o anialdir – neu'r 'Paith' – sy'n eu gwahanu.

Ceir tueddiad heddiw i ddisgrifio'r ffurf '(g)wladfa' fel cyfieithiad llythrennol o *colony* y Saesneg, ond cyfeiliornus braidd yw hyn gan mai'r cyfieithiad 'llythrennol' go iawn ar gyfer 'gwlad' + '-fa' yw *country place*. Diddorol yw dehongliad F. Williams (2015: t. 155) yn y cyswllt hwn o arwyddocâd y cysylltiad rhwng 'gwlad' a 'gwladfa' yn y Gymraeg, 'perthynas lle [y] mae'r ail yn tarddu o'r [gair] cyntaf, sydd yn ei dro, yn creu'r syniad o fersiwn newydd o'r *wlad* honno. Nid yw'r fath berthynas i'w gweld yn y gair "*colony*" neu "*colonia*", sydd, yn

Coleg Cymraeg Cenedlaethol
ISSN: 1741-4261
http://gwerddon.cymru

gyffredinol, yn cario synnwyr negyddol o wladychu fel arf imperialaidd a ail-luniodd fap y byd i gyd dros ganrifoedd' (efe biau'r italeiddio).

Er gwaetha'r arfer o ystyried 'y Wladfa' fel tiriogaeth ddiffiniedig, diddorol nodi dadl arall gan F. Williams (ibid.: t. 156) nad yw'r 'Wladfa', na chwaith yr enw Sbaeneg cyfatebol 'la colonia galesa', yn ddim ond enwau 'ar raglen y fenter yn unig', ac ymhellach, '[y] gall Y Wladfa gael ei hystyried fel darn o dir ffuglennol a ddyfeisiwyd gymaint gan bregethau y "founding fathers" â'r hanesyddiaeth a fyddai'n dilyn' (ibid.; gweler hefyd F. Williams 2008). Gellir nodi yn y cyswllt hwn fod Brooks (2012: t. 2) yn awgrymu bod 'y Wladfa' yn cwmpasu ardaloedd ar wahân i'r tair tiriogaeth a nodwyd eisoes oherwydd eu cysylltiad ag ymfudwyr Cymreig. Yr ardaloedd a enwir ganddo yntau yw Sarmiento a Comodoro Rivadavia, sydd hefyd yn Nhalaith Chubut (gweler hefyd James 2010, a ddisgrifiodd yr ardaloedd hyn yn Chubut fel 'y Wladfa "goll"'), Choele Choel yn nhalaith gyffiniol Río Negro, a hyd yn oed Buenos Aires, prifddinas yr Ariannin, lle y bu cymuned Gymreig fywiog tan yn ddiweddar.

## Cyfeiriadau

Brooks, W. A. (2012), 'Welsh Print Culture in *Y Wladfa*: The Role of Ethnic Newspapers in Welsh Patagonia, 1868–1933', traethawd PhD nas cyhoeddwyd, Prifysgol Caerdydd. Ar gael hefyd ar-lein: https://orca.cardiff.ac.uk/id/eprint/46450/1/WelshPrintCultureInYWladfaWalterBrooks.pdf [Cyrchwyd: 6 Gorffennaf 2023].

James, E. W. (2010), 'Y Wladfa "Goll"', *Y Dinesydd*, Hydref 2010, t. 9.

Jones, R. O. (1998), 'Yr Iaith Gymraeg yn y Wladfa', yn Jenkins, G. H. (gol.), *Iaith Carreg fy Aelwyd: Iaith a Chymuned yn y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru), tt. 281–305.

Williams, F. (2008), 'La autonomía de la colonia galesa de la Patagonia como objeto de estudio', yn Gavirati, M. a Coronato, F. (goln), *Los Galeses en la Patagonia*, III (Puerto Madryn: Asociación Punta Cuevas), tt. 307–32.

Williams, F. (2015), 'Yr Hen Wlad a'r Hen Wladfa: nodiadau ar gyfer llunio persbectif o safbwynt Patagonia, 150 mlynedd ers y glaniad cyntaf', *Y Traethodydd: Y Wladfa 150*, CLXX (714), 141–58.

# Dŵr a Phŵer yn Nyffryn Camwy: heriau a gwrthdaro ynghylch sefydlu a rheoli system ddyfrhau

Fernando Williams

*CONICET / Universidad Nacional de La Plata, Yr Ariannin*

Cyfieithwyd gan Walter Ariel Brooks[1]

Cyflwynwyd: 8 Medi 2022; Derbyniwyd: 28 Mehefin 2023

**Crynodeb:** Bwriad yr erthygl hon yw llunio hanes y system ddyfrhau yn Nyffryn Camwy a grëwyd gan y gwladfawyr Cymreig a gyrhaeddodd Batagonia (yn yr Ariannin) ym 1865, gan gymhlethu'r berthynas a oedd yn bodoli rhwng y seilwaith hwn a'r fframwaith cymdeithasol-wleidyddol newidiol. Bydd hyn yn cynnwys rhoi sylw i'r sefydliadau a grëwyd gan y gwladfawyr eu hunain ac i'r gwrthdaro a fu rhyngddynt a gwladwriaeth yr Ariannin a ddaeth yn gyfrifol am y weinyddiaeth ddyfrhau ym 1943. Rhoddir pwys ar alluedd (*agency*) dŵr o fewn y broses a arweiniodd at atgyfnerthu ac ehangu'r seilwaith dyfrhau, a rhoddir sylw hefyd i ddimensiwn symbolaidd y gwrthrychau sy'n rhan o'r seilwaith hwnnw gan fyfyrio ar eu hystyr newidiol.

**Allweddeiriau:** Y Wladfa, Patagonia, dyfrhau, sefydliadau, y Gymraeg, llifogydd, argae, gwladoli, hunaniaeth, gwrthdaro.

## Water and Power in the Chubut Valley: challenges and conflicts around the establishment and management of an irrigation system

**Abstract:** The aim of this article is to construct the history of the irrigation system in the Lower Chubut Valley created by the Welsh settlers that arrived in Patagonia (Argentina) in 1865, and therefore complicate the relationship that existed between this infrastructure and the ever-changing sociopolitical framework. This will involve focusing on the institutions that the Welsh settlers themselves established and the conflicts that arose between them and the Argentine state, which took over the administration of irrigation in 1943. Emphasis will be given to the agency of water within the process that led to reinforcing and growing

[1] Hoffwn ddiolch yn arbennig i Walter Ariel Brooks am ei waith cyfieithu gofalus ac amyneddgar. Yn ogystal â'i feistrolaeth ar y Sbaeneg a'r Gymraeg, roedd ei wybodaeth fanwl am y cyd-destun hanesyddol y mae'r erthygl hon wedi ei fframio oddi mewn iddo yn fantais fawr wrth weithio tuag at fersiwn terfynol i'w gyhoeddi. Roedd yn bleser mawr gallu dibynnu ar y gefnogaeth hon.

Coleg Cymraeg Cenedlaethol
ISSN: 1741-4261
http://gwerddon.cymru

the irrigation infrastructure, and attention will also be given to the symbolic dimension of the objects that constitute this infrastructure, thereby enabling a reflection on their changing meanings.

**Key words:** colony, Patagonia, irrigation, establishments, the Welsh language, floods, dam, nationalisation, identity, conflict.

## Rhagarweiniad

Y Wladfa Gymreig ym Mhatagonia, fel y'i hadwaenir ledled y byd Cymraeg, yw'r unig le yn y byd yr ymfudodd y Cymry iddo lle y cedwir nid yn unig yr iaith ond hefyd rai o'r traddodiadau sy'n annwyl i hunaniaeth Gymreig, megis yr Eisteddfod a'r canu corawl. Ymhellach, mae llawer o'r mynegiannau diwylliannol hyn sy'n ymwneud â llenyddiaeth, cerddoriaeth a barddoniaeth yn dynodi'r 'ymsefydliad Cymreig' o fewn yr Ariannin ei hun. Hefyd, yng ngweithiau'r rhai sydd wedi astudio hanes yr ymsefydliad, mae'r hyn sy'n cylchdroi o amgylch yr iaith a'r ffordd y mae wedi cael ei atgynhyrchu wedi cael lle amlwg.[2] Yn fyr, gydag ychydig eithriadau, gellir synied am yr etifeddiaeth sy'n gysylltiedig â phresenoldeb y Cymry ym Mhatagonia i raddau helaeth iawn fel treftadaeth anghyffyrddadwy (*intangible heritage*) sy'n gysylltiedig â llenyddiaeth, barddoniaeth a cherddoriaeth. Gellir dweud bod hon yn nodwedd a ddaw o Gymru, lle'r oedd y Cymry yn hanesyddol wedi eu diraddio i swyddi lle prin y gallent arfer rheolaeth effeithiol dros yr economi a'r diriogaeth. Mae hyn yn egluro hefyd pam y mae agweddau diwylliannol sy'n fwy perfformiadol, neu rai nad ydynt yn gysylltiedig â diwylliant materol, h.y. gweithgareddau treftadaeth anghyffyrddadwy, wedi cael lle amlycach.

Yn wir, un o nodweddion eithriadol profiad y Cymry ym Mhatagonia oedd y posibilrwydd a gafodd y gwladfawyr o reoli'r peuoedd a waharddwyd iddynt yng Nghymru. Mae creu deddfau, sefydlu cyrff llywodraethol ar gyfer y weinyddiaeth leol a rheoli'r dulliau cynhyrchu yn rhai ohonynt. Ceid cydberthynas diriogaethol a materol benodol iawn rhwng pob un o'r rhain, a gellir rhagdybio, mewn gwirionedd, mai diolch i'r cyflawniadau hyn y torrodd yr iaith Gymraeg dir newydd, gan arwain hyd yn oed at greu termau newydd neu atgyfodi rhai a fodolai ynghynt.

Roedd cofnodion y Cyngor (corff llywodraethu a grëwyd gan y gwladfawyr), testun y cyfansoddiad (a gymeradwywyd gan yr un cyngor), y papurau pleidleisio ar gyfer safleoedd y rhai a oedd yn rhan ohono, a hefyd y teitlau eiddo cyntaf ar gyfer ffermydd Dyffryn Camwy wedi eu creu yn y Gymraeg ymhell cyn i ddogfennau cyfatebol gael eu llunio yn yr iaith honno yng Nghymru ei hun.

[2] Mae rhan sylweddol o'r papurau a gyflwynwyd ar hyd y blynyddoedd yn y cynadleddau rhyngwladol am y Cymry ym Mhatagonia (*Foro Internacional Galeses en la Patagonia*), a gynhaliwyd bob yn ail flwyddyn rhwng 2002 a 2018, yn brawf o'r pwysigrwydd hwnnw. Yn ogystal, gellir ystyried y gyfrol *150 Años de Y Wladfa* (150 Mlynedd o'r Wladfa) fel cyfeirnod. Gweler M. Gavirati ac F. Williams (goln) (2015), *150 Años de Y Wladfa*: *ensayos sobre la historia de la colonización galesa en la Patagonia*, Secretaría de Cultura de la Provincia del Chubut, Rawson.

Yn yr ystyr hwn, gellir dadlau bod goroesiad yr iaith a sefydliadau megis yr Eisteddfod nid yn unig yn ganlyniad i ymagwedd benderfynol o du'r gwladfawyr, neu'r mentrau a welwyd ym meysydd addysg, cystadlaethau barddonol neu'r wasg ysgrifenedig, ond hefyd yn ddibynnol ar y cyfle i reoli'r diriogaeth a'r modd o gynhyrchu. Gallem gynnig rhai dyddiadau damcaniaethol i gyfnodi'r rheolaeth hon; er enghraifft, y cyfnod sy'n ymestyn hyd at 1931, y flwyddyn yr aeth Cwmni Masnachol Camwy (CMC) – asgwrn cefn rheolaeth Gymreig – yn fethdalwr.[3] Cwmni â chymeriad pwysicach – a hyd yn oed mwy sylfaenol – na'r CMC oedd yr un a fu'n gyfrifol am adeiladu system ddyfrhau a fyddai'n caniatáu i amaethyddiaeth ddatblygu. Fel y cydnabu Lewis Jones, dyfrhau oedd 'yr allwedd aur sydd i agor dorau pob anhawsder' (L. Jones 1898: t. 158) a'r hyn a sicrhaodd barhad y Cymry yn Chubut. Mae Gavirati wedi dangos bod cynhaliaeth economaidd y gwladychwyr yn dibynnu mwy ar y cynnyrch a gyfnewidiwyd â'r llwythau brodorol lleol nag ar waith cynhyrchu amaethyddol ei hun, hyd nes i 'enigma dyfrhau' – fel y galwodd William Casnodyn Rhys ef ar y pryd[4] – drawsnewid y sefyllfa (Gavirati 2017: tt. 301–7).

## Amcanion a fframwaith damcaniaethol


Yn yr erthygl hon, rwy'n bwriadu canolbwyntio ar ffurfiant y system ddyfrhau hon, ond bwriadaf wneud mwy nag adolygu ei hadeiladwaith a'i gweinyddiaeth yn unig; diddordeb arall gennyf yw cysylltu trefniadaeth dyfrhau â datblygiad y sefydliadau a grëwyd gan y gwladfawyr, yn enwedig y rhai a fu am gyfnodau o amser yn cadw'r dyhead am ryw fath o ymreolaeth Gymreig yn fyw.

Ceir eisoes draddodiad helaeth o astudiaethau sy'n cysylltu ffurfiant gwladwriaethau a strwythurau llywodraeth â systemateiddio a rheoli gweinyddiaeth ddyfrhau y gellir ei olrhain i waith cyfeiriol Wittfogel ar ddesbotiaeth ddwyreiniol (Wittfogel 1957). Cydnabuwyd bod modd defnyddio a rheoli dŵr trwy seilweithiau penodol 'to wield power and to enact hegemonic and counter hegemonic strategies' (Menga a Swyngedouw 2018: t. 2), ond cwestiynir y benderfyniaeth amgylcheddol sy'n deillio o rai o ddadleuon Wittfogel. Mae ymchwilwyr diweddar felly wedi argymell persbectif hydrogymdeithasol (Swyngedouw 2009) lle nad yw'r cysylltiad rhwng perthnasedd amgylcheddau a seilweithiau afonol ar y naill law, a gweithrediad ac ystyr strwythurau cymdeithasol-wleidyddol ar y llaw arall, yn llinol ond yn hytrach yn gylchol, a dyna pam y maent yn dylanwadu ar ei gilydd ac yn cael eu diweddaru'n gyson.

---

[3] Roedd yr CMC yn cefnogi *Y Drafod* yn ariannol am amser hir, a rhoddai ysgoloriaethau i fyfyrwyr i barhau â'u hastudiaethau uwchradd yn Ysgol Ganolraddol y Gaiman, y sefydliad addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg cyntaf a sefydlwyd gan Eluned Morgan.

[4] Defnyddiodd W. Casnodyn Rhys ffigur y sffincs i gynrychioli nid yn unig yr anialwch ond hefyd y bygythiad yr oedd y diffeithwch yn ei greu i fodolaeth y Wladfa. Dim ond ar ôl i'r system ddyfrhau ddod yn weithredol yr ystyriodd Casnodyn Rhys nad oedd y sffincs yn berygl mwyach (Casnodyn Rhys 2000: t. 110). Treuliodd W. Casnodyn Rhys y cyfnod rhwng 1879 a 1893 yn byw yn Nyffryn Camwy ac ysgrifennodd ei atgofion o'i gyfnod yno wedi iddo ddychwelyd i Gymru ym 1900 (er na chyhoeddwyd y rheini yn ystod ei fywyd).




Ffigur 1: Lleoliad cymharol Dyffryn Camwy (neu Ddyffryn Chubut) ym Mhatagonia, yn ymestyn rhwng arfordir yr Iwerydd a man y culhau a alwyd yn Greigiau Coch gan y Cymry.

Mae'r persbectif hydrogymdeithasol hwn yn gofyn am roi terfyn ar y darnio traddodiadol sy'n deillio o'r segmentu rhwng gwahanol ddisgyblaethau (ibid.: t. 56). Mae'r rhai sy'n astudio'r cylch hydrogymdeithasol yn cynnig 'a strong sense of process and complexity, exploring politics, ideology, and water control in more amalgamated and multi-directional ways' (Banister 2014: t. 206). Fel canolbwynt i'r pryderon economaidd ac amgylcheddol mwyaf enbyd, mae dŵr yn wrthrych sy'n cael ei herio ac sy'n destun dadl (Krause a Strang 2016: t. 633). Am y rheswm hwn, mae rheoli dŵr yn ei gwneud yn bosibl cael amrywiaeth o actorion y mae eu cysylltiadau â'i gilydd bob amser yn gynnyrch gwrthdaro sydd, yn ei dro, yn datgelu gwahanol weledigaethau, ideolegau, diddordebau a gwybodaeth sy'n pennu sut y dylid defnyddio dŵr a hefyd sut y rhoddir ystyr iddo.[5]

Bwriad yr erthygl hon yw ail-greu senario ar gyfer Dyffryn Camwy lle y gellir adnabod yr actorion hyn a'u gweledigaethau a'u gwybodaeth.[6] Ar hyn o bryd, mae gwybodaeth leyg

[5] Mewn gwaith blaenorol, rwyf wedi astudio'r berthynas rhwng y trawsnewidiadau yn nhiriogaeth y Dyffryn a chynrychioliadau o dirwedd mewn llenyddiaeth a ysgrifennwyd gan y gwladfawyr (F. Williams 2010).

[6] Yn y lle cyntaf, rhaid cydnabod persbectif o afon Camwy (Chupat yn wreiddiol) a anwybyddwyd am gyfnod hir, sef eiddo'r brodorion a ymwelai o bryd i'w gilydd – yn enwedig yn y gaeaf – â dyffryn isaf afon Camwy. Yn ôl Gavirati, ffin rhwng y Tehuelches a'r Pampas oedd afon Camwy, ac roedd yn fan cyfarfod hefyd i'r ddau lwyth (Gavirati 2017: t. 165). Er nad oes astudiaethau penodol ar berthynas llwythau'r rhanbarth â Dyffryn Camwy, mae ymchwilwyr presennol wedi taflu goleuni ar y berthynas a sefydlodd grwpiau fel y Mapuche ag afonydd eraill y rhanbarth. Yn groes i'r cysyniad o ddŵr wedi ei gysegru fel 'adnodd', mae'r cymunedau a astudiwyd yn gweld cyrff dŵr 'as a living entity or subject to whom they are related', gan roi 'rights that ought to be respected' iddynt. Yn yr afonydd, '[Mapuche communities] recognize agency in a world that is only partially controlled by human action' (Aigo et al. 2020: t. 8).


(*lay knowledge*) wedi ei chydnabod fel ffactor allweddol ar gyfer ailystyried y ffyrdd y mae risgiau cymdeithasol-amgylcheddol nid yn unig yn cael eu canfod ond hefyd yn cael eu rheoli (McEwen et al. 2017). Mae'r sylw hwn i gymunedau lleol yn ein gwahodd i adolygu'r wybodaeth a gasglwyd ganddynt hefyd yn y gorffennol ac i'w gwahaniaethu oddi wrth yr wybodaeth arbenigol a gwyddonol a roddwyd ar waith gan gyrff technegol y wladwriaeth.[7] Mae achos Dyffryn Camwy o ddiddordeb fel maes ymholi i'r berthynas rhwng y prosesau tiriogaethol a'r gwahanol systemau llywodraethu dŵr. Dechreuais astudio'r testun hwn drwy ddadlau y dylai'r cysyniad o dirwedd gynnwys rheolaeth (*management*) y diriogaeth fel dimensiwn. Yn yr achos hwn, mae'r sefydliadau a ffurfiwyd gan y Cymry wedi cyfrannu'n sylweddol at reoli'r dirwedd, sy'n ein cymell i roi sylw i reolau ysgrifenedig a chyfresi eraill o wybodaeth a luniwyd gan y sefydliadau hyn wrth lywodraethu rheolaeth (F. Williams 2011).

Yn olaf, mae gennyf ddiddordeb mewn cwestiynu galluedd unigryw y gwladfawyr Cymreig yn y broses unochrog hon sy'n deillio o'r gred mai'r ymfudwyr Ewropeaidd, ar eu pen eu hunain, oedd asiantiaid gwareiddiad, fel y rhagdybiwyd eisoes ym mholisïau llywodraeth yr Ariannin ac fel yr oedd yn amlwg yn y disgwrs a feithrinwyd gan y llywodraeth honno a'r gwladfawyr eu hunain. Gan fod y persbectif hydrogymdeithasol yn seiliedig ar y dybiaeth bod tra-arglwyddiaeth wleidyddol a rheoli dŵr yn rhan o glymiad (*entanglement*) rhwng gofodau, pobl, syniadau, arferion a phethau (Banister 2014: t. 213) lle y mae galluedd yn cael ei gydgynhyrchu trwy ddull cymdeithasol-gorfforol cymhleth, byddai defnyddio'r persbectif hwn yn caniatáu adnabyddiaeth o actorion newydd, nid yn unig yn gymdeithasol ond hefyd yn gorfforol, megis afon Camwy ei hun. Yn y modd hwn, mae dyfrhau yn gyfle i archwilio i ba raddau y mae hanes Dyffryn Camwy yn un hydrogymdeithasol, '[where] water and society make and remake each other over space and time' (Linton a Budds 2014: t. 179).

## Arolygu'r diriogaeth, peirianneg gymdeithasol ac atgyfnerthu'r rhwydwaith

Yn wyneb patrwm glawiad a oedd prin yn cyrraedd 200mm (7.8 modfedd) y flwyddyn, sy'n swm annigonol i gynnal y rhan fwyaf o gnydau, bu'n rhaid i'r gwladfawyr cyntaf ailddiffinio'r cysyniad o amaethyddiaeth fel yr oeddynt yn ei adnabod yn eu gwlad enedigol. Roedd Lewis Jones yn glir ynghylch hyn: yr oedd y gelfyddyd amaethyddol leol yn hollol wahanol i'r famwlad, a'r gwahaniaeth hwnnw'n ymwneud â dyfrhau (L. Jones 1898: t. 167) (gweler Ffigur 2). Drwy ddyfrhau, datblygwyd nid yn unig amaethyddiaeth amrywiol, ond setlwyd hefyd boblogaeth o ddwysedd arbennig wedi ei dosbarthu'n gyfartal ar draws y Dyffryn i gyd, yn Fro Gymraeg go iawn gyda'i thai cefn gwlad a'i chapeli.

[7] Gan gyfeirio at Deleuze a Guattari (1987), mae rhai awduron wedi gwahaniaethu rhwng gwybodaeth 'minor' – lleoledig, gwasgaredig a gwrth-hegemonig – a gwybodaeth 'royal' – cyffredinol, canoledig a hegemonig (Banister 2014: t. 206).



Ffigur 2: E. J. Jones, Dyfrffosydd uchel yn Nyffryn Camwy, c. 1920. Ffynhonnell: Museo Histórico Regional de Gaiman (Amgueddfa Hanes Ranbarthol y Gaiman).

Yn yr hanes hwn am brofi a methu, rhaid cydnabod nid yn unig ddycnwch ac arbenigedd technegol cymharol y gwladfawyr, ond hefyd y ffordd yr oedd yr afon yn ymddwyn a sut yr oedd hyn yn newid strategaethau'r gwladfawyr. Rywsut, gorlifiad afon Camwy fu'r arwydd cyntaf a gafodd y gwladfawyr o'r posibilrwydd o ddyfrhau. Dyna pam mai ardaloedd amaethu y blynyddoedd cyntaf fu'r rhai o fewn 'trofeydd' (*meanders*) cwrs afon y deuid i'w galw'n 'Camwy' o'r herwydd, ardaloedd a oedd yn fwy tebygol o weld gorlifo neu ddyfrhau, ger Trerawson (gweler Ffigurau 3 a 4).[8] Yn ystod y blynyddoedd cyntaf hyn, nid ymsefydlodd yr holl wladfawyr yn y ffermydd a roddwyd iddynt, ac arhosodd llawer ohonynt yn Nhrerawson, tref y symudent ohoni i rai o'r ffermydd a'r trofeydd a grybwyllwyd i weithio'r tir.[9] Yn wir, rhwng 1872 a 1874, gweithredodd Cyngor y Wladfa system o brydlesu'r tir o dair trofa wahanol.

Er iddo fod yn destun dadlau,[10] mae'r syniad bod dyfrhau wedi ei ddefnyddio am y tro cyntaf gan Aaron Jenkins wedi dod i'r amlwg eto'n ddiweddar. Gan gwestiynu cywirdeb y


[8] Galwodd y Cymry y troadau hyn yn 'drofeydd', a ddynodai nid yn unig yr afon ond hefyd y darnau o dir a amgaewyd gan y trofeydd hyn. Adlewyrchir y gair 'trofa' hyd heddiw yn nhoponymeg y Dyffryn mewn enwau fel Drofa Dulog, Drofa Gabets, Drofa Gul a Drofa Gwen Ellis (gweler trafodaeth bellach gan Evans 2015: t. 185). O ystyried ei berthnasedd hanesyddol, defnyddir y term hwn ar gyfer gweddill yr erthygl hon.

[9] Ffactor arall o bwys yn ystod y ddwy flynedd gyntaf oedd y pryder ynghylch ymosodiadau gan y brodorion: y tiroedd y dechreuwyd eu gweithio oedd y rhai a oedd agosaf at Drerawson, yr unig ganolfan a boblogwyd ar y pryd.

[10] Ar yr adeg honno, roedd MacDonald wedi dadlau mai darganfyddiad gwirioneddol Jenkins oedd y sylweddoliad nad y tir yn y trofeydd yn unig yr oedd modd ei ddyfrhau, ond hefyd y pridd du a ffurfiai rannau helaeth o lawr y Dyffryn. Agorodd hyn y posibilrwydd fod eraill cyn Jenkins wedi rhoi tro ar ddyfrhau am y tro cyntaf (MacDonald 2004: t. 47).




Ffigur 3: Trawslun o fap Dyffryn Camwy gan Tomás Dodds (1876), yn dangos rhai o'r 'trofeydd' i'r gorllewin o Drerawson. Ffynhonnell: Archif MHRG, y Gaiman, Chubut.




Ffigur 4: Ffermydd a feddiannwyd cyn adeiladu system ddyfrhau, fel y'u cofnodwyd ym 1876 gan Tomás Dodds.

manylion a ddarparwyd gan Abraham Matthews (1894: 48) ac yn seiliedig ar ailddarlleniad o nifer o ddogfennau a ysgrifennwyd gan Richard Jones Berwyn – ysgrifennydd y Wladfa yn ystod y blynyddoedd cynnar – mae Fabio Trevor González wedi dadlau i Jenkins roi prawf ar ddyfrhau am y tro cyntaf ar lain o wenith yn ystod gwanwyn 1866, tua'r un amser ag yr oedd gwladfäwr arall, John Jones, wedi rhoi cynnig ar yr un weithred ar lain arall (González 2016: tt. 99–105). Yn wyneb y posibilrwydd o adael Patagonia ym 1867, y treialon cymharol lwyddiannus hyn a ganiataodd i'r gwladfawyr ystyried mentro'u lwc eto ac ailblannu tiroedd y Dyffryn. Mae González felly yn cadarnhau sail stori bellgyrhaeddol ym Mhatagonia, un a barodd i Aaron Jenkins gael ei gysegru fel darganfyddwr dyfrhau, er mai Rachel Evans ei wraig oedd yr un a awgrymodd hynny gyntaf iddo (ibid.: t. 104).

Gwelwn, yn fyr, sut nad oedd yn ymarferol i'r gwladfawyr gael eu lleoli mewn ffermydd priodol, yn unol â'r cynllun grid yr amlinellwyd ei fersiwn cyntaf gan y syrfëwr Díaz ym 1865, nes bod system ddyfrhau yn caniatáu i ddŵr gael ei gludo i bob un o'r ffermydd hynny. Yn ôl Lewis Jones, dim ond ym 1871 y 'deallwyd y byddai raid cael Camlesi cyffredinol, digon o vaint a digon isel yn eu geneuau i gyvlenwi galwad dyvriol ar ddwy ochr yr avon ar adegau iselav y tymor' (L. Jones 1898: t. 96).

Fodd bynnag, bu oedi yn y broses o isrannu a dosbarthu'r tir, yn enwedig i'r rhai a gyraeddasai ar ôl y 1860au, a chymhlethodd y gwrthdaro hwn y broses o feddiannu'r Dyffryn. Mae Abraham Matthews yn nodi bod nifer da o'r gwladfawyr wedi ymgartrefu ar eu ffermydd erbyn mis Mawrth 1876 (Matthews 1894: t. 87). Fodd bynnag, yn ddiweddarach, mae'n nodi mai dim ond ym 1881 y preswyliwyd y rhan fwyaf o ffermydd mesuredig y Dyffryn (ibid.: 91). Mae hyn yn cyfateb i'r pum mlynedd drafferthus pan weithredodd y Comisiwn Tiroedd a phan gafodd y ddeddfwriaeth ei haddasu mewn proses a ddechreuodd gydag arolwg 1876. Ar yr un pryd, roedd hwn yn gyfnod o frwydro dros lywodraeth leol neu, mewn geiriau eraill, dros gydnabod cyfreithlondeb y Cyngor o fewn deddfwriaeth yr Ariannin. Yng nghysgod y gwrthdrawiadau hyn yn ogystal ag ansicrwydd cyffredinol y dechreuwyd adeiladu'r rhwydwaith o gamlesi a gyflymodd feddiannaeth y Dyffryn o gyfeiriad y dwyrain tua'r gorllewin.

Fel a ddigwyddodd ym maes deddfwriaeth, roedd yn rhaid mynd drwy broses hir a garw o arbrofi ym maes dyfrhau. Er bod y cynlluniau i adeiladu prif gamlas (Ffos Fawr) yn dyddio'n ôl i 1872, sef y flwyddyn yr oedd y Cyngor yn ymdrin â'r fenter hon,[11] dim ond ar ddechrau'r degawd dilynol y dechreuwyd adeiladu'r camlesi dyfrhau mawr. Roedd y profiadau cyntaf wedi cynnwys adeiladu cyfres o ffosydd yn ardal y trofeydd a grybwyllwyd uchod, ac roedd eu defnydd wedi ei gyfyngu gan y cynnydd yn lefel y dŵr a'r gorlif canlynol. Ond roedd y 'ffrydlifoedd' (Sb. *avenidas*) hyn (a olygai godiadau yn lefel yr afon) nid yn unig yn ysbeidiol, ond hefyd yn lleihau'n sylweddol tua diwedd y gwanwyn, pan oedd eu hangen fwyaf i ddyfrhau cnydau. Daeth yn amlwg fod yn rhaid codi lefel yr afon yn artiffisial, syniad a arweiniodd at adeiladu argaeau. Byddai cronni'r afon yn codi lefel y dŵr

[11] Yn ystod sesiynau mis Mawrth 1872, penderfynodd y Cyngor nad oedd yr amgylchiadau yn ffafriol ar gyfer dechrau'r gwaith. Gweler *Y Drafod,* 7 Hydref 1904.

ac yn cyflenwi mewnfa (*intake*), h.y. dyfais tynnu dŵr, yn union i fyny'r afon. Arbrofwyd gyda'r syniad hwn o leiaf deirgwaith, gan ddefnyddio pren ond, yn bennaf, gerrig a dynnwyd o frigiadau creigiog y bryniau cyfagos.

Cynlluniwyd y ddau argae olaf gan ddau fugail Protestannaidd – y cyntaf ym 1876 gan David Lloyd Jones a'r ail ym 1882 gan John Caerenig Evans. Trefnwyd yr olaf yn well oherwydd i gwmni cydweithredol gael ei ffurfio i'w adeiladu; defnyddiwyd llawer iawn o gerrig ac fe'i hadeiladwyd mewn siâp cromennog (L. Jones 1898: tt. 157–8). Fodd bynnag, fel y rhai blaenorol, dymchwelwyd ef cyn iddo gael ei gwblhau. Y flwyddyn honno, ni chododd lefel yr afon ddigon i lenwi'r camlesi elfennol a chollwyd bron y cynhaeaf i gyd.

Yn wyneb yr angen i weithredu datrysiad arall, comisiynwyd Edward Jones Williams, dyn ifanc a oedd newydd gyrraedd y Wladfa, i arwain prosiect i ddylunio camlas ddyfrhau ar ochr ogleddol y dyffryn uchaf. Roedd E. J. Williams wedi cwblhau ei hyfforddiant fel peiriannydd mwyngloddio a thirfesurydd ym 1878, ac yr oedd ganddo wybodaeth ddigonol i ymateb i'r cais.

Newydd-deb prosiect E. J. Williams oedd bwrw o'r neilltu y syniad o adeiladu argae a lleoli mewnfa'r gamlas mor bell i fyny'r afon â phosibl er mwyn manteisio ar lethr naturiol y tir.[12] Roedd y datrysiad hwn yn gam mawr ymlaen yn hanes dyfrhau yn y Dyffryn, ac mae'n esbonio pam, cyn gynted ag y byddai'r gamlas fawr gyntaf hon wedi ei chwblhau, y gofynnwyd i E. J. Williams arwain prosiect ar gyfer ail gamlas ar ochr ddeheuol y Dyffryn a ddechreuwyd ym 1883. Cafodd effeithlonrwydd y camlesi newydd effaith ar economi'r Wladfa'n fuan iawn. Felly, rhwng 1875 a 1883, cynyddodd yr arwynebedd a blannwyd o 865 i 3,210 hectar (Coronato et al. 2006: t. 179) a chynyddodd cynhyrchiant gwenith o 1,800 tunnell ym 1880 i 6,000 tunnell ym 1885 (Glyn Williams 1975: tt. 65–6). Yn rhinwedd y canlyniadau hyn, nid yw'n syndod i E. J. Williams ddod yn un o'r cymeriadau uchaf ei barch o fewn y Wladfa a'i fod wedi dal swyddi cyhoeddus gwahanol yn ddiweddarach.[13] Gan ddisgrifio'r camlesi fel 'llinynau arian ar hyd y dyffryn', bu i Lewis Jones gymharu E. J. Williams â Hywel Dda, brenin a roddodd drefn ar gyfreithiau Cymreig cyntefig yn yr Oesoedd Canol (L. Jones 1898: t. 165), cymhariaeth sydd, rywfodd, yn cefnogi damcaniaeth Wittfogel a grybwyllwyd uchod a gysylltodd ddyfrhau, deddfwriaeth a chymdeithas yn agos iawn.

---

[12] Yn lle codi lefel yr afon yng nghanol y Dyffryn – lle'r oedd ffermydd ar y ddwy lan – fel y gwnaed hyd hynny, cynigiodd E. J. Williams wneud hynny ym mhen gorllewinol y Dyffryn lle nad oedd lle i ffermydd mwyach. Roedd y lle hwn, a alwyd yn ddiweddarach yn 'Ceg y Ffos' (y tu hwnt i Dir Halen), wedi ei leoli fwy na 50 cilomedr i fyny'r afon o Drerawson ac, o ystyried ei fod yn uwch, roedd yn fwy cyfleus o ran sicrhau llif parhaus o ddŵr yn y camlesi. Defnyddiwyd y fewnfa honno ar gyfer y brif gamlas ar y lan ddeheuol ac ar gyfer camlas y gogledd a oedd yn gorchuddio rhan orllewinol y Dyffryn. Roedd cangen arall o'r camlesi, sef y gangen ogleddol ar ochr ddwyreiniol Dyffryn Camwy, wedi cadw mewnfa ar wahân i'r brif fewnfa ychydig fetrau i'r dwyrain o'r Gaiman.

[13] Er ei fod yn bersonoliaeth adnabyddus yn ystod ei oes, gwybodaeth gymharol brin sydd gennym am Williams Mostyn a pheirianwyr Cymreig eraill megis Llwyd ap Iwan ac Edward Owen. Mae'r rhai sydd wedi ysgrifennu hanes y Wladfa wedi esgeuluso'r unigolion allweddol hyn ym maes technoleg drwy eu cynnwys mewn hanesion am gyflawniadau torfol (F. Williams 2011: tt. 75–7).

Os oedd rhwydwaith y prif gamlesi wedi cyrraedd mwy na 90 milltir o hyd erbyn canol yr 1880au, roedd hyn oherwydd rhai datblygiadau technegol megis y farchraw (*horse-shovel*), ond yn bennaf oherwydd bod llawer o lafur ar gael. Yn ystod y blynyddoedd cyn adeiladu'r camlesi mawr a ddyluniwyd gan E. J. Williams, roedd y llif o fewnfudwyr o Gymru, a ddenwyd gan y posibilrwydd o ddod yn dirfeddianwyr, wedi cynyddu'n sylweddol.[14] Mae hyn yn egluro, ar y naill law, y pryder ynghylch dosbarthiad y tir ar ôl i Dodds orffen ei arolwg ym 1876. Ar y llaw arall, yn wyneb ansicrwydd ynghylch perchnogaeth y tir, roedd egni llawer o'r newydd-ddyfodiaid yn cael ei sianelu tuag at adeiladu gwahanol weithfeydd a oedd yn gysylltiedig â dyfrhau: yr argaeau a dyfnhau'r camlesi ar y dechrau, ac yna gamlesi mawr oes E. J. Williams.

Gellir dweud felly i'r camlesi gael eu hadeiladu yng nghysgod y tensiynau a gododd ynghylch perchnogaeth y tir ac, yn rhannol, dros y cwestiwn o ymreolaeth leol hefyd. Cyflawnwyd y gwaith adeiladu yn gwbl hunanreoledig a heb ymyrraeth y Wladwriaeth Archentaidd. Am y rheswm hwn, mae'r camlesi o ddiddordeb nid yn unig fel campwaith technegol ond hefyd fel mynegiant o'r beirianneg gydweithredol a wnaeth eu hadeiladu yn bosibl. Mae Abraham Matthews yn esbonio'r dull cynulleidfaol a ddefnyddiwyd i ffurfio camlas, a arweiniai at ffurfio cwmni lle yr ystyriwyd gwaith fel cyfalaf. Gan fod y cyfrannau'n cynrychioli gallu pob cyfranddaliwr i gymryd rhan yn y gwaith adeiladu, roedd y cyfrifiadau o gyfaint y ddaear i'w dynnu a wnaed gan E. J. Williams yn bwysig: roedd gan hyn berthynas uniongyrchol nid yn unig â rhaglennu'r gwaith ond hefyd â dosbarthu'r cyfranddaliadau.[15]


Yn y broses o adeiladu'r camlesi, nid yn unig yr oedd y Wladwriaeth yn absennol, ond nid oedd awdurdod canolog i ofalu am yr holl waith chwaith. Yn wir, gwnaed y gwaith adeiladu gan y 'cwmnïau dyfrhaol', fel y'u gelwir, mewn modd digon anghydlynus, yn ddibynnol ar ragdybiaethau cwmnïau dyfrhau unigol ynghylch yr hyn a fyddai orau ar gyfer diwallu eu hanghenion dyfrhau lleol.

Rhaid cofio dau fater i ddeall y broses hon. Y cyntaf yw bodolaeth maen prawf lleol a chymdogaethol yn ffurfiant y cwmnïau dyfrhau hyn, yn enwedig cyn i'r system gael ei chyfundrefnu gan E. J. Williams ar gyfer y Dyffryn cyfan. Yn yr ystyr hwn, gellir cymharu'r camlesi cyntaf â'r capeli cyntaf, lle'r oedd agosrwydd yn bwysicach nag enwad wrth ffurfio'r gynulleidfa (gweler Ffigur 5). Roedd y cymdeithasoldeb a feithrinwyd o amgylch y camlesi a'r capeli yn gymorth wrth ddiffinio maint y gymdogaeth o fewn y dyffryn cul ond hir hwn.

Mae'r ail fater yn ymwneud â'r capeli hefyd. Ond nid yw'r berthynas â hwy'n gysylltiedig â safle cymdogaethol eu lleoliad ond yn hytrach â'r modd y cawsant eu creu a'u gweithredu. Rywsut, gellir olrhain ffurfiant cymdeithasau dyfrhau drwy ddeinameg gyfranogol y

[14] Rhwng 1874 a 1876, daeth y don gyntaf o fewnfudwyr ar ôl carfan y *Mimosa* â mwy na 500 o Gymry i Batagonia. Cyrhaeddodd 200 ychwanegol rhwng 1880 a 1881 (Glyn Williams 1975: tt. 69–77).

[15] Yn ôl Abraham Matthews, 'byddem yn galw cyfarfod cyhoeddus o'r holl dyddynwyr a fyddai yn debyg o fuddio oddiwrth y gamlas a amcenid ei hagor yna pasio i ffurfio cwmni cyfyngedig, pendodi y sawd a'r rhaneion. Yna byddai pob un i gymeryd o raneion yn y gamlas yn ôl ei allu i weithio canys mewn gwaith yr oedd yn rhaid i bob un dalu ei raneion, ac nid mewn arian' (Matthews 1894: t. 95).




Ffigur 5: Dosraniad y capeli Cymreig yn Nyffryn Camwy pan adeiladwyd y prif gamlesi, c. 1885. Ffynhonnell: F. Williams 2011: t. 113.

cynulleidfaoedd crefyddol. Yr hyn sy'n bwysig yn y gymhariaeth hon yw hunanreolaeth nodweddiadol y cynulleidfaoedd Anghydffurfiol, absenoldeb strwythur hierarchaidd yn y rhan fwyaf o enwadau a hunanganfyddiad y gynulleidfa fel cymuned sydd wedi ei hintegreiddio ac yn gaeedig i'r tu allan.[16]

Cyfrannodd y gwaith systemateiddio a wnaeth E. J. Williams yn gyntaf, ac yn ddiweddarach y modd yr unwyd yr holl gwmnïau yn un endid, tuag at ddiddymu'r patrwm darniog a nodweddai'r gwaith o adeiladu'r camlesi. Yr unig ddiffiniad daearyddol a barhaodd i fodoli oedd y gwahaniaeth rhwng y glannau deheuol a gogleddol, a'r gwahaniaeth rhwng y dyffryn uchaf a'r dyffryn isaf. Yn rhinwedd y gwahaniaethau hyn, cyfunwyd strwythur o dair cangen.[17]


Nid y graddiant o gyfeiriad y gorllewin tua'r dwyrain yn unig a effeithiai ar y llif trwy'r camlesi. Roedd llawr y Dyffryn yn amlwg yn afreolaidd oherwydd safle uwch yr ardaloedd ger y bryniau ar ochrau'r Dyffryn ac argloddiau (*levees*) glannau'r afon,[18] a hefyd oherwydd yr olion dwfn a adawyd dros y canrifoedd gan baleosianeli afon Camwy (gweler Ffigur 6). Yn wir, dwysaodd E. J. Williams y maen prawf topograffaidd hwn trwy fanteisio ar yr hen gamlesi hynny, adnodd yr oedd eisoes wedi ei ddefnyddio ym 1882 fel ffordd o optimeiddio cwrs camlas y gogledd (E. J. Williams 1902: t. 6).

Y canlyniad fu ffurfio rhwydwaith o gamlesi yr oedd eu cynllun yn droellog ar y cyfan ac nad oeddynt wedi eu halinio fel rheol â chynllun rheolaidd israniadau'r ffermydd. Dyma sy'n ein galluogi i weld y map o'r Dyffryn a lofnodwyd gan y comisiynydd Finoqueto ym 1886; ynddo trosodd y camlesi a ffiniau ffermydd y Dyffryn yn system lle'r oedd segmentau cromliniol hir yn croestorri ar sawl pwynt â'r grid unionlin (*rectilinear grid*) (gweler Ffigur 7).


[16] Rhaid nodi hefyd fod llinynnau cyswllt amlwg rhwng y capeli a sefydliadau eraill a ffurfiwyd gan y Cymry, gan gynnwys y cymdeithasau dyfrhau. Mae Glyn Williams (1991: t. 147) yn tanlinellu bod diaconiaid y capeli â siawns well i gael eu hethol fel cynrychiolwyr neu gynghorwyr yn y sefydliadau hyn.

[17] Dwy ar y lan ogleddol ac un ar y lan ddeheuol: mae David Lloyd Jones yn galw'r rhai ar y lan ogleddol yn 1 a 3 a'r un ar y lan ddeheuol yn 2. Ond fe'u galwyd gan yr CDC yn ganghennau A, B ac C.

[18] Roedd argloddiau uchel yr afon yn ffurfiad naturiol ond, dros y blynyddoedd, oherwydd adeiladu amddiffynfeydd rhag llifogydd, codwyd yr argloddiau hyn mewn modd mwy artiffisial.





Ffigur 6: Topograffeg fewnol Dyffryn Camwy mewn croestoriad a wnaethpwyd gan David Lloyd Jones fel rhan o'i brosiect i ad-drefnu'r rhwydwaith dyfrhau. Ffynhonnell: David Lloyd Jones (1907), Cwmni Dyfrhaol y Camwy, Museo Histórico Regional de Gaiman (Amgueddfa Hanes Ranbarthol y Gaiman).




Ffigur 7: *Plano Oficial de la Colonia Chubut* (Llawrgynllun Swyddogol Gwladfa Chubut), c. 1886. Ffynhonnell: Museo Histórico Regional de Gaiman (Amgueddfa Hanes Ranbarthol y Gaiman).

Cynhyrchodd y gwahanol resymegau amlhaenog hyn dros feddiannu'r diriogaeth – un yn dopograffig, a'r llall yn dopolegol – banorama cymhleth a oedd yn cynrychioli her amlwg i'r rhai a oedd yn wynebu'r dasg o weinyddu'r Wladfa. Mewn deiseb a gyflwynwyd i lywodraeth yr Ariannin ym 1883, anogodd David Lloyd Jones awdurdodau Buenos Aires i ddeall y cymhlethdod hwn, er mwyn cyfiawnhau'r angen am lywodraeth leol yno. Yn ogystal â chwestiynu natur haniaethol y cynllun a oedd yn pennu ffiniau ffermydd a hefyd ffyrdd, pwysleisiodd Lloyd Jones faint y rhwydwaith a oedd erbyn 1883 wedi ychwanegu '89 milldir o briv gamlesi a 100 milldir o ganghennau' (L. Jones 1898: t. 140) (gweler Ffigur 8). Wrth wneud hynny, tynnodd sylw at yr anghyfleustra a achoswyd gan groestoriad y system hon â'r grid isrannu, gan dynnu sylw at y ffaith bod y ffyrdd yn croesi'r camlesi i bob cyfeiriad, a oedd yn ei gwneud yn angenrheidiol i adeiladu pontydd a llifddorau (ibid.: t. 141). Tua diwedd y testun, cysylltodd y broblem diriogaethol â mater ymreolaeth leol a chododd hefyd yr angen

i'r cyngor lleol dderbyn incwm i ganiatáu iddo gynnal y system hon a oedd yn '[p]eri costau a govalon lawer'.[19]




Ffigur 8: Grid isrannu'r ffermydd a'r prif gamlesi dyfrhau fel y maent yn ymddangos ar fap o 1886 (Ffigur 7). Ychwanegwyd hefyd enwau'r trefi, y prif ardaloedd gwledig o fewn y Dyffryn a rhai pwyntiau cyfeirio pwysig megis Ceg y Ffos, lle y lleolwyd prif lif y camlesi.

Yn fyr, gwelwn fod honiad Lloyd Jones fod problemau'r ymsefydliad yn gwbl leol – un y mae'r hawl i hunanlywodraeth yn ddibynnol arno – yn seiliedig ar strwythur penodol o drefniadaeth ofodol y diriogaeth a oedd yn gysylltiedig â'r ffordd yr oedd y gwladfawyr wedi dysgu sut i ddelio â dŵr, gan ei droi'n adnodd ar gyfer datblygiad amaethyddol. Mewn geiriau eraill, gellir cysylltu'n annatod benodoldeb y dyffryn a ffurfiwyd gan ddyfrhau â dilysrwydd yr hawliad am ei lywodraethu. Yng Nghyngor Bwrdeistrefol Chubut (Consejo Municipal del Chubut; Cyngor Bwrdeistrefol y Gaiman yn ddiweddarach), a ddyheai am reoli'r dyffryn cyfan, yr oedd ymwybyddiaeth lawn o'r penodoldeb hwnnw ac, ym 1886, y ddeddf leol gyntaf a gyhoeddwyd fu'r un a oedd yn rheoli'r croestoriad problematig hwn rhwng y camlesi dyfrhau a ffiniau ffermydd a ffyrdd (F. Williams 2014: t. 108).

Gellir dweud, felly, fod gan yr honiadau hyn sylfaen diriogaethol a oedd yn gysylltiedig â phroblemau penodol iawn; nid dim ond mynegiant o 'hunaniaeth' dorfol y gwladfawyr a oedd yn ymwneud yn uniongyrchol â phrosiectau annibyniaeth neu agweddau megis iaith a chrefydd – fel a gymerir yn ganiataol yn aml – oeddynt. O ganlyniad, gellir deall yr angen i angori'r dadansoddiad diwylliannol i'r amodau materol y sefydlir yr anghydfodau ynddynt, sydd yn yr achos hwn yn cynnwys amodau'r diriogaeth, gyda'r rhai hydrolegol yn amlwg yn eu plith. Hyd yn oed pan oedd gwybodaeth wyddonol-dechnegol yn brin iawn ymhlith mwyafrif helaeth y gwladfawyr Cymreig, fe wnaeth afon Camwy, trwy broses o brawf a

[19] Dywedai David Lloyd Jones yn y llythyr hwnnw: 'Gwelir velly, wrth vod y fermi yn croesi'r avon, a'r camlesi yn croesi'r fermi, a'r ffyrdd yn croesi'r camlesi – yr arweiniau [*sic.*] peth vel hyn i benbleth lwyr. Ceisio dangos yr wyf drwy hyn vod rheolaeth leol yn rheidrwydd. Nis gall vod cangymeriad mwy na gomedd i'r Wladfa ei hawdurdodau lleol: byddai yn rhwym o ddwyn y swyddwyr cenedlaethol i warth – nid am na byddant yn cyvlawni eu swyddi yn ddigon cydwybodol, ond am nas gallent wneud hynny yn deallus heb y proviad lleol' (yn L. Jones 1898: t. 141).

chamgymeriad, orfodi'r gwladfawyr i adeiladu corff o wybodaeth leyg empirig newydd y byddai wedi bod yn amhosibl datblygu amaethyddiaeth hebddi.[20]

Roedd yn rhaid i'r wybodaeth honno ymgorffori hynodion cyfundrefn ddŵr a oedd yn cynnwys gorlifoedd a llifogydd â phŵer dinistriol mawr, a sychder maes o law hefyd. Yn ystod gaeaf 1899, achosodd sawl wythnos o law i lefel yr afon godi a gorlifo, gan beri'r llifogydd mwyaf dinistriol ers i'r gwladfawyr ymsefydlu yn y Dyffryn. Nid y tai a'r storfa rawn yn unig a gafodd eu dinistrio, ond hefyd y gwaith dyfrhau. Cafwyd llifogydd yr un mor ddinistriol ym 1902 a 1903, gan fwrw amheuaeth ar ymarferoldeb y Wladfa.[21] I bob pwrpas, roedd parhad y Wladfa'n dibynnu ar allu'r gwladfawyr i ddiweddaru o'r newydd eu corpws o wybodaeth empirig am y Dyffryn. Bu'n rhaid cymryd mesurau newydd, megis adeiladu argloddiau uwch ar lannau'r afon, adeiladu camlesi newydd neu ailddefnyddio rhai a fodolai eisoes i leddfu pwysau'r dŵr ac atal yr afon rhag gorlifo, neu ddefnyddio pyllau neu baleosianeli i gyflawni'r un amcan. Erbyn hynny, meddyliai E. J. Williams eisoes am gyfanrwydd y Dyffryn, nid o bersbectif darparu rhwydwaith dyfrhau, ond yn hytrach yn nhermau draenio. Ond fel y rhybuddiodd Williams ei hun, ni allai maint y dinistr a maint y gwaith angenrheidiol i amddiffyn y Dyffryn rhag llifogydd newydd barhau i fod yn seiliedig ar yr wybodaeth empirig honno'n unig; yn hytrach, roedd angen astudiaethau manwl o dopograffi, hydrograffi a phatrymau glawiad, astudiaethau nad oedd gan yr un o'r gwladfawyr y gallu technegol i'w cyflawni. Roedd y gwaith atgyweirio ar y seilwaith dyfrhau o ganlyniad i'r llifogydd mawr cyntaf ym 1899 mor fawr fel mai dim ond gyda chyllid a ddarparwyd gan y llywodraeth genedlaethol y llwyddwyd i'w gwblhau.

Rywsut, roedd canlyniadau difrifol y llifogydd hyn yn drobwynt yn y ffordd y gellid deall trefniadaeth a rheolaeth dyfrhau. Er mwyn datrys problemau dyfrhau cynyddol gymhleth, daeth y tri chwmni dyfrhau at ei gilydd ychydig flynyddoedd yn ddiweddarach ym 1909 i ffurfio Cwmni Dyfrhaol Camwy (CDC), a chymeradwywyd statudau'r cwmni newydd hwn ym 1912. Cyfrannodd creu'r cwmni hwn at bwysleisio rhyw fath o undod yn y Dyffryn yr oedd Cyngor Bwrdeistrefol Chubut gynt wedi ei amddiffyn yn ddygn fwy na chwarter canrif ynghynt. Fodd bynnag, ym 1907, roedd David Lloyd Jones, wrth wynebu argyfwng amlwg y rhwydwaith, wedi cynnig parhau i ymddiried mewn datganoli'r rhwydwaith fel ffordd o ysgogi cyfranogiad ac ymrwymiad y dyfrhawyr.[22]

[20] Wrth ganolbwyntio ar y Wladfa, mae Griffiths a Tooth (2021) nid yn unig wedi nodi ffurfiant gwybodaeth leyg (*lay knowledge*) mewn perthynas â digwyddiadau megis llifogydd a sychder, ond hefyd wedi amlygu'r rôl a chwaraewyd gan gof torfol fel rhan o broses ddetholus o gofio ac anghofio, sy'n cyflyru'r canfyddiad o risg o safbwynt digwyddiadau hinsoddol yn y dyfodol.

[21] Mewn gwirionedd, ymfudodd mwy na 200 o wladfawyr i Ganada a grŵp llai i Awstralia yn ystod y cyfnod hwn. Yn yr un cyfnod ar ddechrau'r ugeinfed ganrif, aeth 76 o wladfawyr i Choele Choel yn nhiriogaeth Río Negro, a symudodd carfan arall o fewn Tiriogaeth Chubut i ardal a adwaenid fel Colwapi. Roedd cynlluniau ar waith i ymfudo i Dde Affrica hefyd, ond nis gwireddwyd.

[22] Dyma oedd pwrpas ei gynllun i rannu'r gamlas ar lan ddeheuol y Dyffryn yn dair cangen (David Lloyd Jones (1907), *Cwmni Dyfrhaol y Camwy*). Mae'n debygol, mewn ymateb i'r materion hyn, i statudau 1912 gadw annibyniaeth benodol i'r canghennau: roedd yn rhaid i bob un ohonynt gael eu gweinyddu gan fwrdd cyfarwyddwyr lleol yn annibynnol ar fwrdd cyfarwyddwyr y cwmni newydd.

## Argyfwng yn y rhwydwaith: y beirianneg gymdeithasol ar brawf

Bron ar yr un adeg ag y crëwyd cwmni unedig, dechreuwyd codi'r cwestiynau cyntaf ynghylch gweinyddu'r gwaith dyfrhau a reolwyd yn hegemonaidd gan y Cymry a'u disgynyddion. Digwyddodd hyn mewn cyd-destun lle y dechreuodd poblogaeth y Dyffryn fod yn fwy amrywiol a phan gafodd aelodau newydd nad oeddynt o dras Cymreig eu hintegreiddio i'r system ddyfrhau.

Ym 1911, gwelodd yr CDC fod ei hegemoni dan fygythiad ar ôl sefydlu'r Gymdeithas Gydweithredol ar gyfer Gwaith a Dyfrhau (SCTI yn Sbaeneg) gan grŵp o ymsefydlwyr o'r dyffryn uchaf gogleddol dan arweiniad Juan P. Waag.[23] Gofynnodd yr SCTI i'r llywodraeth drosglwyddo'r holl waith yn y rhan honno o'r Dyffryn er mwyn iddynt reoli'r gwaith dyfrhau, gan arwain at anghydfod cyfreithiol a barhaodd hyd 1914 (Barzini a Jones 2003: t. 45). Er bod dyfarniad y llys yn ffafriol i'r CDC, yn ystod y blynyddoedd hynny, dechreuodd cyfres o ddadleuon gwahanol a oedd yn cwestiynu hegemoni'r Cymry ym maes dyfrhau.[24] Ar y llaw arall, daeth yn fwy amlwg, hyd yn oed o fewn y gymuned Gymreig, fod y consensws cadarn o ran yr hegemoni hwnnw yn dechrau chwalu: roedd gan 11 o'r 23 aelod a ffurfiodd gwmni cydweithredol Juan P. Waag gyfenwau Cymreig (F. Williams 2011: t. 245).

Nid yw cwmpas yr erthygl hon yn caniatáu inni groniclo hanes hir y sefydliadau a'r arferion a grëwyd gan y Cymry sy'n gysylltiedig â dyfrhau, ond gallwn gynnig rhai sylwadau sy'n portreadu eu dirywiad.

Rhoddodd dyfarniad ffafriol y llys ym 1914 gyfle i'r CDC gael ei wynt ato, ond yn y blynyddoedd dilynol, byddai'r anfodlonrwydd ynghylch sut yr oedd y cwmni'n rheoli'r rhwydwaith dyfrhau yn dyfnhau. Byddai'r cwmni'n parhau i weithredu am bron i dri degawd arall ar ôl y dyfarniad hwnnw a oedd yn cefnogi ei gyfreithlondeb, ond byddai'n gwneud hynny nid yn unig drwy argyhoeddiad ystyfnig o du'r arweinyddiaeth a fu bob tro'n fwyafrifol Gymreig, ond hefyd diolch i gefnogaeth dechnegol ac ariannol y Wladwriaeth, gan fod llawer o waith beichus wedi ei wneud i gynnal a gwella'r rhwydwaith yn ystod y blynyddoedd hynny.

O fewn fframwaith arbenigedd technegol cynyddol mewn peirianneg hydrolig, ni ddatblygodd ymhlith y gwladfawyr Cymreig ragor o arweinwyr a allai ddatrys yr heriau

---

[23] Cyrhaeddodd y peiriannydd o Norwyad Juan P. Waag yr Ariannin ym 1896 i gymryd rhan yn y comisiwn a ffurfiwyd o fewn fframwaith dyfarniad y Brenin Edward VII i osod y ffin rhwng yr Ariannin a Chile ym 1902. Roedd Waag yn rhan o dîm yr Ariannin a oedd, dan arweiniad F. P. Moreno, yn arolygu tiriogaethau'r Andes. Yn ddiweddarach, ymsefydlodd Waag yn Nyffryn Camwy, lle y cafodd fferm yn ardal Bryn Crwn a elwid ganddo yn 'La Media Estación'. Yn y Dyffryn, roedd Waag yn cyflawni tasgau technegol, yn aml yn gysylltiedig â thirfesur, ac roedd ganddo fywyd cyhoeddus gweithgar a oedd yn cynnwys cyhoeddi erthyglau yn y wasg leol.

[24] Roedd cyhuddiadau o sectyddiaeth yn gyffredin, yn enwedig o safbwynt defnydd yr iaith Gymraeg mewn cyfarfodydd a dogfennau swyddogol. Rhaid cofio i Gwmni Masnachol Camwy gyhoeddi'r adroddiad blynyddol yn Sbaeneg am y tro cyntaf ym 1911, yn ogystal ag yn Gymraeg (Glyn Williams 1975: t. 187). Dylid ystyried bod poblogaeth Dyffryn Camwy wedi tyfu i 12,000 o drigolion, yn enwedig gyda dyfodiad mewnfudwyr o darddiadau ethnig eraill, a bod y boblogaeth Gymreig yn cyrraedd 4,000 – sef tua thraean o'r boblogaeth gyfan (ibid.: tt. 170–2).

newydd a wynebwyd gan y rhwydwaith o gamlesi a'u gweinyddiaeth. Dychwelodd E. J. Williams i Gymru ym 1909 a dechreuodd Edward Owen, arweinydd mawr arall y gwaith hydrolig, fod yn llai gweithgar yn y 1920au. Wrth i'r blynyddoedd fynd heibio, byddai'r CDC dan anfantais gynyddol ac mewn sefyllfa o ddibyniaeth barhaus ar dechnegwyr y llywodraeth.

Rhaid dweud hefyd fod y gefnogaeth hon yn bosibl diolch i gyd-destun gwleidyddol ffafriol, a oedd wedi ei nodweddu gan ddiwygiadau rhyddfrydol a esgorodd ar fodel o gyfatebolrwydd (*complementarity*) rhwng canllawiau'r Wladwriaeth a buddiannau preifat.[25]

Fodd bynnag, dechreuodd y cyd-destun gwleidyddol hwn newid ac, o'r 1920au, roedd y syniad y dylai dŵr a dyfrhau fod yn wasanaeth cyhoeddus ac y gallent felly gael eu gweinyddu gan y Wladwriaeth (genedlaethol neu daleithiol) yn dechrau ennill consenswS.[26] Roedd hyn hefyd yn tanseilio cyfreithlondeb yr CDC a oedd, erbyn hynny, yn rheoli'r unig seilwaith dyfrhau preifat yn y wlad. Mae hyn hefyd yn egluro pam yr oedd nifer cynyddol o ffermwyr Dyffryn Camwy wedi rhoi'r gorau i dalu'r ffi dyfrhau, gan roi'r cwmni mewn sefyllfa ariannol fwy ansicr fyth. Ar y llaw arall, gellir dadlau bod dyfodiad ffermwyr o darddiadau ethnig eraill yn peri i'r gwead cymdeithasol Cymreig edwino, lle'r oedd cadw at rai rheolau megis talu ardollau (*levies*) dyfrhau neu lanhau'r camlesi yn flynyddol yn seiliedig cyn hynny ar ddisgyblaeth a oedd yn gysylltiedig â strwythur cymdeithasol y capel.

Gadewch inni ychwanegu ffactorau gwleidyddol eraill at y ffactorau diwylliannol hyn. Mewn cyd-destun lle'r oedd safbwyntiau cenedlaetholgar agored yn cryfhau yn yr Ariannin, bu cymunedau o fewnfudwyr Ewropeaidd â'u sefydliadau a'u harferion eu hunain (yn enwedig y rhai mwyaf pwerus fel y Prydeinwyr) yn destun beirniadaeth gynyddol lem. Yn Chubut, mynegwyd hyn fel teimlad gwrth-Gymreig a gylchredai yn y cyfryngau lleol neu o fewn grwpiau newydd megis y Cynghrair Gwladgarol (Liga Patriótica).[27] Yn aml, daeth nodweddion diwylliannol a chrefyddol y Cymry yn darged i'r feirniadaeth hon a chwestiynwyd hefyd ymddygiad sectyddol llawer o'r sefydliadau. O ran dyfrhau, er enghraifft, cwynai Juan P. Waag yn gynnar iawn fod cyfarfodydd Cwmni Dyfrhaol Camwy (CDC) yn cael eu cynnal yn yr iaith Gymraeg, gan eu hystyried yn wahaniaethol yn erbyn cyfranddalwyr o darddiadau ethnig eraill (gweler Ffigur 9).

---

[25] Enghraifft dda o'r cyfatebolrwydd hwn fu'r gyfundrefn ddyfrhau a ddatblygwyd yn Nhiriogaeth Genedlaethol Río Negro, rhanbarth cyffiniol i Diriogaeth Chubut, lle y gweithredodd y dalaith a chwmni rheilffordd Southern Argentine Railway fel partneriaid yn natblygiad rhwydwaith dyfrhau yn nyffrynnoedd afonydd Neuquén a Negro, rhwydwaith yr oedd ei gapasiti a'i gwmpas daearyddol gryn dipyn yn ehangach nag yn Chubut ac a oedd yn cynnwys system farchnata cynnyrch gan y cwmni rheilffordd (F. Williams 2018: tt. 208–10).

[26] Ym 1926, cwynodd David Iâl Jones, a oedd yn rhan o'r CDC, am yr 'ymgyrch cyson a dichellgar gan yr Athro Trespailhié [...] o blaid atafaelu'r camlesi dyfrhau a chenedlaetholi'r gwasanaeth' (*Y Drafod*, 3 Rhagfyr 1926).

[27] Yn ei bennod 'Political and economic crisis', mae Glyn Williams (1991: tt. 133–57) yn trafod yn helaeth oblygiadau'r elyniaeth hon.




Ffigur 9: Agoriad adeilad y Cwmni Dyfrhau Unedig yn y Gaiman, 1935. Sylwer mai dim ond 4 cyfenw anghymreig sydd ar waelod y llun ymhlith y 25 o bobl a fynychodd yr achlysur. Ffynhonnell: Museo Histórico Regional de Gaiman (Amgueddfa Hanes Ranbarthol y Gaiman).

## Cyfnod newydd: gwladfa amaethyddol mewn Patagonia ynni-ganolog

Wrth i'r ugeinfed ganrif fynd rhagddi, daeth y rhagolygon yn llai ffafriol i ddyheadau'r Cymry a'u disgynyddion. Rhaid cofio nad oedd yn bosibl cael tiroedd newydd i'w gwladychu erbyn blynyddoedd cyntaf y ganrif, felly ar ôl glaniad yr agerlong *Orita* ym 1911, daeth dyfodiad carfanau o wladfawyr Cymreig newydd i Chubut i ben. Ar y llaw arall, gadawodd methdaliad Cwmni Masnachol Camwy ran helaeth o'r boblogaeth o darddiad Cymreig heb fynediad at gredyd. Yn y cyd-destun anodd hwn, yr CDC oedd cadarnle olaf rheolaeth Gymreig dros y diriogaeth ac fe'i hamddiffynnwyd o'r herwydd nes i'r cwmni gael ei wladoli ym 1943.

Adlewyrchodd disgwrs yr amddiffyniad hwnnw yn nau ddegawd olaf yr CDC dueddiad amddiffynnol cynyddol, a oedd wedi ei ddatgysylltu oddi wrth agweddau technegol ac ariannol dyfrhau ac wedi ei seilio ar berchnogaeth y seilwaith a'r hawliau a gaffaelwyd yn sgil ymdrechion mawr y gwladfawyr cyntaf. Felly, ar sail yr amddiffyniad ffyrnig hwn, a fynegwyd gan gyfryngau megis *Y Drafod*, roedd y naws epig a welid wrth gofio ac ail-greu hanes y Wladfa nid yn unig yn gynnyrch delfrydiad, ond hefyd yn meddu ar ddibenion gwleidyddol ac economaidd penodol iawn.

Arweiniodd yr heriau enfawr sydd ynghlwm wrth feistroli natur mewn rhanbarth cras fel Patagonia all-Andeaidd – yn benodol, y defnydd o adnoddau dŵr cyfyngedig – at gydweithio rhwng yr ymsefydlwyr cyntaf i adeiladu seilwaith dyfrhau. Byddai'r heriau hynny'n brigo i'r wyneb yn amlycach ychydig ddegawdau'n ddiweddarach yn wyneb llifogydd dinistriol. Ond y tro hwn, nid oedd cysylltiaeth (*associationism*) a gwaith caled yn mynd i fod yn ddigon. Yn y cyfnod newydd hwn, ni fu'n hawdd i'r Cymry a'u disgynyddion gydnabod bod y gweithiau a'r wybodaeth dechnegol yr oedd eu hangen i gwrdd â'r heriau hyn yn galw am actorion â grym economaidd a chefnogaeth wleidyddol llawer cryfach na rhai'r cwmni yr oeddynt yn eu hamddiffyn yn llawn balchder. Yn nhiriogaeth gyfagos Río Negro, yr actor hwnnw oedd y Southern Railway Company pwerus gyda chefnogaeth y Wladwriaeth. Ond yn y Chubut fwy pellennig, ac ar ôl mwy na dau ddegawd o'r profiad hwnnw yn Río Negro a luniwyd gan ddiwygiadau a oedd bellach wedi dyddio, nid oedd yr opsiwn hwnnw ar gael mwyach. Yr unig actor a allai wynebu'r heriau hynny, fel y daethai eisoes yn amlwg yn y 1930au, oedd y Wladwriaeth Genedlaethol – gwladwriaeth a oedd yn y blynyddoedd hynny wedi dechrau'r broses o reoli'r holl adnoddau ynni. Eisoes yng nghanol yr Ail Ryfel Byd, byddai Patagonia, cychwynfan y diwydiant cynhyrchu olew a glo yn yr Ariannin, yn cael ei gweld fel rhanbarth strategol y byddai ei amddiffyniad yn gyfrifoldeb i'r Lluoedd Arfog.

Er y bu'r presenoldeb milwrol ym Mhatagonia yn cynyddu yn ystod y 1930au, agorodd *coup* milwrol 1943 gyfnod newydd. Nid yw'n gyd-ddigwyddiad bod gwladoli'r CDC – gyda llawer o bobl o'i blaid ac yn ei erbyn – wedi ei gyflawni o'r diwedd ym 1943, pan gipiodd y fyddin rym gwleidyddol. Roedd hyn yn awgrymu nad oedd mecanwaith sefydliadol benodol i wrthwynebu'r mesur ar gael.[28] Ac er gwaetha'r ffaith bod cyfran o gyfranddalwyr yr CDC yn ddiweddarach wedi cychwyn achos cyfreithiol hir yn erbyn y wladwriaeth,[29] yn y cyd-destun hwnnw o unbennaeth filwrol, nid oedd modd gwrthwynebu'r weithred o wladoli. Yn ddiamau, roedd y mesur hwn, a ystyrid yn atafaeliad, yn *coup de grâce* i'r dyheadau Cymreig, a oedd wedi eu diweddaru a'u hailaddasu dro ar ôl tro, i hegemoneiddio rheolaeth ar y diriogaeth a ddatblygwyd er 1865.[30]

Roedd hyn yn digwydd ar adeg pan oedd syniadau cenedlaetholgar ar gynnydd, ond nid yw'r cyd-destun ideolegol hwnnw'n ddigon i ddeall cwymp y prosiect Cymreig. Roedd y 1940au yn cyflwyno cyfnod ym Mhatagonia pan fyddai'r prif ffocws yn symud tuag at gynhyrchu olew. Ac o hynny ymlaen, fel y dadleuwyd, yr allwedd i ddeall polisïau'r Wladwriaeth Genedlaethol ar gyfer y rhanbarth fyddai ynni a diogelwch (Bohoslavsky 2008: t. 11). Cafodd amaethyddiaeth, a oedd wedi chwarae rhan mor bwysig yn ystod ail hanner

[28] Cyhoeddodd y papur newydd *Y Drafod* (8 Mehefin 1945) nifer o erthyglau'n beirniadu'n hallt y broses o genedlaetholi. Yn ogystal ag amau cyfreithlondeb y weithred, roedd cwynion yn erbyn yr agwedd haerllug wrth i'r Wladwriaeth feddiannu asedau'r CDC mewn cyfarfod a gynhaliwyd ym mis Mehefin 1945, pan ddiystyrwyd pleidlais yn erbyn y weithred a phan waharddwyd y mynychwyr rhag siarad Cymraeg (Anhysbys 1945).

[29] Parhaodd yr achos hwn tan 1962.

[30] Fel y mae Powell yn ei ddadlau: 'The nationalization of the irrigation company meant that one of the major formal units that embodied the Welsh traditions of pioneering efforts and power in which the majority of the users of the system participates in decision-making was transferred into an agency that represented the nation state' (Powell 1979: t. 141).

y bedwaredd ganrif ar bymtheg fel mecanwaith ar gyfer ymgorffori llafur mewnfudwyr a thrawsnewid y diriogaeth, ei rhoi o'r neilltu.

Byddai'r agenda ynni newydd ar gyfer Patagonia yn cael ei datblygu a'i dyfnhau gan Juan Domingo Perón, ar ôl iddo gael ei ethol yn Arlywydd ym 1945. Un mesur arwyddluniol o'r polisïau Peronistaidd hynny fu creu'r cwmni gwladol Dŵr ac Ynni Trydanol (AyEE) ym 1951. Ei brif amcan oedd cynhyrchu ynni hydro-electrig er mwyn cyflymu'r broses ddiwydiannu a lleihau, ar yr un pryd, ddibyniaeth ynni ar weithfeydd pŵer thermol mewn dwylo preifat. Dyna'r fframwaith i'r gwaith o adeiladu Argae Florentino Ameghino ar afon Camwy rhwng 1950 a 1963, lai na 100 cilomedr oddi wrth yr ardal lle'r ymsefydlodd y Cymry.

Er bod comisiynu'r argae hydro-electrig cyntaf hwn ym Mhatagonia wedi golygu bod talaith Chubut wedi cyrraedd cyfnod newydd pan oedd argaeledd trydan yn ei gwneud yn bosibl gweithredu polisïau megis hyrwyddo diwydiannol yn Nhrelew, roedd gan yr argae swyddogaeth bwysicach i raddau, sef rheoli codiadau yn lefelau dŵr afon Camwy. Roedd yr argae yn bwysig, nid yn unig oherwydd iddo amddiffyn y Dyffryn rhag llifogydd a oedd wedi parhau i ddinistrio'r ardal yn ystod y degawdau diweddaraf, gan leihau cynhyrchiant yr ardal wledig a rhoi'r canolfannau trefol eu hunain mewn perygl yn aml (gweler Ffigur 10), ond hefyd mewn perthynas â chadw'r seilwaith dyfrhau, a gâi ei niweidio'n ddifrifol yn gyffredinol gan lifogydd, yn sefydlog ac yn ddiogel. Neilltuwyd nifer o'r peirianwyr a gymerodd ran yn y gwaith o adeiladu'r argae hefyd i gynnal a chadw a gwella'r camlesi dyfrhau, oherwydd bod y cwmni cenedlaethol AyEE yn gyfrifol am weinyddu'r rhwydwaith yn ogystal. Er bod dŵr yn cael ei ailystyried bryd hynny yn ffynhonnell ynni trydanol, roedd agweddau eraill megis dyfrhau yn parhau i fod o fewn swyddogaethau AyEE – model rheoli gan y wladwriaeth ganolog sy'n nodweddiadol o'r cyfnod – a fyddai'n cael ei gynnal hyd nes y byddai polisïau preifateiddio a datganoli yn cael eu gweithredu yn y 1990au.



Ffigur 10: Llifogydd ym 1932. Golygfa o fryniau'r Gaiman yn edrych tuag at y gorllewin. Ffynhonnell: Museo Histórico Regional de Gaiman (Amgueddfa Hanes Ranbarthol y Gaiman).

## Y wladfa amaethyddol ac Argae Ameghino yn symbol o dalaith newydd Chubut

Yn ystod y broses o adeiladu Argae Ameghino, a barhaodd rhwng 1950 a 1963, roedd naws epig yr argae'n amlwg yn y wasg leol.[31] Roedd penawdau fel 'Yr argae'n cau a'r drysau i'n dyfodol yn agor' yn gyffredin mewn papurau newydd lleol yn ystod y blynyddoedd hynny (Anhysbys 1963: t. 6). Gellir dweud, ar yr un pryd, fod y naws a oedd yr un mor epig a briodolwyd i'r hen gamlesi wedi ei chyfyngu i raddau helaeth i'w chylchdroi o fewn y gymuned Gymreig. Yn yr achos hwn, roedd y gamp wedi ei hangori yn ymdrech a gwaith cydweithredol y gwladfawyr, ond roedd hyn bob amser yn cyfeirio at y gorffennol. O ran Argae Ameghino, gwelwyd addewidion a fu wastad yn rhan o ddyfodol hiraethus yn troi'n realiti yn y presennol. Roedd hon yn gamp dechnegol a oedd yn gysylltiedig â galluoedd peirianneg hydrolig a phosibiliadau newydd concrid cyfnerthedig (*reinforced concrete*), a'i gwnaeth yn bosibl i ddofi hen afon Camwy (gweler Ffigur 11). Fel cynifer o argaeau



Ffigur 11: Oscar Vivian Williams ac Argae Ameghino yn cael ei adeiladu, mewn llun a dynnwyd tua 1959. Roedd Cynwyl Griffiths, sef brawd yng nghyfraith Oscar, yn gweithio ar safle adeiladu'r argae ar y pryd. Ffynhonnell: Archif Cristina Williams.

[31] Gellir ymestyn y cyfnod hwn hyd at 1968, sef y flwyddyn pan ddechreuodd yr orsaf ynni weithredu.

mawr eraill ar ddechrau'r ugeinfed ganrif, daeth Argae Ameghino nid yn unig yn symbol o foderniaeth – oherwydd ei gysylltiad â chyffredinoli defnydd pŵer trydan – ond hefyd yn gynrychioliad o bŵer y Wladwriaeth, a oedd yn hyrwyddo ac yn gwarantu'r foderniaeth honno.[32]

Yn naturiol, roedd yr ymwybod newydd hwn yn fwy pwerus ac ag apêl ehangach a thrawsnewidiol, sydd hefyd yn ein galluogi i ddeall pwysigrwydd Argae Ameghino fel symbol i dalaith newydd Chubut.[33] Daeth yr alwad am yr ornest gyntaf i greu tarian daleithiol yr un flwyddyn ag agoriad yr argae. Cafodd y gystadleuaeth derfynol ei chynnal y flwyddyn ganlynol. Roedd y cyd-ddigwyddiad hwn a'r hyn a amlinellwyd yn y paragraffau blaenorol yn diffinio cyd-destun sy'n caniatáu inni ddeall sut yr oedd ffigur a oedd yn cynrychioli Argae Ameghino yn un o ddarnau canolog y darian a oedd yn fuddugol yn y gystadleuaeth honno. Yr elfen ganolog arall oedd tywysen o wenith, a gynrychiolai ffrwythlondeb amaethyddol ac, o ganlyniad, y Wladfa a sefydlwyd gan y Cymry (gweler Ffigur 12).

Gyda'r cynllun hwn, roedd ardal yr olew yn ne'r dalaith wedi ei chynrychioli'n wael a chodwyd lleisiau o'r ardal honno yn mynnu mwy o gynrychiolaeth. Mewn ymateb i'r honiadau hyn, rhoddodd Pŵer Gweithredol Llywodraeth y Dalaith feto ar ddeddf 30 Hydref 1964 a oedd wedi sefydlu'r darian fel arwyddlun taleithiol. Fodd bynnag, cyn diwedd y flwyddyn honno, byddai Corff Deddfwriaethol y Dalaith yn cymeradwyo'r ddeddf er hynny oll, gan gadarnhau'r dewis o arfbais lle'r oedd Dyffryn Camwy yn amlwg wedi ei orgynrychioli o'i gymharu ag ardaloedd eraill o'r dalaith, gan roi blaenoriaeth nid yn unig i bwysigrwydd hanesyddol y Dyffryn ond hefyd, yn anuniongyrchol, i'r Wladfa Gymreig.

Rhaid cofio y bu'r Bwrdd Astudiaethau Hanesyddol ar waith ers pedair blynedd ym 1964. Roedd y Bwrdd yn cynnwys 15 aelod a benodwyd gan Ddeddfwrfa'r Dalaith, ac roedd llawer ohonynt wedi cysegru'r Cymry yn sefydlwyr-Dadau'r dalaith mewn cyfres o weithiau a fyddai'n cael eu cyhoeddi cyn diwedd y degawd (Carrizo a Williams 2022: tt. 14–15).[34] Yn ogystal, ym 1964 roedd paratoadau eisoes ar y gweill ar gyfer canmlwyddiant dyfodiad y *Mimosa*, a fyddai'n cael ei ddathlu'r flwyddyn ganlynol. Roedd llywodraeth y dalaith hefyd eisoes wedi comisiynu'r cerflunydd Luis Perlotti i wneud cofeb i'w gosod yn Puerto Madryn,

[32] Nid yn unig y gweithiau pensaernïol y mae eu hanes yn gysylltiedig â chofebau sydd dan sylw yma, ond hefyd y seilwaith a all 'emerge out of and store within them forms of desire and fantasy and can take on fetish-like aspects that sometimes can be wholly autonomous from their technical function' (Larkin 2013: t. 329). Yn yr ystyr hwn, roedd argaeau yn eiconau moderniaeth ledled y byd. Fodd bynnag, fel y dengys enghraifft adnabyddus Tryweryn yng ngogledd Cymru, gall arwyddocâd posibl argaeau wyro'n sylweddol oddi wrth y dyheadau am gynnydd a oedd yn rhan annatod o'r prosiect a dod yn angorau cof cyfunol o ddadfeddiant a throi'n symbolau cenedlaetholgar yn seiliedig ar y gwrthwynebiad i'r ffordd fympwyol a heb ymgynghoriad y cafodd y gwaith ei ddylunio a'i adeiladu (Griffiths 2014).

[33] Sefydlwyd y dalaith ym 1955 ac fe'i cymeradwywyd gan gyfansoddiad y dalaith ym 1957. Felly, daeth cyfnod hir i ben pan amddifadwyd Chubut o ymreolaeth wleidyddol drwy ei llywodraethu o Buenos Aires. Roedd yr hen awdurdodaethau, gan gynnwys Chubut, a elwid yn 'diriogaethau cenedlaethol', wedi eu creu ym 1884 ar ôl i Fyddin yr Ariannin feddiannu Patagonia.

[34] Er iddo gael ei sefydlu ym 1960, ni fu'r Junta de Estudios Históricos (JEH; Bwrdd Astudiaethau Hanesyddol) yn weithredol tan 1967. Dros y blynyddoedd, cynyddodd yr aelodaeth hyd nes y cyrhaeddodd 20. Gweler rhagor o fanylion am y JEH yn Guillermo Williams (2020: tt. 65–6).

y byddai dathliadau'r canmlwyddiant swyddogol yn cael eu trefnu o'i chwmpas (Cabral Marques 2007: t. 10).




Ffigur 12: Tarian talaith Chubut. Ffynhonnell: Papur newydd El Chubut, https://www.elchubut.com.ar/regionales/2019-10-30-9-5-0-30-de-octubre-dia-del-escudo-de-chubut

Mae llawer o ddŵr wedi mynd o dan y bont ers dathlu'r canmlwyddiant hwnnw. Ar hyn o bryd, mae ffigur y Tadau yn hanes yr ymsefydlu yn cael ei gwestiynu'n eang ac yn gyfiawn o safbwynt ôl-drefedigaethol, nid yn unig o fewn y byd academaidd ond hefyd y tu hwnt iddo.[35] Fodd bynnag, mae'n drawiadol, hyd yn oed heddiw, wrth siarad am Argae Ameghino, fod tuedd gref i adfer stori epig benodol adeiladu'r camlesi. Dyna sydd i'w weld yn rhethreg Cwmni Trydan Dŵr Ameghino Sociedad Anónima (HASA), a fu'n gyfrifol am weithredu'r argae ers 1994. Yn y deunyddiau a argraffwyd gan HASA, cyflwynir y gwaith nid yn unig fel canlyniad i alluedd y Wladwriaeth ond hefyd fel ffrwyth yr ymdrech i reoli'r adnodd dŵr a gyflawnwyd gan y gwladfawyr Cymreig wrth adeiladu'r camlesi dyfrhau.[36]

[35] Yn ystod y ddau ddegawd diwethaf, mae rhai o chwedlau sefydlu'r Wladfa wedi cael eu cwestiynu, yn enwedig y berthynas dda rhwng y Cymry a'r brodorion. O safbwynt ôl-drefedigaethol, tynnwyd sylw at rôl sylfaenol y gwladfawyr Cymreig yn y broses ehangach o ddifodi a dadleoli'r brodorion hyn ym Mhatagonia (Lublin 2009; Taylor 2017). Mae'r cwestiynau hyn wedi mynd y tu hwnt i'r byd academaidd ac wedi creu dadleuon cyhoeddus yn seiliedig ar gyhoeddiadau yn y wasg Gymreig, megis cyfres o erthyglau a gyhoeddwyd yn Nation.Cymru (Johnson 2020; Mac Burney Jones 2020; Brooks 2020).

[36] Mewn 'papur newydd sefydliadol' a gyhoeddwyd yn 2005, mae'r adolygiad hanesyddol o'r gwaith yn rhoi digon o le i gymeriadau fel E. J. Williams, i ffurfio'r cymdeithasau dyfrhau Cymreig, i ymdrechion y Cymry i argáu afon Camwy ac, yn bwysicach, i'r problemau a achoswyd gan y llifogydd a ddechreuodd effeithio ar y Dyffryn tua 1899: 'Am bron i 100 mlynedd, gohiriwyd y problemau hyn heb gyflawni datrysiad hyfyw nes adeiladu Argae Ameghino Florentino' (Hidroeléctrica Ameghino S. A. 2005: tt. 3–4).

## Diweddglo

Dengys y gwaith hwn i ba raddau y gellir deall Dyffryn Camwy fel 'tiriogaeth hydrogymdeithasol' (Boelens et al. 2016: t. 1) wedi ei hail-lunio o system ddyfrhau gymhleth a gychwynnwyd gan y gwladfawyr Cymreig. Roedd amaethyddiaeth a gwasgariad gofodol y gwladfawyr yn eu ffermydd yn dibynnu ar y system hon. Gellir dweud i'r gwladfawyr Cymreig, fel rhan o'r broses adeiladu a chynnal hon, drawsnewid eu hunain, gan greu corff o wybodaeth a sefydliadau sydd wedi eu cysylltu'n glòs â'r profiad hanesyddol o ymdrin â phroblem dyfrhau.

Ond nid prif gymeriadau ecsgliwsif yn y broses hon yw'r Cymry ond cyd-grewyr ynghyd ag actorion corfforol a chymdeithasol eraill. Yn yr ystyr hwn, roedd y persbectif hydrogymdeithasol, sy'n hyrwyddo ffyrdd mwy perthynol (*relational*) o ddeall hanes, yn ei gwneud yn bosibl mynd y tu hwnt i'r terfynau a osodwyd gan hanesyddiaeth a bwysodd yn ormodol ar bryderon sylfaenwyr y Wladfa a chan rai o haneswyr talaith Chubut a ddarluniodd y Cymry fel ymgorfforiad o Dadau'r ymsefydlu.

Roedd y persbectif hwn yn gyfle i amlygu cydgysylltiadau sydd wedi'u hesgeuluso i raddau helaeth, yn enwedig y rheini ag actorion nad oeddynt yn Gymry – unigol neu gyfunol, corfforol neu sefydliadol – y sefydlwyd gofodau ar gyfer deialog a chydweithio â hwy, ond nid heb wrthdaro bob tro.[37] Gellir gweld y gofodau hyn yn arbennig rhwng llifogydd mawr 1899 a gwladoli 1945, cyfnod pan oedd 'gwybodaeth arbenigol' y wladwriaeth yn ennyn mwy o gyfreithlondeb er ei bod, yn y tymor hir, yn diarddel yr wybodaeth leyg y cytunwyd arni ac a roddwyd ar waith gan yr ymsefydlwyr, er na ddilëwyd yr elfen ddiwethaf yn gyfan gwbl. Yn ôl yr hyn a nodwyd gan wahanol awduron, gellid gwirio'r wybodaeth leyg hon hyd yn oed ar ôl gwladoli, sy'n dangos nad yw mesur o'r fath fyth yn darparu ateb pendant i'r problemau. Yn wir, mae Bonta a Protevi (2004: t. 25) yn nodi nad yw gweinyddiaeth ganolog y wladwriaeth ar ei phen ei hunan yn gallu datrys problemau dyfrhau. Dyna pam y mae Banister yn nodi, 'there is a basic paradox at the heart of centralized irrigation politics: it always requires decentered or ecologically "embedded" mechanisms of control that the state can never fully dominate or overcode' (Banister 2014: t. 207), sy'n tanlinellu pwysigrwydd 'lay knowledges' neu 'minor sciences'.

Gellir casglu, felly, ei bod yn angenrheidiol rhoi sylw i'r ddwy wedd hon bob tro – y lleol a'r cenedlaethol – gyda'u gweithredwyr, eu gwybodaeth a'u harferion, gan ystyried bod perthnasoedd cydweithredol a gwrthdaro yn digwydd rhyngddynt. Yr hyn sy'n ddiddorol am Ddyffryn Camwy yw bod y wedd leol yn gorgyffwrdd â'r sefydliadau a grëwyd gan y Cymry ac, felly, fod amddiffyn ymreolaeth ar y wedd honno wedi ei gymysgu ag amddiffyn yr hyn a oedd yn ymgorffori Cymreictod lleol. Am y rheswm hwn, roedd yr elyniaeth a ddeilliodd o'r tensiynau rhwng yr CDC ac asiantaethau'r wladwriaeth yn nodi proses a oedd hefyd yn erydu'r parth gwleidyddol a feddiannodd y Cymry a'u disgynyddion o fewn y Dyffryn.

---

[37] Un enghraifft fyddai'r Gymdeithas Gydweithredol ar gyfer Gwaith a Dyfrhau (SCTI) dan arweiniad Juan P. Waag a drafodwyd uchod, cymdeithas a ddilëwyd bron yn llwyr o hanesyddiaeth y rhanbarth.

Nid oes lle yma i ddadansoddi sut y ciliodd yr elyniaeth hon yn y degawdau a ddilynodd y gwladoli. Y gwir yw bod adeiladu Argae Ameghino yn gam enfawr ymlaen lle'r oedd rhethreg cynnydd yn ei gwneud yn bosibl nid yn unig i leihau'r drwgdeimlad hwn, ond hefyd i ymgorffori'r profiad Cymreig mewn naratif ehangach o gynnydd. Felly, daeth gogoneddu ymdrech y Cymry, a oedd yn nodweddiadol o ddisgwrs rhyddfrydol a meritocrataidd a ddefnyddiwyd i amddiffyn perchenogaeth y camlesi, yn y pen draw yn fodd o gyfiawnhau gwaith fel Argae Ameghino, a oedd yn ymgorfforiad o reolaeth y wladwriaeth dros adnoddau ond hefyd yn benllanw cynnydd technegol a gydnabyddai gamlesi'r Cymry fel y camau cyntaf ar gyfer dofi dyfroedd Camwy.

Mae cynrychioliadau yn newid o hyd oherwydd cyd-destunau newydd ac mae hyn hefyd yn effeithio ar seilwaith. Os cytunwn fod seilweithiau yn ein siapio fel unigolion 'not just on a technopolitical level but also through this mobilization of affect and the senses of desire, pride, and frustration, feelings which can be deeply political' (Larkin 2013: t. 333), rhaid inni hefyd ystyried yr amrywiadau sy'n digwydd gyda threigl amser, gan greu parhad, rhwygiadau a mynegiannau o'r ystyron hynny.

## Llyfryddiaeth


Aigo, J. C., et al. (2020), 'Waterscapes in Wallmapu: Lessons from Mapuche perspectives', *Geographical Review*, 112(5), 622–40.

Anhysbys (1945), 'Gwrthod Cadarnhau Trosi'r Ffosydd yn Ddi-Amodol i'r Llywodraeth', *Y Drafod*, 8 Mehefin.

Anhysbys (1963), 'Se cierra el dique y se abren las puertas de nuestro futuro', *Jornada*, 19 Ebrill, t. 6.

Banister, J. M. (2014), 'Are you Wittfogel or against him? Geophilosophy, hydro-sociality, and the state', *Geoforum*, 57, 205–14.

Barzini, J. L. a Jones, M. N. (2003), 'Compañía Unida de Irrigación 1865–1945', *V Congreso de Historia Social y Política de la Patagonia Argentino-Chilena*, Trevelin, 9–11 Hydref.

Boelens, R., et al. (2016), 'Hydrosocial territories: a political ecology perspective', *Water International*, 41(1), 1–14.

Bohoslavsky, E. (2008), *La Patagonia (de la guerra de las Malvinas al final de la familia ypefiana)* (Buenos Aires: Biblioteca Nacional, Universidad de General Sarmiento).

Bonta, M. a Protevi, J. (2004), *Deleuze and Geophilosophy: A Guide and Glossary* (Edinburgh: Edinburgh University Press).

Brooks, S. (2020), 'Why Welsh Colonisation in the Americas deserves to be debated on its own terms', https://nation.cymru/opinion/why-welsh-colonisation-in-the-americas-deserves-to-be-debated-on-its-own-terms/ [Cyrchwyd: 20 Ionawr 2023].

Cabral Marques, D. A. (2007), 'Construyendo símbolos e inventando tradiciones: la fromalización de las identidades provinciales en Chubut y Santa Cruz en la segunda

mitad del siglo XX', papur i gynhadledd Jornadas Interescuelas / Departamentos de Historia 11 (San Miguel de Tucumán), tt. 1–26.

Carrizo G. a Williams, G. (2022), 'La escritura de la historia en Chubut: la construcción de un pasado en la Patagonia central', yn Philp, M., Leoni, S. a Guzmán, D., *Historiografía argentina. Modelo para armar* (Buenos Aires: Imago Mundi), tt. 431–52.

Caviglia, S. (2019), '30 de Octubre. Día del escudo de la provincia del Chubut', *Serie Recursos para el Aula*, blwyddyn 8, rhif 36, Ministerio de Educación, Provincia del Chubut.

Coronato, F., Gavirati, M. a Jones, N. (2006), 'Los galeses en la Patagonia: la conformación de un singular modelo político, económico y cultural', yn Y Pwyllgor Trefnu (goln), *Los Galeses en la Patagonia*, II (Puerto Madryn: Fundación Ameghino, CEHYS), tt. 167–95.

Deleuze, G. a Guattari, F. (1987), *A Thousand Plateaus: Capitalism and Schizophrenia*, cyfieithwyd gan Brian Massumi (Minneapolis: University of Minnesota Press).

Evans, D. W. (2015), 'Rhai enwau lleoedd Cymraeg ym Mhatagonia', *Y Traethodydd: Y Wladfa 150*, cyfrol CLXX, rhif 714, 174–87.

Gavirati, M. (2017), *Chupat-Camwy Patagonia. Historia de la coexistencia pacífica entre galeses, pampas y tehuelches* (Villa Adelina: Patagonia Sur Libros).

Gavirati, M. a Williams, F. (2015), *150 Años de Y Wladfa*: *ensayos sobre la historia de la colonización galesa en la Patagonia* (Rawson: Secretaría de Cultura de la Provincia del Chubut).

González, F. T. (2016), 'El Riego de Aaron: Una hipótesis intermedia', yn Y Pwyllgor Trefnu (goln), *Los galeses en la Patagonia*, VII (Puerto Madryn: Asociación Cultural Galesa, Centro de Estudios Históricos y Sociales de Puerto Madryn), tt. 99–105.

Griffiths, H. M. (2014), 'Water under the bridge? Nature, memory and hydropolitics', *Cultural Geographies*, cyfrol 21(3), 449–74.

Griffiths, H. M. a Tooth, S. (2021), 'Remembering and forgetting floods and droughts: Lessons from the Welsh colony in Patagonia', *Cultural Geographies*, 28(2), 341–61.

Hidroeléctrica Ameghino S. A. (2005), *Diario Institucional* (Trelew).

Johnson, I. (2020), 'We shouldn't romanticise the actions of the Welsh who colonised Patagonia', https://nation.cymru/opinion/we-shouldnt-romanticise-the-actions-of-the-welsh-who-colonised-patagonia/ [Cyrchwyd: 20 Ionawr 2023].

Jones, D. I. (1926), 'El torniquete del agua', *Y Drafod*, 3 Rhagfyr, t. 2.

Jones, D. L. (1907), *Cwmni Dyfrhaol y Camwy*, llawysgrif anghyhoeddedig ym Museo Histórico Regional de Gaiman (Amgueddfa Hanes Ranbarthol y Gaiman).

Jones, L. (1898), *Hanes y Wladva Gymreig: Cymru Newydd yn Ne America* (Caernarfon: Cwmni'r Wasg Genedlaethol Gymreig).

Krause, F. a Strang, V. (2016), 'Thinking Relationships Through Water', *Society & Natural Resources*, 29(6), 633–8.

Larkin, B. (2013), 'The Politics and Poetics of Infrastructure', *Annual Review of Anthropology*, 42, 327–43.

Linton, J. a Budds, J. (2014), 'The hydrosocial cycle: Defining and mobilizing a relational-dialectical approach to water', *Geoforum*, 57, 170–80.

Lublin, G. (2009), 'Y Wladfa: gwladychu heb drefedigaethu?', *Gwerddon*, 4, 8–23.

Mac Burney Jones, G. (2020), 'Why the Wladfa in Patagonia shouldn't be labelled a colonialist venture', https://nation.cymru/opinion/why-the-wladfa-in-patagonia-shouldnt-be-labelled-colonialist-venture/ [Cyrchwyd: 20 Ionawr 2023].

MacDonald, E. (2004), '1865–1867: De la Euforia al Desengaño', yn Y Pwyllgor Trefnu (goln), *Los Galeses en la Patagonia* (Puerto Madryn: Fundación Ameghino, CEHYS), tt. 35–47.

Matthews, A. (1894), *Hanes y Wladfa Gymreig yn Patagonia* (Aberdâr: Mills & Evans).

McEwen, L., et al. (2017), 'Sustainable flood memories, lay knowledges and the development of community resilience to future flood risk', *Transactions of the Institute of British Geographers*, 42, 14–28.

Menga, F. a Swyngedouw, E. (2018), 'States of water', yn Menga, F. a Swyngedouw, E. (goln), *Water, Technology and the Nation-State* (New York: Routledge), tt. 1–18.

Powell, R. D. (1979), 'Politics of agricultural settlement: The case of the Welsh in Chubut', traethawd PhD nas cyhoeddwyd, Montreal: McGill University.

Rhys, W. C. (2000), *La Patagonia que canta* (Buenos Aires: Emecé).

Taylor, L. (2017), 'Welsh–Indigenous Relationships in Nineteenth Century Patagonia: "Friendship" and the Coloniality of Power', *Journal of Latin American Studies*, cyfrol 49, rhif 1, 143–68.

Swyngedouw, E. (1999), 'Modernity and hybridity: nature, regeneracionismo, and the production of the Spanish waterscape, 1890–1930', *Annals of the Association of American Geographers*, 89(3), 443–65.

Swyngedouw, E. (2009), 'The Political Economy and Political Ecology of the Hydro-Social Cycle', *Journal of Contemporary Water Research & Education*, 142, 56–60.

Williams, E. J. (1902), 'La colonia del Chubut y sus canales de irrigación' (dim lleoliad cyhoeddi).

Williams, F. (2011), 'Colonización, espacio público y paisaje en el valle del Chubut. La gestión del territorio entre la política y la poética', traethawd PhD nas cyhoeddwyd, Buenos Aires: Facultad de Filosofía y Letras, Universidad de Buenos Aires.

Williams, F. (2014), 'La Patagonia galesa entre el tablero estatal y la idealización naturalista: aportes desde una perspectiva paisajística', *Población & Sociedad*, cyfrol 21(2), 93–128, https://cerac.unlpam.edu.ar/index.php/pys/article/view/2856

Williams, F. (2018), 'Infraestructura y paisaje en la Patagonia argentina: hacia una perspectiva histórica centrada en el recurso hídrico', yn Nuñez, P., et al. (goln), *Araucania-Norpatagonia II: La fluidez, lo disruptivo y el sentido de la frontera* (Viedma: Editorial UNRN), tt. 199–226.

Williams, Glyn (1975), *The Desert and the Dream: A Study of Welsh Colonization in Chubut. 1865–1915* (Cardiff: University of Wales Press).

Williams, Glyn (1991), *The Welsh in Patagonia: The State and the Ethnic Community* (Cardiff: University of Wales Press).

Williams, Guillermo (2020), '"Dejen de creer que carecemos de historia": Estado e intelectuales en la construcción de la historiografía oficial de Chubut (1958–1968)', *Cuadernos de Historia: Serie economía y sociedad,* 57–83.

Wittfogel, K. A. (1957), *Oriental Despotism. A Comparative Study of Total Power* (New Haven: Yale University Press).

# Darllen ac ysgrifennu gorffennol y Wladfa: dadleuon am hanes a chof yn ymsefydliad Cymreig Chubut

Guillermo Williams

*Instituto de Estudios Sociales y Políticos de la Patagonia (IESyPPAT) / Universidad Nacional de la Patagonia San Juan Bosco, Yr Ariannin*

Cyfieithwyd gan Walter Ariel Brooks[1]

Cyflwynwyd: 10 Tachwedd 2022; Derbyniwyd: 6 Gorffennaf 2023

**Crynodeb:** Bwriad yr erthygl hon yw dadansoddi'r gwahanol ddarlleniadau a gafwyd o hanes y Wladfa o fewn naratifau swyddogol o orffennol talaith Chubut yn yr Ariannin. Cynhwysa hyn gynnyrch y wladwriaeth daleithiol, ond hefyd eiddo actorion eraill yng nghymdeithas Chubut, gan gynnwys y gymuned Gymreig ei hun. Er mwyn gwneud hyn, canolbwyntir ar y deongliadau a gynhyrchwyd dros dri chyfnod: yn gyntaf, rhwng y 1930au a 1955, pan oedd Chubut yn diriogaeth genedlaethol; yn ail, cyfran o flynyddoedd cyntaf bodolaeth talaith Chubut rhwng 1958 a 1975; ac yn olaf, rhwng y 1980au a'r presennol, gyda ffocws ar ddathliadau'r canmlwyddiant a hanner (ers glaniad y gwladfawyr cyntaf) yn 2015. Ystyrir hefyd y newidiadau a welwyd rhwng naratifau hanesyddol gwahanol, yn ogystal â'r elfennau o barhad rhyngddynt. Trwy gydol y tri chyfnod hyn, dangosir bod naratifau swyddogol o orffennol Chubut wedi gosod hanes y gwladychu Cymreig yn gonglfaen ar gyfer sefydlu'r dalaith, gan roi rôl hegemonaidd i'r hanes hwn.

**Allweddeiriau:** Hanes, cof, naratifau swyddogol, y Wladfa, Chubut, Patagonia, yr Ariannin.

## Reading and writing Y Wladfa's past: disputes on the history and memory of the Welsh settlement in Chubut

**Abstract:** The aim of this article is to analyse the different readings available regarding the history of the Welsh settlement within official narratives of the past in Chubut Province, Argentina. This not only includes the products of the provincial state, but also those of other actors in Chubut society, including the Welsh community itself. In order to do this, the analysis will focus on interpretations produced over three periods: firstly, between the

[1] Hoffwn ddiolch i Walter Ariel Brooks am gyfieithu'r erthygl hon o'r Sbaeneg i'r Gymraeg. Mae ei feistrolaeth ar y ddwy iaith, yn ogystal â'i wybodaeth fanwl o hanes y Wladfa Gymreig ym Mhatagonia, yn ei wneud yn ddelfrydol ar gyfer y dasg hon.

Coleg Cymraeg Cenedlaethol
ISSN: 1741-4261
http://gwerddon.cymru

1930s and 1955, when Chubut was a national territory; secondly, a portion of the first years of the existence of Chubut Province between 1958 and 1975; and finally, between the 1980s and the present, with particular attention given to the celebrations of the hundred and fiftieth anniversary of the landing of the first settlers in 2015. The changes observed between different historical narratives, as well as the elements of continuity between them, are also considered. Throughout these three periods, it is shown that official narratives of Chubut's past have placed the history of Welsh colonization as a cornerstone for the establishment of the province, giving it a hegemonic role.

**Key words:** History, memory, official narratives, the Welsh settlement, Chubut, Patagonia, Argentina.

## 1 Rhagarweiniad

Fore 28 Gorffennaf 2015, yn y twyni ger arfordir Porth Madryn, anerchodd Rhaglaw[2] talaith Chubut, Martín Buzzi, y gynulleidfa a gymerai ran yn un o ddigwyddiadau canolog dathliadau'r canmlwyddiant a hanner ers dyfodiad y gwladfawyr cyntaf o Gymru i Batagonia. Yn ei araith, pwysleisiodd bwysigrwydd y digwyddiad hwnnw, gan gadarnhau bod ymdeimlad o gyfiawnder ac ysbryd democrataidd y gwladfawyr wedi helpu i osod sylfeini'r dalaith. Drwy gydol ei araith, pwysleisiodd y berthynas heddychlon a chynhyrchiol rhwng y gwladfawyr a'r bobl frodorol, gan ei hystyried yn sylfaen i'r hyn a alwodd yn 'DNA Chubut'.

Cynhwysai'r dathliadau hyn gyfres o ddigwyddiadau diwylliannol o faintioli nas gwelwyd erioed o'r blaen yn y dalaith, lle y cafwyd llwyfaniad o naratif o orffennol y dalaith a oedd, er gwaethaf y pwyslais ar amrywiaeth ethnig Chubut, hefyd yn adlewyrchu'r hegemoni sydd gan yr hanes a'r diwylliant Cymreig wrth feddwl am orffennol y dalaith. Mae'r enghraifft ddiweddar hon yn caniatáu inni holi'n hunain am y rhan y mae'r gwladychu Cymreig wedi ei chwarae yn naratif swyddogol gorffennol Chubut dros amser, a sut y'i defnyddiwyd yn gyhoeddus ac yn wleidyddol.

Ers i Jurgen Habermas (1988) roi sylw i ddefnydd cyhoeddus y gorffennol, mae'r persbectif ymchwil hwn wedi datblygu'n anochel o fyfyrdod ar rôl hanes – a haneswyr – yn y gyhoeddfa (*pubic sphere*), yn enwedig o ran adeiladu gorffennol sy'n cynrychioli pob cymuned wleidyddol, boed yn wlad neu, fel yn yr achos hwn, yn dalaith. Bu haneswyr yn weithgar yn yr hyn a alwodd Hobsbawm a Ranger (1983) yn 'ddyfeisio traddodiad' gyda'r nod o sefydlu sail ddiwylliannol gyffredin ar gyfer y 'cymunedau dychmygol' hyn (Anderson 1983).[3]

Ochr yn ochr â hyn, mae Benedetto Croce (1917) wedi datgan mai 'hanes cyfoes yw pob hanes', gan awgrymu mai'r problemau sy'n gynhenid (*inherent*) mewn ymchwil hanesyddol yw'r rhai sy'n endemig i'r cyfnod y mae'r hanesydd yn byw ynddo. Mae hyn yn golygu y bydd

[2] Defnyddir y ffurf 'Rhaglaw' yn hytrach na 'Llywodraethwr' ar gyfer *Gobernador* y Sbaeneg (neu *Governor* y Saesneg) drwy gydol yr erthygl hon yn unol â'r hyn sy'n arferol ar lawr gwlad yn y Wladfa hyd heddiw.

[3] Noder bod dyfyniadau Saesneg a Sbaeneg yr erthygl hon wedi eu cyfieithu i'r Gymraeg.

rhai themâu yn cael eu trin ar adegau penodol, tra bo eraill yn cael eu tawelu, ond bydd y deongliadau hyn yn newid dros amser. Caiff y deongliadau hyn hefyd eu rhannu mewn modd torfol, gan ffurfio ymwybyddiaeth hanesyddol (Rüsen 2004) a gynhyrchir ac a atgynhyrchir mewn sawl ffordd. Mae'r wladwriaeth yn chwarae rhan ganolog yn y mynegiant hwn, trwy addysg, amgueddfeydd, areithiau cyhoeddus, dathliadau, digwyddiadau coffáu, gwyliau cyhoeddus, teyrngedau, diwydiannau diwylliannol neu dwristiaeth. Ond nid y wladwriaeth yw'r unig actor sy'n cymryd rhan yn y broses hon, gan fod actorion cymdeithasol eraill, unigol a thorfol, hefyd yn cymryd rhan weithredol (Grever ac Adriaansen 2017: t. 74). Mae'r defnydd cyhoeddus a gwleidyddol o'r gorffennol, yn y modd hwn, yn elfen gyfansoddol o'r ymwybyddiaeth hanesyddol hon – efallai mai dyma yw ei hamlygiad mwyaf blaenllaw.

Yn yr ystyr hwn, gellir cynnig bod hanes a chof y Wladfa Gymreig ers sefydlu'r wladwriaeth daleithiol yn Chubut wedi dod yn rhan flaenllaw o'r naratif swyddogol o orffennol Chubut a bod hyn wedi arwain at hegemoni'r diwylliant Cymreig o ran cynrychioli'r dalaith. Cyflwyna hyn, ar y naill law, gyferbyniad â'r darlleniadau o'r gwladychiad Cymreig yn ystod y cyfnod tiriogaethol (1885–1955). Ond hefyd, gwelwn rai newidiadau yn yr ymdriniaeth â gorffennol y Wladfa yn y cyfnod diweddarach, y gellir eu cysylltu â chyd-destunau gwleidyddol a diwylliannol y cyfnod a ddadansoddir, yn ogystal â'r actorion a fu'n ymwneud â chynhyrchu'r naratifau hyn.

Felly, amcan yr erthygl hon yw dadansoddi'r rôl a roddwyd i hanes y Wladfa o fewn y naratifau swyddogol o orffennol Chubut. I gyflawni hyn, canolbwyntir ar dri chyfnod penodol sydd yn amlygu newidiadau sylweddol yn ogystal ag agweddau sy'n aros yn ddigyfnewid: yn gyntaf, rhwng y 1930au a 1955, pan oedd Chubut yn diriogaeth genedlaethol; yn ail, cyfran o flynyddoedd cyntaf bodolaeth talaith Chubut rhwng 1958 a 1975; ac yn olaf, rhwng diwedd yr unbennaeth filwrol yn y 1980au a'r presennol, gyda ffocws ar ddathliadau'r canmlwyddiant a hanner (ers glaniad y gwladfawyr cyntaf) yn 2015, gan ystyried y newidiadau a welwyd rhwng naratifau hanesyddol gwahanol, yn ogystal â'r elfennau o barhad rhyngddynt. Trwy gydol y tri chyfnod hwn, dangosir bod naratifau swyddogol o orffennol Chubut wedi gosod hanes y gwladychu Cymreig yn gonglfaen ar gyfer sefydlu'r dalaith, gan roi rôl hegemonaidd i'r hanes hwn.

## 2 Darlleniadau o'r Wladfa o gyfnod y diriogaeth genedlaethol (1930–55)

Rhwng 1884 a 1955, gweinyddwyd Chubut, fel gweddill Patagonia, fel 'tiriogaeth genedlaethol'. Roedd y diffiniad hwn yn golygu bod hawliau gwleidyddol cyfyngedig gan drigolion y tiriogaethau, a phenodid y Rhaglawiaid gan Arlywydd yr Ariannin. Roedd datblygiad y wladwriaeth genedlaethol, yn sgil yr hyn a elwir yn 'goncwest yr anialwch',[4]

[4] 'Concwest yr anialwch' yw'r enw a roddir ar gyfres o ymgyrchoedd milwrol a gynhaliwyd gan fyddin yr Ariannin ym Mhatagonia, rhwng 1879 a 1884, gyda'r nod o ddarostwng y grwpiau brodorol a drigai yn y diriogaeth, ac felly ymestyn ffiniau'r wladwriaeth genedlaethol tua'r de. Arweiniodd yr ymgyrchoedd milwrol, a ddatblygodd ar ôl dyfodiad y Cymry, at ladd ac alltudio miloedd o bobl frodorol, yn ogystal â'u dadleoli a'u diarddel o'u tiriogaethau hanesyddol.

yn golygu difa'r poblogaethau brodorol, yn ogystal â dyfodiad mewnfudwyr, yn bennaf o Ewrop, i ymsefydlu a gweithio, gan ymgorffori Patagonia yn y model amaethyddol/allforio a ddatblygwyd gan yr *elites* cenedlaethol.

Yn negawd y 1920au, daeth diddordeb cenedlaethol newydd ym Mhatagonia i'r amlwg. Arweiniodd streiciau gweithwyr yn Santa Cruz ym 1921–22 at dynnu sylw'r cylchoedd cenedlaetholgar at yr angen i reoli'r tiriogaethau a ystyrid yn 'ardaloedd ffiniol' (*frontier*), rhai a nodweddid gan boblogaethau dosbarth gweithiol heb fawr o bresenoldeb gwladwriaethol. Wrth ystyried y tiriogaethau hyn fel man mynediad i elynion posibl y wladwriaeth, daeth 'Archenteiddio' eu poblogaethau'n flaenoriaeth i'r llywodraeth. Dadleua Navarro Floria a Nuñez (2012) fod y syniadau hyn yn ymwneud â phrosiect trefedigaethol mewnol a bod angen goresgyn y ffiniau gwleidyddol, dychmygol a disgyrsiol o hyd, er bod y diriogaeth eisoes wedi ei meddiannu drwy ei phoblogi. Ond yn ogystal, mae Barros (2007) yn cadarnhau bod trigolion y diriogaeth yn cael eu hystyried yn 'wleidyddol anaeddfed' a bod arnynt angen hyfforddiant o ran cael eu llywodraethu.

Yn y cyd-destun hwn, dechreuodd lleisiau gwahanol godi o'r tiriogaethau eu hunain, yn mynnu mwy o bresenoldeb gwladwriaethol, ond yn talu sylw i realiti Patagonia. Dyma gychwyn y llwybr i adeiladu 'hunaniaeth diriogaethol' ym Mhatagonia. Un ffordd o gyflawni hyn oedd trwy adeiladu naratif o orffennol y tiriogaethau, a fu'n sail i bwysleisio nodweddion rhanbarthol. Yn yr ystyr hwn, dylid ailystyried dau awdur y mae eu gweithiau yn fy marn i yn hanfodol wrth adeiladu naratif o'r gorffennol yn ystod y cyfnod hwn: Orestes Trespailhié a Lorenzo Amaya.

Roedd Orestes Trespailhié, a aned ym 1891, yn rhan o garfan o ddeallusion tiriogaethol a ddaeth fel athrawon i Chubut i weithio mewn amgylchedd lle'r oedd addysg yn cael ei hystyried yn un o brif adeiladwyr cenedligrwydd (Bertoni 2001). Ymgartrefodd yn Nhrelew yn y 1920au lle y gweithiodd fel athro hanes, gan ymroi i ysgrifennu ar bynciau amrywiol yn hanes Chubut, megis y gwladychu Cymreig, y gwladychu Sbaenaidd, a grwpiau brodorol. Cyhoeddai ei weithiau mewn cyfryngau amrywiol, megis adran Sbaeneg *Y Drafod*, lle y cyhoeddodd erthyglau ar ymfudiadau eraill i'r Ariannin. Mae Brooks (2012: tt. 215–17) yn cadarnhau bod Trespailhié wedi defnyddio ei gyhoeddiadau i ddiolch i'r Cymry am ddod â gwareiddiad i'r diriogaeth, gan ddileu anwareidd-dra ond, ar yr un pryd, ymgorfforodd hanes y gwladychu Cymreig yn naratif y broses o boblogi gwlad a fodolai ynghynt ac a oedd wedi croesawu'r gwladfawyr.

Daeth Trespailhié yn awdurdod ar hanes Chubut, yn enwedig yn ardal leol Trelew. Mewn erthygl Sbaeneg i goffáu Gŵyl y Glaniad a gyhoeddwyd yn *Y Drafod* yng Ngorffennaf 1926, pwysleisiodd yr angen i godi cofgolofn i'r Cymry, gan nodi:

> Mae'n rhaid bod gan yr 28ain o Orffennaf yr un ystyr i holl drigolion Chubut ag sydd gan y 25ain o Fai i'r Ariannin, gan fod y dyddiad hwn yn ein hatgoffa o'r dyddiad y dechreuodd y Diriogaeth gael ei hystyried yn rhan annatod o'r Byd Gwâr. (Trespailhié 1926: t. 3)[5]

[5] Fel yn achos y dyfyniad hwn, mae'r holl ddyfyniadau sy'n deillio o ffynonellau Sbaeneg wedi eu cyfieithu i'r Gymraeg er hwylustod i gynulleidfa Gymraeg yr erthygl hon.

Fodd bynnag, ei gyfraniad hanesyddol mwyaf arwyddocaol fyddai'r llyfr *Historia del Chubut* (Hanes Chubut), a gyhoeddwyd ym 1930. Mae'r cyhoeddiad hwn yn cynrychioli'r ymdrech gyntaf i adrodd hanes y diriogaeth mewn un gyfrol, gan adlewyrchu cysyniad o 'naratif mawreddog' rhanbarthol.

Rhennir y gwaith yn adrannau sy'n dechrau gyda disgrifiad o bobloedd frodorol Patagonia, a elwir 'y trigolion cyntefig'. Yn yr adran hon, cyfunir elfennau naturiol o amgylchedd Patagonia â nodweddion ei thrigolion. Roedd amlygu'r cysylltiad hwn rhwng pobloedd frodorol a natur yn arfer tra chyffredin yn llenyddiaeth y cyfnod.[6] Ar ôl disgrifio ymdeithiau Ewropeaidd amrywiol i'r diriogaeth, mae'r awdur yn mynd ati wedyn i adrodd hanes y Wladfa Gymreig, gan neilltuo traean o'r llyfr i hynny, gan ddechrau gyda dehongliad cryno o oruchafiaeth y Saeson dros Gymru, a'r defnydd o allfudo fel 'arf adweithiol yn erbyn cam-drin y buddugwr' (Trespailhié 1930: t. 30). Mae'r testun yn adrodd am y paratoadau a'r trafodaethau ar gyfer y daith, yn ogystal â dyfodiad y gwladfawyr i 'wlad yr addewid', y 'bererindod' i Ddyffryn Camwy a'u cyfarfyddiad cyntaf â'r bobl Tehuelche.

Er bod y Cymry yn cael eu cyflwyno fel unigolion rhinweddol a diwyd, y prif actor yn naratif Trespailhié yw gwladwriaeth yr Ariannin, gan ganolbwyntio mewn gwirionedd ar y gwrthdaro rhwng y wladwriaeth a'r gwladfawyr Cymreig. Cyfleir hyn, yn gyntaf, trwy ddangos anfodlonrwydd y gwladfawyr â'r awdurdodau, ac yn benodol â'r Comisiynydd Juan Finocchietto, ac yna drwy ddisgrifio'r gwrthdaro dros ymarferion milwrol ar y Sul,[7] lle y mae Trespailhié yn amlwg yn ochri â'r wladwriaeth. Mewn gwirionedd, mae'r awdur yn rhybuddio'n gyson am eu hamharodrwydd i ddod yn ddeiliaid i'r Ariannin, gan sôn am ymdrechion eu harweinwyr i ennill ymreolaeth, yn ogystal â chais y gwladfawyr i sefydlu eu hunain yn warchodaeth Brydeinig ym 1898.[8]

Yn y cyswllt hwn, mae Trespailhié yn ystyried ymweliad yr Arlywydd Roca â'r Wladfa ym 1900 fel rhybudd o'r angen i 'dorri'r mur Cymreig a sefydlwyd yn ystod ymsefydliad Chubut, gan chwistrellu gwaed cenhedloedd eraill [yn y rhanbarth]' (Trespailhié 1930: t. 48). Pwysleisia i fewnfudwyr Ewropeaidd newydd hyd yn oed, a oedd yn cynnwys 'hiliau Lladinaidd', gael eu gwrthwynebu gan y Cymry, 'pobl nad oeddent yn medru'r Sbaeneg ac a welai unrhyw dramorwr fel goresgynnwr posibl' (Trespailhié 1930: t. 48). Felly, cynrychiolir y prosiect Cymreig fel rhwystr i atgyfnerthu hunaniaeth Archentaidd, ond rhwystr a niwtraleiddiwyd drwy amrywio ethnigrwydd poblogaeth y Wladfa a thrwy weithredoedd y wladwriaeth.

Er hynny, ystyrir y Cymry yn weithredyddion (*agents*) sofraniaeth genedlaethol gan Trespailhié, yn bennaf oherwydd eu rôl ym mhleidlais Cwm Hyfryd ym 1902.[9] Amlygir

---

[6] Dadansoddir y pwnc hwn mewn mwy o fanylder yn astudiaeth ddiweddar Muse (2022).

[7] Gweler Brooks (2012: 157) am fanylion pellach am y gwrthdaro hwn.

[8] Gwrthodwyd y cais hwn am warchodaeth, dan arweiniad Thomas Benbow Phillips a Llwyd ap Iwan (mab Michael D. Jones), gan yr awdurdodau Prydeinig, gan eu bod yn cydnabod sofraniaeth yr Ariannin dros diriogaethau Patagonia. Am fanylion pellach am daith Phillips ac ap Iwan i Lundain ym 1898, gweler Barzini (2008).

[9] Yng nghyd-destun anghydfod am y ffin rhwng yr Ariannin a Chile, ar 29 Ebrill 1902, cynhaliwyd refferendwm yn ymsefydliad 16 de Octubre (Cwm Hyfryd neu Fro Hydref yng Ngodre'r Andes) fel y

eu hysbryd cydweithredol hefyd fel y grym a oedd wrth wraidd creu camlesi dyfrhau ac, yn ddiweddarach, Gwmni Masnachol y Camwy. Fodd bynnag, oherwydd y grefydd Brotestannaidd a'r 'defnydd o'u hiaith ecsotig yn ein gwlad', mae Trespailhié hefyd yn cymharu'r Cymry â'r gwladychwyr Böer a sefydlwyd yn ne'r diriogaeth,[10] ac yn rhybuddio: 'Daeth y ddau lif Patriarchaidd, â'u penaethiaid a'u harweinwyr, a dyma'r rheswm pam y mae ar luoedd Chubut angen rhywun i'w harwain ar frys, a'r rheswm hefyd am absenoldeb gweladwy unrhyw ysbryd o weithredu personol gonest a phenderfynol' (Trespailhié 1930: t. 60). Mae'r sylw hwn yn adlewyrchu'r disgwrs ar anaeddfedrwydd gwleidyddol poblogaeth y diriogaeth (h.y. y Cymry a'u disgynyddion), gan dynnu sylw at yr angen i'r wladwriaeth genedlaethol eu haddysgu. Er ei fod yn ystyried y ddau grŵp yn allweddol i boblogaeth Chubut, roedd yn amau eu gweithredEDD (*agency*) fel deiliaid hunanreolaethol, a allai eu llywodraethu eu hunain. O'r herwydd, barnai mai gwladwriaeth yr Ariannin yn unig a allai warantu eu goroesiad.

Roedd naratifau o orffennol cenedlaethol a rhanbarthol y cyfnod hwn yn tueddu i ganolbwyntio ar adeiladu'r genedl, ond hefyd ar unigolion yr ystyrid eu disgyrsiau a'u harferion yn 'ymgorfforiad' o wladwriaeth yr Ariannin. Felly, nid yw'n syndod mai un o'r prif lyfrau sy'n trafod themâu yn ymwneud â Chubut yn y cyfnod hwn yw *Fontana, el territoriano* (Fontana, y tiriogaethwr), gan Dr. Lorenzo Amaya, a gyhoeddwyd ym Muenos Aires ym 1935. Mae'r llyfr yn gofiant i'r Is-gyrnol Luis Jorge Fontana, Rhaglaw cyntaf tiriogaeth genedlaethol Chubut. Roedd Amaya yn gyfreithiwr a aned yn nhalaith Tucumán. Ymsefydlodd yn Esquel ym 1918, gan gael gafael ar gaeau a dod yn un o ffigurau allweddol yr elît lleol, yn llywydd y gymdeithas wledig leol ac yn gynrychiolydd yng Nghyngres y Tiriogaethau Cenedlaethol ym Muenos Aires, lle'r amddiffynnodd fuddiannau elît y tirfeddianwyr.[11]

Cyhoeddwyd y llyfr mewn rhediad argraffu cyfyngedig a chafodd ei gylchredeg yn bennaf ymhlith sectorau cenedlaetholgar y lluoedd arfog, gwleidyddiaeth genedlaethol a chylchoedd deallusol, fel yr amlyga'r clawr ôl, lle y ceir adolygiadau a ysgrifennwyd gan gynrychiolwyr o'r grwpiau hyn. Yn y llyfr, cyflwynir Fontana fel milwr, gwladweinydd, gwyddonydd a naturiaethwr, ac fe'i nodweddir fel 'Spartan newydd, gyda symlrwydd sy'n wirioneddol deilwng o un o arwyr Plutarch' (Amaya 1969: t. 18). Eisoes yn ei brolog, mae Amaya yn sefydlu Esquel fel ei fan llefaru (*place of enunciation*), ac yn gweld datblygiad a dyfodol y rhanbarth fel gweithred sy'n deillio'n uniongyrchol o weithgarwch Fontana.

Ar ôl adrodd hanes gweithgareddau Fontana yn nhiriogaeth Chaco, mae'r gyfrol yn mynd i'r afael â'i brofiad yn Chubut, gan gyflwyno naratif helaeth o hanes y Wladfa. Cyflwynir y

gallai ei drigolion Cymreig benderfynu pa genedl i berthyn iddi. Honnir felly iddynt ddewis dod yn ddinasyddion o'r Ariannin yn y diwedd. Er bod 'hanesyn' y refferendwm yn sail i ŵyl daleithiol heddiw, nid oes unrhyw ddogfennaeth ysgrifenedig i gefnogi cywirdeb y ffeithiau hyn, felly mae'n parhau i fod yn destun anghydfod ymhlith haneswyr.

10 Rhwng 1902 a 1908, ar ôl Ail Ryfel y Böer, ymsefydlodd tua 800 o'r Boëriaid ar dir a roddwyd gan dalaith yr Ariannin yn ne-orllewin tiriogaeth Chubut.

11 Heddiw fe'i cofir yn bennaf fel dyfeisydd y cynllun i amddifadu cymuned frodorol Nahuelpan o'u tiroedd ym 1937.

gwladfawyr fel cenedlaetholwyr Archentaidd, sy'n cofleidio democratiaeth Gogledd America, ac wedi eu hysbrydoli ganddi, mewn adwaith i'r gyfundrefn Seisnig ormesol, a hefyd fel unigolion hynod grefyddol, er gwaethaf eu Protestaniaeth. Mae Amaya yn edmygu ysbryd gweithgar a moesau'r Cymry, yn ogystal â'u gallu i ymaddasu i amgylchedd newydd, gan ddisgrifio cynllun y camlesi dyfrhau fel 'gwyrth'. Mae hefyd yn sôn am y berthynas gynnar â'r bobl frodorol, a ddiffinnir fel datblygiad 'sy'n broffidiol tu hwnt i'r gwladfawyr, ac a gyflwynodd y brodorion i fara' (ibid.: t. 34).

Er hynny, fel Trespailhié, mae Amaya yn ystyried presenoldeb y wladwriaeth yn y Wladfa yn angenrheidiol i 'ddofi' y trigolion newydd, a oedd eisiau rhywfaint o ymreolaeth.[12] Mae'r awdur yn atgyfnerthu'r angen hwn am ddomestigeiddio ac Archenteiddio gan ddefnyddio dyfyniadau awdurdodol gan deithwyr eraill, fel cynrychiolwyr disgyrsiau cenedlaetholgar chwarter olaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg, megis Francisco Pascasio Moreno[13] neu Eugenio Tello (ail lywodraethwr Chubut).[14] Dengys y dyfyniadau hyn ddarlleniad dwbl o'r Cymry. Ar y naill law, priodolir iddynt ymdeimlad cryf o gymuned a chapasiti i wneud gwaith sydd wedi caniatáu iddynt oroesi caledi 'anialwch' Patagonia. Ond ar y llaw arall, fe'u disgrifir fel cymuned sy'n gwrthod derbyn sofraniaeth gwladwriaeth yr Ariannin mewn unrhyw fodd, gan nodi bod y diffyg cydnabyddiaeth hwn – ac yn wir, absenoldeb y wladwriaeth – wedi effeithio ar ei thwf a'i datblygiad.

A dyma'n union lle y mae Amaya yn cyflwyno ffigwr Fontana fel yr un sy'n gallu cysoni sefyllfa'r ymsefydlwyr â'r wladwriaeth, wrth egluro: '... nid oedd neb yn gwybod sut i ddeall a phwyso a mesur gwerthoedd moesol lluosog y gymuned weithgar honno yn well na'r Rhaglaw Fontana ei hun' (ibid.: t. 33). I Amaya, Fontana sy'n llwyddo i fanteisio ar rinweddau'r gwladfawyr Cymreig drwy uno eu dyheadau â rhai'r wladwriaeth, gan gymeradwyo ac arwain taith trwy diriogaeth yr Andes ym 1885, taith a elwir yn 'Rifleros del Chubut' (yn llythrennol, Reifflwyr Chubut).[15] Mae Amaya yn adrodd sut yr oedd y gwladfawyr yn awyddus i ymgymryd â'r ymdaith, ond roedd angen ffigwr awdurdod i'w harwain, tasg y byddai Fontana yn ei

12 Yn hyn o beth, dadleuodd fel a ganlyn: 'roeddent yn dychmygu Patagonia (...) fel tir heb berchennog... Ac mewn gwirionedd mae rhesymau i dybio, ar sail gadarn, mai fel hynny y dylai'r gwladfawyr Cymreig cyntaf ar arfordir Iwerydd Chubut fod wedi ystyried y rhanbarth, nes i swyddogion y llywodraeth genedlaethol (...) ymsefydlu mewn modd sefydlog yn y tiroedd hynny, a gwneud iddynt deimlo, heb y llymder yr oeddent yn ei haeddu, beth oedd cwmpas sofraniaeth yr Ariannin yr oedd rhai afresymol yn esgus ei hanwybyddu' (1969: t. 29).

13 Mae'n cymryd yr ymadrodd hwn gan Moreno, a ysgrifennwyd ym 1875: '... mae pellter a breintiau honedig y wladychfa honno, nad oedd eisiau iaith arall heblaw'r Gymraeg, wedi ei chadw'n ynysig, ac fel pe bai wedi'i gwahanu oddi wrth boblogaethau'r Ariannin, na chofiai amdanynt ond pan deimlai anghenion. Nid yw arwahanrwydd mor hurt wedi dod ag unrhyw beth ond difrod iddi, a heddiw wrth i'w dyheadau leihau, mae'n ymddangos y bydd yn ffynnu' (Amaya 1969: t. 31).

14 Ystyrier y canlynol gan Tello: '... nid yw'r gymuned bwysig hon yn cael ei chymathu â neb... nid ydynt yn cyd-dynnu â gweithwyr cyhoeddus, yn sicr oherwydd nad ydynt wedi gallu ymestyn eu llywodraeth batriarchaidd nes sefydlu llinach goronog, yn ôl y croniclau hapus... Prin fod gan hyd yn oed y rhai a aned yn y wlad hon, plant y Cymry, yr ymdeimlad o genedligrwydd Archentaidd; deiliaid Seisnig ydynt yn y bôn ac nid yw rhai hyd yn oed yn gwybod sut i siarad yr iaith Sbaeneg' (Amaya 1969: t. 32).

15 Darparodd yr alltaith hon archwiliad cychwynnol o ran helaeth o diriogaeth Chubut, gan gynnwys ardal ymsefydliad Colonia 16 de Octubre, neu fel y'i gelwir yn Gymraeg, Cwm Hyfryd neu Fro Hydref yng Ngodre'r Andes, lle y byddai teuluoedd Cymreig yn ymgartrefu'n ddiweddarach.

chyflawni. Eto, mae angen rheoli ac amddiffyn y gwladfawyr rhag eu hysgogiadau eu hunain, a rhag eu 'hanaeddfedrwydd' eu hunain. Eglura'n ddiweddarach, yn wyneb dymuniad y Cymry i aros ar afon Senguerr i chwilio am aur, mai 'ewyllys gadarn Fontana a orfu i barhau â'r ymdaith' (ibid.: t. 59). Ond ar yr un pryd ag y mae'n disgrifio'r Cymry fel pobl bryderus a byrbwyll, mae hefyd yn edmygu eu hymaddasiad i'r amgylchedd, ac yn cydnabod eu cymeriad disgybledig. Mae Amaya o'r farn fod yr ymdaith yn 'cyfnerthu gwreiddiau diffiniol [y Cymry]' ac mae'n tynnu sylw at yr ymsefydlu yng ngwladfa'r Andes, yn enwedig refferendwm 1902, fel y foment pan ddaethant yn ddinasyddion Archentaidd o'r diwedd.

Yn ei baragraff olaf, mae Amaya yn cymharu ei fywyd ei hun â bywyd Fontana, gan ystyried bod y ddau yn rhannu 'enaid tiriogaethol', a phwysleisia'r tebygrwydd rhwng gweithredoedd Rhaglaw cyntaf Chubut a sectorau'r tirfeddianwyr, a oedd yn gofyn am bresenoldeb amlycach y wladwriaeth yn y tiriogaethau cenedlaethol. Mae'r defnydd hwn o'r gorffennol yn caniatáu iddynt ddilysu eu disgyrsiau a'u harferion, tra ei fod hefyd yn eu galluogi i ddehongli eu hunain fel prif gyfryngau datblygiad y tiriogaethau cenedlaethol, ond hefyd fel eu harweinwyr naturiol.

Roedd naratifau hanesyddol y cyfnod hwn yn canolbwyntio ar atgyfnerthu'r genedl-wladwriaeth fel cysyniad hanesyddol, gyda tharddiad pendant (a chwedlonol), a chyfres o draddodiadau, arferion ac elfennau cyffredin eraill a allai gynhyrchu ymwybyddiaeth gyfunol ymhlith y boblogaeth. Roedd y disgwrs hwn yn cynnwys yr elfen Gymreig fel un elfen yn y broses hon, ond nid yr un ganolog. Fodd bynnag, byddai hyn yn newid ar ôl 1955, gyda sefydlu talaith Chubut, a'r angen sydyn i greu naratif swyddogol o'i gorffennol.

## 3 Teyrngedau, areithiau a dathliadau: gorffennol y Wladfa ar ddechrau'r cyfnod taleithiol (1958 – 1983)

Ar 15 Mehefin 1955, penderfynodd y llywodraeth genedlaethol droi'r tiriogaethau cenedlaethol yn daleithiau, gan ddiddymu rhanbarth milwrol Comodoro Rivadavia[16] ac adfer hen ffiniau tiriogaeth Chubut. Fodd bynnag, gohiriodd yr unbennaeth filwrol, a ddymchwelodd yr Arlywydd Juan Domingo Perón yn yr un flwyddyn, y gwaith o greu'r endid gwleidyddol newydd tan tua chanol 1957. Yn y flwyddyn honno, ffurfiwyd y Cynulliad Cyfansoddiadol a oedd yn gyfrifol am ddrafftio cyfansoddiad y dalaith newydd. Ar agoriad y Cynulliad, cynigiodd sawl aelod cynulliad dalu cyfres o deyrngedau. Priodolwyd y gyntaf i'r rhai a ysgrifennodd gyfansoddiad cenedlaethol cyntaf 1853, a chyffelybwyd y garreg filltir genedlaethol hon i gamp daleithiol gyfatebol Chubut. Estynnwyd yr ail i'r rhai a gymerodd ran yn Chwyldro Rhyddhaol 1955, gan arysgrifio'r cynulliad, felly, â'r safbwynt gwleidyddol a ddymchwelodd Perón.[17] Yn olaf, cynigiwyd 'estyn y deyrnged i'r ymfudwyr

[16] Endid gweinyddol a grëwyd ym 1944 gyda'r diben o ddiogelu adnoddau olew yng nghyd-destun yr Ail Ryfel Byd. Roedd yn cynnwys parth deheuol Chubut a gogledd Santa Cruz, ac fe'i gweinyddwyd gan fyddin yr Ariannin.

[17] Mae'n werth tynnu sylw at y ffaith mai ym 1949, yn ystod arlywyddiaeth Perón, y gweithredwyd diwygiad yn y cyfansoddiad ond i hynny gael ei wrthdroi ym 1955 gan y llywodraeth filwrol a ddymchwelodd Perón.

Cymreig cyntaf a gyrhaeddodd Borth Madryn ym 1865, yn ogystal â grwpiau [eraill] o ymfudwyr a gyflawnodd goncwest Chubut ac a sicrhaodd ei datblygiad gyda dycnwch, ffydd a gwladgarwch' (*Diario de Sesiones de la Honorable Convención Constituyente* [Dyddiadur Sesiynau yr Anrhydeddus Gonfensiwn Cyfansoddol] 1957: t. 20).

Ystyrid y tair elfen hyn, felly, yn gonglfaen ar gyfer sefydlu'r dalaith ac fel sail i gymeradwyo'r cyfansoddiad a pheri iddo ddod yn weithredol. Ond roeddynt hefyd yn cyfeirio at dair elfen yr oedd angen eu rheoli: rhoddodd cyfansoddiad 1853 drefn i'r darnio cenedlaethol; dilëwyd Peronistiaeth fel grym gwleidyddol trwy *coup d'état* ym 1955, a llwyddodd y Cymry i ddofi'r diriogaeth ac, yn anuniongyrchol, frodorion Chubut. Mae'r naratif hwn yn wahanol i'r un a grybwyllwyd yn flaenorol, gan fod y Cymry bellach yn cael eu hystyried yn benseiri cenedligrwydd a 'gwareiddiad'.[18]

Roedd y gwladychu Cymreig yn Nyffryn Camwy hefyd yn chwarae rhan ganolog arall yn y Confensiwn Cyfansoddol: dyma oedd y brif ddadl dros gadw prifddinas y dalaith yn Rawson, yn lle trefi fel Esquel neu Comodoro Rivadavia, oherwydd bod y rhanbarth hwnnw o Chubut wedi ei ddiffinio fel 'lleoliad yr hanes' ('el lugar de la historia'). Parhaodd y disgwrs hanesyddol hwn trwy arferion y llywodraeth daleithiol gyntaf (dan raglawiaeth Dr. Jorge Galina), a etholwyd ym 1958, a sylweddolodd yn gyflym fod angen sefydlu naratif swyddogol o orffennol Chubut, yr hyn a gyflawnwyd trwy ddulliau gwahanol megis cofebau, dathliadau, cyhoeddiadau, yn ogystal â chreu'r ŵyl daleithiol gyntaf.

Ddeufis yn unig ar ôl ei benodiad i'w swydd, cymeradwyodd Corff Deddfwriaethol y Dalaith ddeddf yn datgan 28 Gorffennaf fel Gŵyl y Glaniad, 'dyddiad gwladgarol' cyntaf y dalaith a esgorodd ar galendr dinesig yn Chubut.[19] Roedd hynny'n gamp i'r gymuned Gymreig, a oedd wedi gwthio am hyn ers amser maith, er gwaethaf eu gwrthddywediadau mewnol.[20]

Yn ystod y sesiwn pan drafodwyd y gyfraith hon, cynigiodd yr aelod seneddol taleithiol Ferrari dalu teyrnged unwaith eto i'r gwladfawyr Cymreig. Yn ei araith, mae'n cysylltu prosiect y gwladychu Cymreig ag ehangu sofraniaeth y wladwriaeth ym Mhatagonia, gan ddiffinio'r gwladfawyr fel y rhai a 'boblogodd y tiroedd hyn a rhoi realiti newydd i ni ar gyfer ein mamwlad ddatblygol' (*Diario de Sesiones de la Honorable Legislatura del Chubut* [Dyddiadur Sesiynau Anrhydeddus Ddeddfwrfa Chubut] 1958: t. 695). Ymunodd aelod arall, Bruno, â'r deyrnged, gan dynnu sylw at bwysigrwydd y digwyddiad hwn i'r graddau

---

[18] Mae'r lle blaenllaw a roddwyd i'r Cymry, a'r sylw dilynol am 'lifoedd ymfudol eraill' hefyd yn atgynhyrchu elfen ganolog yn nisgyrsiau hunaniaeth Patagonia: rôl ddiwrthwynebiad yr arloeswr Ewropeaidd fel yr un sy'n sefydlu seiliau cymdeithas y dalaith a adeiledir.

[19] Er bod dathliadau'r ŵyl yn gymharol reolaidd, nid yw'n cael ei sefydlu fel gŵyl gyhoeddus ar hyd y diriogaeth yn ystod y cyfnod tiriogaethol, er gwaetha'r galw am statws o'r fath gan rai aelodau blaenllaw o'r Wladfa, megis Thomas Jones 'Glan Camwy', a'i diffiniodd fel 'gŵyl bwysicaf y diriogaeth' (Lublin 2014: t. 156).

[20] Ar y naill law, mae'r gymuned Gymreig ei hun, prif hyrwyddwr y dathlu, yn dehongli'r polisïau 'Archenteiddio' a ddatblygwyd gan y wladwriaeth genedlaethol ers y 1930au fel ymosodiad ar ei diwylliant ei hunan, ac fel adwaith i ganfyddiad o ymdeimlad 'gwrth-Archentaidd' y gymuned. Ond ar y llaw arall, mae'r naratif a gynhelir gan y wladwriaeth genedlaethol yn meddiannu hanes y Wladfa (Lublin 2014).

bod dyfodiad 'y garfan ddewr, ddiwylliedig a diwyd hon (...) wedi creu'r ddolen a'r cyswllt rhwng y canolfannau gwaraidd ac anialwch Patagonaidd a oedd tan hynny wedi ei boblogi yn gyfan gwbl gan frodorion lled-wyllt, gan gofio bod y Cymry wedi glanio a gwladychu cyn Ymgyrch yr Anialwch gan y Cadfridog Roca' (*Diario de Sesiones de la Honorable Legislatura del Chubut* 1958: t. 700).

Mae'r frawddeg ddiwethaf yn dangos ffordd newydd o ddehongli'r gwladychu Cymreig, gan bwysleisio pa mor eithriadol yw Chubut o fewn hanes Patagonia gan mai, yn yr achos hwn, nid y wladwriaeth sy'n cychwyn y broses o feddiannu'r tiriogaethau brodorol, ond yn hytrach y garfan fewnfudol hon. Ategir y darlleniad hwn yn ddiweddarach yn nheyrnged Bruno wrth iddo gadarnhau bod '... y dyffryn annwyl yr oedd y teuluoedd Cymreig wedi ymwreiddio ynddo, a drawsnewidiwyd yn baradwys fechan heulog drwy eu hymdrech a'u hymagwedd benderfynol, hefyd yn allbost gwareiddiad a oedd yn rhagflaenydd i'r rhai a ddatblygodd y Llywodraeth Genedlaethol i gryfhau sofraniaeth yn y diriogaeth a etifeddasom oddi wrth ein mamwlad, Sbaen' (ibid.: t. 700). Cyflwynir y wladwriaeth fel actor diweddar yn y broses o feddiannu'r gofod yn Chubut, a'r Cymry sy'n gwarantu sofraniaeth genedlaethol yn y diriogaeth ar sail darlleniad sy'n dehongli gweithred y Cymry, yn rhyfedd iawn, fel ymgais i atgyfnerthu'r prosiect trefedigaethol Sbaenaidd yr ystyrir yr Ariannin yn etifedd naturiol iddo.

Serch hynny, mae amseriad ailddehongli ac ailddiffinio'r digwyddiad hwn yn ymddangos mewn cydberthynas â statws Chubut fel talaith a sefydlwyd yn ddiweddar fel un ymreolaethol. Roedd Bruno'n datgan bod y gwladfawyr Cymreig yn haeddu '... diolch gan bobl talaith Chubut, a saif heddiw am y tro cyntaf fel endid ymreolaethol, dyhead a berthynai i'r gwladfawyr Cymreig cyntaf' (ibid.: t. 700). Dehonglir sylfaenu'r dalaith fel modd o wireddu'r freuddwyd o hunanlywodraeth a ddeisyfwyd gan Dadau'r ymsefydlu, breuddwyd yr amharwyd arni ac a wnaed yn amhosibl gan y wladwriaeth ganolog ar ddechrau'r 1880au, hyd at gwymp y llywodraeth Beronistaidd ym 1955. Os oedd y pwnc hwn yn peri amheuon am y Cymry yn y cyfnod tiriogaethol, ymddangosai bellach fel conglfaen y dalaith.

Parhaodd ail lywodraeth y dalaith, a arweiniwyd gan Roque González rhwng 1963 a 1965, â'r gwaith o feithrin symbolau ac ystyron gyda'r nod o ddiffinio hunaniaeth Chubut. Ym 1964, ar ôl galwad gyhoeddus, cymeradwyodd senedd y dalaith ddyluniad o arfbais y dalaith, a oedd yn cyfuno elfennau cynrychioliadol o ddatblygiad diwydiannol modern, a gynrychiolwyd gan argae Florentino Ameghino, â thywysen o wenith, a oedd yn symbol o gynhyrchiant amaethyddol y Cymry (gweler Ffigur 1).




Ffigur 1: Arfbais talaith Chubut
(Ffynhonnell: https://es.wikipedia.org/wiki/Escudo_de_la_provincia_del_Chubut).

Er hynny, roedd rôl gynhyrchiol y gymuned wedi newid yn sylweddol erbyn y cyfnod hwn: nid oedd y Wladfa y pŵer amaethyddol cynhyrchiol yr arferai fod. Mewn gwirionedd, ers y 1930au, roedd sefyllfa'r gymuned Gymreig wedi newid yn aruthrol: roedd methdaliad Cwmni Masnachol y Camwy, gwladoli'r Cwmni Dyfrhau ac amhosibilrwydd cystadlu ym maes cynhyrchu grawn yn erbyn cwmnïau mawr o Fuenos Aires wedi lleihau gallu cystadleuol a chynhyrchiol y gymuned (Glyn Williams 1991). Ar yr un pryd, yn sgil llifoedd ymfudol o rannau eraill o Ewrop ac Asia, yn ogystal ag o wledydd cyfagos ac o daleithiau eraill yn yr Ariannin, roedd y gymuned Gymreig bellach wedi troi'n lleiafrif ethnig o fewn tirwedd taleithiol amrywiol.[21]

Fodd bynnag, bu'r hwb symbolaidd a roddwyd i'r gymuned Gymreig gan y wladwriaeth hefyd yn gymorth i adfywio ei diwylliant ei hun. Enghraifft ganolog yw'r gefnogaeth a roddwyd i Gymdeithas y Camwy, a sefydlodd amgueddfa ranbarthol yn y cyfnod cychwynnol hwn o'r dalaith (y drydedd amgueddfa i fodoli yn y dalaith gyfan) gyda'r amcan o ddiogelu hanes y gwladychu. Dechreuodd y Gymdeithas gyhoeddi cylchgrawn o'r enw *Camwy*, a chyfrannodd hyd yn oed at ailagor yr ysgol uwchradd o'r un enw (Ysgol Ganolraddol y Gaiman gynt).

Er nad oedd y gymuned Gymreig bellach yn bŵer economaidd, gosododd y dalaith hi yn bwerdy diwylliannol. Roedd yr adfywiad hwn, a gyfrannodd at ennyn diddordeb newydd yng Nghymru ei hun yn y Wladfa, yn gymorth i gryfhau'r cysylltiadau rhwng y ddwy gymuned ar ddwy ochr yr Iwerydd, yn enwedig yn ystod dathliadau canmlwyddiant y Wladfa. Arweiniodd y ffactorau hynny at sbarduno bwrlwm coffadwriaethol.[22]

Roedd y canmlwyddiant ym 1965 yn fodd i uno buddiannau'r gymuned Gymreig, yn ogystal â sectorau eraill o gymdeithas Chubut, ag ewyllys gwleidyddol llywodraeth y dalaith, er mwyn atgyfnerthu dyfodiad y Cymry fel conglfaen i hanes y dalaith. Gosododd dathliadau 1965 y gwladychu Cymreig yn rhan ganolog o hanes a diwylliant y dalaith. Cynhaliwyd y dathliadau ar sawl diwrnod trwy gydol y flwyddyn, a chynhwysent ymweliad gan yr Arlywydd cenedlaethol Arturo Illia, cynrychiolwyr llywodraeth Prydain, yn ogystal â theithiau ymwelwyr o Gymru a elwid yn 'bererinion'. Dyfarnwyd y flwyddyn 1965 yn 'blwyddyn y canmlwyddiant' gan ddeddf daleithiol hyd yn oed (Lublin 2009: t. 72).

Yn yr Ariannin ac yng Nghymru, cyhoeddwyd cylchgronau a llyfrau a chynhyrchwyd rhaglenni radio a theledu. Cychwynnwyd ar broses o gyhoeddi ac ailgyhoeddi gweithiau clasurol ar y testun, a ysgrifennwyd gan rai o 'Dadau ymsefydlu' y Wladfa.[23] Cynhaliwyd nifer o ddarlithoedd ar hanes y Wladfa yn Chubut ac yng Nghymru, gyda siaradwyr fel Matthew Henry Jones, Luis Feldman Josín, Virgilio Zampini ac R. Bryn Williams yn eu

---

[21] Am fanylion pellach, gweler Devoto (2003).

[22] Digwyddodd hyn ochr yn ochr ag adfywiad yn hunaniaeth wleidyddol a diwylliannol Cymru ei hun, a ddefnyddiodd y Wladfa fel drych, fel yn achos Saunders Lewis a'i araith hirhoedlog ei hapêl, 'Tynged yr iaith', lle y mae'n achwyn am y modd yr aeth prosiect 'chwyldroadol Michael D. Jones' i ebargofiant bron (Lewis 1983 [1962]: t. 135).

[23] Esgorodd cyhoeddiad arall, a ganolbwyntiai ar hanes a phensaernïaeth y capeli Cymreig yn Nyffryn Camwy a Chwm Hyfryd, ar ddarlleniad o safbwynt treftadaeth yr adeiladau hyn, a ystyrir heddiw ymhlith yr enghreifftiau mwyaf nodedig o ddiwylliant materol y gymuned Gymreig.

plith.[24] Ar y llaw arall, adfywiwyd yr Eisteddfod yng nghyd-destun y canmlwyddiant ac, ar ôl cyfnod o beidio â'i chynnal am sawl blwyddyn, fe'i cynhaliwyd yn ddi-dor hyd heddiw. Hefyd, gosodwyd cofebau a phlaciau yn coffáu'r Cymry ledled y dalaith, gydag agoriad cofeb Puerto Madryn yn un o'r prif ddigwyddiadau a fynychwyd gan Arlywydd yr Ariannin, Arturo Illia, a Rhaglaw'r dalaith, Roque González.

Fodd bynnag, roedd areithiau González ac Illia'n cyflwyno darlleniad newydd o orffennol y dalaith, gyda phwyslais ar adennill a chyfnerthu'r cof am y berthynas heddychlon rhwng y brodorion a'r Cymry, a ystyriwyd yn ffactor allweddol yn natblygiad y dalaith. Roedd yn yr areithiau resymeg ddatblygiadol a hyrwyddwyd gan y llywodraeth, a chyflwynwyd y cydfodoli dechreuol hwn fel amod i hwyluso proses economaidd Chubut. Roedd y drafodaeth hon wedi ei dilysu gan bresenoldeb cynrychiolwyr y bobloedd frodorol, a ymestynnai'r gydfodolaeth heddychlon hon o'r gorffennol i'r presennol, o leiaf yn symbolaidd. Atgyfnerthwyd y weithred hon gan gofebion i'r Tehuelches, a leolwyd ychydig fetrau o safle glanio'r gwladfawyr cyntaf ym 1865.[25]

Fodd bynnag, ni chafodd y darlleniad penodol hwn o'r gorffennol ei atgyfnerthu tan yn ddiweddarach. Golygai cyfres o newidiadau gwleidyddol y byddai'r Rhaglaw González yn cael ei uchelgyhuddo yn yr un flwyddyn, y byddai'r Arlywydd Illia yn cael ei ddisodli mewn *coup d'état* ym 1966, ac y byddai'r llywodraeth filwrol newydd yn ceisio adfer ffyrdd ceidwadol o ddarllen a defnyddio'r gorffennol.

## 3.1 Printio'r gorffennol: hanesyddiaeth y Wladfa rhwng 1958 a 1975

Fel yng nghyfnod y tiriogaethau, chwaraeodd ysgrifennu hanes ran ganolog yn y gwaith o adeiladu gorffennol y dalaith – hyd yn oed yn fwy nag yn yr un blaenorol – a chwaraeodd y wladwriaeth ran ganolog yn y broses hon hefyd. Darparodd Cyfarwyddiaeth Gyffredinol Diwylliant ac Addysg Talaith Chubut fforwm cynnar ar gyfer cynhyrchu darlleniadau o'r gorffennol. Y cyfarwyddwr cyntaf oedd Virgilio Zampini, athro a llenor â chysylltiad cryf â'r gymuned Gymreig, a gyflwynodd gyfres o syniadau a chamau gweithredu wedi eu hanelu at ddatblygu 'bywyd diwylliannol' yn Chubut. Mewn cyfweliad yn 2003, nododd Zampini mai un o brif weithredoedd llywodraeth gyntaf y dalaith dan arweiniad y Rhaglaw Jorge Galina (1958–1962) fu canolbwyntio ar 'gryfhau ein hymwybyddiaeth hanesyddol fel sail hunaniaeth Chubut' (Ibarra 2003: t. 123).

Yn y cyfnod cynnar hwn, cyhoeddodd y Gyfarwyddiaeth nifer fechan o gylchgronau a phamffledi ac roedd rhai ohonynt yn ymdrin â phynciau hanesyddol. Fodd bynnag, canolbwyntiodd cynhyrchu llenyddiaeth hanesyddol bron yn gyfan gwbl ar hanes y gwladychu Cymreig, yn gyntaf trwy gyhoeddi cylchgrawn o'r enw *Primeras páginas de historia del Chubut* (Tudalennau cyntaf hanes Chubut). Roedd y rhifyn cyntaf (a hyd y gwyddom, yr unig un), a gyhoeddwyd ym 1958, yn cynnwys erthygl o'r enw 'Un capítulo de la historia del Chubut'

---

[24] Mae'r gweithgareddau hyn yn ymddangos yn rhaglen swyddogol dathliadau'r canmlwyddiant.

[25] Ychydig fetrau o'r man hwn yn union y traddododd Buzzi yr araith y soniwyd amdani ar ddechrau'r erthygl hon.

(Pennod yn hanes Chubut), a ysgrifennwyd gan Orestes Trespailhié y soniwyd amdano uchod. Neilltuwyd y rhifyn hwnnw'n gyfan gwbl i hanes y gwladychu Cymreig, yn ogystal â chopïau o gyfres o lythyrau ac adroddiadau swyddogol yn cyfeirio at flynyddoedd cynnar y Wladfa.

Ailymwelwyd â'r thema hon ym 1961, mewn llyfr o'r enw *Semblanza y evocación de la gesta galesa en Chubut* (Braslun cofiannol ac atgofion am yr orchest Gymreig yn Chubut), a ysgrifennwyd gan Frances Evelyn Roberts a Tegai Roberts. Yn wahanol i destunau'r cyfnod tiriogaethol, y Cymry yw'r prif actorion yma, ac mae'r llyfryddiaeth a ddefnyddir yn cynnwys awduron Cymreig yn unig. Mae'r wladwriaeth yn actor eilradd, a darllenir y gwrthdaro a oedd yn datblygu ynglŷn â hunanlywodraeth o safbwynt y Cymry, gan ddisgrifio gweithredoedd y Comisiynydd Murga fel rhai 'gormesol'. Y tu hwnt i'r bennod hon, mae'r testun yn cyflwyno naratif cytûn heb wrthdaro, gan bwysleisio'r caledi a ddioddefwyd gan y gwladfawyr, a llwyddiant economaidd, cymdeithasol, gwleidyddol a diwylliannol y Wladfa wedi hynny. Yn yr un modd, mae'n cydnabod unwaith eto bod ymsefydliad y Cymry yn Chubut yn gamp na lwyddodd gwladychwyr Sbaenaidd y cyfnod trefedigaethol i'w chyflawni.

Amlygwyd diddordeb llywodraeth y dalaith mewn dyfnhau astudiaethau hanesyddol o Chubut hefyd pan gymeradwyodd ddeddf i sefydlu 'Bwrdd Astudiaethau Daearyddol a Hanesyddol Chubut' ym 1960 fel rhan o'i Chyfarwyddiaeth Diwylliant ac Addysg. Fodd bynnag, ni fyddai'r endid hwn yn cael ei ffurfio tan 1967, o fewn fframwaith hinsawdd wleidyddol awdurdodaidd. Ni fyddai'n dibynnu ar lywodraeth y dalaith, ond yn cael cefnogaeth ganddi, a byddai'n cynnwys ffigurau cyhoeddus amrywiol o feysydd gwleidyddiaeth, diwylliant a'r cyfryngau taleithiol (Guillermo Williams 2020). Roedd ei haelodau yn hanu o Chubut, Buenos Aires a thaleithiau eraill ym Mhatagonia. Ychydig ohonynt oedd yn haneswyr academaidd – roedd y rhan fwyaf ohonynt yn awduron, yn athrawon, yn offeiriaid, yn newyddiadurwyr, neu'n aelodau o'r lluoedd arfog. Cymerodd aelodau o'r gymuned Gymreig ran hefyd, megis Irma Hughes de Jones, Frances Evelyn Roberts a Virgilio Zampini ei hun.

Cynhaliodd y Bwrdd gynhadledd, lle y cyflwynwyd un ar bymtheg o bapurau. Ymhlith y prif bynciau yr oedd y gwladychu Cymreig, ond hefyd y presenoldeb Sbaenaidd a Chatholig yn Chubut, gan adlewyrchu natur genedlaetholgar, geidwadol a Chatholig y disgwrs cyfoes ar hunaniaeth genedlaethol. Adlewyrchwyd hyn yn yr araith agoriadol a ddarllenwyd gan y llywydd Luis Feldman Josin, lle y dywedodd fod 'hanes talaith Chubut yn rhagflaenu ymsefydliad parhaol dinas Buenos Aires ac, o'r herwydd, [mai] hi yw'r gyntaf yn y wlad'. Trwy hynny, pwysleisiodd rôl gwladychu Sbaen fel pwynt cychwynnol yn hanes Chubut, ond gan ddangos hefyd mai 'y tri phasiant mwyaf yn Chubut yw: 28 Gorffennaf 1865, pan gyrhaeddodd y Cymry; 25 Tachwedd 1885 pan ddarganfuwyd dyffryn Colonia 16 de Octubre [h.y. Cwm Hyfryd neu Fro Hydref yng Ngodre'r Andes] a 13 Rhagfyr 1907, pan ddaethpwyd o hyd i olew [yn ardal Comodoro Rivadavia yn ne'r dalaith]' (*Cuadernos de Historia del Chubut* (AAVV 1968: t. 13)).

Llywydd anrhydeddus y gyngres oedd neb llai na Lorenzo Amaya, awdur *Fontana, el territoriano* (Fontana, y tiriogaethwr), a oedd erbyn hynny yn cael ei ystyried yn ffigwr sylfaenol yn hanesyddiaeth Chubut. Yn ei araith pwysleisiodd fod 'yn Chubut... hanes parhaus o ddynion rhinweddol a roddodd eu holl ymdrechion a'u gallu o blaid y rhanbarth

yn eu cyfnod hwy' (yn *Cuadernos de Historia del Chubut* (AAVV 1968: t. 13)). Defnyddiodd ffigyrau megis Lewis Jones a Fontana fel enghreifftiau o'r unigolion hynny a adeiladodd diriogaeth Chubut, ond nododd ei hunan hefyd fel 'dyn rhinweddol', fel y gwnaed yn ei lyfr.

Ymddangosodd rhai o'r papurau a gyflwynwyd yn y gynhadledd yn y *Cuadernos de Historia del Chubut* (Llyfrynnau Hanes Chubut), sef cyfres o saith rhifyn a gyhoeddwyd gan y Bwrdd rhwng 1968 a 1971. Roedd yr erthyglau'n canolbwyntio ar ymdriniaeth y Wladfa â gwahanol bynciau. Mae'r gyntaf, a ysgrifennwyd gan Virgilio Zampini dan y teitl 'Significación de la colonización galesa en el desarrollo del Chubut' (Arwyddocâd y gwladychu Cymreig yn natblygiad Chubut), yn cyflwyno 'gorchest y Cymry' fel 'y ffactor tyngedfennol yn anheddiad Chubut, sy'n gosod y sylfeini ar gyfer ei datblygiad gwleidyddol, economaidd a diwylliannol' (*Cuadernos de Historia del Chubut* (AAVV 1968: t. 22)). Unwaith eto, sefydlir cysylltiad rhwng y testun hwn a chyfansoddiad y dalaith, yr oedd iddo '...flas brwdfrydedd dinesig ac awydd y gwladfawyr cyntaf am ymreolaeth' (ibid.: t. 23).

Mae'r ail erthygl, a ysgrifennwyd gan Feldman Josín, yn cyflwyno adolygiad hanesyddol o ddyfrhau yn Chubut, a gyflwynir fel 'antur'. Mae Feldman Josín yn cynnal y naws epig hon, hyd at gadarnhau bod y gwladfawyr '... wedi adeiladu'r dalaith orau yn yr Ariannin, oherwydd ysbryd ei thrigolion, eu dyfalbarhad, eu hysbryd o fentergarwch a'u parch at y deddfau sy'n deillio o bobl ryddion sy'n caru rhyddid ac yn ei addoli' (ibid.: t. 43).

Mae newyddiaduraeth ac addysg ymhlith y prif bynciau a drafodwyd yn y gynhadledd, sy'n adlewyrchu trywydd gyrfa Feldman Josín ei hun, yn ogystal â chyfranogwyr eraill. Mae un ohonynt yn cyflwyno cronicl o ddathliad canmlwyddiant y papur newydd *Y Brut*, y papur newydd cyntaf yn y diriogaeth, a ymddangosodd yn y Wladfa ym 1868. Mae erthygl arall ar yr un pwnc o'r enw 'Reseña histórica del periodismo en Chubut' (Adolygiad hanesyddol o newyddiaduraeth yn Chubut), lle'r adroddir hanes papurau newydd Cymraeg, gan ganolbwyntio'n arbennig ar waith Richard Jones Berwyn, athro cyntaf y Wladfa a sylfaenydd papur newydd *Y Brut*.

Mae un o'r erthyglau olaf yn cofnodi ymdrechion y Bwrdd i sicrhau bod Ysgol Genedlaethol 18 Colonia 16 de Octubre (ymsefydliad Cwm Hyfryd neu Fro Hydref yng Ngodre'r Andes), lle y cynhaliwyd y refferendwm ym 1902, yn cael ei hystyried fel man hanesyddol. Esgorodd yr ymateb negyddol i'r cais gan y Comisiwn Amgueddfeydd, Henebion a Lleoedd Hanesyddol Cenedlaethol ar alwad am 'gyfiawnder hanesyddol' gan y Bwrdd.

Tra bo rhai o'r erthyglau hyn wedi eu cyhoeddi yn y *Cuadernos de Historia del Chubut*, neilltuwyd dau o'r rhifynnau ar gyfer ailgyhoeddi llyfrau a oedd allan o brint. Y cyntaf ohonynt yw *Fontana, el territoriano* gan Lorenzo Amaya.

Ni chyhoeddwyd y rhifynnau hyn tan 1971, pan fu farw Feldman Josín, y prif hyrwyddwr. Parhaodd Zampini i ysgrifennu ar bynciau hanesyddol, gan gyhoeddi mewn papurau newyddion lleol, llyfrynnau ar gyfer sefydliadau diwylliannol a phamffledi swyddogol, hyd yn oed, ar gyfer tywyswyr twristaidd.[26] Fodd bynnag, ym 1975, mae Zampini yn cyhoeddi'r

[26] Noder bod modd cael gafael ar un o'r rhain heddiw yn Amgueddfa Hanes Ranbarthol y Gaiman (Museo Histórico Regional de Gaiman).

gyfrol *Chubut: breve historia de una provincia argentina* (Chubut: hanes byr talaith Archentaidd), lle y mae'n cadarnhau cronoleg o orffennol Chubut, gan ddechrau gyda dyfodiad yr archwilwyr Sbaenaidd, gyda'r Cymry ac yna'r wladwriaeth yn atgyfnerthu'r ymdrechion hynny. Unwaith eto, mae pobloedd frodorol yn cael eu gwneud yn anweledig yn y stori hon.

Yn ystod unbennaeth filwrol 1976–1983, daeth hanes Chubut yn rhan o gwricwlwm yr ysgol gynradd, gan ymsefydlu fel pau arall lle y mae hanes swyddogol y gorffennol yn cael ei atgynhyrchu. Trefnwyd cynnwys cwricwlwm ysgolion gan Zampini, fel bod y gronoleg a gynigir yn ei lyfr a grybwyllwyd uchod yn ffurfio fersiwn swyddogol ysgolion o orffennol Chubut.[27]

## 4 Yr hirdaith i'r canmlwyddiant a hanner a'i adladd

Gan ddechrau yn y 1980au, gwelwn gyfres o newidiadau yn y ffyrdd yr ystyrir yr hanes a'r diwylliant Cymreig gan y wladwriaeth daleithiol. Ar y naill law, fel yr esbonia Coronato a Jones (2012), gorfododd cyd-destun Rhyfel y Falklands/Malvinas y gymuned Gymreig i symud i ffwrdd oddi wrth gysylltu ei hunaniaeth â'r elfen 'Brydeinig', gan wahanu'r cysylltiad hwnnw â'r hyn y mae 'bod yn Gymry' yn ei gynrychioli ac, ar yr un pryd, gadarnhau hunaniaeth Archentaidd (Coronato a Jones 2012: t. 40). Ar ôl i ddemocratiaeth ddychwelyd i'r Ariannin, ymdrechodd llywodraeth Carlos Menem (1989–1999) i wella'r cysylltiadau diplomyddol rhwng yr Ariannin a'r Deyrnas Unedig, ac ystyriwyd bod y Wladfa Gymreig yn cynrychioli cyswllt heddychlon (yn hanesyddol ac yn y presennol) rhwng y ddwy wlad.

Ar y llaw arall, roedd y diwydiant twristiaeth yn dechrau datblygu yn Chubut, gyda chefnogaeth gref y wladwriaeth, a chyflwynwyd rhai o elfennau nodedig y diwylliant Cymreig fel prif atyniadau diwylliannol y dalaith.[28] Serch hynny, fel yr esbonia Lublin (2009: t. 72), y tu hwnt i'r gefnogaeth swyddogol a roddwyd gan y wladwriaeth, ystyriwyd ei bod yn argyfwng ar ddiwylliant Cymreig Patagonia yn y cyfnod hwn.

Bu ymweliad y Dywysoges Diana â'r Wladfa ym 1995 yn fodd i ddangos rywsut y ddwy broses hyn ar waith, oherwydd iddo helpu i gryfhau'r berthynas hon, tra ei fod ar yr un pryd yn dystiolaeth o'r broses o droi diwylliant Cymreig Patagonia yn dreftadaeth, lle y deuai rhai elfennau megis y capeli, y tai te neu'r Eisteddfod yn atyniadau allweddol o safbwynt twristiaeth ddiwylliannol yn Chubut (Lublin 2009).

Ffactor arall i'w ystyried yw sefydlu elfen o hunanlywodraeth yng Nghymru ar ffurf Cynulliad datganoledig (Senedd Cymru bellach), a arweiniodd at ddiddordeb newydd rhwng y ddwy gymuned, gan ailddechrau a hybu cyfnewid sy'n cryfhau cymuned Gymreig Chubut

[27] Darn o wybodaeth arwyddocaol yw absenoldeb astudiaeth o bobloedd frodorol yn y cynnwys cwricwlaidd, a ddatryswyd o ddechrau'r 1980au ymlaen yn sgil gweithredu anffurfiol (gan mai'r man cychwyn oedd yr athrawon eu hunain yn dechrau ei ddefnyddio, nid trwy orchmynion y Cyngor Addysg Taleithiol) ar ffurf y gwerslyfr *Chubut mi provincia* (Chubut fy nhalaith).

[28] Gellir gweld hyn trwy ddadansoddi gwahanol bamffledi a hysbysebion twristaidd y cyfnod.

hyd heddiw, yn enwedig o safbwynt ei datblygiad diwylliannol (Johnson 2009; 2010).[29] Mae'r adfywiad cynyddol hwn o orffennol Cymreig yn dal i'w amlygu ei hunan yn yr unfed ganrif ar hugain, gyda chreu gŵyl daleithiol arall yn 2002 i goffáu refferendwm 30 Ebrill 1902 yng Nghwm Hyfryd.

Mae degawd cyntaf yr unfed ganrif ar hugain wedi sbarduno adnewyddiad ym maes hanesyddiaeth am y Wladfa, gan ddenu haneswyr academaidd ac anacademaidd, o Chubut ac o rannau eraill o'r Ariannin, a hefyd o Gymru a gweddill y byd. Mae deongliadau a fframweithiau damcaniaethol newydd wedi caniatáu inni ehangu ein gwybodaeth o hanes y Wladfa, gan ei gysylltu â chyd-destun ehangach y diaspora Cymreig yn rhyngwladol, neu hyd yn oed ei ystyried o safbwynt rhesymeg ôl-drefedigaethol.[30] Yn y cyswllt hwn, roedd Foro Internacional sobre los Galeses en la Patagonia (Fforwm Rhyngwladol am y Cymry ym Mhatagonia), a gynhaliwyd ym Mhorth Madryn ers 2002, yn fan canolog lle'r oedd yr holl naratifau hyn yn cydfodoli.[31] Cafwyd hefyd ystod eang o gyhoeddiadau yn amrywio o erthyglau a chyfrolau academaidd arbenigol i lyfrau hanes poblogaidd,[32] gyda'r math olaf â'r nod o ledaenu hanes y gwladychu Cymreig ar lefelau rhanbarthol a chenedlaethol, yn ogystal â chynnig darlleniad i'r gymuned Gymreig ei hun.[33]

## 4.1 'Glaniasant yma i aros': y canmlwyddiant a hanner

Darparodd y cyfnod cyn y dathliadau y cyfle i greu coffadwriaeth newydd yng nghymuned Gymreig Chubut, a gafodd ei wireddu yn nathliadau 2015 gyda chefnogaeth gan y llywodraethau cenedlaethol a thaleithiol yn ogystal â chan Lywodraeth Cymru. Fel ym 1965, bu llawer o ddigwyddiadau, er ar raddfa sylweddol fwy y tro hwn. Codwyd cofebion lluosog ledled y dalaith, a chynhaliwyd hefyd gyngherddau, dramâu a chynyrchiadau clyweledol yn yr Ariannin ac yng Nghymru.[34] Arweiniodd hyn hefyd at gynhyrchu hanesyddiaeth sylweddol, wedi ei chefnogi gan lywodraeth y dalaith a'i chyhoeddi gan Lyfrgell Canmlwyddiant a

---

[29] Mae'n werth cofio mai Llywodraeth Cymru (a'r Swyddfa Gymreig cyn 1999) fu ac yw prif gyllidwr Cynllun yr Iaith Gymraeg yn Chubut, prosiect sy'n hyrwyddo dysgu'r Gymraeg yn y Wladfa drwy anfon athrawon i Chubut, yn ogystal â myfyrwyr i Gymru. Gweinyddir y prosiect gan British Council Cymru.

[30] Ceir dehongliad rhagorol o'r elfen ddiwethaf ym maes astudiaethau am y Wladfa Gymreig yn F. Williams (2015).

[31] Yn ystod 20 mlynedd ei fodolaeth, mae'r cynnyrch a gyflwynwyd yn y fforwm hefyd wedi'i gyhoeddi yn y gyfres o lyfrau *Los Galeses en la Patagonia* (Y Cymry ym Mhatagonia).

[32] Enghreifftiau o gynnyrch academaidd fyddai Lublin (2009, 2017[a], 2017[b]), Taylor (2018, 2019), a Berg (2017). O ran ymdriniaethau mwy poblogaidd â hanes y Wladfa, gellir crybwyll yn benodol gyfrol Abdala et al. (2018).

[33] Yn ddiddorol, tuedda'r llyfrau hanes poblogaidd i fod yn rhai sy'n atgynhyrchu darlleniadau o'r Wladfa Gymreig sy'n rhyfeddol o debyg i ddatganiadau cyhoeddus y gorffennol a welsom yn cael eu defnyddio gan wahanol weithredyddion (*agents*) gwladol drwy gydol yr erthygl hon. Teg gofyn a oes gwrthwynebiad efallai i feddwl am safbwyntiau amgen a darlleniadau newydd o'r gorffennol, o bosibl gan fod y cynnyrch hwnnw yn y pen draw yn helpu i atgyfnerthu ymdeimlad o gymuned ymysg disgynyddion Cymreig, gan ddwyn i gof statws eu treftadaeth hanesyddol eu hunain wrth ffurfio'r dalaith.

[34] Yn eu plith, cafwyd y sioe gerdd *Mimosa*, y gosodiad dramatig {*150*} (a gyfarwyddwyd gan Marc Rees ac a lwyfannwyd yn Aberdâr), ymweliadau gan Gerddorfa Gymreig y BBC â Phatagonia, a dangosiadau o ffilmiau byr a nodwedd, ymhlith cynyrchiadau diwylliannol eraill (gweler hefyd 'Patagonia 2015: Y Dathlu ar Ddechrau', https://www.bbc.co.uk/cymrufyw/31043377, BBC Cymru Fyw 2015).

Hanner Tegai Roberts.[35] Hyd yn oed yn ystod 2015, roedd gan ddogfennaeth swyddogol Llywodraeth Chubut bennawd llythyr gyda logo dathliadau'r canmlwyddiant arno, yn cynnwys yr ymadrodd 'glaniasant yma i aros'.

Parhaodd dathliadau Gŵyl y Glaniad gyda chyfres o ddigwyddiadau a oedd eisoes wedi'u sefydlu fel 'traddodiadau' yn y blynyddoedd diwethaf megis ail-greu'r glaniad, gyda phwyllgor derbyn yn cynnwys cynrychiolwyr o gymunedau brodorol y dalaith (gweler Stella a Williams 2020). Roedd llywodraeth y dalaith, a oedd ers canol y 2000au yn cynnig disgwrs gwleidyddol a oedd â'r nod o amlygu tarddiad amlddiwylliannol poblogaeth Chubut mewn modd gweladwy,[36] yn anelu at feithrin hunaniaeth mewn talaith a ystyrid yn ddarniog, a gwelwyd y canmlwyddiant a hanner fel llwyfan perffaith ar gyfer meddiannu'r naratif hwn o'r gorffennol. Gan hynny, yn ei araith, dehonglodd y Rhaglaw Buzzi y berthynas heddychlon rhwng 'brodyr yr anialwch' fel moment sefydlu amlddiwylliannedd sy'n diffinio'r hyn a ddisgrifiodd fel 'DNA Chubut' (Guillermo Williams 2018: t. 325).[37] Unwaith eto, dilyswyd y darlleniad hwn gan bresenoldeb gweithredol y cymunedau brodorol yn y dathliadau, oherwydd i Angel Ñanco, *Lonko* (Pennaeth) y gymuned Mapuche Tehuelche Pu Fotum Mapu o Borth Madryn, ddarllen yr araith agoriadol, gan awgrymu agwedd gadarnhaol y llywodraeth tuag at y cymunedau brodorol.

Fodd bynnag, roedd y dathliadau hefyd yn cynnwys anghydfod ynghylch pwrpas ac ystyr y dathliadau i'r actorion lluosog a oedd yn ymwneud â hwy, yn enwedig i'r gymuned Gymreig, a welai elfennau o'r dathlu fel adfeddiad (*appropriation*) gwleidyddol o'u gorffennol eu hunain. Dim ond helpu i atgyfnerthu'r teimlad hwn a wnâi presenoldeb gwahanol arweinwyr gwleidyddol, undebau a swyddogion milwrol, yn ogystal ag ymweliad arfaethedig yr Arlywydd Cristina Fernández de Kirchner, a ganslwyd ar y funud olaf (gweler Stella a Williams 2020 am ddadansoddiad o'r tensiynau hyn). Bid a fo am hynny, dangosodd maintioli'r dathliadau fod rôl y gwladychu Cymreig yn parhau i fod â phresenoldeb hegemonaidd yn narlleniad gorffennol y dalaith, yn ogystal ag yn ffurfiant diwylliant cyfoes Chubut.

---

[35] Cyhoeddwyd yn 2015 gyfraniad arwyddocaol ym maes hanesyddiaeth fel rhan o'r casgliad hwn, sef y gyfrol *150 años de Y Wladfa* (150 o flynyddoedd y Wladfa), goln M. Gavirati ac F. Williams (2015).

[36] Mae'r safbwynt newydd hwn hefyd yn ymateb i ymddangosiad ac adfywiad hunaniaethau a diwylliannau brodorol yn yr Ariannin a Phatagonia, proses a gychwynnwyd pan goffawyd 500 mlynedd ers dyfodiad Columbus i America ym 1992, a'r dadleuon am ystyron concwest y cyfandir gan bwerau Ewropeaidd, yn enwedig yn eu perthynas â phobloedd frodorol.

[37] Roedd pob llyfr yng nghyfres Llyfrgell Canmlwyddiant a Hanner Tegai Roberts a grybwyllwyd eisoes (e.e. Gavirati a Williams 2015) hefyd yn cynnwys rhagair a ysgrifennwyd gan y Rhaglaw Buzzi, yn cyflwyno'n fyr y darlleniad swyddogol newydd hwn o orffennol Chubut a'r Wladfa. Honnir i'r seiliau ar gyfer Chubut fodern gael eu gosod gan wladwriaeth genedlaethol a oedd yn annog mewnfudo, ynghyd ag actorion cymdeithasol (y Cymry a'r brodorion) a oedd yn barod i gydfodoli'n heddychlon. Yn rhyfedd iawn, dadleuodd Buzzi yn y rhagair hwn hefyd fod integreiddiad y Cymry i fywyd cenedlaethol yr Ariannin yn sail ar gyfer cymathu poblogaeth Ynysoedd y Malvinas/Falklands i'r wladwriaeth yn y dyfodol.

### 4.2 Y tu hwnt i 2015

Ar hyn o bryd, yn y 2020au cynnar, mae naratif Buzzi o dalaith sydd wedi'i huno gan amlddiwylliannedd yn ymddangos fel atgof pell, gan fod y cyd-destun wedi newid yn sylweddol. Mae cytgord ymddangosiadol Chubut yn 2015 wedi ei ddisodli gan gyd-destun o argyfwng economaidd a chymdeithasol, gyda pherchnogaeth tir (wrth feddwl am honiadau cymunedau brodorol y diriogaeth) unwaith eto yn fater canolog (Ramos a Rodriguez 2020). Mae'r disgyrsiau cenedlaetholgar sy'n estroneiddio'r Mapuche, er iddynt gael eu tanseilio gan academyddion (gweler Delrío 2018), yn dod i'r amlwg ac yn dilysu polisïau'r wladwriaeth o ddifeddiannu'r brodorion a'u troseddoli, tra eu bod hefyd yn atgyfnerthu disgwrs yr arloeswr (nid Cymreig yn unig, ond Ewropeaidd yn gyffredinol) fel lluniwr cenedligrwydd y wlad a'r dalaith.[38] Mae'r gymuned Gymreig yn llwyr yng nghanol y tensiynau a'r anghydfod ynghylch y gwahanol ystyron uchod. Mae'r berthynas gadarnhaol a heddychlon â'r brodorion yn parhau i gael ei dathlu, ond fel ffaith o'r gorffennol.

## Casgliadau

Yn yr erthygl hon, gwelsom newidiadau yn ogystal ag elfennau o barhad yn y darlleniadau a gafwyd o hanes y Wladfa yn Chubut rhwng y tri chyfnod dan sylw. Drwy'r gwaith cymharol hwn, gwelwyd bod y prif newidiadau wedi digwydd o ganlyniad i droi 'tiriogaeth' Chubut yn un o daleithiau gwladwriaeth yr Ariannin rhwng 1955 a 1958.

Felly, yn y cyfnod pan oedd Chubut yn diriogaeth genedlaethol, cynrychiolwyd y Cymry fel cymuned yr oedd angen ei 'dofi' gan y wladwriaeth genedlaethol gan fod ganddynt ddyheadau am ymreolaeth (gwleidyddol, diwylliannol a chrefyddol), yn ogystal ag fel grŵp nad oedd yn gymwys i'w lywodraethu ei hunan (ac a oedd felly'n un yr oedd yn rhaid i'r wladwriaeth ei 'warchod').

Mae'r darlleniad hwn yn newid yn sylweddol gyda sefydlu talaith Chubut, lle y portreedir y Cymry fel grŵp sydd yn sylfaen i sofraniaeth a diwylliant taleithiol. Atgyfnerthwyd y darlleniad hwn yn y degawdau dilynol trwy wahanol ddulliau megis defodau coffaol (gyda'r canmlwyddiant yn eu plith yn brif ddigwyddiad coffa a ategai'r naratif hwn), gwyliau cenedlaethol, llunio hanesyddiaeth, y system addysg yn yr ysgolion, a thwristiaeth hyd yn oed. Ffaith berthnasol ar gyfer y cyfnod hwn yw cyfranogiad y gymuned Gymreig ei hun yn y gwaith o lunio naratifau, yn seiliedig ar weithiau rhai fel Roberts a Roberts (1961) a Zampini (1975).

[38] Ers 2016, gwelwyd cyfres o ddigwyddiadau o feddiannu tir a dadfeddiant, e.e. yn ardaloedd Cushamen, Chubut a Villa Mascardi, Río Negro, lle y mae grwpiau brodorol yn ceisio adennill tiroedd eu hynafiaid (neu'r rhai a roddwyd gan y llywodraeth genedlaethol), dim ond i gael eu troi allan gan luoedd diogelwch y wladwriaeth, a chyda chefnogaeth sectorau'r tirfeddianwyr. Yn ychwanegol at hyn, mae disgwrs hanesyddol, sy'n destun anfri ar hyn o bryd, sy'n honni bod y Mapuches yn dod o Chile, ac felly yn dramorwyr. Rhestrwyd rhai o'r grwpiau hyn fel sefydliadau terfysgol gan y wladwriaeth, gan droseddoli pobl frodorol i bob pwrpas. Mae'n werth egluro bod y cyfansoddiad cenedlaethol, ers 1994, yn cydnabod bodolaeth pobl frodorol cyn bodolaeth y wladwriaeth genedlaethol, felly mae estroneiddio grwpiau brodorol yn arfer anghyfansoddiadol. Am astudiaeth gynhwysfawr o sefyllfa bresennol a gorffennol y brodorion ym Mhatagonia, gweler Larson (2020).

Dangosodd dyfodiad y canmlwyddiant a hanner fod hanes y Wladfa Gymreig yn parhau i fod yn un o bileri canolog y naratifau swyddogol o orffennol y dalaith. Fodd bynnag, roedd naratif amlddiwylliannol llywodraeth y dalaith yn dehongli'r bennod hanesyddol hon, o safbwynt disgwrs, fel un ymhlith eraill sy'n ffurfio hanes a hunaniaeth Chubut. Er bod maint y dathliadau yn tystio i'r statws swyddogol a roddid i ddiwylliant a hanes Cymreig o fewn y naratifau swyddogol, dangosai presenoldeb grwpiau eraill, a oedd yn anweledig cyn hynny, fod y naratifau hegemonaidd hyn yn dechrau cael eu cwestiynu. Yn fwy diweddar felly, yn ystod y blynyddoedd a ddilynodd y canmlwyddiant a hanner, gwelwyd newidiadau mewn darlleniadau o'r gorffennol taleithiol, sy'n agor y posibiliadau ar gyfer dadansoddiadau dyfnach yn y dyfodol, mewn perthynas â'r gymuned Gymreig ac â grwpiau eraill sy'n rhan o gymdeithas a hanes Chubut.

Gan ddychwelyd at osodiad Croce (1917) mai hanes cyfoes yw pob hanes, rhaid i waith haneswyr, yn enwedig y rhai sy'n byw ac yn gweithio yn Chubut heddiw, fod yn feirniadol yn nau ystyr posibl y gair: rhaid iddo fod â lle amlycach mewn arddangosiadau (*manifestations*) cyhoeddus am orffennol y dalaith, ond rhaid iddo hefyd gynnig darlleniadau beirniadol, gan bwysleisio bod rhesymeg drefedigaethol yn treiddio drwy hanes Chubut a bod rôl y gwladfawyr Cymreig yn elfen annatod o'r stori honno.

## Llyfryddiaeth


AAVV (1968), *Cuadernos de Historia del Chubut*, rhif 1 (Junta de Estudios Históricos del Chubut, Trelew).

Abdala, A., et al. (2018), *Chubut, tierra de arraigos: Mirando hacia atrás…* (Trelew: Asociación San David de Trelew).

Amaya, L. (1969), *Fontana, el territoriano* (Trelew: Junta de Estudios Históricos del Chubut).

Anderson, B. (1983), *Imagined Communities: Reflections on the Origin and Spread of Nationalism* (London: Verso).

Barros, S. (2007), 'Anormalidad, inmadurez e historia de los territorios nacionales: el caso de Santa Cruz', *Modernidades*, 3, 1–21.

Barzini, J. L. (2008), 'La Misión de Thomas B. Phillips y Llwyd Ap Iwan a Londres', yn Y Pwyllgor Trefnu (goln), *Los Galeses en la Patagonia*, iii (Puerto Madryn: Fundanción Ameghino, CEHYS), tt. 119–34.

BBC Cymru Fyw (2015), 'Patagonia 150: Y dathlu ar ddechrau', https://www.bbc.co.uk/cymrufyw/31043377.

Berg, K. (2017), 'Chubut, Argentina: a contested Welsh "first-place"', *International Journal of Heritage Studies*, 24(2), 154–66.

Bertoni, L. (2001), *Patriotas, cosmopolitas y nacionalistas. La construcción de la nacionalidad argentina a fines del siglo XIX* (Buenos Aires: Fondo de Cultura Económica).

Brooks, W. (2012), 'Welsh Print Culture in *Y Wladf*a: The Role of Ethnic Newspapers in Welsh Patagonia, 1868–1933', traethawd PhD nas cyhoeddwyd: Prifysgol Caerdydd.

Castro Garcia, M. (1985), *Chubut mi provincia* (Rio Negro, hunangyhoeddiad).

Coronato, F. a Jones, N. (2012), 'La britaneidad oscilante de la colonia galesa del Chubut', yn Gavirati, M. a Coronato, F. (goln), *Los Galeses en la Patagonia*, 5 (Puerto Madryn: Fundación Ameghino CEHYS), tt. 25–42.

Croce, B. (1917), *Teoria e storia della storiografia* (Bari: Laterza).

Delrío, W. (2018), 'Estado y pueblo Mapuche en Argentina', *Anales de la Universidad de Chile*, tt. 133–51.

Devoto, F. (2003), *Historia de la inmigración en Argentina* (Buenos Aires: Sudamericana).

*Diario de Sesiones de la Convención Constituyente* [Dyddiadur Sesiynau yr Anrhydeddus Gonfensiwn Cyfansoddol] (1957), Provincia del Chubut, rhif 1.

*Diario de Sesiones de la Honorable Legislatura del Chubut* [Dyddiadur Sesiynau Anrhydeddus Ddeddfwrfa Chubut] (1958), Provincia del Chubut, rhif 2.

Gavirati, M. a Coronato, F. (goln) (2012), *Los Galeses en la Patagonia*, 5 (Puerto Madryn: Fundación Ameghino CEHYS).

Gavirati, M. a Williams, F. (2015), *150 años de Y Wladfa. Ensayos sobre la historia de la colonización galesa en la Patagonia* (Trelew: Remitente Patagonia).

Grever, M. ac Adriaansen, R. (2017), 'Historical Culture: A Concept Revisited', yn Carretero, M., Berger, S. a Grever, M. (goln), *Palgrave Handbook of Research in Historical Culture and Education* (London: Palgrave Macmillan), tt. 73–90.

Habermas, J. (1988), 'Concerning the Public Use of History', *New German Critique*, 44, 40–50.

Hobsbawm, E. J. a Ranger, T. O. (1983), *The Invention of Tradition* (Cambridge: Cambridge University Press).

Ibarra, H. (2003), *Provincia del Chubut, etapa fundacional* (Chubut: Circulo Policial).

Johnson, I. (2009), 'How green is their valley? Subjective vitality of Welsh language and culture in the Chubut Province, Argentina', *International Journal of the Sociology of Language*, 195, 141–71.

Johnson, I. (2010), 'Tourism, transnationality and ethnolinguistic vitality: the Welsh in the Chubut Province, Argentina', *Journal of Multilingual and Multicultural Development*, 36(6), 553–68.

Larson, C. R. (gol.) (2020), *The Conquest of the Desert. Argentina's Indigenous Peoples and the Battle for History* (Albuquerque: University of New Mexico Press).

Lewis, S. (1983 [1962]), 'The fate of the language', yn Jones, A. a Thomas, G. (goln), *Presenting Saunders Lewis* (Cardiff: University of Wales Press), tt. 127–41. Traddodwyd yr araith yn wreiddiol ym 1962.

Lublin, G. (2009), 'The war of the tea houses, or how Welsh heritage in Patagonia became a valuable commodity', *e-Keltoi*, 169–92.

Lublin, G. (2014), 'La conmemoración del 28 de Julio a lo largo de la historia chubutense', yn Gavirati, M. a Coronato, F. (goln), *Los Galeses en la Patagonia*, 6 (Puerto Madryn: Fundación Ameghino CEHYS), tt. 141–75.

Lublin, G. (2017[a]), 'Y Wladfa: ¿una colonia sin colonialismo?', *Identidades*, 4(6), 43–57.

Lublin, G. (2017[b]), *Memoir and Identity in Welsh Patagonia: Voices from a Settler Community in Argentina* (Cardiff: University of Wales Press).

Muse, E. G. (2022), '"A gwn pwy a'i gyrrodd i grwydro, o Gymru i gyrrau Brasil": Teithiau'r Cymry i America Ladin, a'r Lleiafrif Ewropeaidd o fewn theori Ôldrefedigaethol' [*sic*], traethawd PhD nas cyhoeddwyd, Canolfan Astudiaethau Cymharol Portiwgal, Sbaen a Chyfandiroedd America (CEPSAM), Prifysgol Abertawe.

Navarro Floria, P. a Nuñez, P. (2012), 'Un territorio posible en la república imposible: El coronel Sarobe y los problemas de la Patagonia Argentina', *Andes*, cyfrol 23 (Salta: Instituto de Investigaciones en Ciencias Sociales y Humanidades), tt. 1–24.

Ramos, A. M. a Rodriguez, M. E. (goln) (2020), *Memorias fragmentadas en contexto de lucha* (Buenos Aires: Ed. Teseo).

Roberts, F. E. a Roberts, T. (1961), *Semblanza y evocación de la epopeya galesa en Chubut* (Rawson, Dirección general de cultura y educación del Chubut).

Rüsen, J. (2004), 'Historical Consciousness: Narrative Structure, Moral Function, and Ontogenetic Development', yn Seixas, P. (gol.), *Theorizing Historical Consciousness* (Toronto: University of Toronto Press), tt. 63–85.

Stella, V. a Williams, G. (2020), 'El desembarco galés en Chubut y el encuentro armonioso entre dos culturas: disputando los cimientos de una provincia pluricultural', yn Muzzopappa, E., Barros, M., Quintana, M. a Tozzini, A. (goln), *Ideología, Estado, Universidad: Pensamiento crítico desde el Sur* (Rio Negro: Editorial UNRN), tt. 91–103.

Taylor, L. (2018), 'Global perspectives on Welsh Patagonia: the complexities of being both colonizer and colonized', *Journal of Global History*, 13, 446–68.

Taylor, L. (2019), 'The Welsh Way of Colonisation in Patagonia: The International Politics of Moral Superiority', *Journal of Imperial and Commonwealth History*, 47(6), 1073–99.

Trespailhié, O. (1926), '"Hossana!"', Y *Drafod*, 23/7/1926, t. 3.

Trespailhié, O. (1930), *Historia del Chubut* (Buenos Aires: Talleres Graficos Gasperini).

Trespailhié, O. (1958), 'Un capítulo de la historia del Chubut', *Primeras páginas de historia del Chubut* (Rawson: Dirección general de cultura y educación de Chubut), tt. 1–3.

Williams, F. (2015), 'Yr Hen Wlad a'r hen Wladfa: nodiadau ar gyfer llunio persbectif o safbwynt Patagonia, 150 mlynedd ers y glaniad cyntaf', *Y Traethodydd,* Gorffennaf 2015, 141–58.

Williams, Glyn (1991), *The Welsh in Patagonia: The State and the ethnic community* (Cardiff: University of Wales Press).

Williams, Guillermo (2018), 'Desembarcaron aquí para quedarse. Reflexiones en torno a los festejos del sesquicentenario de la colonización galesa en Chubut (2015)', yn Bjerg, M. a Cherjovsky, I., *Identidades, memorias y poder cultural en la Argentina: siglos XIX al XXI* (Bernal: Universidad Nacional de Quilmes), tt. 307–30.

Williams, Guillermo (2020), '"Dejen de creer que carecemos de historia": Estado e intelectuales en la construcción de la historiografía oficial de Chubut (1958–1968)', *Cuadernos de Historia: Serie economía y sociedad*, 24, 57–83.

Zampini, V. (1975), *Chubut: breve historia de una provincia argentina* (Gaiman: El Regional).

# Heb ei fai, heb ei eni: 'Disgwrs' a Moeseg y Wladfa

Huw L. Williams

*Ysgol Saesneg, Cyfathrebu ac Athroniaeth, Prifysgol Caerdydd*

Cyflwynwyd: 21 Ebrill 2023; Derbyniwyd: 29 Gorffennaf 2023

**Crynodeb:** Nodweddir y drafodaeth gyhoeddus ar-lein ddiweddar ynghylch y Wladfa gan duedd i gollfarnu'r gwladfawyr Cymreig ar sail foesol. Â'r erthygl hon i'r afael â'r tueddiad hwn gan bwyso a mesur sut, ac i ba raddau, y mae modd inni osod y Wladfa a'i phobl yn y fantol foesol. Rhoddir sylw manwl i ymdriniaethau Geraldine Lublin a Lucy Taylor â'r hanes, fel enghreifftiau o ddadansoddi ystyrlon, amlhaenog sy'n llwyddo i gyfleu cymhlethdod a drysni'r sefyllfa. Wedi cynnig y braslun hwn, cymhwysir fframwaith moesegol Iris Marion Young i'r hanes, er mwyn amlygu ystyriaethau moesegol allweddol, sy'n dilyn ymgais Catherine Lu i gymhwyso'r un model 'cysylltiad cymdeithasol' i hanes trefedigaethol Siapan. Cynigir rhai casgliadau cychwynnol ynghylch yr hyn a amlygir.

**Allweddeiriau:** Y Wladfa, moeseg, trefedigaethu, Iris Marion Young, cyfryngau cymdeithasol.

## Those without fault are yet to be born: the 'Discourse' and Ethics of Welsh Patagonia

**Abstract:** The recent online public discussion about Welsh Patagonia has been characterized by a tendency to condemn the settlers from Wales on moral grounds. This article takes on this debate, weighing up how, and to what extent, it is possible for us to place Y Wladfa and its people on the scales of morality. It gives detailed attention to the writing of Geraldine Lublin and Lucy Taylor on the history, as examples of reflective, multi-layered analysis that succeeds in conveying the complexity and difficulties of the situation. Having offered this outline, Iris Marion Young's ethical framework is applied to the history, in order to highlight key ethical considerations, following Catherine Lu's application of the same 'social connection' model to Japanese colonial history. Some initial conclusions are offered about what is revealed.

**Key words:** Welsh Patagonia, ethics, colonialism, Iris Marion Young, social media.

Coleg Cymraeg Cenedlaethol
ISSN: 1741-4261
http://gwerddon.cymru

Ysgogiad yr erthygl hon yw'r drafodaeth gyhoeddus sydd wedi codi yn y blynyddoedd diwethaf yng Nghymru am y Wladfa, yn benodol y disgwrs ynghylch agweddau moesol ar ei hanes. Nodweddir y drafodaeth hon yn aml gan eiriau cecrus a chollfarnu, yn ogystal â diffyg ystyriaeth bwyllog o'r cwestiynau dyrys sy'n codi wrth ymdrin â'r hanes unigryw hwn. Un canlyniad penodol i'r drafodaeth hon yw gosodiadau a honiadau moesegol ysgubol, sy'n aml i'w gweld yn ddi-sail, ynghylch sefyllfa hanesyddol gymhleth a dyrys iawn. Yn y lle cyntaf, ymateb y mae'r erthygl hon i'r tueddiad hwn ac i'r angen am drafodaeth ystyrlon ar y materion hyn. Ymgais gychwynnol a phetrusgar ydyw, sy'n ceisio amlygu'r cymhlethdodau sy'n codi, gan ddangos sut y mae asesiad moesegol syml yn amhosib. Awgrymir rhai atebion gofalus ynghylch pa fath o honiadau moesegol sy'n addas, ac yn wir, cyfyd y cwestiwn a yw casgliadau cedyrn hyd yn oed yn bosib yn y cyd-destun hwn.

Er mwyn gwneud hyn, mae'r erthygl yn gyntaf yn cyflwyno'n fras natur broblemus y drafodaeth a geir, gan adnabod rhai o'r cwestiynau sy'n codi. Yn yr ail adran, ceir trafodaeth fanwl ar hanes y bennod honno sy'n derbyn sylw arbennig, sef y gwladychu gwreiddiol, a'r berthynas rhwng y Cymry a'r brodorion, y bobloedd Tehuelche a Mapuche. Bwriad y drafodaeth hon, trwy gyfeirio at waith Geraldine Lublin a Lucy Taylor, yw amlygu natur gymhleth ac amwys y gwladychu a chynnig darlun gweddol fanwl o'r ffactorau hanesyddol, empirig, y mae angen eu cloriannu wrth ystyried materion moesegol. Yn y drydedd adran wedyn, yr amcan yw troi at athroniaeth wleidyddol ryngwladol a thrafodaethau o fewn y maes er mwyn bwrw goleuni ar agweddau moesegol ar hanes y Wladfa. Rhoddir sylw i waith Iris Marion Young a Catherine Lu yn arbennig, gan ddadlau bod eu gwaith hwy – sy'n cwmpasu syniadau am yr hyn a elwir yn anghyfiawnder strwythurol – yn cynnig fframwaith addas ar gyfer cloriannu cwestiynau moesegol ynghylch sefydlu'r Wladfa. Ar y cyfan, awgrymir bod angen gofal mawr wrth ddod i unrhyw ddedfryd ar foesoldeb Cymry Patagonia, ac yn ysbryd fframwaith Young yn arbennig, dadleuir y dylid yn hytrach osod pwyslais ar ein gweithredoedd cyfoes, gan edrych tua'r dyfodol. Drwy ddefnyddio'r fframwaith hwn, awgrymir bod pwyso a mesur agweddau moesegol ar y gwladychu yn bosib, ond ei bod yn amwys p'un a oedd gweithredoedd y rhan fwyaf o'r gwladychwyr yn fwy anfoesol, mewn ystyr cyffredinol, nag ymddygiad y mwyafrif ohonom ni yn y Gymru gyfoes. Heb ei fai, heb eni, chwedl yr hen ddihareb.

Ceisir yma felly gynnig cyfraniad newydd ar ddwy wedd. O ran y wedd gyntaf, mae pwyslais yr erthygl ar ehangu'r llenyddiaeth academaidd a geir ar y Wladfa trwy roi sylw teilwng i gwestiynau moesegol mewn modd uniongyrchol. Prin yw'r ffocws echblyg felly ar yr hanes o safbwynt athroniaeth foesol, neu Foeseg – er bod ysgrifau Lublin, Taylor ac eraill yn gyforiog o gynnwys sy'n cynnig man cychwyn ar gyfer ymateb i'r cwestiynau moesegol sy'n codi. Ail wedd y cyfraniad hwn yw ymyrraeth ym maes athroniaeth wleidyddol ac astudiaethau normadol o du gwleidyddiaeth ryngwladol, gyda thrafodaeth sy'n codi cwestiynau ac ystyriaethau heriol a newydd, trwy gyfeirio at hanes unigryw nad yw wedi derbyn unrhyw sylw yn y meysydd hynny.

## Ailystyried y Wladfa

Yn ail hanner 2020, sbardunwyd trafodaeth gyhoeddus ar y Wladfa ar-lein. Yn ystod y cyfnod hwn, cyhoeddwyd o leiaf dair erthygl a oedd yn codi cwestiynau ynghylch y modd y dylid ymagweddu tuag at y Wladfa,[1] gan gynnwys materion digon dyrys yn ymwneud â'r modd yr ydym yn cofio glanio'r *Mimosa* ym 1865 a sut y dylem ddeall y gwladychu. Ysgogwyd yr erthygl gyntaf ar BBC Cymru Fyw gan y ffaith bod enillydd Gwobr John Davies y Coleg Cymraeg Cenedlaethol wedi cyflwyno traethawd ar y pwnc, tra bo dau ddarn ar y wefan Nation.Cymru yn gweu stori'r Wladfa i'r naratif ar-lein am brotestiadau Black Lives Matter, yn dilyn llofruddio George Floyd.

Ymhlith y cwestiynau anodd iawn sy'n codi yn yr erthyglau hyn y mae honiadau nad yw'r Cymry, nac ychwaith Gymry Patagonia, wedi rhoi digon o sylw i'r agweddau dadleuol ar y Wladfa. Yn arbennig, cyfyd yr awgrym fod ffawd y bobloedd frodorol wedi ei hanghofio neu ei hanwybyddu, ac nad oes cydnabyddiaeth ddigonol o gyfraniad y Cymry at ddadleoliad a dioddefaint y boblogaeth honno. Ceir hefyd osodiadau cedyrn ynghylch statws y Wladfa fel rhanbarth a oedd yn rhan o drefedigaethu ehangach y cyfnod, a oedd mor nodweddiadol o oes yr Ymerodraeth – a'r honiad na ddylem geisio dehongli'r gwladychu hwn fel prosiect o natur eithriadol. Ceir wedyn honiadau i'r gwrthwyneb, sef bod y Wladfa wedi ei chreu a'i sefydlu ar delerau nad oeddynt yn difrïo'r bobloedd frodorol, a hynny mewn cyd-destun a ategai'r dehongliad hanesyddol cyffredin o berthynas gyfeillgar rhwng y Cymry a'r brodorion.

Dyma faterion digon anodd a chymhleth, felly, nad oes modd mewn gwirionedd wneud cyfiawnder â hwy o fewn yr ychydig eiriau a gynigir gan ddarnau ar-lein, os oes modd gwneud cyfiawnder â'r cymhlethdod o gwbl o ran hynny. Ac eto, er bod y darnau hyn yn weddol ddiflewyn-ar-dafod, llwyddant ar y cyfan i gyflwyno'r holl drafodaeth mewn modd sy'n arddangos parch a chymedroldeb. Fodd bynnag, gwahanol iawn yw cywair pethau wrth i'r drafodaeth lifo i brif ffrwd y cyfryngau cymdeithasol. Yn y cyswllt hwn, bu'r 'disgwrs' ar y Wladfa – term y mae gwybodusion Twitter yn ei ddefnyddio mewn modd hunanymwybodol i ddisgrifio'r synio a'r ystumio ar-lein – yn nodweddiadol o dueddiadau ehangach y gyhoeddfa ddigidol hon. Yn wir, tuedd y platfform yw cymell, cynnal a hyrwyddo cynnen a gogan, oherwydd bod marchnad mor barod ar gyfer llid neu ddigofaint moesol;[2] dyma sy'n dwyn sylw ac amser defnyddwyr, sydd yn eu tro yn bwydo bwystfil cyfalaf a'r angen am elw, sef wrth gwrs y grym pennaf o ystyried seiliau'r adeiladwaith algorithmig. Hynny yw, er gwaetha'r potensial cadarnhaol sydd i blatfformau newydd o safbwynt hyrwyddo rhannu gwybodaeth, cymhelliant elw sydd drechaf, a dyna sy'n annog

[1] BBC Cymru Fyw, 'Ydy hanes mudo'r Cymry i Batagonia yn anghyflawn?', 5 Awst 2020, https://www.bbc.co.uk/cymrufyw/53634793; Johnson, I., 'We shouldn't romanticise the actions of the Welsh who colonised Patagonia', Nation.Cymru, 19 Tachwedd 2020, https://nation.cymru/opinion/we-shouldnt-romanticise-the-actions-of-the-welsh-who-colonised-patagonia/; Mac Burney Jones, G., 'Why the Wladfa in Patagonia shouldn't be labelled a colonialist venture', Nation.Cymru, 1 Rhagfyr 2020, https://nation.cymru/opinion/why-the-wladfa-in-patagonia-shouldnt-be-labelled-colonialist-venture/.

[2] Brady, W. J., et al. (2021), 'How social learning amplifies moral outrage expression in online social networks', *Science Advances*, 7(33), Awst.

ymddygiad nad yw'n ystyried lles cymdeithasol cyffredinol, ac sy'n aml yn milwrio yn erbyn trafodaethau ystyrlon a chymedrol ar gwestiynau moesegol hanesyddol dyrys.[3]

Nid oes unrhyw fodd sicrhau trafodaeth ar y Wladfa ar delerau'r Wladfa dan yr amodau hyn, nac mewn modd sy'n caniatáu'r trafodaethau dyrys a'r ystyriaethau cymhleth y mae'r cwestiynau hyn yn eu haeddu. Ymhellach, y mae angen dianc rhag y trafodaethau hyn er mwyn sicrhau unrhyw fath o obaith i weithredu er gwell, yn enwedig pan fo tueddiadau cyffredinol y disgwrs yn ategu 'cyfalafiaeth gyfathrebol'[4] – gan danseilio cyfleoedd ac effeithlonrwydd gwleidyddol y lliaws yn hytrach na'i herio. Yn yr adran nesaf, trown at ymdrechion academaidd i ddeall natur y Wladfa, sy'n astudio a dadansoddi'r hanes mewn modd pwyllog a sylweddol, ac sydd yn hynny o beth yn cynnig man cychwyn addas ar gyfer pwyso a mesur lle moesoldeb o fewn y drafodaeth a sut, os o gwbl, y mae modd didoli cyfrifoldeb moesol yn achos y Wladfa, sef thema greiddiol yr ysgrif hon.

## Y Wladfa yn ei chyd-destun

Mae Geraldine Lublin, yn ei dadansoddiad o'r Wladfa, yn cynnig cwestiwn gogleisiol yn nheitl erthygl ganddi: 'gwladychu heb drefedigaethu?'[5] Yr hyn sydd yr un mor arwyddocaol â'r teitl yw'r ffaith nad yw hi mewn gwirionedd yn ceisio ateb y cwestiwn – oblegid nid dyna yw byrdwn ei gwaith. Codi, nid gofyn y cwestiwn y mae Lublin, mewn gwirionedd, a hynny mae'n debyg er mwyn fframio ei dadansoddiad mewn modd sy'n awgrymu amwysedd

---

[3] Ceir dadansoddiad bachog o'r diwylliant sy'n ffynnu ar-lein, ac ar Twitter yn arbennig, gan y beirniad diwylliannol adnabyddus Mark Fisher (Fisher, M. (2013), 'Exiting the Vampire Castle', *openDemocracy*, https://www.opendemocracy.net/en/opendemocracyuk/exiting-vampire-castle/; cyrchwyd: 16 Medi 2022). Dyma ymgais i ddadansoddi'n fanylach yr hyn sydd wrth wraidd y 'diwylliant dileu' (*cancel culture*). Fisher oedd awdur y testun adnabyddus *Capitalist Realism: Is There No Alternative?* (2009) – sef dadansoddiad o'r gymdeithas neoryddfrydol gyfalafol hwyr – a chymhelliant ei ddadansoddiad yn rhannol yw'r niwed y mae Twitter wedi ei achosi i'r chwith wleidyddol. Ysgrifennwyd yr erthygl bron i ddegawd yn ôl, ond mae'r dadansoddiad o'r cyfeiliorni sy'n digwydd i'r chwith yn gyffredinol yn berthnasol i'r math o drafodaethau ciaidd sydd wedi nodweddu Twitter, ac sy'n cynrychioli agweddau mwyaf eithafol y disgwrs. Mae un 'cyfluniad' yn benodol sy'n gyfrifol am y sefyllfa sydd ohoni, sef yr hyn a eilw'n Gastell y Fampirod (*The Vampires' Castle*) ac a ddisgrifia fel 'This priesthood of bad conscience, this nest of pious guilt-mongers'. Dyma endid sy'n arbenigo mewn 'propagating guilt. It is driven by a priest's desire to excommunicate and condemn, an academic-pedant's desire to be the first to be seen to spot a mistake, and a hipster's desire to be one of the in-crowd.' Os ydych am wrthwynebu, y mae perygl enbyd, oherwydd bydd yr ymdrech yn ymddangos fel condemniad o'r hyn yr honnir ei fod yn cynrychioli brwydr(au) yn erbyn hiliaeth, rhywiaeth, ac yn y blaen. Y gwirionedd, fodd bynnag, yw nad mynegiant go iawn o'r brwydrau hyn a geir gan y Castell – yn hytrach, adfeddiant ydyw gan y *bourgeoisie* rhyddfrydol sy'n llurgunio'r ymgyrchoedd hyn.

[4] 'Communicative capitalism designates that form of late capitalism in which values heralded as central to democracy take material form in networked communications technologies (...) Ideals of access, inclusion, discussion and participation come to be realized in and through expansions, intensifications and interconnections of global telecommunications. But instead of leading to more equitable distributions of wealth and influence, instead of enabling the emergence of a richer variety in modes of living and practices of freedom, the deluge of screens and spectacles undermines political opportunity and efficacy for most of the world's peoples.' Dean, J. (2005), 'Communicative capitalism: Circulation and the foreclosure of politics', *Cultural Politics*, 1(1), 51–74 (55).

[5] Lublin, G. (2009), 'Y Wladfa: gwladychu heb drefedigaethu?', *Gwerddon*, 4, 8–23.

sefyllfa'r Wladfa, a chymhlethdod unrhyw ymgais i'w dadansoddi, a'n llywio ni i gyfeiriad ceisio pwyso a mesur yr hanes mewn modd beirniadol a hunanymwybodol. Nid ei bwriad yw dadlennu'r ateb 'cywir' ar y mater, a thrwy hynny osod y sail er mwyn collfarnu neu ddathlu. Nid y bwriad chwaith yw cynnig sail er mwyn i eraill ei wneud.

Yn hytrach, ceir yma ddadansoddiad ac iddo gryn grebwyll, trwy ddefnydd o gysyniadau o'r traddodiad ôl-drefedigaethol. Yn ganolog i'r ddadl y mae'r portread o Gymry Patagonia fel pobl sydd mewn safle trothwyol, yn yr ystyr nad oes modd eu cyflwyno mewn unrhyw fodd categorig yn ôl y dulliau cyfarwydd, ond bod modd eu deall a'u gwerthfawrogi mewn gwirionedd yn ôl mwy nag un safbwynt, gan ddibynnu ar y pwnc dan sylw a man cychwyn y drafodaeth. Y mae deuoliaeth eu sefyllfa'n amlwg o'r cychwyn cyntaf yn y modd y deellid y Cymry gan y wladwriaeth Archentaidd, mewn gwrthgyferbyniad â'u hunanddealltwriaeth. 'Sacsoniaid' neu hyd yn oed 'Ingleses' (Saeson) oeddynt hwy yng ngolwg cyfran sylweddol o lywodraethwyr yr Ariannin, ac yn rhinwedd hynny, roedd drws y Weriniaeth ar agor iddynt. Byddai dyfodiad y Cymry'n 'cryfhau lleng gwareiddiad yn y frwydr yn erbyn barbariaeth'.[6] Roedd Cymry Patagonia wrth gwrs yn eu hystyried eu hunain yn genedl ar wahân, ac yn fwy na hynny, yn genedl ar ffo, a oedd yn bwriadu dianc rhag gormes yr 'Ingleses' a'r wladwriaeth Brydeinig. Yn y gwahaniaeth sylfaenol hwn y mae holl gymhlethdod a drysni y Wladfa i'w gweld.

Mae *Llawlyfr y Wladychfa Gymreig*,[7] y testun enwog hwnnw gan Hugh Hughes (Cadfan Gwynedd), sy'n gosod sail i'r Fenter Fawr, yn dyst i'r ffaith bod y Cymry yn bur ymwybodol o'u 'trothwyoldeb', wrth iddo fyfyrio ar y modd y mae gwareiddiad y Gorllewin wedi traethu am y brodorion, yn yr un modd ag y bu i'r Saeson ddeall a disgrifio'r Cymry:

> Nid ydys heb wybod mai y syniad yn mhlith y cyffredin am Patagonia ydoedd mai anialwch gwag erchyll ydyw, a heidiau o hanner bwystfilod yn gwibio ar hyd-ddi i ladd a dinistrio pob peth. Ond erbyn dyfod i oedran barn ac ymchwiliad, canfyddir nad oedd pob peth a ddysgid yn yr ysgol yn gywir (...) Adgofied y darllenydd am y syniadau rhyfedd a draethid iddo am hanes y Cymry yn ei wersi yn Hanes Lloegr, – y modd y darlunnid hwy yn anwariaid noethion a chreulawn, cyn iddynt hwy y Saeson bondigrybwyll, ddod i bwyo 'gwareiddiad' iddyn.[8]

Yn wir, mae Lublin yn gwneud defnydd o fwy nag un cysyniad o faes ôl-drefedigaethedd er mwyn adnabod a dadansoddi dulliau o feddwl y Cymry a'u sefyllfa'n gyffredinol. Cyfeiria at gymysgrywiaeth ddiwylliannol ffiniol (*interstitial cultural hybridity*), er enghraifft, er mwyn disgrifio sut y mae Cymry Patagonia ar brydiau fel petaent yn rhannol ddiosg eu gwynder ac yn cael eu lleoli fel brodorion.[9] Ac eto, mae Lublin yr un mor awyddus i nodi'r

[6] Ibid., 10.
[7] Hughes, H. ('Cadfan Gwynedd') (1861), *Llawlyfr y Wladychfa Gymreig* (Llynlleifiad: Lewis Jones).
[8] Hughes, H. ('Cadfan Gwynedd') yn Lublin, 'Y Wladfa', 13.
[9] Ceir trafodaeth ddiddorol gan Simon Brooks ar duedd y Cymry i'w lleoli eu hunain yn y modd hwn

amheuon sy'n codi o ddadansoddi'r Cymry yn y cyswllt hwn o safbwynt ôl-drefedigaethol syml, o gydnabod eu rôl wrth hawlio tiroedd y brodorion, a hynny gyda chefnogaeth grym y wladwriaeth drefedigaethol. Hefyd, er eu sefyllfa fel pobl wyn 'waraidd', mae agweddau diddorol i'w canfod o ddadansoddi profiad y Cymry o gyfanheddu yn Chubut fel un a oedd yn wahanol i eiddo gwladychwyr eraill, gan gydnabod natur wahanol y 'fenter' fel un wrthdrefedigaethol yn erbyn y wladwriaeth Brydeinig.

Mae trothwyoldeb y Cymry yn cael ei amlygu eto gan Lublin wrth drafod y modd yr addaswyd y term 'Y Wladychfa' yn 'Y Wladfa', sydd ynddo'i hun yn awgrymu hunanymwybyddiaeth ar ran y Cymry a'u dyhead i wahaniaethu rhwng y 'Fenter Fawr' a threfedigaethu 'arferol'. Yn sicr, nid yw'r ymraniad traddodiadol rhwng gwladychwyr grymus a dioddefwyr truenus yn gwneud fawr o synnwyr yn y cyd-destun hwn. Y berthynas rhwng y Cymry a'r brodorion sy'n dwyn sylw arbennig Lublin, ac yn wir, yn yr ymwneud hwn y daw'r agweddau mwyaf dyrys a deublyg i'r wyneb. Tra bo'r Cymry yn ymddangos yn eiddgar i sefydlu cyfeillgarwch, i barchu'r brodorion a'u hiawnderau a'u harferion, ac i fyw mewn cytgord â 'Brodyr yr Anialwch', maent ar yr un pryd yn arddangos tueddiad i genhadu (yr hyn y mae Lublin yn ei ddisgrifio fel yr *Orientalism* y mae Edward Said yn enwog am ei drafod)[10] sydd yn ei hanfod yn arallu'r sawl nad yw o'r Gorllewin, trwy ragdybiaethau a throsiadau sy'n awgrymu eu natur ecsotig, afreolus.

Mae'r berthynas yn un sy'n gyforiog o ddiddordeb, potensial a phositifrwydd hyd yn oed, ond y mae'n amhosib ei gwerthfawrogi heb gydnabyddiaeth o'r strwythurau grymus ehangach, nad oedd gan y Cymry na'r brodorion fawr o ddylanwad arnynt. Yn wir, pan roddir rhesymeg y wladwriaeth Archentaidd ynghylch y 'fenter' ar waith maes o law, a Phatagonia'n cael ei chymathu'n drwyadl o'i mewn, mae'n amlygu mewn modd cyfochrog debygrwydd rhwng y ddwy boblogaeth yn eu diymadferthedd yn wyneb grym – a'u harwahanrwydd fel pobloedd wyn a brown. Yn y cyswllt hwn, mae gwaith Lucy Taylor yn ddadlennol, wrth iddi hi ymchwilio i agweddau amryfal ar Fenter y Wladfa a'u cloriannu.

Yn arbennig, ceir ymgais ganddi i'w gosod yn ei chyd-destun rhyngwladol, ac mewn perthynas â strwythurau cyfalafol-imperialaidd y cyfnod. Y mae hithau hefyd yn pwysleisio amwysedd y sefyllfa ac yn arbennig berthynas led unigryw y Cymry a'r brodorion, ond ar yr un pryd, mae'n ymdrechu i ddadansoddi mewn dull amhleidiol sy'n osgoi'r hyn y mae Lublin yn ei ddisgrifio fel y 'delfrydu a'r rhamantu'.[11] Mae rhan y Cymry fel elfen o system drefedigaethol y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn ddiymwad yn nhyb Taylor, yng ngŵydd y ffaith bod yr Archentwyr wedi rhoi tiroedd iddynt (nad oeddynt yn berchen iddynt) gyda'r nod o fewnblannu pobloedd 'wâr' yn y rhan hon o'r cyfandir. Yn yr ystyr hwn, meddir,

---

yn y cyd-destun trefedigaethol, gan ddadansoddi'n arbennig ymagweddau o'r math hwn gan Eluned Morgan, yng nghyd-destun perthynas Cymry'r Wladfa â'r bobl Tehuelche: Brooks, S. (2021), *Hanes Cymry: Lleiafrifoedd Ethnig a'r Gwareiddiad Cymraeg* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru), tt. 246–50.

10 Lublin, 'Y Wladfa', 18.

11 Ibid., 23. Ceir cyfeiriad at rôl y cyfryngau torfol yng Nghymru wrth hybu'r duedd hon gan Rees, I. W. (2021), 'The Welsh in Diaspora: Patagonia', yn Morgan, W. J. a Bowie, F. (goln), *Social Anthropologies of the Welsh: Past and Present* (Canon Pyon: Sean Kingston Publishing), tt. 123–44 (t. 124).

'the Welsh both embodied and enacted the Argentina's [*sic*] colonising-civilising project'.[12] Trefedigaethu a wnaeth y Wladfa'n bosib felly.

Ac eto, mae'r elfen drothwyol sy'n ganolog i ddadansoddiad Lublin i'w gweld ymhlyg yng ngwaith Taylor yma, gan ei bod hithau'n dadlau hefyd nad yw theori drefedigaethol y gwladychwr (*settler colonial theory*), a'r berthynas ddeuaidd y mae'n ei hawgrymu rhwng y gwladychwr a'r sawl sydd wedi'i wladychu, yn cynnig safbwynt addas er mwyn dadansoddi'r sefyllfa. Cyfyd y pwyntiau sylfaenol bod y Wladfa'n ganlyniad i drefedigaethu yng Nghymru, bod y Cymry wedi dibynnu ar y brodorion yn hytrach na'u meddiannu, wedi parchu eu hymreolaeth mewn rhai ystyron, ac wedi ceisio eu hamddiffyn yn erbyn y wladwriaeth Archentaidd, a oedd yn y pen draw wedi gwastrodi ymgais y gwladfawyr i greu Cymru newydd, a'u cymathu trwy rym a thrwy ormesu eu hiaith.

Dengys y sefyllfa hon felly amcanion cyfunol y brodorion a'r gwladfawyr, a'r cysylltiadau rhyngddynt, a'r posibilrwydd bod y Cymry fel gwladychwyr yn cael eu trefedigaethu yn yr Ariannin yn ogystal ag yng Nghymru. Yn fy nhyb i, mae pwyslais y ddwy gymuned ar gydraddoldeb eu gwerth sylfaenol, yr hyn y cyfeiria Taylor ato fel 'equality of worth', yn arbennig o bwysig; dyma sylfaen i berthynas, ys dywed Taylor, 'that the usual racial hierarchies of nineteenth century imperialism cannot envisage'.[13] Ac eto, rhydd Taylor sylw i'r modd y mae'r Cymry yn awgrymu israddoldeb y brodorion yn eu diffyg Cristnogaeth ac i'w tuedd i efelychu hierarchaeth hiliol a geowleidyddol y cyfnod, sy'n dwyn i gof awgrym Lublin o'r Orientaliaeth sy'n siapio eu hagweddau. Mae Taylor yn dilyn Lublin hefyd yn y modd y mae'n awgrymu bod elfen hunanymwybodol i agwedd y Cymry tuag at y ddeinameg, a'u bod hwythau yn deall y cyfyng-gyngor normadol yr oedd y Fenter yn ei ymgorffori. Cyfeiria Taylor at drafodaethau Michael D. Jones, a'i ymgais i gyfiawnhau'r Wladfa, trwy awgrymu mai ffenomen naturiol oedd mudo (nid trefedigaethu) o fewn cyfraith Duw, ac mai'r hyn a oedd o bwys moesol oedd natur y cyfanheddu yr oedd y mudo hwn yn esgor arno. Mae'r syniad hwn o drefedigaethu fel mynegiant o'r drefn, ac agwedd Michael D. Jones ac eraill mai ansawdd y gweithredoedd o fewn y drefn hon oedd yn cyfrif, yn un sy'n berthnasol i gysyniadau a drafodir yn yr adrannau nesaf. Byddai cyfanheddu doeth, trefnus ac effeithlon yn weithred foesol. Dyma yr oedd poblogaethau yn ei wneud, a bwriad y Cymry oedd ei wneud yn y modd mwyaf cyfiawn posib.

Wrth ystyried y pwyntiau niferus y mae Taylor yn eu codi, ceir achos cryf dros ddadansoddi cyfnod y cyfanheddu yn gronolegol, sef canolbwyntio ar ugain mlynedd gyntaf y Wladfa, ac yna'r cyfnod dilynol wedi 'Concwest yr Anialwch'. Yn wir, mae'r cyfnod cynnar yn amlygu'r potensial a oedd i drefn newydd o gyd-fyw rhwng gwladfawyr a brodorion, sy'n gyforiog o'r posibiliadau y mae cwestiwn Lublin yn cyfeirio atynt – sef y syniad o wladychu heb drefedigaethu. Y mae'r cyfnod dilynol yn arddangos mewn modd cignoeth a chreulon sut yr oedd hyn yn freuddwyd gwrach o fewn y system imperialaidd fyd-eang, ac yn dangos nad

---

[12] Taylor, L. (2017), 'Welsh–Indigenous Relationships in Nineteenth Century Patagonia: "Friendship" and the Coloniality of Power', *Journal of Latin American Studies*, 49(1), 143–68 (150).

[13] Taylor, L. (2019), 'The Welsh Way of Colonisation in Patagonia: The International Politics of Moral Superiority', *The Journal of Imperial and Commonwealth History*, 47(6), 1073–99 (1082).

oes modd datgysylltu ymdrechion y Cymry ym Mhatagonia oddi wrth ddeinameg ehangach a phroblematig trefedigaethu.

Un o'r ymadroddion sy'n cyfleu'r modd y mae'r berthynas rhwng y Cymry a'r brodorion yn cael ei chofio yw 'brodyr yr anialwch' – un sy'n awgrymu cyd-fyw teuluol, cariadus hyd yn oed. Eto, er nad yw Taylor yn caniatáu inni ymgolli'n llwyr yn rhamantiaeth y syniad, wrth ein hatgoffa o ddylanwad y strwythurau ideolegol cefndirol, mae'n cydnabod y cyferbyniad rhwng hyn a'r berthynas drefedigaethol arferol: 'These stories of merry neighbours, while laden with condescension, offer a preferable contrast to experiences of exploitation, massacre and imprisonment, and it seems that the indigenous [people] also appreciated this contrast in treatment.'[14]

Rydym eisoes wedi cyfeirio at elfennau o'r agwedd normadol a oedd yn fan cychwyn i'r Cymry o ran eu hymwneud â'r brodorion, ac mae Taylor yn awgrymu dwy wedd benodol i'r agwedd hon. Mae'r gyntaf yn deillio'n uniongyrchol o Gristnogaeth anghydffurfiol y Cymry, a'r modd y byddai'r bydolwg crefyddol hwn yn gosod y meini prawf moesol ar gyfer y Fenter Fawr. Yr ail wedd yw'r modd yr oedd rhagdybiaethau anghydffurfiol – yn arbennig y cysyniad o gyfiawnder – yn cyflyru arfer beunyddiol y Cymry. Yn wir, mae cyfiawnder yn sefyll uwchlaw pob perthynas hierarchaidd; 'worldly rankings based on might or wealth,' meddai, 'are rendered irrelevant by inner qualities like spiritual striving and righteous moral judgement' o eiddo'r Cymry.[15] Ymhellach, 'A second aspect of righteousness is also important; Christian love, in the form of pity, charity, forgiveness, mercy and generosity',[16] ond fel yr awgrymwyd ynghynt, gallasai'r agwedd hon ar gariad gael ei mynegi mewn modd a oedd yn pwysleisio tosturi, i'r graddau ei bod yn ategu'r hierarchaeth yr oedd y Cymry am ei hosgoi ar y cyfan.

Eto, yr hyn sydd fwyaf diddorol yng nghyd-destun yr ugain mlynedd gyntaf weddol ddigynnwrf o ran y berthynas rhwng 'brodyr yr anialwch' – pan nad oedd y wladwriaeth mewn gwirionedd yn ymyrryd yn eu bywydau, a phan oedd rhyddid i'r ddwy boblogaeth gyd-fyw – yw'r ffaith bod y Cymry yn ymgyrraedd at yr Iwtopia yr oeddynt wedi ei dychmygu, a bod y brodorion, yn ôl pob tebyg, yn gymharol fodlon wrth fanteisio ar y cysylltiadau newydd hyn. Ys dywed Taylor, 'This is precisely the spirit of hope in which the Welsh elite imagined the Patagonian colony as a utopian space, an "empty" place in which subordination might be thrown off and new social relations created.'[17]

Ymhellach, dadleua Taylor,

> at this point indigenous people were not simply victims of capitalism but were willing participants, able to call their own terms (if not always to get them). The powerful, as yet unchallenged, position of freedom that the

[14] Taylor, 'Welsh–Indigenous Relationships', 153.
[15] Taylor, 'The Welsh Way of Colonisation', 1078.
[16] Ibid., 1079.
[17] Taylor, 'Welsh–Indigenous Relationships', 160.

> indigenous communities enjoyed thus allowed them to enter relations with the Welsh from a position of relative strength.[18]

Yn ogystal, mae cydraddoldeb yng 'ngwerth' y bobloedd, a'r parch a fodolai rhyngddynt, wedi ffynnu oherwydd diymadferthedd y Cymry yn y dyddiau cynnar, a'u hedmygedd o alluoedd arbennig y brodorion a'u harweinwyr: '[their] admiration for the hunting skills of the Tehuelche marks a space in their relationship in which the familiar racial/civilisational power relations are upended and different kinds of knowledge and capacity (...) are valued.'[19] Yn wir, mae rhywbeth hynod iawn am y darlun hwn a'r cyfnod byr o amser pan oedd y bobloedd hyn yn gallu byw y tu hwnt, fel petai, i strwythurau llywodraethiant imperialaidd y dydd. Meddai Taylor, 'The open plains were a place which eroded the hierarchies of global coloniality replacing this with the hospitalities of survival and camaraderie in the wide, wild landscape.' Mae rhywun yn cael ei atgoffa o ddadleuon Hardt a Negri ynghylch 'ymerodraeth' cyfalafiaeth a'r ffaith nad oes modd bellach bod 'y tu allan' i'r ymerodraeth honno.[20] Er bod yr ugain mlynedd hynny wedi bod yn ddigon real o safbwynt bywydau beunyddiol trigolion Dyffryn Camwy, rhith oedd y syniad bod hyn yn adeiladu rhyw fath o drefn amgen barhaol.

Daeth y cyfan i ben gyda Choncwest yr Anialwch. Dyma'r wladwriaeth Archentaidd yn gweithredu er mwyn dwyn i ben y broses o gyfanheddu'r diriogaeth gyfan a oedd, hyd at hynny, wedi bodoli o fewn ei ffiniau mewn egwyddor yn unig. Roedd yn ymgyrch ddidostur, giaidd a threisgar, a arweiniodd at ladd, disodli a charcharu'r boblogaeth frodorol. Roedd yn ddigwyddiad a oedd mewn termau theoretig yn galw am 'the ordering of Patagonian society into the binaried mode of civilisation/barbarism'.[21] I bob pwrpas, dyma orffen yr hyn a oedd i fod yn rhan o swyddogaeth y Cymry wrth sefydlu'r Wladfa, sef gwareiddio'r wlad. Yn y cyd-destun hwn, ategwyd eto'r drefn hierarchaidd hiliol, fyd-eang, a thra bu'r Cymry a'r brodorion yn frodyr yr anialwch, roedd un brawd bellach wedi ei ddedfrydu i ormes am oes, tra bu gan y llall y cyfle i'w achub ei hun trwy ddod yn Archentwr da (cyfle nas cymerwyd o reidrwydd, ond o leiaf yr oedd y cynnig yno): 'As this example indicates, the arrival of the Conquest of the Desert forced the Welsh to take the final step of the journey away from ambiguity, over the boundary to become a member of the modern Argentine nation, tagged with civilisation and progress; the Welshman can walk by while the indigenous man is encaged.'[22]

Gwelwyd gwrthsafiad gan y Cymry: llediodd Lewis Jones, arweinydd ymarferol y Wladfa, achos y brodorion gan roi cais gerbron yr awdurdodau Archentaidd i ymatal rhag lladd. Ond hyd yn oed pe byddent yn dymuno, nid oedd ganddynt y grym milwrol i geisio sefyll yn y ffordd. Gwrthsafodd yr arweinwyr hefyd ymgais y wladwriaeth Archentaidd i'w

---

[18] Ibid., 157.
[19] Ibid.
[20] Hardt, M. a Negri, A. (2000), *Empire* (Harvard: Harvard University Press).
[21] Taylor, 'Welsh–Indigenous Relationships', 162.
[22] Ibid., 165.

cymathu, gan wrthod dychwelyd data yr oedd y wladwriaeth yn gofyn amdanynt. Ond eto, ofer fu'r ymdrechion hyn wrth iddynt gael eu rhoi yn y carchar.[23] Ymhen tipyn felly, wynebai'r Cymry yr un ffawd o 'drefedigaethu' mewnol ag yr oeddynt wedi dianc rhagddi ym Mhrydain. Gyda synnwyr trannoeth, gellid dweud bod hyn yn drasiedi i'r Cymry, oblegid yr oedd i bob pwrpas yn chwalu'r freuddwyd o Iwtopia Gymraeg o oedd, yn ôl Michael D. Jones, yn cynnig yr unig ffordd o sicrhau parhad a ffyniant i'r iaith. Ond go brin y gellir cymharu hyn â'r dioddefaint a fyddai'n wynebu'r brodorion brown. Roedd diymadferthedd y Cymry, y tro hwn yn wyneb y wladwriaeth Archentaidd, yn arddangos pa mor fregus yr oedd y setliad gynt, realiti'r grymoedd a oedd am benderfynu eu ffawd yn y pen draw, a'r amhosibilrwydd o sefydlu trefn o'r newydd 'y tu allan' i ymerodraeth. Medd Taylor, 'It points to the fragility of ambiguous relations when faced by the juggernaut of capitalist modernity, exposing their incapacity then, and now, to smooth over the injustices of colonial relations.'[24]

At ei gilydd felly, yr hyn y mae ymchwil Lublin a Taylor yn ei gyfleu yn fwy na dim yw cymhlethdod a drysni hanes y Wladfa, ac yn arbennig yr agweddau amlhaenog o ran sefyllfa Cymry Patagonia nad yw'n hawdd, neu nad yw'n bosib hyd yn oed, eu cloriannu yn ôl y categorïau traddodiadol. Maent hefyd ar y cyfan yn ymatal rhag cynnig barn foesol ar y Fenter Fawr. Yn sicr, mae cywair y drafodaeth yn cyferbynnu mewn modd calonogol â'r math o ddisgwrs a welir yn yr hyn a eilw Mark Fisher yn 'Gastell y Fampirod', ac mae hynny yn sgil ymgais ofalus a bwriadol ganddynt i gloddio am y manylder a cheisio cyfleu'r hyn a ddigwyddodd yn ei holl amrywiaeth a'i gymhlethdod (i'r graddau y mae hynny'n bosib ar bapur). Os daw unrhyw elfen o foesoldeb i'r wyneb, mae hynny ar y cyfan yn adlewyrchu'r elfen normadol sydd wrth wraidd y safbwynt ôl-drefedigaethol, sydd, yn ei hanfod, yn feirniadol o ymerodraeth ac yn ceisio rhyddfreiniad. Ond hyd yn oed yn y cyswllt hwn, mae sefyllfa drothwyol y Cymry fel pobl a drefedigaethwyd yn cymhlethu'r darlun ac yn cymhlethu unrhyw feirniadaeth ddiymatal.

Efallai mai'r sylwadau canlynol gan Taylor sy'n crynhoi orau ei safbwynt ar faterion normadol y drafodaeth: 'The Welsh might indeed be lauded for their peaceable impulses in a global context of colonial brutality. However, this does not obviate Welsh appropriation of indigenous lands, nor does it eliminate the colonial/racial hierarchies of power within this relationship.'[25] Mae'r frawddeg gyntaf yn amlwg yn awgrymu bod lle i gydnabod arwahanrwydd y Cymry, tra bo amwysedd wedyn wrth gyfeirio at ffeithiau moel o safbwynt yr hyn yr oedd y Cymry yn gyfrannog ohono sef, yn y bôn, eu gweithredoedd o fewn strwythur hollbresennol trefedigaethu cyfalafol. Yn yr adran nesaf, awn i'r afael â'r elfennau strwythurol hyn gan ofyn a oes modd cynnig ymateb moesegol amlwg i'r cyfraniad hwn.

Yn ddiddorol iawn, ac yn addas iawn yn fy marn i, yr hyn sydd o'r pwys mwyaf o safbwynt moesol i'r ddwy awdures uchod yw'r hyn y mae ein dealltwriaeth o'r Wladfa

[23] Taylor, L. (2018), 'Global perspectives on Welsh Patagonia: the complexities of being both colonizer and colonized', *Journal of Global History*, 13, 446–68 (465).
[24] Taylor, 'The Welsh Way of Colonisation', 1079.
[25] Taylor, 'Welsh–Indigenous Relationships', 152.

yn ei olygu o ran y byd sydd ohoni. Yn ogystal ag annog hunanfyfyrio, a phwyslais ar yr hunan yn hytrach na chollfarnu eraill, mae'n gwneud synnwyr i ni flaenoriaethu'r agwedd hon ar safbwynt moesegol oherwydd, yn wahanol i hanes, mae statws y brodorion a'u ffawd – a sefyllfa'r Gymraeg yn y Wladfa o ran hynny – yn parhau i fod yn y fantol. Yn arbennig, pwysleisia Lublin a Taylor fod y tueddiad i gofio'r cyfeillgarwch, heb roi sylw i'r agweddau strwythurol ehangach, yn mennu ar y gallu i ymagweddu'n feirniadol tuag at y sefyllfa gyfoes. Mae peryg iddo gyfiawnhau 'the colonial project, erasing the violence and injustices of displacement, and marking the moments and practices of settlement as legitimate'[26] a thrwy feddalu'r cof am wladychu fel system, leihau ein pryderon a'n dyhead i weithredu yn y byd sydd ohoni. Ychwanega Taylor fod stori'r cyfeillgarwch 'serves to defuse or delegitimise the on-going indigenous struggle for land rights and cultural dignity, and reinforces notions of indigenous passivity and receptivity through discourses of friendship.'[27] Gall unrhyw un yng Nghymru sy'n gyfarwydd â'r mudiad annibyniaeth ddeall sut y mae'r cof yn chwarae rhan wrth ddilysu'r frwydr gyfoes. Ceir ymateb go chwyrn i unrhyw ymgais i feddalu hanes Brad y Llyfrau Gleision neu Dryweryn, er enghraifft, er mwyn dadlau bod strwythurau'r Deyrnas Gyfunol wedi bod yn rhai llariaidd ar y cyfan. Fel y dywed Taylor, 'this issue is far more than a theoretical puzzle or a historical curiosity. The stakes are much higher: even today indigenous communities in the Chubut Valley are facing struggles over land rights, assaults on their dignity, and brutal violence. For them, settler colonialism is not a thing of the past, even in Y Wladfa.'[28]

I mi, y gwersi sydd i'w dysgu o astudiaethau Lublin a Taylor yw bod y sefyllfa'n un hynod anodd, sy'n gofyn am ystyriaeth ofalus iawn o safbwynt beirniadaeth foesol, ac sydd mewn gwirionedd yn awgrymu nad yw beirniadaeth o'r fath yn ddoeth na hyd yn oed yn bosib. Ymhellach, mae'n amlygu bod pwysigrwydd moesegol y drafodaeth yn codi, nid yn unig o safbwynt y gallu i glodfori neu gollfarnu ymddygiad pobl yn y gorffennol, ond hefyd wrth ystyried ein hymddygiad ni yn awr – a bod y berthynas â'r gorffennol ac amlygrwydd moesoldeb yn ymwneud yn bennaf â'r modd y mae ein hagwedd ni at y cofio yn effeithio ar yr ymddygiad hwnnw.

## Cyfrifoldeb moesol

Ceir trafodaethau helaeth ym maes athroniaeth wleidyddol ar fater cyfrifoldeb moesol dros anghyfiawnder hanesyddol a chyfredol fel ei gilydd, ac mae'r rheini'n berthnasol hefyd ar lefel ryngwladol. Ceir yng ngwaith David Miller,[29] er enghraifft, drafodaethau hir am ddilysrwydd y syniad o bobloedd neu wledydd yn etifeddu cyfrifoldeb moesol, y mathau gwahanol o gyfrifoldeb sydd (e.e. bod yn gyfrifol yn yr ystyr achosol [*causal*] a bod yn gyfrifol yn yr ystyr moesol, trwy fod wedi bwriadu gweithredu), a chwestiynau ynghylch

26 Ibid.
27 Ibid., 167.
28 Taylor, 'Global perspectives on Welsh Patagonia', 468.
29 Gweler Miller, D. (2008), *On Global Justice and National Responsibility* (Oxford: Oxford University Press).

pwy sydd â'r cyfrifoldeb i wneud beth, ar sail y cyfrifoldebau hynny. Un o'r safbwyntiau mwyaf perthnasol, a all fod yn fuddiol wrth fyfyrio ar y posibiliad o gyfrifoldeb moesol yng nghyswllt y Wladfa, yw'r cysyniad o 'anghyfiawnder strwythurol' a ddatblygwyd gan Iris Marion Young gyda'i 'model cysylltiad cymdeithasol' (*social connection model*).[30] O ran dygymod â'r heriau a gyflwynir gan sefyllfa'r Wladfa, rhoddir sylw yma i'r modd y datblygwyd safbwynt Young gan Catherine Lu, fel rhan o'i hymdrechion hi i ddadansoddi cwestiynau cymhleth ac amwys ynghylch trefedigaethu'r Coreaid gan Siapan. Mentraf gynnig bod y syniadau hyn yn ein helpu i ddeall sut y mae modd meintioli cyfrifoldeb moesol mewn perthynas â grymoedd strwythurol estynedig; hefyd, mae'n cynnig safbwynt moesol sy'n blaenoriaethu edrych tuag ymlaen yn hytrach na thuag yn ôl, sy'n gydnaws â'r math o drafodaeth a awgrymwyd uchod.

Sut felly y dylem ddeall y cysyniad hwn o anghyfiawnder strwythurol? Yn ei hanfod, mae'r cysyniad o anghyfiawnder strwythurol yn un sy'n cyfeirio at y drygau sydd ynghlwm yn y system fel y mae'n gweithredu (megis y system o drefedigaethu cyfalafol byd-eang y cyfeirir ati yma yn achos y Wladfa). Deallwn natur strwythurau anghyfiawn fel a ganlyn: 'social structures and processes – embodied in "institutions, discourses, and practices" – that are based on morally unacceptable values or belief systems'.[31] I ddefnyddio ymadrodd Saesneg, felly, rydym yn cyfeirio at y *totality* – crynswth y system fyd-eang a oedd yn gyfrifol am gyflyru ymddygiad gwladwriaethau oddi mewn iddi. Yr hyn sy'n nodweddiadol o'r math hwn o anghyfiawnder yw nad oes yr un 'isolatable perpetrator, but rather [they] result from the participation of millions of people in institutions and practices'.[32] Awgryma hyn felly nad oes modd gosod cyfrifoldeb arwahanedig ar unigolyn neu grŵp, nac ychwaith felly osod cyfrifoldeb neilltuol ar weithredwyr unigol o safbwynt gweithredu'r system, sy'n awgrymu cyfrifoldeb o fath ar ran pawb sy'n gyfrannog o'r strwythur. Ymhellach, er nad yw'n safbwynt sy'n cymell beio unigolion am natur y system, mae eto'n safbwynt sy'n caniatáu didoli cyfrifoldeb yn ôl yr amgylchiadau penodol, lle y bydd modd adnabod rhai drwgweithredwyr neilltuol ac echrydus (gan gydnabod hefyd eu bod yn ddibynnol i raddau ar gyfraniad eraill i'r system). Medd Young, 'the makers of genocidal policies and those that directly implement them are enabled and supported by wider social structures in which many participate.'[33] Ar lefel yr unigolyn, oni bai ei fod yn gwrthwynebu anghyfiawnder mewn modd cyson, y mae'n cyfrannu tuag ato, ni waeth pa mor fychan y bo'r cyfraniad hwnnw.

Mae'n amlwg, efallai, pam y cred Lu fod cyrchddull Young yn un addas ar gyfer meintioli cyfrifoldeb moesol yn achos y system drefedigaethol. Wrth gymhwyso'r cysyniad i'r system honno, mae'n dal yn bosib priodoli cyfrifoldeb am weithredoedd anghyfiawn i wladwriaethau,

[30] Young, I. M. (2006), 'Responsibility and global justice: A social connection model', *Social Philosophy and Policy*, 23(1), 102–30.

[31] Lu, C. (2011), 'Colonialism as structural injustice: Historical responsibility and contemporary redress', *Journal of Political Philosophy*, 19(3), 261–81 (267).

[32] Young, I. M. (2004), 'Responsibility and global labor justice', *The Journal of Political Philosophy*, 12(1), 365–88 (377).

[33] Ibid.

grwpiau ac unigolion, ond yn ogystal y mae'n rhaid gosod cyfrifoldeb ar bawb a oedd yn cyfrannu i'r system. Erys y posibiliad hefyd o ddidoli mwy o gyfrifoldeb i rai nag eraill o ran creu a chynnal y system, yn enwedig y gwladwriaethau, a'r rhai dominyddol yn eu mysg, a oedd â'r grym pennaf wrth gynhyrchu ac atgynhyrchu'r system ryngwladol. Yn ei gwaith hi, rhydd Lu bwyslais arbennig ar y sawl a oedd yn ddinasyddion Coreaidd a oedd yn cydweithio â'r grym trefedigaethol, ac yn gweithredu ei amcanion. Yn benodol, mae'n canolbwyntio ar y sawl a oedd yn cefnogi ac yn galluogi'r hyn a elwir yn llednais yn 'system cysuro' a oedd yn gorfodi merched Coreaidd i ddiwallu dymuniadau rhywiol y milwyr Siapaneaidd. Mae ganddi hi felly ddiddordeb penodol mewn anghyfiawnder strwythurol oherwydd ei allu i gydnabod 'victim-perpetrators' a synio amdanynt; 'those in colonial positions of subordination (such as all Korean colonial subjects) nevertheless still occupied different social positions that enabled some (...) to derive benefits at the expense of their more socially vulnerable compatriots.'[34] Mae'r safbwynt moesol yn caniatáu inni gydnabod bod yr un unigolyn neu grŵp yn gallu bod yn ddioddefwyr ar y naill law tra eu bod ar y llaw arall yn creu dioddefaint i eraill. Meddai Lu, 'The complexity of structural injustice thus permits more nuanced as well as more expansive judgments about the agents who bear historical responsibility for specific patterns of injustice in colonial contexts.'[35]

Ac eto, mae hi ar yr un pryd yn cydnabod cymhlethdod y broses hon a'r ffaith bod y Llys Rhyngwladol yn arddangos pa mor anodd y gall gweithredu hyn fod: 'In cases of structurally-based injustices that involve (...) mass participation in direct wrongdoing, the attribution of individual guilt is more complicated than in a standard case.'[36] Yn ddiddorol ddigon, mae'n cyfeirio at y modd y byddai safbwynt strwythurol wedi gallu atal y sefyllfa yng Nghorea rhag cael ei dehongli mewn modd gorsyml a ffafriai wleidyddiaeth genedlaetholgar, hynny yw, trwy osod y cyfrifoldeb i gyd ar Siapan yn hytrach na rhoi ystyriaeth i'r system neu gyfraniad rhai Coreaid; yn yr un modd, gallasai rhywun awgrymu bod safbwynt o'r fath yn ddefnyddiol yn achos Cymry Patagonia lle y gellir defnyddio'r 'cyfeillgarwch' – a'r naratif am bobl ar ffo yn ymgartrefu mewn modd di-drais – i wadu unrhyw ddrygioni yn y broses o ddatblygu'r wladwriaeth Archentaidd fodern (yn hytrach na chydnabod anfoesoldeb y system neu'r posibiliad fod y Cymry yn 'dramgwyddwyr dioddefol'). Byddai cymhwyso'r safbwynt hwn o anghyfiawnder strwythurol yn gwarafun y fath symudiad gorsyml.

Mae safbwynt Young hefyd yn bwysig o ran y gallu i gydnabod bod moesau a gwerthoedd yn esblygu dros amser, ac y byddai'r hyn a ystyrir yn anfoesol ac erchyll heddiw yn cael ei ystyried mewn ffyrdd eraill yn y gorffennol. Mae hyn yn arbennig o bwysig o safbwynt ystyried a meintioli euogrwydd moesol gweithredwyr yn y gorffennol. Esbonia Young yr agwedd hon trwy gychwyn gan gyfeirio at y ffaith ein bod ni, ar y cyfan, yn ystyried anghyfiawnder yn ei ffurf arferol fel gweithred sy'n gwyro oddi wrth 'waelodlin foesol';[37] yr ymateb addas yn y cyswllt hwn yw chwilio am y troseddwr, a fydd yn gorfod talu am y

[34] Lu, 'Colonialism as structural injustice', 270.
[35] Ibid.
[36] Ibid., 272.
[37] Young, 'Responsibility and global justice', 120.

camwedd. Ar sail y safbwynt hwn, byddai gweithredoedd o drefedigaethu gan y wladwriaeth Brydeinig, er enghraifft, yn rhai drwg a fyddai'n gofyn am gosb ac iawndal i'r sawl a ddioddefodd. Yn yr un modd, byddai gweithredoedd y Cymry wrth berchnogi tiroedd y brodorion yn destun dadleuon tebyg. Fodd bynnag, y cymhlethdod, a'r hyn sy'n cael ei amlygu a'i gydnabod o safbwynt anghyfiawnder strwythurol, yw'r ffaith y bu strwythurau trefedigaethu yn gyson â moesau'r cyfnod, heb grwydro ymhell o waelodlin foesol yr oes. Fel y dywed Lu, 'Colonizer states' actions were typically not aberrant violations of international norms, customs or laws.'[38] Roedd y gweithredoedd yn ddilys yn ôl safonau'r cyfnod. Fodd bynnag, gan gydnabod hyn, gallwn hefyd, o'n safbwynt ni heddiw, ddatgan nad oedd y waelodlin foesol hon ynddi ei hun yn gyfiawn.

Y neges sylfaenol a awgrymir yma felly yw bod y strwythurau a oedd yn eu lle yn rhai problematig o safbwynt moesol, cyfoes, ond eu bod yn dderbyniol ar y pryd, gyda gweithredoedd gwladwriaethau, grwpiau ac unigolion yn gyson â hwy: 'In such circumstances, individuals' or states' wrongful actions typically conform to, rather than deviate from, a morally defective baseline.'[39] Roedd lle i ddadlau ynghylch moesoldeb y dulliau (fel yr oedd y Cymry, a Michael D. Jones yn arbennig, yn ei wneud), ond nid oedd strwythurau trefedigaethu cyfalafol byd-eang yn y fantol foesegol. Yn achos astudiaeth Lu o Siapan a Chorea, mae'n awgrymu pwysigrwydd hyn wrth gloriannu'r naill yn gwladychu'r llall. Meddai, 'the sociological reality was that in a colonial international system, Japan was not behaving like a deviant state, but was acting in accordance with prevailing international norms, if not international law, when it annexed and colonized Korea in 1910.'[40] Er y byddem heddiw yn ddigon bodlon edrych yn ôl a chondemnio'r Siapaneaid, cymhlethir hyn wrth ystyried eu bod ar y pryd yn gweithredu polisi cwbl dderbyniol o ran safonau rhyngwladol y cyfnod.

Tra bo'r safbwynt strwythurol hwn at ei gilydd yn cynnig y posibiliad o gloriannu cyfrifoldeb moesol am anghyfiawnder mewn sefyllfaoedd hanesyddol cymhleth, megis y cyd-destun ôl-drefedigaethol, yr agwedd bwysig arall fel yr awgrymwyd yw ei fod yn safbwynt sydd â'i olygon ar y dyfodol. Yma, mae cysyniad Young o 'gyfrifoldeb gwleidyddol' yn bwysig yn yr ystyr ei fod yn ymdrechu 'not to reckon debts, but aims rather to bring about results'.[41] Hynny yw, nid pwrpas y model yw adnabod drwgweithredu yn y gorffennol er mwyn ein galluogi i adnabod euogrwydd a chondemnio; yn hytrach, ei ddiben yw galluogi dealltwriaeth glir o'r gorffennol er mwyn galluogi gweithredu moesol, pwrpasol yn y presennol, gyda golwg ar ryddfreiniad unigolion. Yng ngeiriau Lu: 'Political responsibility avoids blaming agents, and is mainly concerned with mobilizing "collective action for the sake of social change and greater justice"' (dyfynnu Young a wna ar y diwedd).[42]

Yn y cyswllt hwn, mae'n bwysig deall byrdwn 'cyfrifoldeb gwleidyddol' a gwahaniaethu rhyngddo a'r 'model atebolrwydd'. Mae'r ail yn cyfeirio at y model arferol o adnabod

[38] Lu, 'Colonialism as structural injustice', 266.
[39] Ibid.
[40] Ibid.
[41] Young, 'Responsibility and global labor justice', 379.
[42] Lu, 'Colonialism as structural injustice', 278.

drwgweithredu, gyda'r bwriad o sicrhau bod unigolion yn atebol am eu gweithredoedd trwy gosb neu iawndal. Mae'n debyg mai dyma'r math o fodel sy'n cyflyru ymatebion chwyrn ar-lein ynghylch euogrwydd pobl o'r oes a fu, a'r dyhead i gollfarnu pobl yn euog ac yn deilwng o ddirmyg. Ar y llaw arall, mae adnabod 'cyfrifoldeb gwleidyddol' yn ymwneud â'r bwriad '[to] stimulate collective action to transform social structures so as to avoid further injustices and injuries'.[43] Mae'r 'model cysylltiad cymdeithasol' a ddatblygir gan Young yn ymwrthod â'r model atebolrwydd ac euogrwydd unigolion fel man cychwyn ar gyfer unrhyw feintioli moesol ar y gorffennol, ond yn hytrach yn troi at y cysyniad o gyfrifoldeb gwleidyddol sy'n osgoi'r dyhead i gollfarnu. Mae'n cynnig bod pawb sy'n gyfrannog o brosesau strwythurol sy'n creu canlyniadau anghyfiawn, boed yn uniongyrchol ai peidio, yn ysgwyddo rhywfaint o gyfrifoldeb i ddiwygio eu gweithgaredd, eu harferion a'u sefydliadau er mwyn osgoi atgynhyrchu drwgweithredu yn barhaus. Nid ydym yn collfarnu unigolion yn foesol am weithredu o fewn systemau y maent wedi eu meithrin oddi mewn iddynt, ond rydym, yn hytrach, yn eu hannog i'w hystyried eu hunain yn rhannol gyfrifol am eu parhad, gan danlinellu eu gallu i newid hyn. Yn hynny o beth mae'n nodedig, efallai, er nad oedd y Cymry yn amau'r arfer o wladychu yn y cyfnod, eu bod yn cwestiynu'r dulliau ac yn ymgeisio at ffurfiau amgen o ymsefydlu.

O safbwynt y system drefedigaethol, roedd pawb yn y gwladwriaethau imperialaidd a threfedigaethol yn rhannu rhywfaint o gyfrifoldeb gwleidyddol, ac mae pawb yn y gwledydd hynny heddiw, sy'n elwa ar y gwaddol, â chyfrifoldeb i fynd i'r afael â'r anghyfiawnder sy'n cael ei atgynhyrchu yn y byd ôl-drefedigaethol, lle y mae'r anghyfiawnder yn parhau mewn ffyrdd anuniongyrchol – rydym oll yn gyfrifol yn hynny o beth, a'r un ohonom heb ein bai. Diddorol yn y cyswllt hwn wedyn yw dehongliad Lu, a'r awgrym nad yw'r sawl sydd â 'chyfrifoldeb gwleidyddol' (sef y mwyafrif llethol, mae'n debyg) yn foesol atebol neu'n euog am weithredoedd drwg yn yr un modd â throseddwyr neilltuol (hyd yn oed os oedd y gweithredoedd hynny wedi eu cyflyru gan y strwythurau anghyfiawn). Nid yw derbyn cyfrifoldeb gwleidyddol yn gyfystyr â derbyn y bai moesol am ddrwgweithredu ysgeler sydd islaw gwaelodlin foesol y cyfnod. Lle y mae modd datgan bod gan y gwladfäwr Cymreig gyfrifoldeb gwleidyddol am ei ran mewn trefedigaethu (neu fod y gwerinwr Cymreig yn ôl yng Nghymru â chyfrifoldeb gwleidyddol fel rhywun a oedd wedi elwa, rywfaint o leiaf, ar y system drefedigaethol), nid yw'n foesol euog yn yr un modd, er enghraifft, â'r Cadfridog Roca a arweiniodd Goncwest yr Anialwch (neu yn achos y gwerinwr o Gymro, yn yr un modd, dyweder, â Thomas Picton).

Ystyrir yr argyfwng hinsawdd heddiw yn yr un modd: mae gan bawb sy'n byw mewn cymdeithasau datblygedig gyfrifoldeb gwleidyddol i wrthsefyll yr anghyfiawnder strwythurol am eu bod yn elwa arno ac felly'n ysgwyddo elfen o gyfrifoldeb gwleidyddol. Fodd bynnag, caiff yr *euogrwydd moesol* ei rannu'n bennaf rhwng llywodraethau a chwmnïau sy'n llygru ac yn creu ac yn atgynhyrchu'r strwythur llygredig – mae condemniad moesol yn eu hachos hwy yn addas o'r herwydd. Dichon y bydd rhai achosion yn fwy cymhleth ac yn syrthio

[43] Ibid., 277.

rhwng stôl cyfrifoldeb gwleidyddol ar y naill law a stôl euogrwydd moesol; meddylier, er enghraifft, am yr unigolyn yn y wlad ddatblygedig sy'n hedfan yn go aml.

Yn gyffredinol, yr hyn sydd o bwys yw bod gennym fframwaith rhesymegol yn y lle cyntaf sy'n caniatáu ymgais i ystyried a dadansoddi'r agweddau moesol hyn yn ystyrlon, gan ganiatáu gwahaniaethu rhwng amrywiaeth o weithredwyr, a chydnabod rôl strwythurau eang wrth gyflyru gweithgarwch, a chyfraniad rhai yn fwy nag eraill wrth gynnal y strwythurau hynny a manteisio arnynt. Mater o sythwelediad syml yw cydnabod bod sefyllfa foesol y gwladychwr gwerinol o Gymro yn wahanol i honno o eiddo'r wladwriaeth Archentaidd mewn cyswllt â threfedigaethu Chubut. Digon amlwg hefyd yw bod amrywiaeth yn anochel rhwng ymddygiad unigolion o fewn yr un grŵp; dichon fod sbectrwm moesegol ymhlith Cymry Patagonia, o safbwynt agweddau ac ymddygiad tuag at y brodorion. Anodd, ond pwysig, yw ceisio fframwaith dadansoddol er mwyn amlygu'r gwahaniaethau oll. Mentraf gynnig bod 'model cysylltiad cymdeithasol' Young, a'r modd y'i cymhwysir gan Lu, yn ein rhoi ar ben ffordd wrth geisio gosod trafodaeth ar oblygiadau moesegol y Wladfa ar seiliau rhesymol a rhesymegol, a cheisiaf amlygu hyn wrth gloi.

## Casgliad

Bwriad yr erthygl hon oedd awgrymu ar y naill law natur orsyml, ideolegol ac anaddas disgwrs y gyhoeddfa Gymreig ar-lein yng nghyswllt hanes y Wladfa, tra ceisiwyd ar y llaw arall gynnig sail ar gyfer trafodaeth ar agweddau moesegol y Fenter Fawr o safbwynt mwy ystyrlon, athronyddol. Mae man cychwyn yr ysgrif, sef yr honiad bod y disgwrs yn ymfflamychol ac yn simsan, yn ymylu ar fod yn wireb i'r sawl sydd wedi treulio unrhyw amser yn arsylwi arno. Awgrymwyd union natur y broblem trwy gyfeirio at resymeg platfform megis Twitter, gan gyfeirio at waith Fisher fel enghraifft o ymgais i'w dadansoddi.

Ar ôl honni bod disgwrs y Wladfa yn enghraifft o dueddiadau a diwylliant maleisus Twitter yn arbennig, roedd y drafodaeth o waith Lublin a Taylor yn ymgais i ddatgelu cymhlethdod a natur ddyrys yr hanes, fel rheswm ynddo'i hun i ymatal rhag trafodaethau moesegol, yn benodol mewn cyfrwng nad yw'n caniatáu inni arddangos y crebwyll a'r cymedroldeb sy'n ofynnol at bwrpas y cyfryw drafodaethau. I'r perwyl hwn, awgrymaf na ddylem gymryd y 'disgwrs' ar y Wladfa o ddifrif, na'i ystyried yn gyfraniad teilwng i'r drafodaeth ar y materion hyn. Dylem ei drin gyda'r un gofal a'r un sgeptigrwydd ag yr ydym yn ei neilltuo i bropaganda a gwefannau o darddiad amheus. Mae yn sicr le i flogiau a darnau trafod, ond ni pherthyn gwerth digonol i'r sylwebaethau ar-lein sy'n eu dilyn. Yn hynny o beth, dylem ochel rhag unrhyw ymgais i osod statws moesol o sylwedd i'r moesoli a'r condemnio sy'n digwydd ar y cyfryngau cymdeithasol fel y saif pethau. Yn anffodus, fodd bynnag, mae'r geiriau gweigion hyn yn y gyhoeddfa newydd yn teimlo'n ddigon real eu hergydion i'r sawl sy'n eu dioddef.

Wrth geisio ymdriniaeth ystyrlon â'r cwestiynau moesol, mae dadansoddiadau Lublin a Taylor yn bwysig o safbwynt cynnig ymgais gytbwys a gofalus i ddadansoddi'r hanes, mewn modd sydd wir yn cyfleu drysni'r sefyllfa yn ei chyfanrwydd. Maent yn defnyddio agweddau o ddamcaniaeth ôl-drefedigaethol i gyfleu rhai o densiynau a chroesddywediadau'r sefyllfa,

yn arbennig yng nghyswllt y berthynas â'r brodorion, a statws y Cymry yn rhinwedd eu sefyllfa fel pobl ar ffo, a oedd ar yr un pryd yn cydweithio â gwladwriaeth drefedigaethol yr Ariannin. Cyfyd dwy agwedd sylweddol o ran y trafodaethau hyn, sef y posibiliad nad oes modd gwneud unrhyw ddatganiadau clir a syml ar agweddau moesegol y Fenter Fawr, a bod y ffocws mewn gwirionedd yn un a ddylai fod ar ein gweithredoedd ni heddiw, ac nid y rhai nad ydynt yma gyda ni bellach.

Mae 'model cysylltiad cymdeithasol' Young yn gymorth inni amlygu sut yr oedd y Cymry ym Mhatagonia, fel pob un ohonom, yn gwneud penderfyniadau ac yn gweithredu o fewn gwe ddyrys o strwythurau, daliadau a rhagdybiaethau sy'n peri i feirniadaeth foesol fod yn arbennig o anodd. Roedd y waelodlin foesol o safbwynt trefedigaethu yn un wahanol iawn i eiddo'r dydd sydd ohoni. Yng ngoleuni hynny, onid gwell felly fyddai canolbwyntio ar yr hyn sydd o fewn cwmpas ein dylanwad, yn hytrach nag ar hanes nad oes modd ei newid? Yr elfen fwyaf trawiadol o'r hanes – sy'n datgelu nerth a gorthrwm strwythurau blaenllaw'r cyfnod – oedd y newid rhwng y cyfnod cynnar lle'r oedd gobeithion iwtopaidd y gwladfawyr o ail-greu strwythurau'r gymdeithas i'w gweld o fewn cyrraedd (gan gynnwys dad-wneud strwythurau hiliaeth hyd yn oed), ac yna'r cyfnod wedi Concwest yr Anialwch, pan ddaeth grym a gormes y wladwriaeth i'r amlwg o safbwynt y ddwy bobl, gan arwain at dynged o fath gwahanol i'r gwladychwyr gwyn a'r brodorion brown. Dangos grym aflan y wladwriaeth y mae'r newid hwn yn anad dim.

Gyda golwg ar y ddwy elfen hyn, sef y drysni a'r pwyslais ar y presennol, mae model 'cysylltiad cymdeithasol' Young – fel y mae Lu yn ei ddadlau – yn cynnig modd defnyddiol o geisio gweithio'n ffordd trwy'r drysni ac o amlygu rhai agweddau pwysig. O'r safbwynt hwn, roedd y Fenter Fawr yn brosiect a oedd yn cyd-fynd mewn modd digon amlwg â safonau a thueddiadau'r dydd. Yn wir, fel y mae Taylor yn ei awgrymu, roedd y Cymry, i raddau, yn arfer agweddau blaengar a all fod yn destun edmygedd o ystyried y cyd-destun hwn – roedd agweddau ar eu gweithgarwch yn ymgais hyd yn oed i wyrdroi rhagdybiaethau moesol y cyfnod. Y mae gofyn pwyso a mesur hyn wedyn yn erbyn y gweithredoedd o ymfudo, perchnogi tiroedd y brodorion a chefnogi datblygiad y wladwriaeth Archentaidd fodern. Rhaid ystyried y gweithredoedd hyn fel rhai derbyniol yn y cyfnod hwnnw, sy'n golygu, o safbwynt model Young, eu bod yn cwympo i'r categori o osod cyfrifoldeb gwleidyddol ar y gwladfawyr am alluogi trefedigaethu, ond nid yw'n gosod atebolrwydd moesol uniongyrchol arnynt am ddrwgweithredu. Yn hynny o beth, mae condemniad moesol ohonynt ar sail rhyw awgrym o weithredoedd ysgeler yn anaddas.

Fodd bynnag, er bod hynny'n gymhleth, ac weithiau'n ofer, mae modd gwahaniaethu'n foesol rhwng glo mân y gwahanol weithredoedd bach a mawr, unigol a chyfunol. Yn bennaf yn yr achos hwn, nid yw cydnabyddiaeth o gyfrifoldeb gwleidyddol y Cymry dros gyfrannu i brosesau atgynhyrchu trefedigaethu a manteisio arnynt yn golygu eu bod yn foesol gyfrifol yn yr un modd â'r wladwriaeth Archentaidd am ffawd y brodorion, yn enwedig yn ystod Concwest yr Anialwch. O safbwynt y lluoedd arfog hynny, y mae modd wedyn osod cyfrifoldeb moesol penodol a mwy sylweddol ar yr arweinwyr am eu triniaeth erchyll o'r brodorion. O safbwynt y Cymry a'u disgynyddion, mae'n bosib hefyd y byddai modd

gwahaniaethu ar sail eu gweithredoedd unigol. Er enghraifft, ymddengys mai di-sail yw'r achos dros gondemniad moesol o'r gwladfawyr cynnar, a'r sawl wedyn a geisiai bledio achos y brodorion; ond rhaid bod yn agored i'r posibiliad fod eraill a fyddai wedi manteisio neu elwa'n uniongyrchol ar sgil-effeithiau Concwest yr Anialwch gan ehangu'r Wladfa i'r gorllewin, a'u bod ymysg y sawl a oedd yn foesol gyfrifol i raddau am weithredoedd a niweidiai'r bobloedd Tehuelche a Mapuche mewn ffyrdd erchyll.

Mewn gwirionedd, anodd ydyw cyrraedd unrhyw ddedfryd gwbl gadarn ar y materion hyn, a phwyso a mesur pryd y mae gweithredoedd grwpiau ac unigolion yn llithro o fod yn fater o 'gyfrifoldeb gwleidyddol' i 'euogrwydd moesol'. O'm safbwynt i, awgryma'r sefyllfaoedd cymhleth hyn – mewn gwrthgyferbyniad â'r angen i gondemnio drwgweithredwyr blaenaf y gyfundrefn imperialaidd – na ddylem dreulio gormod o'n hamser yn degymu'r mintys gyda'r bwriad o osod pobl sydd wedi hen ymadael yn y fantol foesol. Dylem dderbyn yn hytrach, fel y mae'r 'model cysylltiad cymdeithasol' yn ei awgrymu, fod gennym elfen o gyfrifoldeb am y strwythurau yr ydym yn byw ynddynt sy'n cynhyrchu ac yn atgynhyrchu anghyfiawnder, hyd yn oed os yw'n anodd, os nad yn amhosib, gosod bai moesol ar grwpiau penodol mewn llawer o achosion. Rhaid derbyn bod yr heddiw a'r ddoe y mae cynifer ohonom yn y Gorllewin yn elwa arnynt, ac yn gyfrannog ohonynt, yn ganlyniad i strwythurau anghyfiawn sy'n creu dinistr a drygioni yr ydym oll yn eu cynnal. Nid oes yr un ohonom heb fai yn y cyswllt hwn. Yn hynny o beth, os yw edrych tuag yn ôl a cheisio cloriannu euogrwydd moesol grwpiau ac unigolion yn dasg ofer (ac annymunol ar sawl gwedd), mae llawer mwy o bwysigrwydd a photensial i'r broses o ddychmygu beth y gall y cysyniad hwn o gyfrifoldeb gwleidyddol esgor arno o safbwynt agweddau ar y sefyllfa gyfoes.

Esbonia Lu, mewn modd sy'n gyson ag eraill, fod y cyfrifoldeb dros strwythurau anghyfiawn yn disgyn o un genhedlaeth i'r llall ac yn parhau tra pery anghyfiawnder. Yn y cyswllt hwn, er y gellir dweud y bu'r Cymry ym Mhatagonia ac yn y famwlad yn ddioddefwyr yn sgil trefedigaethu mewnol, gellir dadlau inni hefyd elwa ar y system drefedigaethol a'i galluogi. Mae'n wir o safbwynt Cymru fel gwlad ei bod yn elwa'n gymharol ar fod yn rhan o'r Deyrnas Unedig, ac yn wir hefyd o safbwynt Cymry Patagonia a'u rhan wrth ddatblygu'r wladwriaeth Archentaidd fodern. Dylem fod yn myfyrio felly ar sut y mae modd inni 'ddad-drefedigaethu' yn y byd sydd ohoni, a brwydro yn erbyn yr hiliaeth strwythurol a'r tlodi cymharol sy'n waddol y trefedigaethu hwn.

Mae'r cyfrifoldeb i ddad-drefedigaethu wrth reswm yn cynnwys y modd yr ydym yn dewis cofio, ac mae'n deg gofyn a ddylem fod yn 'dathlu' y glanio a'r Fenter Fawr, yn hytrach na'u 'coffáu', dyweder. Eto, nid oes atebion syml yma, ond nid yw'n afresymol medru dyrchafu'r hyn a oedd yn werthfawr ac yn 'dda' – ac yn sicr mae enghreifftiau o'r cyfnod cynnar sy'n haeddiannol o hynny – ond ar yr un pryd geisio sicrhau nad yw'r dyrchafu hwn yn amharu ar y gallu i frwydro dros gyfiawnder heddiw. Yn benodol, i'r sawl sy'n wirioneddol awyddus i newid pethau er gwell, efallai fod modd inni ddefnyddio ein hegnïon creadigol, nid i gollfarnu a chondemnio, ond i archwilio mewn ffyrdd dychmygus sut y gall y gymdeithas ddinesig Gymreig gefnogi ymdrechion yn y Wladfa i hyrwyddo achos Brodyr a Chwiorydd yr Anialwch heddiw.

# Paradocs wrth bortreadu Patagonia yn y Gymru ddatganoledig: Archwiliad cychwynnol o *Separado!* (Gruff Rhys a Dylan Goch 2010)

Sara Borda Green

Cyflwynwyd: 19 Ionawr 2022; Derbyniwyd: 10 Gorffennaf 2023

**Crynodeb:** Mae'r erthygl hon yn archwilio elfennau o'r portread o'r Wladfa a gyflwynir yn *Separado!* (2010), sef rhaglen ddogfen arbrofol o ran arddull gan Gruff Rhys a Dylan Goch. Saif y portread dan sylw yng nghyd-destun ystod o weithiau ffeithiol a ffuglennol am y Wladfa o safbwynt Cymru a gynhyrchwyd ers y 1940au. Trwy gyfrwng cysyniadau a ddeillia o theori lenyddol (Linda Hutcheon), cymdeithaseg diwylliant (Pierre Bourdieu), theori wleidyddol (Ernesto Laclau), theori llenyddiaeth taith (Graham Huggan a Patrick Holland; Peter Hulme), a theori ôl-drefedigaethol (Mary Louise Pratt), bydd yn bosib olrhain yn y rhaglen ddogfen dueddiadau a fodolai eisoes mewn portreadau eraill yng Nghymru, sef troi at Batagonia mewn cyfnodau heriol yn wleidyddol er mwyn datrys pryderon am Gymreictod yn ogystal ag am orffennol a dyfodol y wlad.

**Allweddeiriau:** Cymreictod, hunaniaeth, datganoli, cenedlaetholdeb, ôl-foderniaeth, ffilm, rhaglen ddogfen, Patagonia, y Wladfa, Cŵl Cymru.

## A paradox in the portrayal of Patagonia in post-devolution Wales. *Separado!* (Gruff Rhys and Dylan Goch 2010): An initial exploration

**Abstract:** This article explores some aspects of the way in which Welsh Patagonia is represented in *Separado!* (2010), an experimental documentary (in terms of style) by Gruff Rhys and Dylan Goch. This portrayal exists in the context of a range of both factual and fictional Welsh-language representations of Patagonia produced since the 1940s in Wales. Through concepts derived from literary theory (Linda Hutcheon), sociology of culture (Pierre Bourdieu), political theory (Ernesto Laclau), travel writing theory (Graham Huggan and Patrick Holland; Peter Hulme), and postcolonial theory (Mary Louise Pratt), it will be possible to trace in the documentary trends present in previous representations of Patagonia, such as turning to Y Wladfa in politically challenging times in order to address anxieties regarding Welshness and the country's past and future.

**Key words:** Welshness, identity, devolution, nationalism, postmodernism, film, documentary, Patagonia, Y Wladfa, Cool Cymru.

Coleg Cymraeg Cenedlaethol
ISSN: 1741-4261
http://gwerddon.cymru

## Cyflwyniad

Er iddi gael ei chyfarwyddo gan Dylan Goch, Gruff Rhys (Gruffudd Maredudd Bowen Rhys, 1970–), un a ddaeth i'r amlwg gyntaf fel prif leisydd Super Furry Animals er iddo ddatblygu gyrfa unigol yn ddiweddarach, a ysgrifennodd y rhaglen ddogfen *Separado!* (2010) ac ef hefyd sy'n serennu ynddi. Mae'r rhaglen ddogfen yn dangos taith yr artist i Dde America i chwilio am René Griffiths, perthynas pell o Batagonia.[1] Mae Griffiths yn adnabyddus yng Nghymru hefyd ers y 1970au am berfformio gyda'i gitâr gerddoriaeth werinol yr Ariannin a chanu yn Gymraeg. Mae ganddo yn ogystal le arbennig yn y dychymyg Cymreig fel un sydd wedi ymgorffori archdeip o Wladfäwr ers dyddiau llenyddiaeth R. Bryn Williams: dyn ifanc a chanddo wedd 'Ladinaidd' a'r gallu i siarad Cymraeg, un sy'n meddu ar agwedd rebelaidd ond sensitif ar yr un pryd, a hynny heb unrhyw awgrym o Seisnigrwydd. Mewn geiriau eraill, cyfuniad delfrydol o'r cyfarwydd a'r ecsotig: y *gaucho* Cymraeg.

O gyfnod Refferendwm 1997 hyd at ddechrau ail ddegawd y 2000au, bu cynnydd yn nifer y cyhoeddiadau llenyddol ac academaidd, rhaglenni dogfen a ffilmiau am y Wladfa yng Nghymru. O fewn y cyfnod hwn, mae 2010 yn sefyll allan fel blwyddyn allweddol o ran cynhyrchu cynnwys creadigol am yr ardal a'i phobl. Yn ogystal â *Separado!*, yn 2010 rhyddhawyd *Patagonia*, ffilm a gyfarwyddwyd gan Marc Evans, gyda Matthew Rhys a Nia Roberts yn serennu ynddi. Nod honedig gwaith Gruff Rhys yw cyflwyno fersiwn 'amgen' o Batagonia.[2] Er hynny, dadleuaf fod y rhaglen ddogfen yn aildreulio hen ystrydebau am y berthynas rhwng Cymru a'r Wladfa. Mae'r ymdrech i'w ddatgysylltu ei hun oddi wrth bortreadau 'traddodiadol' o Batagonia yn llwyddiannus i raddau yn unig. Honnaf fod *Separado!* yn dal yn ddibynnol ar strategaethau cyffredinol ysgrifennu taith, fel pwyso'n helaeth ar ryngdestunoldeb a dangos agweddau problematig tuag at wrthrych y naratif. Ond honnaf hefyd fod y bwriad o ddadramanteiddio'r Wladfa wrth ailddyfeisio disgyrsiau a darluniau blaenorol a chyfoes o'r ardal yn symptomatig o bryderon diwylliannol ynglŷn â Chymreictod(au) Cymru. Fel arfer, wrth sôn am y Wladfa, mae'r gweithiau hyn mewn gwirionedd yn ceisio trafod Cymru. Mae cyfnodau heriol mewn termau gwleidyddol, fel y blynyddoedd ar ôl y Datganoli ym 1999, yn cynnig cyfle arbennig i archwilio'r ffenomen hon.

Er mwyn gosod y rhaglen ddogfen yng nghyd-destun cynyrchiadau am Batagonia yn y cyfryngau a'r diwylliant Cymreig, mae'n rhaid wrth ddwy weithred ddadansoddol. Yn gyntaf, rhaid mapio'r testunau y mae *Separado!* mewn deialog â nhw, er mwyn deall nodweddion parodïol a dychanol allweddol y rhaglen ddogfen. Yn ail, dylid edrych ar

[1] Mae hon yn rhaglen ddogfen arbrofol o ran arddull, a gellir felly ei hystyried yn ffilm hefyd. Fodd bynnag, mae'r naratif yn ymwneud â thaith wirioneddol ac yn darlunio hanes a bywyd pobl go iawn ac, o'r herwydd, mae'n cynnal yr honiad o wirionedd (*truth claim*) sydd wrth wraidd y *genre* dogfennol. Mae'r aneglurder hwn o ran y terfynau rhwng ffaith a ffuglen yn agwedd allweddol ar *Separado!* ond yn un sydd y tu hwnt i gwmpas yr erthygl hon. Rhoddir sylw i'r agwedd hon yn fy nhraethawd ymchwil doethurol 'The Uses of Patagonia: Representations of Y Wladfa in post-Devolution Wales' (Prifysgol Bangor) (Green 2023).

[2] Gweler y cyfweliad: https://www.youtube.com/watch?v=UDZLN0lpPC0&t=45s [Cyrchwyd: 13 Medi 2022]

nodweddion unigryw *Separado!* o'u cymharu â rhai cynyrchiadau eraill o'r fath. Mae'r arddull a ddewiswyd i adrodd y daith yn weledol yn cyfateb i estheteg ôl-fodern, agwedd eithaf anghyffredin yn nhirwedd y cyfryngau Cymreig ar ddechrau'r unfed ganrif ar hugain. Honnaf fod y dewis hwn yn hanfodol er mwyn cyfleu ar lefel weledol y disgyrsiau sy'n sail i adroddiad y daith. Ond yn bennaf oll, dadleuaf fod y disgyrsiau hyn, er eu bod yn ymddangos yn arloesol, yn adleisio hen ffordd o ddelio â phryderon diwylliannol sydd mewn gwirionedd yn fwy perthnasol i Gymru nag i Batagonia. Am y rhesymau hyn, byddaf yn canolbwyntio ar y defnydd o hiwmor yn y rhaglen ddogfen gan ddilyn diffiniadau Linda Hutcheon (2008) o barodi a dychan. Cynigiaf fod nodweddion mwy parodïol ac ysgafn y ffilm – er enghraifft, ffigwr y *gaucho*/cowboi o Batagonia – yn 'cuddio mewn golwg plaen' gynrychioliad dychanol o Gymreictod. At hynny, maentumiaf fod y dychan cynnil hwn yn elfen sy'n ganolog i 'bwrpas' y rhaglen ddogfen, sef ceisio 'dadramanteiddio' y Wladfa. Dyma ymgais, felly, i fynd i'r afael â'r parodi amlwg yn ogystal â'r dychan sydd ymhlyg ynddi – gan mai diben y ddau, mewn gwirionedd, yw ymbellhau neu ymwahanu oddi wrth fath arbennig o Gymreictod traddodiadol yng Nghymru. Gellid dweud bod *Separado!* yn enghraifft arall o'r ffordd y mae Patagonia'n ymddangos yn gyfleus a defnyddiol pan fo angen diweddaru diffiniad(au) o hunaniaeth Gymreig.

Gair Sbaeneg am 'ar wahân' yw 'separado', ac nid damweiniol yw dewis Rhys a Dylan Goch o'r fath deitl. Mae'r gŵyn am 'ramanteiddio' Patagonia yn un weddol gyfarwydd erbyn hyn yn y cyfryngau torfol a'r cyfryngau cymdeithasol yng Nghymru. Er hynny, mae'n bosib arddel bod yr ymateb hwn yn broblematig ynddo'i hun oherwydd y dallbwynt diwylliannol y mae'n ei gynnwys, sef cydnabod mai Cymru ei hun yw'r goddrych sy'n cyflawni'r weithred o ddelfrydoli Patagonia fel ei gwrthrych. Awgrymaf felly y dylid mynd i'r afael â delfrydu mewn dwy ffordd newydd. Yn gyntaf, wrth ystyried yr anesmwythder ynghylch y Wladfa a fodola'n hanesyddol ochr yn ochr â'r rhamantu. Yn ail, gellir ymdrin â'r delfrydu drwy gadw mewn cof fod rhamanteiddio yn fath o 'afluniad realiti' o ffenomen seicolegol-gymdeithasol, ac mai'r ffordd i ddelio â'i oblygiadau yw wynebu'r rhesymau sy'n rhoi cyfrif am y mecanwaith. Mae'n bosib dadlau bod y ddau, fodd bynnag, yn fathau o fan dall yn y meddwl a'r dychymyg Cymreig, sy'n tueddu i droi naill ai at alldaflu gorbryderon y Gymru gyfoes ar y Wladfa, neu ei hailchwedloni (*re-mythologise*) fel rhyw fath o fan gwyn man draw sy'n arwain at y canlyniad rhesymegol fod Cymru yn endid mwy 'real' yn y fath gymhariaeth. Y naill ffordd neu'r llall, mae pobl, tirwedd a hanes y Wladfa yn cael eu harallu (*othered*) er mwyn atgyfnerthu'r 'hunanhyder' newydd a geir yn sgil Datganoli (yn ogystal â ffenomenau diwylliannol a digwyddiadau cysylltiedig amlwg megis datblygiad Cŵl Cymru (*Cool Cymru* yn fwy cyffredin), cynnal Cwpan Rygbi'r Byd 1999, ac agoriadau Stadiwm y Mileniwm a Chanolfan y Mileniwm yng Nghaerdydd, ymhlith eraill). Mae hyn, yn y pen draw, yn arwain at ragdybiaeth beryglus o oruchafiaeth ddiwylliannol y Gymru 'newydd' hon mewn cymhariaeth â Phatagonia 'hen ffasiwn'.[3]

---

[3] Mae hyn hefyd yn gysylltiedig â dadleuon diweddar am y berthynas rhwng y fintai gyntaf a'r brodorion. Mae'r honiadau hyn, fodd bynnag – naill ai'n ymwybodol neu'n anymwybodol – yn tueddu i anwybyddu

## 1 Rhyngdestunoldeb, cyd-destun a dylanwad diwylliant Unol Daleithiau America

Ar groesffordd rhwng diwydiannau adloniant 'byd-eang' (Saesneg) a llenyddiaeth a ffilmiau 'lleol' (Cymraeg) y mae llythrennedd arbennig o gyfoethog *Separado!*. Mae ei natur ryngdestunol a dialogaidd yn ei gwneud yn hollbwysig olrhain y cysylltiadau â'r cyd-destun diwylliannol ehangach. Gellir gweld yn fuan yn y rhaglen y diddordeb mewn herio'r 'rhamanteiddio' a fu mewn nofelau, barddoniaeth, rhaglenni dogfen a ffilmiau Cymraeg. Yn ôl pob tebyg, yr hyn y cyfeirir ato yw portreadau R. Bryn Williams o Batagonia mewn ffuglen, barddoniaeth, ysgrifennu taith a dramâu radio, a'i ffigwr canolog, sef y *gaucho* Cymraeg ei iaith ond gydag arddull *Westerns* Hollywood.

Mae hyn yn bresennol eisoes yng nghlawr a phoster *Separado!* sy'n cynnwys delweddau llwyd gyda phengwin ac awyr las yn y cefndir, tra darlunnir Gruff Rhys yn sefyll yn y blaendir yn gwisgo *poncho* coch sy'n chwifio yn y gwynt. Gyda chymorth tair elfen weledol syml, arwyddir yn syth ecsotigiaeth byd natur Patagonia (ei ffawna a'i thiriogaeth), ond mae'n bosib dweud bod y *poncho* hefyd yn symbol o ecsotigiaeth ddynol yr ardal a'i ffigwr archdeipaidd yn y dychymyg Cymreig: y *gaucho*. Cynhwysodd Williams yn ei lyfrau ffuglen a osodwyd yn y Wladfa eirfa o eiriau 'perthnasol' – rhai Sbaeneg yn bennaf – a oedd yn cynnwys, ymhlith eraill, esboniad o ddillad *gaucho* megis *bombachas* (trowsus), *ffacón* [*sic*] (cyllell) a *poncho* (Williams 1958: t. I). Fel y mae'n digwydd, mae ei nofel *Croesi'r Paith* (1958) yn dechrau gyda disgrifiad manwl o ddillad dau *gaucho* ar gefn eu ceffylau yn y paith:

> Gwisgent yr un ffunud â'i gilydd, yn ôl ffasiwn gwŷr y Paith: het ddu feddal a'i chantal yn troi i fyny, a rubanau ohoni yn clymu dan yr ên rhag i'r gwynt cryf ei chipio i ffwrdd... (1958: t. 1)

Fodd bynnag, i ymbellhau oddi wrth ffigwr y *gaucho* gwledig traddodiadol hwn yn ogystal â'r cowboi Americanaidd clasurol, yn lle het mae Gruff Rhys yn gwisgo helmed goch ac arian drawiadol. Mae'r sylw a roddir i'r wisg, sy'n ailadrodd ac yn ymbellhau ar yr un pryd, yn berthnasol gan ei fod yn strategaeth weddol syml ond effeithiol er mwyn rhoi'r gwyliwr ar y trywydd cywir. Ar y naill law, mae'r wisg a'r cefndir yn lleoli'r rhaglen ddogfen ar unwaith

---

tystiolaeth hanesyddol am sefyllfa geo-wleidyddol gyffredinol tiriogaeth Patagonia yn y 19eg ganrif, yn ogystal â'r ddiplomyddiaeth a'r berthynas fasnachol a ddigwyddodd yn y Wladfa gynnar (gweler *Chupat-Camwy Patagonia: Historia de la coexistencia pacífica entre galeses, pampas y tehuelches*, Marcelo Gavirati 2017). Eto, mae'r testun hwn y tu hwnt i derfynau'r erthygl hon, ond gellir dadlau ei fod, mewn gwirionedd, yn brawf pellach o'r haeriad a ddatblygir yma. Os barnwyd y Wladfa yn anad dim yn fethiant gwleidyddol yn y gorffennol (ac, i ryw raddau, yn fethiant ieithyddol hefyd), yn yr 21ain ganrif, fe'i hystyrir yn 'fethiant moesol'. Y naill ffordd neu'r llall, mae'r dyfarniadau hyn yn ceisio ffitio datblygiadau'r fenter yn Ne America oddi mewn i gategorïau hanesyddol y dychymyg Cymreig sy'n deillio o brofiad y Cymry yng nghyd-destun Prydain Fawr/Ewrop. Mewn ffordd, mae fel pe bai'r Gymru gyfoes yn methu â meddwl amdani ei hun fel gwlad sy'n *separated* oddi wrth y Deyrnas Unedig a'i bod yn teimlo rheidrwydd i ddynwared gorffennol imperialaidd Prydain trwy greu gorffennol trefedigaethol tebyg i'w chymdogion. Datblygir y syniadau hyn ymhellach yn fy nhraethawd doethurol (Green 2023).

o fewn traddodiad Williams ac, o'r herwydd, yn cadarnhau'r hyn sy'n ddisgwyliedig am Batagonia. Ar y llaw arall, â Rhys ati ar unwaith i ymryddhau oddi wrth y traddodiad trwy ddisodli un elfen allweddol mewn modd annisgwyl a doniol. Cynigiaf fod cyfnewid het am helmed yn symbol medrus i gyflwyno natur barodïol a dychanol y ffilm sydd i ddod.[4]

Ymgorfforiad *par excellence* o'r *gaucho* ar sgriniau Cymru yw René Griffiths. Yn wreiddiol o'r Andes, symudodd i Gymru yn y 1970au a daeth yn adnabyddus am ei berfformiadau ledled y wlad. Mae clipiau o'i sioeau yn canu yn Gymraeg ond yn chwarae'r gitâr mewn arddull Sbaenaidd/Archentaidd yn ymddangos yn *Separado!*, gyda'i ymddangosiad yn cynnwys gwallt hir tywyll a *poncho* coch. Dyma gyfuniad o'r ecsotig a'r cyfarwydd sy'n noddweddiadol o'i gymeriad yn y ffilm *Gaucho* (1983), un o'r rhai cyntaf i gael ei chomisiynu gan S4C ac a gyfarwyddwyd gan Endaf Emlyn; ynddi mae Griffiths yn serennu ochr yn ochr â Caryl Parry Jones a Bryn Fôn.[5] Mae dyfnder y cysylltiadau rhyngdestunol a phwysigrwydd delweddau R. Bryn Williams yn dwysáu wrth ystyried fod Endaf Emlyn hefyd yn gerddor pop/roc ac iddo ryddhau *Dilyn y Graen*, albwm sy'n cynnwys dwy gân sy'n gysylltiedig â'r Wladfa, sef 'Madryn' a 'Bandit yr Andes' (sy'n benthyca teitl nofel blant Williams).

Mae *Gaucho* yn ymgorffori'n ddiau orgyffwrdd hanesyddol cyfarwydd yn y dychymyg Cymreig, sef hwnnw rhwng anialwch Gorllewin Gwyllt UDA/Mecsico a'r paith ym Mhatagonia. Mae fframiau cyntaf y ffilm yn cyflwyno'r geiriau 'Patagonia 1938' yn erbyn cefndir du, ac yna mae'r camera'n panio'r 'anialwch'. Wedyn ymddengys dyn ar gefn asyn tra clywir offerynnau chwyth yr Andes yn chwarae alaw i gyd-fynd â chrechwenu adar ysglyfaethus. Gwelir yn fuan grŵp o wyddonwyr Almaenig yn cymryd samplau o'r pridd, a'r camera'n troi at silwét dyn ar gefn ceffyl sy'n arsylwi ar y tramorwyr o fryn pell. Dyma gyfeiriad diamwys at ffigwr y *lone ranger* ar gefn ei geffyl a'i frwydr yn erbyn dihirod yr anialwch. Mae'r cyfeiriad at y dyddiad (flwyddyn cyn dechrau'r Ail Ryfel Byd), yn ogystal ag iaith a gwedd y gwyddonwyr, yn arwain y gwyliwr i feddwl mai dihirod yw'r rhain ac mai arwr yw'r marchog. Cadarnheir hyn yn fuan pan ddaw'r *gaucho* i'w herlid i ffwrdd â chwip. O fewn pum munud, mae cymeriad René Griffiths wedi ailsefydlu delwedd a fu'n ddisgwyliedig ers dyddiau R. Bryn Williams: *gaucho* ifanc, rebelaidd ac arwrol o Batagonia.[6]

Mae'r stori'n parhau yng Nghaerdydd ac mae'r ffocws bellach ar Gymraes ifanc, Alys, yn teithio i'r Ariannin yng nghwmni Eddie, Cymro dinesig sy'n byw yn Buenos Aires ac sy'n ymddiddori ynddi. Yno maent yn cwrdd â'r *gaucho* dirgel, sef Manuel Tomos (René Griffiths), sy'n gefnder iddi. Awgrymir yn gryf driongl serch rhyngddynt, gyda'r ddau

---

[4] Nid yw'r cysylltiad rhwng teithio i gyfandir America a hetiau yn un newydd yng nghyd-destun llenyddiaeth Cymru. Teithiodd 'eiconoclast' arall o Gymru, y Prifardd Iwan Llwyd, i Dde America yn 1998 a chynhyrchu, ochr yn ochr â'i gyfaill a'i gyd-fardd Twm Morys, *Eldorado* (1999), llyfr taith ynghyd â rhaglen ddogfen. Cafodd cerddoriaeth a ffilmiau Americanaidd ddylanwad mawr ar Llwyd ac un o'i nodweddion oedd gwisgo het debyg i gowboi. Gweler *Awen Iwan* (gol. Twm Morys 2014) yn benodol am ddylanwad diwylliant UDA ar Llwyd, a'r gyfrol *Gweld Sêr: Cymru a Chanrif America – Y Meddwl a'r Dychymyg Cymreig* (gol. M. Wynn Thomas 2001) am ei ddylanwad ar Gymru yn gyffredinol.

[5] Er hynny, mae'n anodd dod o hyd i wybodaeth am y ffilm mewn llyfryddiaeth am hanes ffilmiau Cymru.

[6] Hefyd, dyma ddihirod tramor sydd am fanteisio ar adnoddau naturiol lleol. Rhaid cofio mai ffilm a wnaed yn 1983 yw hon, hynny yw, lai na dau ddegawd ar ôl trychinebau Tryweryn ac Aber-fan.

ddyn yn cystadlu am sylw'r ferch 'mewn trallod'. Gan fod Alys a Manuel yn perthyn i'w gilydd, ni pharheir â'r stori ramantus. Ond dyma'r enghraifft gyntaf o strwythur a fydd yn ailymddangos mewn dwy nofel, sef *Glas* (Hazel Charles Evans 2006) ac *Un o Ble Wyt Ti?* (Ioan Kidd 2011) yn ogystal â'r ffilm *Patagonia* (2010). Haeraf y gellir ystyried y prif gymeriadau benywaidd yn y gweithiau ffuglennol hyn fel rhai sy'n ymgorffori Cymru o'u cymharu â'r gwrtharwyr gwrywaidd a bortreedir droeon fel Cymry dinesig heb fawr o asgwrn cefn. Ar y llaw arall, mae'r arwr yn aml yn ddyn ifanc o Batagonia sy'n meddu ar agweddau penodol: cymeriad caled ond sensitif, un clyfar a doeth sy'n siarad Cymraeg a Sbaeneg. Mewn geiriau eraill, mae Gustavo yn *Glas*, Luis yn *Un o Ble Wyt Ti?*, a Mateo yn *Patagonia* yn union fel Manuel yn *Gaucho*: y gorau o'r ddau fyd, Cymreictod nad yw'n Seisnig, ond sydd yn hytrach o anian Ladinaidd. Awgrymaf felly fod René Griffiths yn gweithredu fel dolen gyswllt allweddol rhwng dychymyg Williams o'r 1950au hyd at y 1970au – dychymyg a dynnodd ar ddetholiad o elfennau hanesyddol o Batagonia ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg – a ffuglen awduron a chyfarwyddwyr diweddarach.

Mae *Glas* (2006), nofel a ysgrifennwyd gan gyn-diwtor Prosiect Cymraeg yn Chubut, yn tueddu i ddibynnu ar ystrydebau, ond mae'n werth nodi'n bennaf fod y stori serch a awgrymir yn *Gaucho* yn cael ei gwireddu'n glir yn *Glas* ar ffurf carwriaeth rhwng Cymraes a Gwladfäwr. Cynigiaf fod y berthynas ramantus hon mewn gwirionedd yn symbol o'r hen 'ramanteiddio' ar y Wladfa, ac yn ogystal â *Glas*, daw'n amlwg yn y ffilm *Patagonia* (2010) ac yn y nofel *Un o Ble Wyt Ti?* (2011). Yn y naratifau hyn i gyd, mae'r weithred o deithio yn un ganolog, fel arfer tuag at Batagonia, a rheswm y cymeriadau dros deithio yw adnewyddu neu ailwampio eu hunaniaeth gan eu bod yn profi rhyw fath o argyfwng personol. Honnaf hefyd fod naratifau o deithio i Batagonia o Gymru yn gweithio mewn modd tebyg ar lefel genedlaethol. Dyma ffordd i ddiweddaru hunaniaeth genedlaethol, sef teithio i'r Wladfa a chymharu ei sefyllfa â sefyllfa Cymru.

Gan hynny, mae'n bosib dod i'r casgliad bod dewis Dylan Goch a Gruff Rhys o 'separado' ymhell o fod yn ddamweiniol. Mae eu pwyslais ar statws 'ysgaredig' y ddau le (a'u diwylliannau a'u pobl) yn adleisio ac yn cadarnhau trosiad y berthynas rhwng Cymru a'r Wladfa fel un rhamantus.

Elfen arall sy'n cysylltu'r rhaglen â *genre* y *Western* yw presenoldeb treftadaeth 'Indiaidd', fel petai gan holl frodorion cyfandir America fwy neu lai yr un diwylliant. Yn yr achos hwn (yn y ffilm *Gaucho*), mae nain Manuel yn frodor ac felly mae'n claddu ei dad â defod honedig 'Indiaidd', sef llosgi'r corff mewn coelcerth a wnaed o benglogau a phlu anifeiliaid. Nid yw elfennau o'r fath yn perthyn i ddiwylliannau brodorol Patagonia ond, yn hytrach, i eiconograffi sinematig Gogledd America. Heb ystyriaeth bellach, mae hanes brodorion UDA, o leiaf fel y'i cynrychiolir yn draddodiadol gan Hollywood, yn cael ei arosod ar Batagonia. Mae dadansoddiad dyfnach o'r ffilm yn mynd y tu hwnt i gwmpas yr erthygl hon, ond mae'r olygfa uchod yn cadarnhau'r berthynas gref rhwng delweddau *Wild West* UDA a Phatagonia yn y dychymyg Cymreig yn ogystal â'r diffyg ymchwil – neu ddiffyg diddordeb mewn ymchwilio – i neilltuolrwydd yr Ariannin. Mewn modd tebyg, gosodiad problematig arall yw'r ffordd y dangosir y paith Patagonaidd a *pampas* Buenos Aires fel

petaent yr un lle.[7] Yn nes ymlaen yn y ffilm, dangosir tad Cymreig Manuel o Batagonia fel *estanciero* cyfoethog (sy'n cyfateb i ffigwr y *rancher* yn UDA) a adawodd Gymru a gwneud ei ffortiwn dramor. Yn ddiweddarach yn yr erthygl, cyfeiriaf at y ddelwedd hon o'r Cymro yn ymgyfoethogi fel rhyw fath o fradwr, o gofio'r awgrym yn *Separado!* ei bod yn fwriad gan y fenter ym Mhatagonia i 'wneud arian'.[8]

Fel y gwelwyd, o ran y cynnwys, mae *Separado!* yn adlewyrchu dylanwad y cynyrchiadau gan gyfryngau torfol canol yr ugeinfed ganrif, ond gellid dweud yr un peth am yr arddull, sy'n cyfuno elfennau ffilmiau *Western* ag elfennau *pop art* (sydd â chysylltiad cryf â'r cyfryngau a'r diwydiant hysbysebu ar y pryd). Dyna'r cyd-destun byd-eang, ond mae'n werth nodi mai dyma'r union gyfnod pan oedd R. Bryn Williams yn cydgrynhoi set arbennig o ddelweddau am Batagonia yn y cyd-destun lleol. Enghraifft o'r eiconograffeg hon yn *Separado!* yw'r ffont a ddefnyddir yn y teitl a marciau ysgrifenedig eraill megis lleoedd, enwau, y rhestr gydnabod ar y diwedd, ac ati, sy'n atgoffa rhywun o bosteri *wanted* Gorllewin Gwyllt y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Ochr yn ochr â chynnydd yn y defnydd o gyfryngau torfol megis radio, teledu a sinema, daeth teithio dramor yn haws. Yn sgil datblygu technolegau cyfathrebu a chludiant y BBC, daeth yn bosib cynhyrchu rhaglenni dogfen y tu allan i Brydain, gan gynnwys rhai ym Mhatagonia. Dyma felly brif ffynonellau'r delweddau am y Wladfa a oedd yn cylchredeg yn y cyfryngau Cymreig ar y pryd, sef cyfuniad o gymeriadau gan Williams (yn seiliedig yn bennaf ar fywyd yr ail genhedlaeth o Wladfawyr – y gyntaf a anwyd yno – ar ddiwedd yr bedwaredd ganrif ar bymtheg) a rhaglenni dogfen du a gwyn y BBC. Mewn ffordd, roedd y Wladfa wedi 'cyrraedd' Cymru, fel petai, erbyn canol yr ugeinfed ganrif. O wybod hynny, nid yw dewis Rhys a Dylan Goch o estheteg y cyfnod hwnnw i greu eu portread eu hunain – rhywbeth a ddisgrifir yn gryno isod – ar ryw olwg yn syndod.

Yn y rhaglen, ceir dau gyfeiriad clir arall at estheteg canol yr ugeinfed ganrif: yn gyntaf, techneg *collage* a boblogeiddiwyd gan artistiaid gweledol *pop art* (a'r cyfryngau torfol a'u hysbesybion fel y crybwyllwyd uchod); yn ail, dylanwad arbrofi â rhithbeiriau (*hallucinogens*). Dyna pam roedd lliwiau llachar ac ansawdd darniog rhai o'r lluniau yn nodweddion arbennig yn *Separado!*. Ar ben hynny, disgrifir y rhaglen ar glawr y DVD ac ar blatfform Amazon Prime fel 'Odyssey to a parallel universe' a'r daith yn 'seicedelig'. Ond mae yna elfen arall eto sy'n cysylltu'n amlwg y 'psychedelic western musical' (Amazon Prime) hon â Hollywood ac R. Bryn Williams. Roedd ffilmiau *Western* wedi'u gosod yn bennaf mewn cyfnod pan oedd y ffiniau rhwng yr Unol Daleithiau a Mecsico heb eu diffinio, ac felly roedd symudedd a chymysgu rhwng ieithoedd a diwylliannau 'Seisnig' a 'Lladinaidd' yn gyffredin. Dyma un o ddyfeisiau llenyddol Williams: roedd yn hawdd troshaenu nodweddion yr Ariannin ar rai Mecsicanaidd gan fod ei ddarllenwyr wedi arfer gwylio'r ffilmiau yn y sinema. Hawdd

[7] Maent yn wahanol o safbwynt daearyddol a hinsoddol ar y naill law, ac o safbwynt hanesyddol a gwleidyddol ar y llall.

[8] I ychwanegu at y crynodeb byr hwn o rai elfennau dadleuol yn y portread o arwahanrwydd yr Ariannin, mae'n werth nodi hefyd sut y mae'r brifddinas yn cael ei darlunio mewn dull braidd yn gartwnaidd: dawnsio tango ac arwyddion 'Viva el fascismo'.

hefyd oedd cyfnewid y cowboi am *gaucho*, hynny yw, ail genhedlaeth o fewnfudwr Cymraeg a Sbaeneg ei iaith wedi'i gymathu i ffurfiau diwylliannol o'r Ariannin. Defnyddia Williams nifer o eiriau Sbaeneg yn ei ffuglen, ac fel y sefydlwyd eisoes, mae *Separado!* fel teitl yn datgelu sawl haen o ystyr, gan gynnwys y naws 'tex-mex'. Yn olaf, ond nid lleiaf, mae Rhys yn cloi ei daith trwy Batagonia gan chwarae'r gitâr wrth ymyl olion caban pren. Hwn oedd cartref yr enwogion Butch Cassidy a'r Sundance Kid, dau *Bandit yr Andes* (Williams 1951) 'go iawn' o UDA a fu yno yn 1901–1905.[9]

Nid dyma'r lle i archwilio'n llawn yr holl gysylltiadau rhyngdestunol yn ogystal â dylanwad eiconograffeg Americanaidd yn y portreadau o Batagonia. Fodd bynnag, hoffwn nodi'n benodol bresenoldeb nifer o gyfatebiaethau rhwng *Separado!* ac *Eldorado: llwybrau dau i le diarth* (Twm Morys ac Iwan Llwyd 1999). Yn ogystal â'u dewis amlwg o deitl Sbaeneg, byddwn yn dadlau bod Rhys, Morys a Llwyd yn rhannu *habitus* yn yr ystyr Bourdieaidd o gyfuniad penodol o asiantaethau unigol (*individual agencies*) a strwythurau cymdeithasol (*social structures*):

> Formally, Bourdieu defines habitus as a property of social agents (whether individuals, groups or institutions) that comprises a "structured and structuring structure" (...). It is "structured" by one's past and present circumstances, such as family upbringing and educational experiences. It is "structuring" in that one's habitus helps to shape one's present and future practices. It is a "structure" in that it is systematically ordered rather than random or unpatterned. This "structure" comprises a system of dispositions which generate perceptions, appreciations and practices... (Maton 2014: t. 50)

Mae naratif taith Rhys, ochr yn ochr ag un Morys a Llwyd, yn dangos nifer o 'ganfyddiadau, gwerthfawrogiadau ac arferion' cyffredin y gellir eu gweld yn eu hoffter o hiwmor, eu ffafriaeth i gymeriadau gwrywaidd ac absenoldeb rhai benywaidd, y gorgyffwrdd problematig rhwng elfennau o'r Ariannin ac UDA, a'r pwyslais ar ddatgysylltu'r Wladfa oddi wrth Gymru. Yn hyn o beth, mae dau gysyniad o theori ysgrifennu taith, sef yr agwedd 'English gentleman abroad' (Huggan a Holland 2000) a'r persbectif tebyg 'monarch-of-all-I-survey' (Pratt 2008), yn berthnasol (er bod hyn, unwaith eto, y tu hwnt i ffiniau'r gwaith hwn). Ac wrth gwrs, y mae cynsail teithiau T. H. Parry-Williams i America Ladin yn y 1920au yn gyfeiriad anorfod iddynt oll (er nad ymwelodd â'r Ariannin).[10] O ran dylanwad penodol diwylliant Unol Daleithiau America, mae Morys a Llwyd yn cychwyn ar eu taith gyda chymhariaeth – a gynhelir fel thema ar hyd y daith – rhwng eu hymchwil am Eldorado a thaith astronot Americanaidd i'r gofod ar y pryd (1998). Mae *Awen Iwan* (gol. Twm Morys

[9] Unwaith eto, dyma *blockbuster* Hollywoodaidd o'r 1960au hwyr, *Butch Cassidy and the Sundance Kid* (1969), a seriodd y chwedl ar y dychymg Gorllewinol.

[10] Mewn gwirionedd, ceir teyrnged i T. H. Parry-Williams yn *Eldorado*, 'Y Weddi (ar ôl T-HPW)' (1999: t. 89).

2014) yn cynnig trosolwg o ddylanwad UDA ar Llwyd, tra bo'r ffilm ddogfen *American Interior* (2014), taith Rhys a ddilynodd *Separado!*, yn gipolwg ar ei ddiddordeb yn hanes a cherddoriaeth y wlad honno a'i chysylltiadau â Chymru. Gellir dweud rhywbeth tebyg am Marc Evans, cyfarwyddwr y ffilm eiconig *Patagonia* (2010) gyda Matthew Rhys a Nia Roberts yn serennu ynddi, a gyfarwyddodd ffilm adnabyddus arall yn 1997, sef *House of America*.

Deunydd crai *Separado!* yw confensiynau prif ffrwd a byd-eang am Batagonia, yn ogystal ag ystrydebau sy'n deillio o'r canon Cymreig. Yn sicr, mae *Separado!* yn cynnig trefniant newydd o destunau a disgyrsiau blaenorol. Gwneir hyn trwy gyfuno traddodiadau llenyddol a chodau gweledol byd-eang a lleol ac yna eu hailddehongli mewn modd *sui generis*. O ganlyniad, awgrymaf fod y rhaglen ddogfen yn llwyddo, ar un lefel, i herio ystrydebau sefydledig am y Wladfa. Fodd bynnag, mae'r ddibyniaeth drom ar ryngdestunoldeb a'r cyffelybiaethau a ymddengys uchod yn caniatáu inni gwestiynu ongl 'arloesol' honedig y rhaglen. Er gwaethaf ei dyheadau eiconoclastig, dadleuaf y gellir olrhain gweithrediadau clasurol ar waith yn y dychymyg Cymreig o hyd. Er bod hynny wedi ei orchuddio dan echreiddigrwydd ac arbrofi gweledol, mae elfen o ddefnyddio'r Wladfa er mwyn delio â gorbryderon ynghylch hunaniaeth Cymru i'w chael yn *Separado!*. Mae'r amwysedd hwn rhwng traddodiad a thramgwydd (*transgression*) yn gynhenid i'r rhaglen ddogfen. Mae'r adrannau nesaf yn canolbwyntio ar amlygiad arwyddocaol yr amwysedd dan sylw yn y gwahanol swyddogaethau parodi a dychan a geir ynddi yn ogystal â'i natur fodern ac ôl-fodern gyfochrog.

## 2 Parodi, dychan a'r paradocs

Yn ei llyfr *A Theory of Parody: The Teachings of Twentieth-Century Art Forms* (2000), mae Linda Hutcheon yn gwrthod y cysylltiad uniongyrchol arferol rhwng parodi a dychan ac yn cynnig diffiniadau gwahanol ar gyfer y ddau. Dywed am barodi:

> [A] more neutral definition of repetition with critical difference would allow for the range of intent and effect possible in modern parodic works. (Hutcheon 2000: t. 20)

Honnaf fod yr agwedd barodïol yn *Separado!* yn gweithio mewn ffordd debyg: mae'n ailadrodd neu'n cyfeirio at ddisgyrsiau a delweddau sefydledig yn y dychymyg Cymreig, ond o bellter. Fel y mae Hutcheon yn ei ddatgan, gall confensiynau a gweithiau penodol ddod yn wrthrychau parodi (t. 13), a dyna bwysigrwydd y mapio cysylltiadau rhyngdestunol – neu 'draws-gyd-destunol', fel y geilw hi'r weithred – a geir uchod:

> Parody, then, in its ironic "trans-contextualization" and inversion, is repetition with difference. A critical distance is implied between the backgrounded text being parodied and the new incorporating work, a

> distance usually signaled by irony. But this irony can be playful as well as belittling; it can be critically constructive as well as destructive. The pleasure of parody's irony comes not from humor in particular but from the degree of engagement of the reader in the intertextual "bouncing" (...) between complicity and distance. (2000: t. 32)

Fy awgrym innau gan hynny yw bod eironi chwareus yn ogystal ag eironi bychanol ar waith yn *Separado!*. Hynny yw, ceir ynddi ddwy stori syncronedig sy'n cysylltu'r naratifau blaendirol â'r disgyrsiau a'r testunau cefndirol. Y stori amlycaf yw parodi o statws 'chwedlonol' y Wladfa a welir ar ffurf ailddehongliad o ffigwr y *gaucho*/cowboi. Mae cymeriad R. Bryn Williams yn cael ei draws-gyd-destunoli a'i realeiddio ar ffurf ymgais (*quest*) i ddod o hyd i un 'go iawn', sef René Griffiths. Gall y darllenydd/gwyliwr ymgysylltu'n hawdd â'r cymeriad a mwynhau'r ffraethineb oherwydd statws archdeipaidd y *gaucho* yn y dychymyg cenedlaethol. Fel y crybwyllwyd eisoes, mae a wnelo hyn nid yn unig â'r ffaith ei fod yn rhan o lenyddiaeth yr ugeinfed ganrif ond hefyd â'r ffaith ei fod yn ymddangos fel cymeriad cwbl gyfoes: gweler *Glas* (Hazel Charles Evans 2006), *Patagonia – Croesi'r Paith/Crossing the Plain* (Matthew Rhys 2010) a *Patagonia* (Marc Evans 2010).[11] Yn fyr, yn *Separado!*, mae Rhys yn cyfeirio, o bellter, at rai disgyrsiau a darluniau treuliedig o'r Wladfa, ond fel y'u disgrifiwyd uchod. Mae'r pellter ar ffurf eironi chwareus.

Yn y cyfamser, mae darlleniad parodïol arall o ddisgyrsiau am Batagonia ar waith yn *Separado!*. Ymddengys mewn ffordd gynnil ond mae'n gwbl hanfodol er mwyn deall yr ystyr penodol y mae *Separado!* yn mynnu ei bwysleisio. Yn ôl Hutcheon, 'parody is, then, an important way for modern artists to come to terms with the past' (t. 101), a dyna'n union sydd yn y fantol yn y rhaglen ddogfen. Dadleuaf fod Rhys a Dylan Goch yn gadael Cymru gyda rhyw fath o agenda sefydledig: teithio i Wladfa'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, sydd wedi'i rhamanteiddio'n fawr, er mwyn diffinio safiad gwleidyddol yn y Gymru gyfoes ôl-ddatganoledig. Dyma gyfnod pan oedd syniadau dadleuol am Gymreictod yn ymgiprys â'i gilydd i ddiffinio hunaniaeth genedlaethol, a daw cysylltiad uniongyrchol Patagonia â'r gorffennol yn y dychymyg Cymreig yn ffordd hawdd o wrthsefyll math o Gymreictod sy'n gaeth i'r gorffennol ac fel petai'n bygwth dyfodol y wlad. O'r herwydd, mae math tra gwahanol o barodi, sef dychan, i'w gael yn y rhaglen hefyd. Dyma, ym marn Hutcheon, nod amgen dychan: 'unlike parody, [it] is both moral and social in its focus and ameliorative in its intention' (t. 16). Mewn geiriau eraill:

> Both satire and parody imply critical distancing and therefore value judgments, but satire generally uses that distance to make a negative statement about that which is satirized – "to distort, to belittle, to wound" (Highet 1962, [p.] 69). (Hutcheon 2000: tt. 44–5)

---

[11] Gweler hefyd y teithlyfr *Patagonia – Byd Arall / Otro Mundo / Another World* (Ed Gold 2012).

Felly yn hytrach na'r Wladfa, onid gwir wrthrych y dychan yw Cymreictod 'traddodiadol' sef math o Gymreictod cul sy'n gaeth i'r gorffennol? Mae fel petai'r Wladfa yn gweithio fel crisialiad o hunaniaeth sy'n gysylltiedig â'r gorffennol hwnnw a hynny mewn ffordd annerbyniol. Mae'r dychan yn gweithio oherwydd yn achos dwy ochr y naratif, o safbwynt y cynhyrchwyr a'r gynulleidfa, bron nad yw Patagonia ond yn gyfystyr â gorffennol Cymru yn unig.

Yn hynny o beth, yn y *pastiche* o olygfeydd sy'n ffurfio *Separado!*, mae un clip allweddol, sef y merched a'r hen ŵr yn dawnsio i 'Oes gafr eto?' ar y traeth i gyfeiliant offerynnau Dwyreiniol ac yn gwisgo cyfuniad o hetiau duon a gorchuddion odalisg. Er mwyn sefydlu perthnasedd y clip eithaf byr hwn, cyfeiriaf at y cysyniad o *point de capiton* neu *quilting point* a fathwyd yn wreiddiol gan Jacques Lacan ac a gymhwyswyd wedyn gan Ernesto Laclau a Chantal Mouffe yn *Hegemony and Socialist Strategy: Towards a Radical Democratic Politics* (1985). I Laclau, mae popeth yn arwydd yn y bywyd cymdeithasol, a chyda chymorth tri chysyniad, esbonia sut y mae'r broses o arwyddo cymdeithasol neu *social signification* yn digwydd: 'elfennau', 'cymaliadau' a 'momentau' (*elements, articulations, moments*). Arwyddion (*signs*) yw'r 'elfennau', ac maent yn rhan o'r broses ddisgyrsaidd. 'Cymaliadau' yw'r weithred pan ddaw'r arwyddion yn rhan o 'gadwyn' ochr yn ochr ag arwyddion/elfennau eraill. O ganlyniad, mae'r elfennau a fynegir yn y gadwyn yn dod yn 'fomentau'. Mewn rhai sefyllfaoedd, daw un foment yn *point de capiton* hollbwysig: ei rôl yw dal neu bennu dros dro ystyr y gadwyn gyfan. Mae ganddi'r gallu neu'r grym i uno elfennau heterogenaidd y gadwyn a gwneud iddi weithio fel bydysawd dealladwy. Cynigiaf felly fod rhywbeth o'r fath yn digwydd yn *Separado!*. *Point de capiton* allweddol yw clip y merched a'r hen ŵr; mae'n angori ystyr hanfodol os nad cynnil y rhaglen, sef y dychan. Mae'r clip yn ymddangos fel 'moment' ar hap mewn rhestr o glipiau braidd yn rhyfedd o fewn rhaglen ddogfen am daith Rhys i Dde America/Patagonia. Ac eto, mae'n cyflwyno mewn modd naïf ond gwawdlyd ddarlleniad penodol o 'Gymreictod y gorffennol'. Mae cysylltiad y Wladfa â'r Cymreictod traddodiadol niweidiol hwn yn amlwg yn ymddangosiad cyntaf y clip y torrir ar ei draws gyda llun o Michael D. Jones barfog yn ogystal â hen fap o Batagonia. Yr hyn yr wyf yn ei ddadlau yw mai yma'n union y mae ansawdd gwelliadol (*ameliorative*) ac allanol (*extramural*) y dychan yn gweithredu. Wrth fyfyrio ar y groesffordd rhwng parodi a dychan, dywed Hutcheon:

> There are two possible directions that the overlapping of parody and satire can take, since the aim of parody is intramural and that of satire is extramural – that is, social or moral. There is, on the one hand, a *type* of the *genre* parody (in Genette's (1979) terms) which is satiric, and whose target is still another form of coded discourse (...). On the other hand, besides the satiric parody, there is parodic satire (a *type* of the *genre* satire) which aims at something outside the text, but which employs parody as a vehicle to achieve its satiric or corrective end. (Y gwreiddiol biau'r pwyslais; Hutcheon 2000: t. 62)

Cyn y clip hwn, esbonia'r awdur Dewi Prysor y rhesymau dros ymfudo fel y byddai hanesydd yn ei wneud, gan ddatgan y gormes economaidd, crefyddol ac ieithyddol a geid ar y pryd yng Nghymru, gyda'i lais yn cydblethu â lluniau du a gwyn. Ac yma y cyflwynir y dychan, trwy ddangos yr hen ŵr â barf hir – yn union wedi i Prysor sôn am Michael D. Jones – ar y traeth yn 'pregethu':

> Dewch oll gyda fi i'r tiroedd ffrwythlon gwyrdd! Taflwch eich tŵls! A chroeswn y moroedd i dyfu moron mwyn a gwneud ein ffortiwn![12]

Wrth sôn am 'wneud ein ffortiwn', mae'r hen ŵr – Michael D. Jones? – yn gwneud yr ystum adnabyddus am wneud arian (gan rwbio'r bawd yn erbyn y mynegfys a'r bys canol), ac yn ddiweddarach mae'n gwneud ystum arall â'i ddwylo fel pe bai'n edrych trwy ysbienddrych y tu hwnt i'r môr. Mae hyn yn atgoffa rhywun yn syth o olygfa yn *Gaucho* lle y caiff y Cymro a ymfudodd i'r Ariannin/Patagonia, yr *estanciero/rancher*, ei bortreadu fel rhyw fath o fradwr o safbwynt diwylliant, dosbarth a chymdeithas. Dyma Gymro a adawodd Gymru am byth (bradwr diwylliannol) i 'wneud ffortiwn' (bradwr gwleidyddol). Mae'r cellweirio felly'n cyflawni mewn ffordd syml ond effeithiol bwrpas gwelliadol nodweddiadol y dychan. Cynigiaf fod y clip dan sylw, er ei fod ar un olwg yn naïf a chwareus, yn crynhoi anesmwythder hanesyddol ynghylch y fenter ym Mhatagonia sy'n ymwneud â'r syniad o adael tir Cymru fel gweithred fradwrus.

I gloi'r adran hon, mae'n werth cyfeirio at ddiwedd *Separado!*, pan fo Rhys yn cael ei delegludo gyda'i helmed o gwt y bandits yn yr Andes i Stadiwm y Mileniwm (Stadiwm Principality heddiw) yng Nghaerdydd. Mae'r cyferbyniad rhwng yr hen gaban pren a'r adeilad haearn a dur gloyw mor drawiadol ac ystyrlon. Gosodir y gorffennol gwledig a'r dyfodol trefol ochr yn ochr, ac er bod Rhys i'w weld yn gwerthfawrogi prydferthwch y cyntaf, buan iawn y daw pwysigrwydd prifddinas Cymru fel 'cartref' yn amlwg. Mae baner Cymru ar ben Castell Caerdydd yn cwhwfan tra bo Rhys yn tynnu'r helmed ac yn myfyrio:

> Wel dyddiau yma mae'n hawdd iawn teithio'r byd, a mae pobl yn mynd i ffwrdd i deithio i ddarganfod pethau am eu hunain... ond yn aml mae'r atebion adra yma dan ein trwynau ni.

Yma mae Rhys yn egluro'r adnewyddu hunaniaeth a ddaw yn sgil teithio dramor yn ôl sawl stori deithio. Mae'r datgysylltiad yn arwyddocaol eto oherwydd yn lle cyfaddef y gallai ef ei hun gael persbectif newydd ar ddiwylliant gartref, yr honiad yw mai 'pobl' sy'n 'mynd i ffwrdd i ganfod eu hunain'. Mae'r rhagenw 'ein', fodd bynnag, yn ei gynnwys ef, hynny yw, ef a'i gynulleidfa Gymreig. Gellir dehongli'r neges fel un a ddywed nad yw 'atebion' i faterion a chwestiynau am Gymru ar gael dramor – yn y Wladfa – ond, yn hytrach, yn 'nes adref', o dan 'ein' trwynau. Dyma ffordd o amlygu'r ysgariad, yr arwahanrwydd sylfaenol

[12] Ceir isdeitlau Saesneg pan fydd Cymraeg yn cael ei siarad.

yng ngolwg *Separado!*: ar ddiwedd y dydd, nid Cymru yw'r Wladfa. Rydym *ni* gartref fan hyn, 'adref'; draw acw y maen *nhw*.

Yn syth ar ôl y datganiad cynnil ond ystyrlon hwn, mae Rhys yn llwyddo i gwrdd â'i ewythr o Batagonia. Mae'r *gaucho*/cowboi yn chwarae'r gitâr yn hamddenol tra bo troslais o Rhys yn adrodd:

> 'Nes i ffeindio allan bod René a finnau wedi bod yn byw yn yr un un ddinas, yma yng Nghaerdydd, ers rhai blynyddoedd bellach.

Wrth gwrs, ni ddylai'r gynulleidfa gymryd y darganfyddiad hwn yn llythrennol, ac mae'n gweithio fel fersiwn o'r dywediad 'all trips are round trips'. Er braidd yn guddiedig, dyma arwydd bod materion, y tu hwnt i'r 'psychedelic odyssey', sy'n ymwneud ag adnewyddu hunaniaeth ar lefel genedlaethol yn y fantol. Mae'r rhaglen ddogfen yn fwy nag adroddiad o daith hwyliog ar hap i Dde America. Cynigiaf fod *Separado!* fel teitl yn datgelu o'r dechrau amcan Rhys, sef dangos i'r byd bod y Gymru fodern wedi ysgaru'r Cymreictod ffosiledig y mae'r Wladfa yn sefyll drosto yn y dychymyg Cymreig.

Yn hynny o beth, mae statws cyntefig a mytholegol Patagonia a'i phobl yn un cyffredin ers canrifoedd ymysg teithwyr Ewropeaidd (gweler, er enghraifft, adroddiadau gan Ferdinand Magellan, Charles Darwin neu Bruce Chatwin). Nodweddiadol felly yw golygfa olaf y rhaglen, gyda Griffiths yn canu'r gitâr yn ei arddull Sbaenaidd tra clywir troslais Rhys yn datgan:

> Mae René yn parhau i fod yn enigma a mae 'na si ar led ei fod o fel aderyn mudo sy'n treulio'r haf gogleddol yng Nghymru a'r haf deheuol yn yr Ariannin. A'i fod o byth yn cael gaeaf.[13]

Er gwaethaf bwriad *Separado!* i fod yn wahanol, mae'r geiriau hyn yn dychwelyd at y weithred dreuliedig o roi statws chwedlonol i Wladfäwr.

Gellid dweud bod y diweddglo'n ceisio creu naws farddonol, ond dadleuaf mai'r is-destun a gyflëir o hyd yw 'does unman yn debyg i gartref' – mae hyd yn oed René Griffiths, archdeip o Wladfäwr, am fod yng Nghymru yn hytrach nag ym Mhatagonia. 'Paradocs parodi', chwedl Linda Hutcheon (2000), yw y gall fod yn dramgwyddus (*transgressive*) ac yn geidwadol ar yr un pryd, ac awgrymaf fod tyndra o'r math hwn i'w weld yma.

---

[13] 'René Griffiths remains an enigma. There is a rumour that, like a migrating bird, he spends the northern summer here and the southern summer in Patagonia. So winter never comes.'

## 3 Amwysedd: rhwng ôl-foderniaeth a moderniaeth

Mae natur eclectig *Separado!* yn cyd-fynd â chyfluniad ôl-fodernaidd ar ffurf trafodaethau darniog sy'n cwestiynu 'naratifau mawreddog'. Gellir mynegi pellter oddi wrth syniadau modernaidd a chofleidio anghysonderau ac ansicrwydd y byd-olwg hwn yn weledol trwy dechnegau fel *collage* a *pastiche*. Mae'r ymagwedd gyntaf at y rhaglen ddogfen yn awgrymu y gallai'r rhain fynegi diwedd y Wladfa fel yr epig Gymreig fodern, fel petai. Fodd bynnag, mae archwiliad pellach o'r delweddau a'r golygfeydd trwy gydol tua 90 munud o raglen yn dynodi'r angen am ddarlleniad mwy cynnil. Cynigiaf eu bod yn cyfleu dulliau ôl-fodern a modern ar yr un pryd, nid yn unig yn achos y Wladfa ond yn achos Cymreictod yn gyffredinol. Mae'n bwysig sylwi ar ganlyniadau'r amwysedd hwn er mwyn cael gwell dealltwriaeth o safle Patagonia yn y meddwl Cymreig.

Gan fod 'yr ôl-fodern' yn gysyniad mor anodd ei ddiffinio, mae Andrew Bennett a Nicholas Royle (2016) yn cynnig yr hyn a alwant yn '"postmodern vocabulary" in order to suggest its mobile, fragmented and paradoxical nature' (t. 326).[14] Mae diffiniad o'r fath yn awdurdodi deall 'y modern' fel gwrthgyferbyniad i'r ôl-fodern yn yr ystyr penodol hwn: fel metanaratif sy'n tueddu at y sefydlog, yr uniaith a'r sicr. Mae testunau modern felly yn mabwysiadu strwythur cydlynus ac, er gwaetha'r elfennau arbrofol y gallant eu cynnwys, maent yn darparu diweddglo yn yr ystyr o *closure*. Mae sawl eitem o restr Bennett a Royle yn berthnasol i *Separado!* ond byddaf yn canolbwyntio ar dair i sefydlu ei chyflwr ôl-fodern – darnio/lledaenu; naratifau bychain a mawreddog; a *pastiche* – ac ar bedwaredd – datganoli (*decentring*) – er mwyn dangos sut y mae'n dal i weithredu o fewn fframwaith modern er gwaethaf ei hysbryd ôl-fodern.

I ddechrau, mae'r awduron yn datgan: '[p]ostmodern resistance to totalizing forces such as rationalism or irrationalism means that its characteristic form is fragmentary' (t. 327); ac eto, mae'r darnio'n wahanol i'r hyn a geir yn y cyfnodau Rhamantaidd a Modern: '[it] has taken the form of, among other things, a fundamental question [as] to the notion of originality and correspondingly a new emphasis on citation and intertextuality, parody and pastiche' (t. 328). Yn hyn o beth, mae'r rhyngdestunoldeb sylfaenol – a'r toreth o ddyfyniadau perthnasol – sydd i'w weld yn *Separado!* yn ogystal â'i ddefnydd o barodi wedi eu sefydlu eisoes yn yr adrannau blaenorol. I Bennett a Royle (2016), mae 'lledaenu' hefyd yn air allweddol arall sy'n dynodi'r hyn a alwant yn 'scattering of origins and ends, of identity, centre and presence' sy'n nodweddu'r ôl-fodern (t. 328). Yn yr un modd, mae'r rhaglen yn troi'n gyson o amgylch syniadau fel tarddiad a diwedd, uniaethu ac arwahanrwydd, canolbwynt ac ymylon, a phresenoldeb ac absenoldeb. Ym mhob pâr, mae'r elfen gyntaf yn cyfateb i Gymru; yr ail i Batagonia. Er y bwriad eiconoclastig, ni all *Separado!* ollwng gafael ar y duedd i edrych ar Batagonia gyda chymorth meini prawf sy'n berthnasol i Gymru. Mae'n ymddangos felly mai'r hyn sy'n diffinio'r Wladfa yw ei safle ar

[14] Mae Bennett a Royle (2016: tt. 326–33) yn cynnwys *Undecidability; A New Enlightenment; Fragmentation, Dissemination; Little and Grand Narratives; Simulation; Depthlessness; Pastiche; The Unpresentable; Decentring.*

gyrion pellaf hunaniaeth Gymreig benodol, a bod y pwyslais yn y rhaglen ar ei rôl fel rhan o orffennol Cymru, hynny yw, fel ffosil.

Yn ôl y rhaglen, yr absenoldeb creiddiol yw nad yw'r hyn sy'n angenrheidiol i adeiladu Cymru drefol, flaengar ar gyfer y dyfodol ar gael y tu hwnt i Gymru. A dyma arwydd o ôl-foderniaeth anghyflawn neu rannol yn *Separado!*. Darlunnir hunaniaeth sy'n dal yn ddibynnol ar ffiniau tirwedd Cymru, hynny yw, un sydd angen canolbwynt a tharddiad penodol. Yn hytrach na tharddiad, efallai, yn achos Cymru, byddai'n gwneud mwy o synnwyr i sôn am wreiddiau, trosiad sy'n ganolog i hunaniaeth Cymry Cymraeg. Mae tirwedd ac iaith yn un cwlwm tyn sy'n cario pwysau sylweddol mewn diffiniad o Gymreictod Cymraeg.[15] Wedi'r cyfan, mae 'O ble wyt ti'n dod [yn wreiddiol]?' yn gwestiwn anochel. Mentraf awgrymu bod rhan bwysig o'r anesmwythyd y mae'r syniad o'r Wladfa yn ei achosi yn ymwneud â'r bygythiad i ragdybiaeth gyfarwydd fel hon.

Mae Bennett a Royle yn apelio at y gwahaniaeth y mae Jean-François Lyotard yn ei lunio rhwng 'naratifau mân a mawreddog' oherwydd 'yn y Gorllewin, mae naratifau mawreddog wedi colli eu heffeithiolrwydd' ac yn cael eu disodli gan rai 'mân, darniog, heb y nod o gyfansymu (*non-totalizing*), ac sy'n annheleolegol (*non-teleological*)' (t. 328). Mae'r awduron hefyd yn dyfynnu cysyniad Jürgen Habermas o 'legitimation crisis (...) to denote a situation in which all "master codes" or grand narratives, all conventions, institutions, final authorities have been put into a state of crisis' (t. 329). Yn sicr, mae *Separado!* yn anelu at danseilio statws epig y fenter ym Mhatagonia. A'r ffordd y gwneir hynny yw trwy osod naratifau 'mân' yn ei lle sy'n golygu yn yr achos hwn adrodd hanesion unigolion y Wladfa: cymeriad lliwgar fel hen ffermwr sy'n canu'r acordion; ymgynnull cymunedol i wylio perfformiad yr ymwelydd enwog; dau frawd â dillad *gaucho* yn canu'r gitâr mewn arddull Sbaenaidd; perthynas bell yn croesawu ei chefnder adref.

Mae llyfr gan Baudrillard, *The Gulf War Did Not Take Place* (1995), hefyd yn cael ei ddyfynnu gan Bennett a Royle, a hynny fel enghraifft o'r newid yn y ffordd y caiff realiti ei brofi (yn yr ystyr *experienced*). Dyma a wna'r athronydd, yn ôl awgrym yr awduron:

> [He] is not so much suggesting that there was no war as that in an unprecedented way its very actuality was and remains indissoluble from media representations. (t. 329)

Mae hwn yn atgof priodol o'r modd anorfod y mae portreadau o Batagonia yn y cyfryngau ac mewn llenyddiaeth (boed yn ddogfennol neu'n ffuglennol) yn gyfystyr â realiti Patagonia i'r rhan fwyaf yng Nghymru. Mae'r pellter daearyddol, hanesyddol, gwleidyddol a diwylliannol yn rhwystro'r dasg o osgoi cyfryngu (*mediation*) yn y berthynas rhwng Cymru a'r Wladfa. Yng ngeiriau Baudrillard, gellir dweud yn achos y Wladfa ei bod fel arfer i'r Cymry megis 'map sy'n rhagflaenu'r diriogaeth' (t. 330).[16] Ond mae meddwl pwyllog yn cadw mewn cof

[15] Gweler y drafodaeth ar y cysyniad o 'gydymdreiddiad tir ac iaith' gan J. R. Jones yn *Prydeindod* (1966).
[16] 'It is the map that precedes the territory.'

fod cyfryngdod o'r fath yn cynnwys ymatebion lluosog: fel arfer, pwysleisir y rhamanteiddio, ond byddwn yn awgrymu y dylid ystyried bod amheuaeth a diystyru hefyd yn ymatebion posib (a hanesyddol).

Dan y cysyniad *pastiche*, mae Bennett a Royle yn cynnwys y syniadau canlynol: 'hybridization, a radical intertextuality mixing forms, genres, conventions, media, dissolv[ing] boundaries between high and low art, between the serious and the ludic' (t. 332). Maent yn ychwanegu bod y '*genre* yn amlwg yn dod yn ansefydlog' ac yn cynnwys enghreifftiau o gyfresi teledu a ddisgrifir fel hyn: '[they] take up and meddle with a plurality of styles, discourses and genres' (t. 332). Yn *Separado!*, fel y sylwyd eisoes, mae ffiniau rhaglen ddogfen glasurol yn cael eu gwthio. Cydblethir golygfeydd o'r daith go iawn â rhai o gigiau Rhys nad oes ganddynt gysylltiad â'r fenter yn Ne America. Ceir hefyd ddramateiddiad byr o hanes teulu Rhys (ras geffylau hurt) a chlipiau o griw yn dawnsio mewn dull bisâr ar y traeth. Yn yr un ffordd anarferol, mae Rhys yn 'symud' rhwng Cymru a Phatagonia drwy gymorth ei helmed ledrithiol. O ran disgwrs, mae rhyw naws watwarus o ran y syniad o'r Wladfa wedi'i phennu o'r dechrau trwy gyfrwng dau glip: y ras geffylau a'r cyfweliad radio cyn cychwyn y daith. Ceir felly ddarnau ysgafn yn gymysg â rhai difrifol, fel hanes gwrthwynebiad pobl yr Andes i fwyngloddio echdynnol gan gwmni tramor. Enghraifft arall yw'r modd y cyhuddir y brodorion o orthrwm gan y Cymry, arwydd cynnar o'r hyn a ddaeth yn fwyfwy cyffredin yn ddiweddar. Mae'r rhain yn ffyrdd o chwalu'n llythrennol 'naratif mawreddog' trwy doreth o ddarnau neu 'naratifau bach' wedi'u cyfuno fel *pastiche*.

Fodd bynnag, er gwaethaf fflyrtio *Separado!* â thechnegau a chonfensiynau ôl-fodern, awgrymaf fod arwyddion, eto i gyd, o foderniaeth wrth wraidd y rhaglen. Mae'r daith dan sylw yn un gron, mewn gwirionedd – mae Rhys yn dychwelyd adref. Fel y dyfynnwyd uchod, 'mae pobl yn mynd i ffwrdd i deithio i ddarganfod pethau am eu hunain... ond yn aml mae'r atebion adra yma dan ein trwynau ni (...) 'Nes i ffeindio allan bod René a finnau wedi bod yn byw yn yr un un ddinas, yma yng Nghaerdydd, ers rhai blynyddoedd bellach.' Ac fel y crybwyllwyd eisoes, mae bodolaeth a goroesiad y Wladfa yn rhoi'r hen gwlwm tiriogaeth-iaith dan straen. Yn hyn o beth, mae Bennett a Royle yn nodi bod 'the idea of decentring' yn crynhoi'r hyn sydd i'w gyfri'n ôl-fodern oherwydd:

> [It] challenges the 'logo-centric' (the authority of the word, the possibility of final meanings or of being in the presence of pure 'sense'). It challenges the ethnocentric (the authority of one ethnic 'identity' or culture – such as Europe or 'the West' or Islam or Hinduism). It challenges the phallocentric (everything that privileges the symbolic power and significance of the phallus and therefore masculinity). (t. 333)

Er gwaetha'r ymgais ymddangosiadol i chwilio am ongl newydd, daliaf fod *Separado!* yn rhoi ar waith elfennau logoganolog, ethnoganolog a ffaloganolog. Yn gyntaf, amlygir y logoganolog gan lais Rhys yn rhoi trefn ar stori glasurol am deithio dramor er mwyn ailwampio hunaniaeth cyn darganfod bod yr 'atebion' y bu'n eu cyrchu wedi bod gartref

'dan ei drwyn' o'r cychwyn cyntaf.[17] Fel yr awgrymwyd eisoes, erys *adref* yn ganolbwynt sy'n caniatáu ystyr terfynol i'r daith. Yn ail, awgrymir agwedd ethnoganolog gan y ffaith mai yn erbyn profiad Cymru y mesurir Patagonia yn naratif Rhys. Yn fwy penodol, caiff Patagonia ei mesur yn erbyn Cymreictod modern, trefol, cosmopolitaidd ac Ewropeaidd. Mae hynny'n digwydd drwy ddewis a dethol ffurfiau gwledig sy'n perthyn i'r gorffennol i arwyddo Cymreictod Patagonia. Dyma strategaeth sy'n gwneud synnwyr o gofio bod Cymru, tuag adeg ffilmio'r rhaglen ddogfen, yn wlad 'ifanc' a'r Datganoli (cam ymlaen yn y broses o ddad-drefedigaethu ac eto ymhell oddi wrth annibyniaeth lwyr) yn digwydd mor hwyr yn yr ugeinfed ganrif. Datgelir felly'r angen i ddilysu 'moderniaeth' newydd Cymru yn erbyn cefndir honedig y bedwaredd ganrif ar bymtheg a ymgorfforir gan y Wladfa. Ac yn drydydd, fel y crybwyllwyd, mae *Separado!* yn arddangos agweddau ffaloganolog drwy roi lle mor amlwg i stereoteip y *gaucho* a chyflwyno cymeriadau gwrywaidd yn bennaf.

Yn fyr, honnaf fod y tensiwn rhwng y modern a'r ôl-fodern yn adleisio'r ddeuoliaeth sy'n gynhenid i destun parodïol, a archwiliwyd uchod. Dywed Hutcheon am baradocs parodi:

> Parody is fundamentally double and divided; its ambivalence stems from the dual drives of conservative and revolutionary forces that are inherent in its nature as authorized transgression. (2000: t. 26)

Hwn yw'r amwysedd sydd i'w weld yn agwedd chwyldroadol ond ceidwadol y rhaglen ddogfen.[18] Yn wir, yn wahanol i raglenni dogfen eraill, mae *Separado!* yn archwilio rhai agweddau ar orffennol a phresennol gwleidyddol yr Ariannin. Ac eto, fel ymdrechion blaenorol i bortreadu'r Wladfa i gynulleidfa Gymreig, gwelir tuedd i gynnig fersiwn unllygeidiog a braidd yn gartwnaidd o'r ardal a'i phobl, fel rheol mewn perthynas â gorffennol Cymru. Fel y rhybuddia Hutcheon am ddyblygrwydd parodi, nid yw goblygiadau gwleidyddol gwaith 'tramgwyddus' (*transgressive*) bob amser o reidrwydd yn flaengar:

> [W]e must be careful not to equate automatically words like transgression with positive revolutionary change (...). The ideological status of parody cannot be permanently fixed and defined: "Parody, or 'reflexive art', like this where signifiers refer to other previous signifiers in a formal game of inter-textuality has no necessary relationship to radical innovation at either a formal, avant-garde level or a political, vanguard level" (Nichols 1981, [p.] 65). (2000: t. 99)

Er gwaetha'r honiad ei fod yn waith arloesol am Batagonia, dadleuaf fod amwysedd *Separado!* mewn gwirionedd yn adlewyrchu gorbryderon ynghylch ffiniau a phosibiliadau

[17] Mae'r plot yn adleisio stori hynafol yn y casgliad o chwedlau gwerin o'r Dwyrain Canol, 'Mil ac Un o Nosweithiau'. Ynddi mae dyn o Fagdad yn teithio dramor i ddod o hyd i drysor y mae wedi ei weld mewn breuddwyd ond yn darganfod ar ddiwedd y daith bod y trysor wedi bod 'gartref' o'r dechrau.

[18] Gweler trafodaeth ar yr un trywydd am y tyndra rhwng y traddodiadol a'r ôl-fodern yn y Gymru gyfoes yn *Y Dychymyg Ôl-fodern: ffuglen fer Mihangel Morgan* (Marks 2020).

hunaniaeth Gymreig ôl-ddatganoledig. Yn y diwedd, mae'r rhaglen ddogfen 'arbrofol' yn geidwadol yn y ffordd y mae'n dibynnu – fel sawl portread o'r blaen – ar Batagonia er mwyn asesu Cymreictod(au) Cymru.

## 4 Casgliadau

Erbyn hyn, mae'n amlwg nad René Griffiths oedd gwir wrthrych ymchwil *Separado!*. Mae'r ewythr a fu ar goll cyhyd yn gweithredu fel catalydd honedig i antur Rhys yn yr un modd ag y sbardunodd darn o groen deinosor hynafol daith y Sais Bruce Chatwin i Batagonia yn y 1970au (sail y gwerthwr mawr rhyngwladol *In Patagonia* (1977) a ddôi yn ddiweddarach yn enghraifft nodedig o lenyddiaeth taith ôl-fodern). Fel y dywed Peter Hulme yn 'Patagonian cases: travel writing, fiction, history' (2002) wrth amau gwir gymhelliad y Sais dros deithio draw:

> The sloth was *the* emblem of Patagonia (...): behind the times, at the back of history, the last in the human race. (t. 5)

Mae'n bosib deall ystrydeb *gaucho* y Wladfa mewn ffordd debyg, fel arwydd o ardal a phobl 'ar ôl yr oes, yng nghefn hanes' – i'w gwrthgyferbynnu â Chymru yr unfed ganrif ar hugain.

Ar ôl edrych yn fanwl ar nodweddion parodïol a dychanol y rhaglen ddogfen ynghyd â'i goblygiadau athronyddol, gellid dweud bod Rhys yn ceisio diweddaru diffiniad o Gymreictod a fyddai'n gweithio o fewn cyd-destun ôl-ddatganoledig arbennig o heriol ar droad y mileniwm, pan oedd rhai argyhoeddiadau, megis y posibilrwydd o ddiffinio Cymreictod Cymraeg o gwbl, yn y fantol.[19] Y cyfan a wna'r olygfa olaf gyda'i ewythr yng Nghaerdydd yw atgyfnerthu'r ddamcaniaeth hon. Mae cenedl-wladwriaeth yn un o nodau amgen moderniaeth, yn gynnyrch syniadau'r ddeunawfed a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Fodd bynnag, fel gyda llawer o genhedloedd, roedd annibyniaeth wleidyddol (neu setliad datganoli cryfach o leiaf) yn dal i fod yn uchelgais ar ddiwedd yr ugeinfed ganrif i Gymru – ac roedd yn dal i fod felly yn 2010. Mae'r hwyrni hwn yn esgor ar anghysondeb o fewn rhaglen ddogfen sy'n anelu at ymchwil ôl-fodernaidd ond sydd mewn gwirionedd yn arddangos nodweddion sy'n cyfateb i fyd-olwg modernaidd.

Cwestiwn arall a gyfyd wrth ddelio â 'rhamanteiddio' yw i ba raddau y mae a wnelo'r broblem â gwrthrych y delfrydu neu'r goddrych. Am hynny, yn lle gweld 'rhamanteiddio' ac 'ysgariad' fel y cysyniadau cyntaf a ddaw i'r meddwl wrth fyfyrio ar y berthynas rhwng Cymru a Phatagonia, cynigiaf ein bod yn ailystyried goblygiadau 'gwreiddiau' fel trosiad hanfodol i'r hunaniaeth Gymreig *yng Nghymru*. Dyma alwad i gydnabod yr amheuaeth a'r anesmwythder y mae'r Wladfa wedi eu hachosi'n hanesyddol i ddiffiniadau traddodiadol

[19] Nid oes lle i ymhelaethu ar hyn yma, ond gallai ei gyfraniad gyda'r Super Furry Animals i symudiad Cŵl Cymru/*Cool Cymru* yn y 1990au awgrymu safbwynt amwys ynglŷn â rôl ganolog y Gymraeg mewn diffiniadau o Gymreictod. Gall hyn hefyd gynnig esboniad posib am y ffaith bod Rhys yn adrodd hanes y daith yn Saesneg yn bennaf yn *Separado!* (gydag isdeitlau pan fo sgwrs Gymraeg yn digwydd).

o Gymreictod Cymraeg. Yn yr un modd, y mae'n wahoddiad i osgoi peryglon deongliadau ac agweddau neo-drefedigaethol wrth fynd i'r afael â hanes a phresennol y fenter ym Mhatagonia. Gyda golwg ar y portread penodol o Batagonia a geir yn *Separado!*, a chan aralleirio Hutcheon yn ei dyfyniad uchod, rhaid gochel rhag cyfystyru arloesi â newid chwyldroadol.

## Llyfryddiaeth


Bennett, A. a Royle, N. (2016), *An Introduction to Literature, Criticism and Theory* (London: Routledge).

Borda Green, S. (2023), 'The Uses of Patagonia: Representations of *Y Wladfa* in post-Devolution Wales' (traethawd PhD nas cyhoeddwyd, Prifysgol Bangor).

Chatwin, B. (1977), *In Patagonia* (London: Jonathan Cape).

Evans, H. C. (2006), *Glas* (Llanrwst: Gwasg Carreg Gwalch).

Gavirati, M. (2017), *Chupat-Camwy Patagonia: Historia de la coexistencia pacífica entre galeses, pampas y tehuelches* (Villa Adelina: Patagonia Sur Libros).

Gold, E. (2012), *Patagonia – Byd Arall / Otro Mundo / Another World* (Llandysul: Gwasg Gomer).

Holland, P. a Huggan, G. (2000), *Tourists with Typewriters. Critical Reflections on Contemporary Travel Writing* (Ann Arbor: University of Michigan Press).

Hulme, P. (2002), 'Patagonian cases: travel writing, fiction, history', yn Borm, J. (gol.), *Seuils & Traverses: Enjeux de lécriture de voyage*, cyfrol II (Brest: Centre de Recherche Bretonne et Celtique), tt. 223–37.

Hutcheon, L. (2000), *A Theory of Parody: The Teachings of Twentieth-Century Art Forms* (Urbana: University of Illinois Press).

Jones, J. R. (1966), *Prydeindod* (Llandybïe: Llyfrau'r Dryw).

Kidd, I. (2011), *Un o Ble Wyt Ti?* (Llandysul: Gwasg Gomer).

Laclau, E. a Mouffe, Ch. (1985), *Hegemony and Socialist Strategy: Towards a Radical Democratic Politics* (London: Verso).

Marks, Rh. (2020), *Y Dychymyg Ôl-fodern: ffuglen fer Mihangel Morgan* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru).

Maton, K. (2014), yn Grenfell, M. J. (gol.), *Pierre Bourdieu: Key Concepts*, 2il argraffiad (London: Taylor and Francis).

Morys, T. (gol.) (2014), *Awen Iwan* (Cyhoeddiadau Barddas).

Morys, T. a Llwyd, I. (1999), *Eldorado: llwybrau dau i le diarth* (Llanrwst: Gwasg Carreg Gwalch).

Pratt, M. L. (2008), *Imperial eyes: travel writing and transculturation*, 2il argraffiad (London: New York: Routledge).

Rhys, M. (2010), *Patagonia – Croesi'r Paith/Crossing the Plain* (Llandysul: Gwasg Gomer).

Thomas, M. W. (gol.) (2001), *Gweld Sêr: Cymru a Chanrif America – Y Meddwl a'r Dychymyg Cymreig* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru).

Williams, R. B. (1951), *Bandit yr Andes* (Hughes).
Williams, R. B. (1958), *Croesi'r Paith* (Llandybïe: Llyfrau'r Dryw).

## Ffilmiau

Emlyn, E. (1983), *Gaucho*
Evans, M. (2010), *Patagonia*
Goch, D. a Rhys, G. (2010), *Separado!*

## Deunydd ar-lein

*Cyfweliad Gruff Rhys & Dyl Goch Separado! Interview – Y Lle*, https://www.youtube.com/watch?v=UDZLN0lpPC0&t=45s [Cyrchwyd: 13 Medi 2022]

# "Un o fethiannau godidocaf" puryddiaeth ieithyddol? Dadansoddiad o batrymau geirfaol Cymraeg y Wladfa heddiw mewn cyd-destun hanesyddol

Iwan Wyn Rees

*Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd*[1]

Cyflwynwyd: 21 Gorffennaf 2023; Derbyniwyd: 18 Rhagfyr 2023

**Crynodeb:** Amcan yr erthygl hon yw dadansoddi agwedd ar dafodiaith Gymraeg y Wladfa a esgeuluswyd, sef ei phatrymau geirfaol cyfoes. Ar sail data a gafwyd o 134 holiadur, dangosir bod yr amrywio geirfaol sydd ar waith yn yr amrywiad hwn ar y Gymraeg wedi ei gyflyru i raddau helaeth gan yr amrywiaeth o gefndiroedd ieithyddol a welir heddiw ymhlith siaradwyr Cymraeg Talaith Chubut. Mae'r canlyniadau, felly, nid yn unig yn dangos sut y mae cydgyffyrddiad tafodieithol hanesyddol wedi chwarae rôl allweddol yn esblygiad tafodiaith draddodiadol y Wladfa, ond hefyd yn archwilio am y tro cyntaf i ba raddau y mae rhaglen addysgol benodol, sef 'Cynllun yr Iaith Gymraeg' y Cyngor Prydeinig, yn dylanwadu ar ddefnydd o nodweddion geirfaol ymysg dysgwyr Cymraeg yn y rhanbarth. Nod arall yw ystyried rhai o oblygiadau ehangach y canlyniadau, gan gynnwys perthnasedd ideolegau ieithyddol i batrymau geirfaol hanesyddol a chyfredol Cymraeg y Wladfa.

**Allweddeiriau:** Tafodiaith, y Gymraeg, amrywio geirfaol, y Wladfa, cydgyffyrddiad tafodieithol, ideolegau ieithyddol, cenedlaetholdeb Cymreig, dad-drefedigaethu ieithoedd safonol, ieithoedd treftadol, pedagogeg iaith.

## 'One of the most glorious failures' of linguistic purism? An analysis of the contemporary lexical patterns of Patagonian Welsh in historical context

**Summary:** The aim of this article is to analyse an under-researched aspect of Patagonian Welsh, namely its current lexical patterns. Based on data obtained from 134 questionnaires,

[1] Hoffwn gydnabod fy nyled i nifer o bobl a'm cynorthwyodd gyda'r erthygl hon: i'm cyd-weithiwr Dr Jonathan Morris am gyngor ar y data a'r profion ystadegol; i'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol am grant bach a ganiataodd imi deithio i Dalaith Chubut yn 2016, ac yn bennaf oll, i'r holl aelodau o gymuned Gymraeg Chubut heddiw a fu mor barod i'm helpu gyda'r gwaith maes ac a wnaeth yr astudiaeth hon yn bosib.

Coleg Cymraeg Cenedlaethol
ISSN: 1741-4261
http://gwerddon.cymru

it will be shown that the lexical variation that exists in this variety of Welsh is conditioned to a considerable degree by the variety of linguistic backgrounds found today among Chubut Province's Welsh speakers. The results therefore not only show how historical dialect contact has played a crucial role in the evolution of traditional Patagonian Welsh, but also explore for the first time the extent to which a specific educational programme, namely the British Council's 'Welsh Language Project', is influencing Welsh learners' use of lexical features in the region. Another objective is to consider some of the results' wider implications, including the relevance of language ideologies to the historical and contemporary lexical patterns of Patagonian Welsh.

**Key words:** Dialect, the Welsh language, lexical variation, Welsh Patagonia, dialect contact, language ideologies, Welsh nationalism, decolonizing standard languages, heritage languages, language pedagogy.

## 1. Cyflwyniad

Amcan yr erthygl hon yw dadansoddi elfen benodol o dafodiaith Gymraeg y Wladfa a esgeuluswyd, sef ei phatrymau geirfaol cyfoes mewn cyd-destun hanesyddol.[2] Maes perthnasol felly (i'r dafodiaith draddodiadol yn arbennig) yw cydgyffyrddiad tafodieithol (*dialect contact*) (Trudgill 1986), sef yn yr achos hwn y modd y daeth gwahanol dafodieithoedd daearyddol at ei gilydd wrth i finteioedd o ymfudwyr o bob prif ranbarth o Gymru ymsefydlu yn y Wladfa rhwng 1865 ac 1912 (G. Williams 1975: tt. 36–7, tt. 75–6), ynghyd â chanlyniadau ieithyddol hynny.[3] Ystyrir gan hynny natur arbennig y cymysgu tafodieithol a fyddai wedi dilyn y math hwn o gydgyffyrddiad,[4] a dangosir yn y man fod cryn dipyn o'r cymysgu cynnar hwn i'w weld hyd heddiw yn Nhalaith Chubut.

Ond nid effeithiau tymor hir cydgyffyrddiad tafodieithol yw'r unig ystyriaeth yma. Llawn mor berthnasol yw'r ystod o siaradwyr Cymraeg a geir yn Chubut bellach o

[2] Yn fwy cyffredinol, prin iawn fu dadansoddiadau systematig o'r math arbennig o Gymraeg a siaredir yn y rhanbarth hwn o Dde America, ond yn ddiweddar, ymddangosodd dadansoddiadau o ddatblygiadau ffonolegol cyfoes yng Nghymraeg y Wladfa, e.e. gan Sleeper (2020) a chennyf innau (Rees 2021[a], 2021[b]), a hynny'n bennaf o safbwynt cydgyffyrddiad ieithyddol (*language contact*), h.y. effaith y Sbaeneg ar yr amrywiad hwn o'r Gymraeg.

[3] Yn wahanol i ieithoedd mwy imperialaidd, lle y ceir astudiaethau niferus a manwl o ffurfiant a datblygiad tafodieithoedd newydd o safbwynt cydgyffyrddiad tafodieithol (gweler, er enghraifft, Gordon et al. 2004 a Trudgill 2006 yn achos amrywiadau Saesneg hemisffer y de, a Lipski 1994 ar gyfer amrywiadau Sbaeneg De America), Cymraeg y Wladfa yw'r unig dafodiaith 'wladychol' hirhoedlog y gellir ei chysylltu â'r Gymraeg. Rhaid pwysleisio er hynny fod ffenomen cydgyffyrddiad tafodieithol yn berthnasol hefyd i dafodieithoedd yng Nghymru (gweler, er enghraifft, astudiaeth ffonolegol ddiweddar Gruffydd 2023 ar dafodiaith newydd yn un o ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg Caerdydd).

[4] Mae'n werth nodi yma nad pob ieithydd sydd o'r farn fod cymysgu tafodieithol, h.y. cymysgu elfennau o wahanol dafodieithoedd sy'n deillio o'r famwlad (neu o'r mamwledydd), yn digwydd yn anochel yn sgil cydgyffyrddiad tafodieithol, er bod Trudgill i'w weld yn amheus o'r safbwynt hwn (gweler Trudgill 2008: t. 242). Fodd bynnag, yn achos Cymraeg y Wladfa, dangosir yn gwbl eglur yng nghwrs yr erthygl hon pa mor berthnasol yw cymysgu tafodieithol i ffurfiant, datblygiad a phatrymau cyfoes y dafodiaith hon.

safbwynt cefndiroedd ieithyddol gwahanol;[5] amrywiaeth nas ceid oni bai am raglen addysgol benodol, sef 'Cynllun yr Iaith Gymraeg' ('y Cynllun' o hyn ymlaen). Gweinyddir y Cynllun gan y Cyngor Prydeinig (British Council Cymru 2023), ond fe'i cyllidir yn bennaf gan Lywodraeth Cymru ac fe'i cefnogir hefyd (yn ymarferol ac yn ariannol) gan Gymdeithas Cymru-Ariannin. Lansiwyd y Cynllun yn 1997, dros chwarter canrif yn ôl bellach, yn sgil brwdfrydedd newydd tuag at yr iaith Gymraeg ar ddechrau'r 1990au (R. O. Jones 1996). Diben pennaf y rhaglen addysgol hon yw adfywio'r Gymraeg fel iaith dreftadol, ac ers dechreuad y Cynllun, mae tri athro o Gymru wedi eu neilltuo i wahanol ardaloedd o'r dalaith bob blwyddyn er mwyn dysgu'r Gymraeg ar wahanol lefelau (i oedolion ac i ddisgyblion ysgol), yn ogystal ag ar gyfer cydlynu gweithgareddau diwylliannol drwy gyfrwng yr iaith.[6]

Gan fod y gydberthynas rhwng patrymau amrywio geirfaol a chefndiroedd ieithyddol y grwpiau o siaradwyr a gyfranogodd yn yr ymchwil yn gwbl greiddiol i'r astudiaeth hon, bydd effeithiau cydgyffyrddiad tafodieithol hanesyddol yn ogystal â natur caffaeliad iaith mwy diweddar (drwy'r Cynllun) yn ddau ffactor penodol y bydd yn rhaid eu hystyried wrth ddehongli canlyniadau. Y tri phrif gwestiwn ymchwil yr eir i'r afael â hwynt felly yw'r canlynol:

(a) A yw patrymau geirfaol Cymraeg y Wladfa heddiw yn cydamrywio â grwpiau gwahanol o siaradwyr y gellir eu rhannu yn ôl cefndiroedd ieithyddol?

(b) Faint o newidiadau geirfaol sydd i'w gweld yn nhafodiaith draddodiadol y Wladfa ers i'r elfennau hyn gael eu harchwilio am y tro cyntaf ar ddechrau'r 1970au,[7] a pham?

(c) I ba raddau y mae data'r grwpiau o ddysgwyr yn amlygu newidiadau geirfaol mwy diweddar, a beth a all roi cyfrif am y patrymau hyn?

[5] Diffinnir y cefndiroedd ieithyddol hyn yn fanylach, gan amlygu eu perthnasedd i ddata'r astudiaeth hon, yn yr amlinelliad o'r fethodoleg (adran 3).

[6] Un o gerrig milltir diweddaraf y Cynllun oedd agoriad Ysgol y Cwm yn Nhrevelin yn 2016, y drydedd ysgol gynradd ddwyieithog (Cymraeg-Sbaeneg) yn Chubut.

[7] Gwnaed yr archwiliad cychwynnol hwnnw gan un ymchwilydd, sef Robert Owen Jones (1973–4, 2015; gweler manylion pellach yn yr adran nesaf).

## 2. Ymchwil blaenorol ar eirfa Gymraeg y Wladfa, ynghyd â chysyniadau allweddol

Yn gyntaf, rhaid gosod canolbwynt yr astudiaeth hon, sef amrywio geirfaol yng Nghymraeg y Wladfa, yn ei gyd-destun trawsgenedlaethol a rhyngwladol. Gan fod prinder gwaith blaenorol ar eirfa Gymraeg y Wladfa, mae'r ymgais gyntaf gan R. O. Jones (1973–4, 2015) ar sail gwaith maes ar ddechrau'r 1970au yn hollbwysig.[8]

Un o'i ganfyddiadau sylfaenol oedd bod modd rhannu geirfa tafodiaith Gymraeg y Wladfa i ddau gategori penodol, sef geirfa gyson (lle nad oedd amrywio ar waith) a geirfa amrywiadol (lle'r oedd amrywio yn gyffredin). O blith yr eirfa a archwiliodd (cyfanswm o 97 eitem i gyd),[9] nodwyd mai 'pur isel' oedd cyfran yr eirfa amrywiadol, gyda 'mwyafrif llethol yr eirfa yn gyffredin i'r Wladfa i gyd' (R. O. Jones 1973–4: t. 291), sef 64.9% ohoni ($n$=63/97), a chyda dim ond 16.5% ($n$=16/97) o'r eitemau a gynhwyswyd yn ei holiadur yn dangos amrywio ar waith.[10] Ymhellach, dangoswyd bod geiriau o darddiad gogleddol, a gynrychiolai 63.5% ($n$=40/63) o'r eirfa gyson a adnabuwyd, yn llawer mwy cyffredin na'r rhai deheuol cyfatebol; yn wir, y pum gair a nodwyd 'sydd â naws ddeheuol iddynt' (ibid.: t. 292) oedd 'ffwrn', 'llaeth',[11] 'symud tŷ', 'oen swci' ac 'angladd',[12] ond nodir bod y tri cyntaf i'w cael yn y canolbarth hefyd. Ar sail gwaith cychwynnol R. O. Jones felly, ynghyd ag archwiliad pellach gennyf innau (Rees 2017), ceir yn Nhabl 1 restr ddethol o enghreifftiau o eirfa gyson y Wladfa.

[8] Dyma hefyd brif ffynhonnell yr holiadur a ddefnyddiais. Ffynhonnell arall yw'r gwaith maes cychwynnol a wnaed gennyf i yn Nhalaith Chubut yn 2016 ac a alluogwyd gan grant bach oddi wrth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Arweiniodd hyn at ddatblygu adnodd addysgol ar-lein, sef clipiau sain a nodiadau arnynt, ynghyd â rhestr o nodweddion ieithyddol (Rees 2017: tt. 8–16 o'r cyflwyniad i'r adnodd). Gan mai nod pennaf yr adnodd yw cyflwyno ffurfiau traddodiadol Cymraeg y Wladfa i athrawon sy'n gweithio yn y rhanbarth, nid oes dadansoddiad meintiol o amlder ffurfiau yn rhan o'r gwaith hwn.

[9] Defnyddiodd R. O. Jones yr holiadur a oedd yn sylfaen i *The Linguistic Geography of Wales* (A. R. Thomas 1973) ar gyfer llunio holiadur ei hun at bwrpas ei waith maes cychwynnol yn y Wladfa. Gellir awgrymu felly y gall rhai bylchau yn yr atlas tafodieithol hwn egluro pam y mae rhai eitemau a fyddai'n berthnasol i eirfa gyson y Wladfa yn absennol ymhlith y 97 a geir yma. Un enghraifft fyddai 'ffroes' *pancake(s)*, tystiolaeth brin o air sydd â'i darddiad yn ne-ddwyrain Cymru ac sy'n arferol drwy'r Wladfa hyd heddiw, ond sy'n absennol o eirfa gyson R. O. Jones.

[10] Disgrifir y gweddill o'r eitemau, sef 18.6% ($n$=18/97) ohonynt, fel rhai 'anfoddhaol' (heb fanylu ymhellach ar ystyr hynny). Gellid felly nodi bod yr eirfa gyson yn gyfwerth â 79.7% ($n$=63/79) o'r atebion 'boddhaol' a gafwyd.

[11] Mae'n werth nodi fod modd i 'llaeth' godi hefyd yn yr ardaloedd hynny o'r gogledd lle y mae 'llefrith' yn arferol, naill ai fel talfyriad ar gyfer 'llaeth enwyn' (neu o fewn y term llawn hwnnw), neu ar gyfer yr hylif ffres, cyfan cyn iddo gael ei drin, fel a geir yn 'lorri laeth', er enghraifft (gweler Thomas a Thomas 1989: t. 90). Ymhellach, mae'n werth nodi bod atlas tafodieithol A. R. Thomas (1973: t. 396) yn dangos bod tiriogaeth draddodiadol 'llaeth' yn cynnwys rhannau helaeth o'r gogledd-ddwyrain hefyd, gan gynnwys ardaloedd mor ogleddol â Dyffryn Clwyd. O gofio mai un o gyffiniau Glyndyfrdwy oedd R. J. Berwyn, athro cyntaf y Wladfa, gellir cynnig nad yw'n amhosib i ddylanwad y gŵr hwn gyfrannu at dranc 'llefrith' yn y Wladfa.

[12] Gall 'angladd' godi yn y gogledd hefyd; yn wir, priodolir ambell derm fel 'angladd gwadd' i'r gogledd yn *Geiriadur Prifysgol Cymru*. Mae'n dra phosib er hynny fod amrywio rhwng 'angladd' a ffurfiau ar 'cynhebrwng' yn ymwneud â chywair, a bod yr ail felly yn fwy cysylltiedig â sefyllfaoedd anffurfiol.

| GOGLEDDOL | DEHEUOL | DE-DDWYREINIOL | GWLADFAOL |
|---|---|---|---|
| **allan**<br>**brifo**<br>**budr**<br>**bwrdd**<br>**cenllysg**<br>**cur pen**<br>**dolur gwddw(g)**<br>**fo**<br>**ffraeo**<br>**hwrdd**<br>**i fyny**<br>**llwynog**<br>**nain**<br>**pigyn clust**<br>**prysur**<br>**taid** | **cynnu**<br>**ffwrn**<br>**llaeth**<br>**march**<br>**oen swci** | **clwyd (fferm)**; cyfetyb i *tranquera* y Sbaeneg, o'i gymharu â 'g(i)ât' sy'n cyfateb i *portón*<br>**d(i)wedda(f)** ('diwethaf'; cf. 'dwytha(f)' y gogledd)<br>**ffroes** | **athraw** ('athro')<br>**llwybr** (ffordd heb ei 'phalmantu', h.y. heb darmac)<br>**palfes (oen)** ('ysgwydd', neu '*shoulder* (o gig oen)')<br>**poncins** ('pwmpenni')<br>**ticin** ('matres')<br>**tot o fati** ('mesur bach o ddiod *mate*' (< Quechua *mati*))<br>**singlet** ('fest')<br>**sgubell** ('brwsh') |

Tabl 1: Rhai enghreifftiau o eirfa gyson draddodiadol tafodiaith y Wladfa mewn perthynas â'u dosbarthiad daearyddol yng Nghymru

O safbwynt yr eirfa amrywiadol wedyn, dywedir mai 'geiriau o darddiad gogleddol a geir fynychaf o fewn y dosbarth [hwn hefyd]' (R. O. Jones 1973–4: t. 293), gyda chyfran yr eirfa ogleddol rhwng 50% a 56% mewn pum ardal (Gaiman, Drova Dulog, Lle Cul, Bryn Crwn ac Esquel), ond yn uwch ym Mryn Gwyn a Dolavon (75% ac 87% yn y drefn honno).[13] Crynhoir yn Nhabl 2 felly enghreifftiau o eirfa amrywiadol Dyffryn Camwy a Chwm Hyfryd fel ei gilydd.

[13] Mae angen trin yr ystadegau hyn â gofal er hynny gan mai dau gyfranogwr (hŷn a chanol oed) o bob ardal sy'n sail iddynt, ar wahân i'r Gaiman lle y cafwyd aelod o'r genhedlaeth iau hefyd. Noder bod y rhan fwyaf o'r ardaloedd hyn wedi eu labelu ar y map sy'n ymddangos ar ddechrau'r rhifyn (t. x).

| GOGLEDDOL | | DEHEUOL |
|---|---|---|
| goriad | ~ | allweth |
| rŵan | ~ | nawr |
| nionod | ~ | winiwns[14] |
| efo | ~ | gyda |
| dodrefn | ~ | celfi |
| berfa | ~ | wilber |
| ffisig | ~ | moddion |
| glöyn byw | ~ | pilipala[15] |

Tabl 2: Rhai enghreifftiau o eirfa amrywiadol draddodiadol tafodiaith y Wladfa mewn perthynas â'u dosbarthiad daearyddol yng Nghymru

Nodir hefyd rai tueddiadau awgrymog gan R. O. Jones (ibid.), e.e. 'dodrefn' yn unig ym Mryn Gwyn a Dolavon, ond dim ond 'celfi' yn yr ardaloedd eraill. Yn yr un modd, pwysleisia fod rhai elfennau o'r eirfa amrywiadol, e.e. 'rŵan' ~ 'nawr' a 'cadach' ~ 'clwtyn', yn dangos 'amrywio deuol drwy'r [D]yffryn i gyd, hynny yw ffurf ogleddol a ffurf ddeheuol yn ddiwahân ym mhob ardal' (2015: t. 168). Tystiolaeth bellach o hynny yw'r dyfyniad canlynol o gyfweliad a gefais innau yn 2016 â gwraig o Drelew (ond o'r Drova Dulog yn wreiddiol), sy'n dangos bod modd i ymgyfnewid o'r math hwn ddigwydd o fewn lleferydd un siaradwr hyd yn oed:

> Dwi'n deud rŵan a nawr welsoch chi, ond dwi ddim yn cofio p'run sydd o'r sowth a p'run sydd o'r north.

Er mwyn dod i gasgliadau cyffredinol am ffurfiant a datblygiad tafodiaith y Wladfa ar sail yr uchod, rhaid ystyried y sylw canlynol o eiddo R. O. Jones:

> Ar ddechrau'r dadansoddi roeddwn i o'r farn mai tafodieithoedd y gogledd a orfu, ond o ddadansoddi'n drylwyrach gwelir mai llinyn mesur **yr ymdoddi a'r safoni** oedd patrwm ieithyddol y Beibl a'r patrymau llafar cyhoeddus a glywid drwy'r Dyffryn i gyd o bulpudau'r capeli (1987: t. 21; fi biau'r print bras)


[14] Gellid dadlau bod arlliw gogleddol i'r ail <i> (sy'n cynrychioli'r lled-lafariad /j/) yn y ffurf hon, neu o leiaf ynganiad mwy safonol na'r hyn a geir yn y ffurf nodweddiadol ddeheuol, sef 'winwns'.

[15] Diddorol nodi barn R. O. Jones mai '[g]air sy'n encilio [yn y Wladfa]' (2015: t. 168) yw 'glöyn byw' a'i fod yn gyfyngedig i ardaloedd y Gaiman a Bryn Gwyn, lle y clywir 'pilipala' hefyd. Mae'n werth nodi mai cyfyngedig i rannau o dde-ddwyrain Cymru oedd y gair hwn, ond i'w ddosbarthiad daearyddol ledaenu yn y famwlad oherwydd cyfres deledu i blant o'r enw 'Pili Pala' a ddarlledwyd ar S4C o 1976 ymlaen, i'r fath raddau fel y defnyddir 'pilipala' yn gyffredin ymhlith cenedlaethau iau sawl ardal yn y gogledd bellach (Rees 2009: t. 72). Oni bai am y gyfres deledu hon felly, mae'n ddigon posib mai yn y Wladfa yn unig y byddai 'pilipala' y Wenhwyseg yn arferol heddiw.

Mae'r 'ymdoddi' a grybwyllir yma yn cyfateb i ffenomen a elwid heddiw yn 'lefelu tafodieithol', un o ganlyniadau posib cydgyffyrddiad tafodieithol a ddiffinnir fel 'a process whereby differences between regional varieties are reduced, features which make varieties distinctive disappear, and new features emerge and are adopted by speakers over a wide geographical area' (Williams a Kerswill 1999: t. 149). Mewn gwirionedd, mae bodolaeth geirfa gyson sylweddol yn nhafodiaith draddodiadol y Wladfa yn dyst i'r lefelu sylweddol a ddigwyddodd. Arwyddocâd defnydd cyson o 'nain' a 'taid' gogleddol, er enghraifft, yw bod y ffurfiau deheuol cyfatebol 'mam-gu' a 'tad-cu' wedi darfod o'r tir (er y byddent yn ddiau wedi bod yn rhan o gymysgedd tafodieithol degawdau cyntaf y Wladfa). Fodd bynnag, er bod tueddiad cyffredinol i gysylltu lefelu tafodieithol â dim ond lleihad yn nifer y ffurfiau, sylwer bod pwyslais ar ffurfiau newydd hefyd gan Williams a Kerswill. Enghraifft o hyn yng nghyd-destun Cymraeg y Wladfa fyddai 'mae gyda fo ffroes', lle y mae cyfuno 'fo' gogleddol, 'ffroes' de-ddwyreiniol a chystrawen gyffredinol ddeheuol yn arwain at batrwm newydd, 'gwladfaol'.

Nid oes rhaid i lefelu tafodieithol gyd-ddigwydd â safoni er hynny (ibid.: t. 162),[16] ond mae'n amlwg oddi wrth ddehongliad R. O. Jones uchod mai gweld lefelu fel proses a gyd-ddigwyddai â safoni a wnâi ef yn achos datblygiad tafodiaith y Wladfa. Os gwir y ddamcaniaeth hon, felly, fod safoni ar sail Cymraeg y Beibl ac iaith y pulpud wedi chwarae rôl ganolog yn y lefelu tafodieithol a ffurfiodd Gymraeg y Wladfa, beth sy'n egluro hynny, a pham na fu hynny mor amlwg yn natblygiad tafodieithoedd Cymru?

O ran y modd y daeth safoni ieithyddol yn gyffredin ledled y byd, nid oes modd ysgaru ieithoedd safonol oddi wrth ddatblygiad cenedl-wladwriaethau fel rheol:



RHIVIANT

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | I | un | 30 | XXX | tri neg |
| 2 | II | dau | 40 | XL | pedwar neg |
| 3 | III | tri | 50 | L | pum' neg |
| 4 | IV | pedwar | 60 | LX | chwe' neg |
| 5 | V | pump | 70 | LXX | saith neg |
| 6 | VI | chwech | 80 | LXXX | wyth neg |
| 7 | VII | saith | 90 | XC | naw neg |
| 8 | VIII | wyth | 100 | C | cant |
| 9 | IX | naw | 110 | CX | cant a deg |
| 10 | X | deg | 150 | CL | cant pum' neg |
| 11 | XI | deg un | 190 | XCC | cant naw neg |
| 12 | XII | deg dau | 200 | CC | dau gant |
| 13 | XIII | deg tri | 300 | CCC | tri chant |
| 14 | XIV | deg pedwar | 400 | CD | pedwar cant |
| 15 | XV | deg pump | 500 | D | pum' cant |
| 16 | XVI | deg chwech | 600 | DC | chwe' chant |
| 17 | XVII | deg saith | 700 | DCC | saith gant |
| 18 | XVIII | deg wyth | 800 | DCCC | wyth gant |
| 19 | XIX | deg naw | 900 | CM | naw cant |
| 20 | XX | dau neg | 1,000 | M | mil |

| | |
|---|---|
| Dengmil (myrdd, neu leng) | 10,000 |
| Canmil (neu torva) | 100,000 |
| Milvil (miliwn, neu mwna) | 1,000,000 |
| Mil o viliynau | 1,000,000,000 |
| Deusawdd | 1,000,000,000,000 |
| Trisawdd | 1,000,000,000,000,000,000 |

Chwe' gwagnod ychwanegol ddyry Bedwarsawdd, a chwech eraill roddant Bumsawdd, ac velly yn mlaen hyd Ddegsawdd. Tu hwnt i hyny nid yw dyvais nac angen wedi llunio dim.

Ffigur 1: Adran ar rifyddeg yn *Gwerslyvr Cyntav i ddysgu darllen Cymraeg: at wasanaeth ysgolion y Wladfa* R. J. Berwyn (ail argraffiad 1881: t. 33). Ffynhonnell: Casgliad y Werin Cymru 2023[a]; perchennog: Archifau a Chasgliadau Arbennig, Prifysgol Bangor.

[16] Fe ŵyr sawl rhiant i ddisgybl(ion) sy'n mynychu un o ysgolion cyfrwng Cymraeg de-ddwyrain Cymru, er enghraifft, fod lefelu ansafonol yn bosib wrth i ffurfiau megis 'fi'n mynd' a 'fi gyda bag' amlhau yn eu cartrefi.

> ... standardisation matured hand-in-hand with the subsequent formation of nation-states, which developed standards for particular political projects involving the creation of an apparently neutral public sphere... colonisation exported this philosophical and political model worldwide and created a need for teachable forms of European languages (Costa et al. 2018: t. 4)

Ymddengys hyn yn amherthnasol ar yr olwg gyntaf i iaith anwladwriaethol fel y Gymraeg, ond rhaid cofio bod hunanlywodraeth i'r Cymry yn elfen ganolog o fenter y gwladfawyr Cymreig.[17] Yn yr un modd, sefydliadau gwladwriaethol pwerus yw gweithredyddion safoni fel rheol:

> The movement towards standardisation was bolstered through the rise of centralised governments and administration as well as compulsory education and the creation of unified economic and cultural markets... (ibid.: t. 6)

Ond er gwaethaf bychander cymharol y Wladfa a'i statws is o'i chymharu ag eiddo'r wladwriaeth, yr hyn a welwyd yn gynnar yn ei hanes oedd ehangiad sylweddol a chyflym ym mheuoedd yr iaith Gymraeg wrth i'r gwladfawyr cynnar allu rheoli eu sefydliadau eu hunain gan wireddu eu dyhead am ymreolaeth (R. O. Jones 1998: tt. 290–300). Cynhwysai'r rhain eu system addysg (gweler enghraifft o arloesi ieithyddol wrth ddysgu rhifyddeg yn Ffigur 1, er enghraifft),[18] eu cyrff gwleidyddol a chyfreithiol lleol,[19] eu cwmni dyfrhau (gweler erthygl F. Williams yn y rhifyn hwn), eu papurau newydd (Brooks 2012), eu cwmni cydweithredol ar gyfer masnachu, heb anghofio am eu capeli.

I grynhoi, roedd y sefydliadau a ganiataodd i beuoedd y Gymraeg ehangu yn y Wladfa yn cydymffurfio â phatrwm rhyngwladol cyffredinol o safoni wedi ei seilio ar ddyheadau cenedlaetholgar gwladwriaethau annibynnol.[20] Yn y cyd-destun hwn felly, gan ystyried hefyd fod cryn orgyffwrdd rhwng aelodau blaenllaw'r capeli (gan gynnwys diaconiaid)

---

[17] Cwbl groes i hyn oedd cymhellion llywodraeth yr Ariannin a ystyriai fod presenoldeb y Cymry yn rhoi cyfreithlondeb iddi hi hawlio tiriogaethau eang ym Mhatagonia (G. Williams 1991: t. 49).

[18] Gellir pori drwy werslyfr R. J. Berwyn, y llyfr Cymraeg cyntaf i gael ei gyhoeddi yn Ne America, ar wefan Casgliad y Werin Cymru (2023[a]): https://www.casgliadywerin.cymru/items/13273#?xywh=-95%2C-1%2C739%2C750&cv=

[19] Diddorol nodi yn y cyswllt hwn fod gwaith ymchwil ar y gweill gan yr Athro Gwynedd Parry (gohebiaeth bersonol â mi) ar lawysgrif 'Llyfr y Barnwr', sy'n gofnod uniaith Gymraeg o'r achosion llys a fu yn y Wladfa rhwng 1872 ac 1880. Mae'r llawysgrif hon i'w gweld yn Amgueddfa'r Gaiman, a cheir hefyd fersiwn electronig ohoni ar wefan Casgliad y Werin Cymru (2023[b]): https://www.casgliadywerin.cymru/items/14202#?xywh=-6%2C-1%2C1211%2C750&cv=2

[20] Nid manylyn dibwys yn y cyswllt hwn yw'r ffaith fod 'Tad y Wladfa', Michael D. Jones, hefyd yn un o dadau cenedlaetholdeb Cymreig modern (James a Jones 2009). Yn wir, gellir ystyried yr arloesi ieithyddol a welwyd yn ystod degawdau cyntaf y Wladfa – yr hyn a alwyd gan G. A. Davies (1976: t. 69) yn '[g]yfnod annibyniaeth yr iaith Gymraeg' – yn un o lwyddiannau mawr cenedlaetholdeb Cymreig. Y syndod efallai yw bod y gwladfawyr cynnar fel petaent wedi creu egin-wladwriaeth Gymreig (gyda'u cyfreithiau, er enghraifft, a'u cyfansoddiad eu hunain hyd yn oed), er gwaetha'r ffaith fod rhai o arweinwyr blaenllaw'r Wladfa wedi cydnabod sofraniaeth Archentaidd yn gyfnewid am y tir a dderbyniwyd o'r dechrau (Coupland a Garrett 2010: t. 8).

ac arweinwyr gwleidyddol, cyfreithiol ac economaidd y Wladfa,[21] nid yw'n syndod bod Cymraeg ysgrifenedig y Beibl a phatrymau llafar y pulpudau wedi chwarae rôl yn yr arloesi ieithyddol a welwyd, a chan hynny, yn ffurfiant y dafodiaith newydd.

***Perthnasedd ideolegau ieithyddol***

Cwestiwn arall a gyfyd yw i ba raddau y mae ideolegau ieithyddol penodol yn berthnasol i ffurfiant a datblygiad tafodiaith Gymraeg y Wladfa? O ystyried perthnasedd cenedlaetholdeb Cymreig i ddatblygiad y Wladfa, mae'n werth tynnu sylw at un ideoleg benodol, sef yr ideoleg iaith safonol. Diffinnir hon gan Dołowy-Rybińska a Hornsby fel a ganlyn:

> [...] the belief that a particular form of language, usually the variety that is used by the most powerful group in society, is superior in some way to other varieties of the language. The standard variety of a language is often based on written forms [...] (2021: t. 105)

Fodd bynnag, rhaid crybwyll yma rai o honiadau dadleuol Peter Trudgill, awdurdod ar amrywiadau trefedigaethol ar y Saesneg, yn ogystal ag un o sylfaenwyr maes cydgyffyrddiad tafodieithol (Trudgill 1986). Yn ei ymdriniaeth â Saesneg Seland Newydd, dadleua Trudgill (2006) i lefelu tafodieithol fod yn broses greiddiol yn ffurfiant yr amrywiad hwnnw, ond gwrthyd yn llwyr y posibiliad fod modd i ideoleg (neu hunaniaeth o ran hynny) chwarae unrhyw rôl wrth i dafodiaith newydd ymffurfio mewn sefyllfaoedd trefedigaethol/gwladychol *tabula rasa*. Un rheswm a roddir i geisio cyfiawnhau'r safbwynt hwn yw'r canlynol:

> The notion of stigma would [...] be a dangerous one to use in a colonial situation where contact with the prestige norms of the mother country had been weakened (Trudgill 2006: t. 154)

Un arall yw hwn:

> [...] in early New Zealand, no mechanisms were in place for the effective dissemination of prescriptive views (ibid.)

Ymddengys er hynny mai'r gwrthwyneb a ddigwyddodd yn y Wladfa wrth i 'normau bri y famwlad' a 'safbwyntiau rhagysgrifiadol' ddod yn fwyfwy cyffredin wrth i beuoedd y Gymraeg ehangu.[22] Yr un mor amheus yw awgrym Trudgill mai'r cyfrannau o ymfudwyr o bob rhanbarth yn y famwlad (neu'r mamwledydd) sy'n hollbwysig o safbwynt canlyniad unrhyw gymysgu tafodieithol:

[21] Aeth G. Williams (1991: t. 106) cyn belled ag awgrymu bod 'non-agricultural employment depended to a large extent upon one's religious involvement'.

[22] Gellir derbyn er hynny nad dyblygiad llwyr o safonau Cymru a gafwyd wrth i rai elfennau ieithyddol dorri tir newydd, e.e. wrth ddatblygu orgraff newydd i'r Wladfa y gwelir ei hôl hyd heddiw yn ffurfiau ysgrifenedig enwau lleoedd fel 'Trevelin' a 'Dolavon'.

> ... what happened [in New Zealand and the other Southern Hemisphere colonies] was [...] that the minority quite simply and mechanistically accommodated to the majority. (ibid.)

Yn wir, gellir yn rhwydd ddiystyru perthnasedd y cyffredinoliad hwn i sefyllfa tafodiaith y Wladfa. Nid yn unig y mae mapiau gan G. Williams (1975: tt. 36–7, tt. 75–6) yn dangos yn glir mai'r de-ddwyrain oedd man preswylio canran uchel o deithwyr y *Mimosa* yn 1865,[23] ond amlygir hefyd fod tua 70% o ymfudwyr yr ail don fawr yn 1875–6 yn preswylio yn ardaloedd glofaol Aberdâr, Pontypridd, Dowlais a Chymoedd Rhondda. O gymhwyso honiad y dyfyniad diwethaf gan Trudgill felly, yr hyn a ddisgwylid fyddai llawer o ymgymhwyso tuag at ffurfiau'r de (a'r de-ddwyrain yn arbennig), ond chwalu y mae'r ddamcaniaeth honno pan ddadansoddir geirfa draddodiadol y Wladfa (gweler uchod).[24]

Yn groes i awgrym Trudgill uchod felly, rhaid ystyried y posibilrwydd fod ideolegau ieithyddol, ac ideoleg iaith safonol yn neilltuol, yn berthnasol iawn i ffurfiant a datblygiad tafodiaith Gymraeg y Wladfa. Er nad hawdd yw dod o hyd i dystiolaeth bendant o hynny yn negawdau cyntaf y Wladfa, ceir er hynny ambell ffynhonnell awgrymog. Cymerer er enghraifft y sylw hwn o eiddo Lewis Jones, arweinydd ymarferol yr ymsefydliad, sydd nid yn unig yn awgrymu bod lefelu a safoni ieithyddol cyflym wedi digwydd ar ddechrau cyfnod y Wladfa, ond bod hyn hefyd yn destun llawenydd iddo:

> Pe na wnaethai y Wladva ddim ond lledu ein Cymreigedd i vod yn anrhaethol hwnt i hwntw a northman, yr oedd hynny yn iechyd cenedlaethol (Jones 1898: t. 184)

Ymddengys er hynny mai camsyniad fyddai tybio bod yr arweinydd hwn, a hanai o ardal Caernarfon yn wreiddiol,[25] yn ystyried ffurfiau'r de yn gydradd â rhai'r gogledd. Yn wir,

[23] Gwelir bod y rhan fwyaf o'r rhain a oedd yn byw yn y de-ddwyrain yn 1865 wedi eu geni yn y de hefyd.

[24] Rhaid cyfeirio yma at y posibilrwydd fod ymfudwyr diweddarach na'r minteioedd cyntaf wedi cael effaith fawr ar ddatblygiad tafodiaith y Wladfa, gan beri iddi ddod yn fwy gogleddol na'r hyn ydoedd ar ddechrau cyfnod y Wladfa. Mewn gwirionedd, mae'n berthnasol ystyried hynny gan fod mwyafrif llethol yr ymfudwyr a gyrhaeddodd ar yr *Orita* yn 1911 yn ogleddwyr (a'r rhan fwyaf o'r rheini o Ddyffryn Ogwen, Dyffryn Conwy a Ffestiniog), er mai dim ond 113 oedd cyfanswm y fintai yn yr achos hwn (gweler G. Williams 1975: t. 155). Fodd bynnag, theori a allai danseilio'r posibilrwydd hwn yw'r hyn a elwir yn 'Effaith y Sylfaenwyr'. Yn ôl Trudgill, '[...] the founder effect implies that the linguistic founding population of an area has a built-in advantage when it comes to the continuing influence and survival of their speech forms, as opposed to those later arrivals' (2006: tt. 163–4). Er bod Lipski (1994: t. 54) yn cynnig y gallai dylanwad ieithyddol mintai newydd o ymsefydlwyr fod yn sylweddol ar dafodiaith sy'n esblygu, mae lle i gredu bod 'Effaith y Sylfaenwyr' yn berthnasol i sefyllfa tafodiaith y Wladfa. Mewn cyfweliadau a gefais â dwy fenyw hŷn (y naill o Esquel a'r llall o'r Gaiman), er enghraifft, daeth i'r amlwg fod eu tadau wedi cyrraedd o Gymru yn 1911 (y naill o Ddyffryn Ogwen a'r llall o Ddyffryn Conwy), ond er gwaethaf hynny, nodwyd nifer o ffurfiau gwladfaol sy'n tarddu o dde Cymru ganddynt, e.e. 'ffroes', 'ffein', 'ffwrn' ac 'mae gyda fi'. Diddorol nodi awgrym Birt (2005: t. 121) yn y cyswllt hwn y byddai dylanwad ymfudwyr cynnar 1875–6, hyd yn oed, wedi bod yn ymylol (yn ieithyddol ac yn gymdeithasol) ar deithwyr y *Mimosa* a'u disgynyddion.

[25] Awgrymwyd mewn gwaith blaenorol hefyd fod arwyddocâd neilltuol i'r ffaith mai o ogledd Cymru yr hanai nifer helaeth o arweinwyr cynnar y Wladfa, nid Lewis Jones yn unig, ond hefyd R. J. Berwyn,

honna R. Bryn Williams i Lewis Jones geryddu gweithwyr y rheilffordd unwaith tua 1886, gan ddangos rhagfarn tuag at ddeheuwyr:

> Dyna fel yr ydach chi, pobl y Sowth, os na fydd popeth wrth eich bodd, byddwch yn gweiddi am streic, myn uffern i (yn R. B. Williams 1962: t. 193)

Mae'n gredadwy felly fod ideoleg iaith safonol yn mynd law yn llaw â thuedd i warthnodi amrywiadau deheuol (a'i siaradwyr hefyd o bosib),[26] ond a oes tystiolaeth fwy diweddar o'r Wladfa i awgrymu y gallai hyn fod yn wir hyd heddiw? Er mwyn ystyried hynny, dyma ddyfyniad o gyfweliad a gefais â brawd (siaradwr 1) a chwaer (siaradwr 2) o gyffiniau Trevelin yn 2016:

> SIARADWR 1: Berfa. Pam bo' nhw'n deud wilber yn y Gaiman, dwi ddim yn dyall. Berfa ddyla fo fod, nid wilber. Hogia'r Wilber! Pam? Gair Saesneg! Dwi'm yn dyall. Ond dyna fo, dyna be... Cymry fan hyn a geiria Saesneg yn bla efo nhw. Dod o'r de Cymru [*sic*] a...
> SIARADWR 2: Cyrtans a pilw a thanciw – pawb. Ia, os nad ydyn nhw'n darllen Cymraeg, dyna be maen nhw'n ddeud.
> SIARADWR 1: A winwin yn lle nionod – *onion*. Oedd Dad yn sylwi ar betha fel'a i gyd. A carots oeddan nhw'n ddeud, teulu'r *** [teulu Mam]. Oedd. Llawer o eiria Saesneg. Moron [i ni]. Oedd Dad yn gofalu am betha fel'a.

Mae'n amlwg felly nad synied am Gymraeg y de fel amrywiad cydradd â Chymraeg y gogledd a wna Siaradwr 1, a bod tuedd hefyd i gysylltu ffurfiau sy'n tarddu o dde Cymru â'r defnydd o fenthyciadau Saesneg.[27] Mewn termau eraill, ymddengys fod ideoleg

---

Edwin Cynrig Roberts a Hugh Hughes (Cadvan Gwynedd), yn ogystal â llawer o'i gweinidogion (R. O. Jones 2015: tt. 170–1; Birt 2005: tt. 120–1).

[26] Yn *Llythyrau'r Wladfa Cyfrol 1 (1865–1945)* (2009), a olygwyd gan Mari Emlyn, anarferol iawn yw'r llythyrau a ysgrifennwyd mewn tafodiaith ranbarthol. Eithriad diddorol er hynny yw dau lythyr a ysgrifennwyd mewn ffurf ar y Wenhwyseg (dde-ddwyreiniol) i rifynnau Ionawr a Chwefror 1891 o *Y Drafod* gan un a arddelai'r ffugenw 'Sincyn' (Emlyn 2009: t. 144). Er mai mynegi pryder am gyflwr y ffyrdd rhwng Trelew a'r Gaiman y mae 'Sincyn', mae'n amlwg mai â'i dafod yn ei foch y mae'n ysgrifennu, ac mai at bwrpas ychwanegu dogn o hiwmor y defnyddir y Wenhwyseg yma. Cynhwysir yma, er enghraifft, y benthyceiriau 'reparo' a 'warnins', a defnyddir yr ymadrodd 'wyr budir [*sic*]' gan chwarae ar amwysedd y gair 'budr'. Yn wir, gan fod y rhagenw 'o' yn ymddangos sawl gwaith yn yr ail lythyr, nid yw'n amhosib mai gogleddwr yn dynwared rhai siaradwyr mwy de-ddwyreiniol sydd wrthi, er ei bod hefyd yn bosib fod yr amrywio hwn yn dynodi newid o 'fe'/'e' i 'fo'/'o' ymhlith siaradwyr o darddiad deheuol. Y naill ffordd neu'r llall, yr awgrym yma yw bod y Wenhwyseg yn fwy o destun gwawd (neu ysgafnder o leiaf) na bri yn y Wladfa.

[27] Nid yw'r tueddiad hwn i ystyried bod Cymraeg y gogledd yn rhagori ar Gymraeg y de yn gyfyngedig i ardal Trevelin (Cwm Hyfryd) mewn unrhyw fodd. Mewn cyfweliad yn 2016 â gwraig o'r Gaiman yn Nyffryn Camwy (a ddefnyddiwyd ar gyfer Rees 2017), sylwyd ar yr un ymagwedd, gyda thafodieithoedd deheuol yn cael eu cysylltu ag elfennau Saesneg. Gellir gwrando ar glip o'r cyfweliad sy'n amlygu hynny yma: https://llyfrgell.porth.ac.uk/View.aspx?id=3666~4v~6bmQEM7d

buryddol,[28] sy'n amlwg wedi ei throsglwyddo o genedlaethau blaenorol, yn arwain at ffafrio ffurfiau gogleddol, a bod elfennau deheuol sy'n gyffredin yng ngeirfa amrywiadol y dafodiaith o dan lach ambell siaradwr hyd heddiw. Gellir cynnig felly fod yr ideoleg iaith safonol sydd ar waith yma yn egluro i raddau helaeth amlygrwydd y ffurfiau gogleddol a geir yng ngeirfa gyson Cymraeg y Wladfa.

## 3. Methodoleg

### *Dull gweithredu*

Cyflawnwyd y gwaith maes sy'n sail i'r astudiaeth hon mewn dau ranbarth penodol o Dalaith Chubut, sef Dyffryn Camwy a Chwm Hyfryd, ym Mai 2018 (gweler y map ar ddechrau'r rhifyn (t. x)). Un elfen o'r gwaith maes hwnnw oedd dosbarthu holiaduron dwyieithog (Sbaeneg-Cymraeg), a'r data sy'n deillio o'r rheini yw craidd yr erthygl hon.[29] Daethpwyd o hyd i ymatebwyr addas drwy addasu'r dechneg 'ffrind-i-ffrind' (Milroy 1987: t. 66) a ganiataodd imi dynnu ar y cysylltiadau a oedd gennyf eisoes yn y ddau ranbarth.[30] Fel ymchwilydd, gallwn ofyn felly i'm cysylltiadau fy nghyflwyno i bobl eraill yn y gymuned (e.e. mewn ymarferion côr, gwersi dawnsio, gweithgareddau Menter Patagonia, cyrddau crefyddol, ac yn nhai nifer o siaradwyr hŷn), ac yna eu perswadio i lenwi a dychwelyd holiadur erbyn dyddiad penodol (ar adeg cyfweliad weithiau). Mewn rhai achosion, argymhellwyd imi anfon holiadur drwy ebost at rai a breswyliai bryd hynny y tu allan i Dalaith Chubut.

### *Yr holiadur*

Diben yr holiadur a ddosbarthwyd oedd mynd i'r afael â chwestiynau ymchwil yr astudiaeth hon (gweler adran 1 uchod). Golygai hynny gasglu data demograffig (e.e. yn ymwneud ag oedran, rhywedd, cefndir ieithyddol ac addysgol, ardaloedd magwraeth a phreswylfeydd cyfredol), yn ogystal â data tafodieithol (h.y. ymatebion i gwestiynau amlddewis lle'r oedd disgwyl i gyfranogwyr ddewis eu ffurfiau Cymraeg pob-dydd a gyfatebai i eiriau neu ymadroddion Sbaeneg penodol). Penderfynwyd defnyddio'r dull cyfieithu amlddewis hwn ar gyfer eitemau geirfaol (yn hytrach na gofyn iddynt ddisgrifio lluniau, dyweder) er mwyn annog cyfranogiad llawn a sicrhau cysondeb i'r holl atebion, gan gadw mewn cof y byddai lefelau rhuglder a hyder yn y Gymraeg (fel iaith dreftadol, leiafrifol) yn rhwym o amrywio'n fawr (gweler isod).

---

[28] Fel yr awgryma Brooks (2012: tt. 141–2; 2018), ceir elfen buryddol hefyd i'r termau Cymraeg a fathwyd ac a ddefnyddiwyd mewn hysbysebion yn rhifynnau cynnar *Y Drafod*, e.e. 'ariandy' (nid 'banc') ac 'oriadurfa' (nid 'siop watsys a chlociau'). Cynigia Brooks (2012: t. 142) yn argyhoeddiadol fod elfen o gyfieithu llythrennol o'r Sbaeneg yn rhan o'r buryddiaeth hon hefyd, e.e. bod 'ymgynghorfa ddeintyddol' yn deillio o *consultorio dental*, a bod 'gweithfa fodurol' ar ddelw *taller mecánico*.

[29] Elfen arall oedd y cyfweliadau a gefais â siaradwyr o wahanol gefndiroedd (cyfanswm o 33 chyfweliad â 36 unigolyn, yn ychwanegol at y 23 chyfweliad a gefais yn 2016 â 25 unigolyn). Fodd bynnag, ar wahân i'r dystiolaeth ansoddol a ddefnyddiwyd yn yr adran flaenorol, cyfyngir canlyniadau'r erthygl hon i ddata meintiol yr holiaduron.

[30] Defnyddiwyd y dechneg hon yn flaenorol mewn nifer o astudiaethau sosioieithyddol ledled y byd, e.e. yn Seland Newydd (Holmes et al. 1991), Awstria (Lippi-Green 1989), Awstralia (Horvath 1985) a Brasil (Bortoni-Ricardo 1985).

Fe'i gwnaed yn gwbl glir yn y cwestiynau y dylai'r ymatebwyr ddewis mwy nag un ffurf ieithyddol os oeddynt yn eu defnyddio yn eu 'Cymraeg llafar pob-dydd', yn bennaf er mwyn sefydlu i ba raddau y ceir amrywio geirfaol o fewn iaith unigolion o wahanol grwpiau.

Rhaid cydnabod yma fod pennu'r ffin rhwng defnydd gweithredol ac un goddefol yn heriol ar sail data holiadur yn unig. Gellir barnu er hynny fod y dull yn addas ar gyfer darparu archwiliad cychwynnol o batrymau ieithyddol. O ran y nodweddion geirfaol a dargedwyd, cynhwysai'r holiadur ddetholiad o 35 newidyn geirfaol; 17 o'r eirfa gyson draddodiadol a 18 o'r eirfa amrywiadol (gweler adran 2 uchod).[31] Detholiad pellach o ganlyniadau 8 newidyn geirfaol sy'n dilyn yn adran 4 isod.

### *Cyfranogwyr*

Arwydd o lwyddiant y dull casglu a ddefnyddiwyd yw'r ffaith i 140 holiadur gael eu dychwelyd ataf cyn imi adael Talaith Chubut. Dangosir yn Nhablau 3–6 sut y cafwyd cynrychiolaeth amrywiol yn ôl oedran, rhywedd, man preswylio (heddiw) a'r dull o gaffael y Gymraeg. Fodd bynnag, gan fod 5 siaradwr benywaidd wedi eu magu (yn rhannol neu'n llwyr) yng Nghymru, ac un siaradwr gwrywaidd arall ag ymatebion ieithyddol tra anghyflawn gan mai yn y capel yn unig y daeth ar draws y Gymraeg, penderfynwyd hepgor y chwe ymatebydd hyn gan seilio'r canlyniadau ar ddata 134 o'r cyfranogwyr (a amlygir rhwng cromfachau yn Nhablau 3–5).

| **Oedran** | ***n*** |
|---|---|
| 10–19 | 19 (17) |
| 20–39 | 21 (21) |
| 40–59 | 44 (40) |
| 60–79 | 35 (35) |
| 80–99 | 20 (20) |
| Heb ei nodi | 1 (1) |
| | **140 (134)** |

Tabl 3: Nifer yr ymatebwyr o bob grŵp oedran

| **Rhywedd** | ***n*** |
|---|---|
| Benywod | 103 (98) |
| Gwrywod | 37 (36) |
| | **140 (134)** |

[31] Cynhwysai'r rhan hon o'r holiadur rai cwestiynau yn ymwneud â nodweddion ffonolegol a chystrawennol hefyd, ond nis defnyddir at bwrpas yr astudiaeth eirfaol hon.

Tabl 4: Nifer yr ymatebwyr o'r grwpiau rhywedd a gafwyd

| **Rhanbarth** | ***n*** |
|---|---|
| Dyffryn Camwy | 100 (95) |
| Cwm Hyfryd | 33 (32) |
| Buenos Aires | 4 (4) |
| Arall | 3 (3) |
| | **140 (134)** |

Tabl 5: Nifer yr ymatebwyr sy'n byw heddiw yn y rhanbarthau a nodir

| **Dull caffael y Gymraeg** | ***n*** |
|---|---|
| Ar yr aelwyd yn unig (= 'siaradwyr treftadol' (ST)) | 56 |
| Ar yr aelwyd a thrwy'r Cynllun (= 'dysgwyr treftadol' (DT)) | 26 |
| Drwy'r Cynllun yn unig (= 'dysgwyr ail iaith' (DAI)) | 52 |
| Drwy'r capel yn unig | 1 |
| Yng Nghymru | 5 |
| | **140** |

Tabl 6: Nifer yr ymatebwyr yn ôl dulliau o gaffael y Gymraeg

Dylid cydnabod nad sampl hollol gynrychioliadol o boblogaeth Gymraeg sy'n hanu o Ddyffryn Camwy a Chwm Hyfryd a gafwyd; byddai hynny'n anymarferol mewn gwirionedd, nid yn unig oherwydd cyfyngiadau amser, ond oherwydd nad yw nifer y siaradwyr Cymraeg mewn gwahanol ardaloedd yn Chubut yn hysbys.[32] Wedi dweud hynny, nid sampl mympwyol

[32] Er gwaethaf twf graddol yn nifer y disgyblion sy'n mynychu ysgolion cynradd dwyieithog (Cymraeg-Sbaeneg), rhaid pwysleisio mai lleiafrif llethol o boblogaeth Chubut (sydd â chyfanswm o dros 600,000 o drigolion bellach) sy'n siarad yr iaith. Er bod ambell ffynhonnell ddiweddar (e.e. James 2014) wedi awgrymu y gallai hyd at 5,000 o siaradwyr Cymraeg fod yn y dalaith heddiw, yr hyn y dylid ei bwysleisio yma yw bod dyfodol y Gymraeg fel iaith dreftadol leiafrifol yn parhau'n ansicr yn y rhanbarth hwn o'r Ariannin, yn bennaf oherwydd diffyg trosglwyddiad cyffredinol yr iaith ar yr aelwyd.

a gafwyd chwaith. Bu trafod manwl a chynllunio rhyngof a'm cysylltiadau ynglŷn â'r ffyrdd gorau o gael croestoriad o siaradwyr o wahanol gefndiroedd ieithyddol.

O ran y dosbarthiadau o siaradwyr a welir yn y canlyniadau, penderfynais wahaniaethu rhwng 'dysgwyr ail iaith' (DAI), a fagwyd yn llwyr drwy gyfrwng y Sbaeneg, a 'siaradwyr treftadol' (ST), sy'n cynnwys 'dysgwyr treftadol' (DT) fel categori yn ei hawl ei hun. Diffinnir 'siaradwyr treftadol' gan Polinsky a Kagan (2007: t. 368) fel 'people raised in a home where one language is spoken who subsequently switch to another dominant language'. Mantais troi at gysyniad 'siaradwyr treftadol' (yn hytrach na defnyddio'r term arwynebol 'siaradwyr iaith gyntaf') yw ei fod yn cydnabod y gwahaniaethau sylweddol a all godi rhwng unigolion a'i gilydd o fewn y categori hwn.[33] Dylid cadw mewn cof felly nad grŵp unffurf yw siaradwyr Cymraeg treftadol yn Nhalaith Chubut heddiw, a bod y canlyniadau sy'n dilyn yn gwahaniaethu'n gyson rhwng 'siaradwyr treftadol' (nad ydynt erioed wedi derbyn addysg ffurfiol yn y Gymraeg) a 'dysgwyr treftadol' (h.y. siaradwyr treftadol sydd wedi dilyn cyrsiau Cymraeg, fel arfer ar y cyd â 'dysgwyr ail iaith').[34]

### ***Dadansoddiad***

Gan mai holiaduron ffisegol (nid rhai electronig) a gafwyd fel rheol, crynhowyd atebion llawn pob un ohonynt i daenlen Excel yn y lle cyntaf. Er bod llawer o bosibiliadau o ran cydberthyniadau rhwng newidynnau annibynnol (megis oedran ac ardal) a defnydd o nodweddion ieithyddol, penderfynwyd cyfyngu cwmpas y dadansoddiad hwn i effaith cefndir ieithyddol y cyfranogwyr ar batrymau geirfaol gan mai'r gydberthynas honno sy'n greiddiol i'r astudiaeth hon. Aed ati felly i drefnu'r data yn systematig ar gyfer cyflawni dadansoddiadau meintiol ar bob eitem geirfaol, h.y. drwy lunio tablau rhifiadol ar gyfer pob newidyn, gellid cyfrifo canrannau y siaradwyr a ddewisodd bob opsiwn geirfaol o blith cyfanswm yr ymatebion a gafwyd gan bob grŵp. Y tablau hyn yw sail barrau wedi eu stacio (*stacked bars*) yr adran nesaf, a grëwyd drwy feddalwedd Excel.[35]

Cynhaliwyd profion ystadegol hefyd er mwyn gweld a oedd y gwahaniaethau rhwng

[33] Cynigiwyd gan Polinsky a Kagan (2007: tt. 370–2) fod continwwm o sgiliau llafar ymhlith 'siaradwyr treftadol', yn ymestyn o siaradwyr 'acrolectaidd' ('high-proficiency near-native') i rai 'basilectaidd' ('lowest-proficiency'). Er hynny, mae lleoli siaradwyr Cymraeg treftadol ar gontinwwm o'r math hwn yn mynd y tu hwnt i gwmpas yr astudiaeth hon.

[34] Mae'r grwpiau 'dysgwyr ail iaith' a 'dysgwyr treftadol' yn cynnwys rhai a fynychodd un o dair ysgol gynradd ddwyieithog Cymraeg-Sbaeneg Chubut. 6 'dysgwr treftadol' (pob un rhwng 10 ac 19 oed) ynghyd ag 8 'dysgwr ail iaith' (3 rhwng 10 ac 19 oed a 5 rhwng 20 a 29) a nododd fod yr ysgol yn un elfen o'u caffaeliad o'r Gymraeg. Dylid pwysleisio er hynny fod darpariaeth ddwyieithog yr ysgolion yn gorgyffwrdd â gwersi Cymraeg allgyrsiol y Cynllun (gyda'r nos), a fynychir gan ddisgyblion oedran uwchradd a hŷn. Byddai angen gwaith ymchwil pellach felly er mwyn cymharu defnydd disgyblion cyfredol yr ysgolion cynradd o nodweddion tafodieithol ag eiddo dilynwyr y Cynllun nad ydynt wedi derbyn addysg gynradd ddwyieithog.

[35] Penderfynwyd peidio ag ystyried ymatebion yn ymwneud â bylchau gweigion yn hytrach na thiciau mewn rhai achosion. Er ei bod yn debygol fod diffyg ateb yn gyfystyr â diffyg caffaeliad o unrhyw air perthnasol, ni ellir cymryd hynny'n ganiataol yn achos pob bwlch. Wrth ymdrin â'r data yn adran 4 felly, amlygir nifer yr ymatebwyr a atebodd bob cwestiwn (cyfanswm y sampl cyfan ynghyd â nifer pob grŵp unigol), sef sail y canrannau a ddangosir ym mhob ffigur.

cefndiroedd ieithyddol yr ymatebwyr yn arwyddocaol ai peidio. Defnyddiwyd Prawf Tebygolrwydd Union Fisher ($\alpha = 0.05$) pan oedd i'r newidyn geirfaol dan sylw rif llai na 5 mewn mwy nag 20% o gelloedd, neu pan oedd rhif o 0 mewn unrhyw gell. Fel arall, defnyddiwyd Prawf *Chi* ($\chi$) Sgwâr Pearson gyda Chywiriad Yates ($\alpha = 0.05$).

## 4 Canlyniadau

Trown nesaf at y canlyniadau, gan ymdrin yn gyntaf â thri newidyn o'r eirfa gyson draddodiadol, yn bennaf er mwyn gweld a yw eu defnydd yn dal i fod yn sefydlog, h.y. yn unffurf ar draws pob grŵp o siaradwyr, sef y 'siaradwyr treftadol' (ST), y 'dysgwyr treftadol' (DT) a'r 'dysgwyr ail iaith' (DAI). Bwrir golwg wedyn ar bum newidyn o'r eirfa amrywiadol draddodiadol, eto er mwyn gweld a oes amrywio ar waith o hyd, ynteu a oes gwahaniaethau rhwng grwpiau i'w gweld a allai ddynodi bod newidiadau ar y gweill.

### *Eitemau o'r eirfa gyson draddodiadol*


Gan ddechrau â Ffigur 2, mae'n amlwg mai ffurf draddodiadol y Wladfa, sef y 'nain' ogleddol, sy'n arferol ymhlith pob un o'r grwpiau, sef ST ($n$=56), DT ($n$=26), a DAI ($n$=52).[36] Dengys prawf ystadegol nad yw'r gwahaniaethau rhwng gwahanol gefndiroedd ieithyddol yr ymatebwyr yn arwyddocaol yn yr achos hwn (Prawf Tebygolrwydd Union Fisher, $p = 0.2159$).[37]

Sefyllfa debyg a geir yn Ffigur 3 hefyd, lle y gwelir mai'r 'llaeth' traddodiadol, ffurf sy'n codi'n amlach yn ne Cymru y tro hwn, sy'n arferol gan ST ($n$=54), DT ($n$=25), a DAI ($n$=52) fel ei gilydd (er bod ambell ateb prin â 'llefrith' gan bob grŵp hefyd). Mae prawf ystadegol yn dangos nad yw'r gwahaniaethau rhwng gwahanol gefndiroedd ieithyddol yr ymatebwyr yn arwyddocaol yn yr achos hwn chwaith (Prawf Tebygolrwydd Union Fisher, $p = 0.3332$).


Hyd yma felly, parhad trawiadol sydd i'w weld yn yr eirfa gyson draddodiadol. Fodd bynnag, ceir darlun mwy cymysg o lawer yn Ffigur 4, lle y gwelir amrywio ar waith rhwng 'cur pen' gogleddol yr eirfa gyson draddodiadol (gweler Tabl 1 uchod) a'r 'pen tost' deheuol ei darddiad. Rhaid pwysleisio er hynny mai 'cur pen' yw'r unig air cyffredin o hyd ymhlith y ST ($n$=52) nad ydynt wedi dilyn cwrs Cymraeg, ond yr hyn sy'n drawiadol yma yw mai'r gwrthwyneb sy'n wir am DAI ($n$=49) y Cynllun, h.y. 'pen tost' yw unig air cyffredin y grŵp hwn. Diddorol hefyd yw sefyllfa'r DT ($n$=25), sy'n amlwg yn y tir canol hefyd o ran eu canlyniadau: er mai 'pen tost' yw'r ateb a gafwyd gan y mwyafrif (52%), cafwyd 'cur pen' yn unig gan bron draean (32%) o'r grŵp hwn, yn ogystal â'r ddau air gan gyfran lai (16%). Dengys prawf ystadegol fod y gwahaniaethau rhwng y grwpiau yn arwyddocaol yn yr achos hwn (Prawf Tebygolrwydd Union Fisher, $p < 0.001$).

[36] Drwy gydol yr adran hon, mae'r $n$ a nodir mewn cromfachau yn y testun yn cyfeirio at nifer yr ymatebwyr ym mhob grŵp, nid y nifer a ddewisodd unrhyw ateb penodol.


[37] Nid yn annisgwyl, yr un patrwm cyffredinol a gafwyd hefyd yn achos y 'taid' gogleddol.




Ffigur 2: Ymatebion i *abuela* yn ôl cefndir ieithyddol; 'nain' yn draddodiadol ($n$=134)




Ffigur 3: Ymatebion i *leche* yn ôl cefndir ieithyddol; 'llaeth' yn draddodiadol ($n$=131)





Ffigur 4: Ymatebion i *dolor de cabeza* yn ôl cefndir ieithyddol; 'cur pen' yn draddodiadol ($n$=126)


### *Eitemau o'r eirfa amrywiadol draddodiadol*

Gan symud at y newidynnau hynny sydd wedi dangos amrywio rhwng gwahanol eiriau yn nhafodiaith draddodiadol y Wladfa, dengys Ffigur 5 fod 'goriad' ac 'allwedd'/'allweth' yn parhau'n gyffredin yn y Wladfa, a bod amrywio rhwng y ddau air hyn i'w weld gan bob grŵp, gan gynnwys o fewn iaith rhai unigolion. O graffu ar yr ystadegau, gwelir bod y 'goriad' gogleddol yn llawer mwy cyffredin na'r 'allwedd'/'-eth' deheuol ymhlith ST ($n$=55) nad ydynt wedi dilyn cyrsiau Cymraeg, h.y. 78% â 'goriad' yn unig, 9% arall â'r ddau air, o'i gymharu â dim ond 13% ag 'allwedd'/'-eth' yn unig. Cyferbyniol wedyn yw'r darlun gan DAI ($n$=49) y Cynllun, gyda'r mwyafrif (53%) ag 'allwedd' yn unig, 18% arall â'r ddau air, a lleiafrif nid ansylweddol (29%) â 'goriad' yn unig. Diddorol nodi hefyd fod y DT ($n$=25) eto fel pe baent yn y canol yn ieithyddol, yn enwedig o ran y gyfran sy'n defnyddio 'goriad' yn unig (52% ohonynt). Dengys prawf ystadegol fod y gwahaniaethau rhwng cefndiroedd ieithyddol gwahanol yr ymatebwyr yn arwyddocaol (Prawf *Chi* ($\chi$) Sgwâr Pearson gyda Chywiriad Yates = $\chi^2$ (1) = 31.022, $p < 0.00001$).

Nid annhebyg yw canlyniadau Ffigur 6, ond y gwahaniaeth mwyaf rhwng Ffigur 5 a Ffigur 6 yw bod y gyfran sy'n defnyddio 'rŵan' a 'nawr' yn sylweddol uwch ym mhob grŵp, sy'n gyson â'r 'amrywio deuol' a nodwyd ar gyfer y newidyn hwn gan R. O. Jones (gweler adran 2 uchod). Mae'n bwysig nodi hefyd fod y defnydd o 'nawr' deheuol yn unig yn sylweddol uwch (48%) gan DAI y Cynllun ($n$=52) na chan y grwpiau treftadol, h.y. 24% gan y ST ($n$=54) ac 16% gan y DT ($n$=25). Mae prawf ystadegol yn profi bod y gwahaniaethau rhwng cefndiroedd ieithyddol gwahanol yr ymatebwyr yn arwyddocaol (Prawf *Chi* ($\chi$) Sgwâr Pearson gyda Chywiriad Yates = $\chi^2$ (1) = 13.2689, $p < 0.010034$).





Ffigur 5: Ymatebion i *llave* yn ôl cefndir ieithyddol; 'goriad' ac 'allwedd'/'-eth' yn draddodiadol ($n$=129)





Ffigur 6: Ymatebion i *ahora* yn ôl cefndir ieithyddol; 'rŵan' a 'nawr' yn draddodiadol ($n$=131)

Fodd bynnag, nid cynnydd cyson yn y defnydd o ffurfiau deheuol, yn enwedig ymhlith DAI, yw'r patrwm bob tro. Yn wir, dengys Ffigur 7 fod cyfran y ST ($n$=54) a ddewisodd 'win(i)wns' deheuol yn unig yn 72%, o'i gymharu ag 20% ohonynt sy'n defnyddio 'nionod' yn unig, gyda dim ond 7% yn defnyddio'r ddwy ffurf yn yr achos hwn (yn wahanol iawn i'r amrywio deuol 'rŵan'~'nawr' a welwyd gan y garfan hon yn Ffigur 6). Ar y llaw arall, sefyllfa gyferbyniol a geir ymhlith DAI ($n$=44) y Cynllun, gyda'r gyfran ohonynt sy'n defnyddio'r 'nionod' gogleddol yn unig gryn dipyn yn uwch (52%) na'r un a gafwyd ar gyfer 'win(i)wns' yn unig (32%), a chyda chyfran lai fyth yn defnyddio'r ddwy ffurf (16%). O safbwynt y DT ($n$=23) wedyn, gellir cysylltu canlyniadau'r grŵp hwn â'r ddwy garfan arall: ceir cyfran debyg i eiddo'r DAI yn defnyddio 'nionod' yn unig (48% ohonynt), ond er hynny, mae'r ganran ohonynt sy'n defnyddio 'win(i)wns' yn unig (39%) rhwng sgorau cyfatebol y ddau grŵp arall (er ei bod yn agosach at lefel y DAI). Dengys prawf ystadegol fod y gwahaniaethau rhwng y grwpiau yn arwyddocaol yma (Prawf Tebygolrwydd Union Fisher, $p < 0.0009$).




Ffigur 7: Ymatebion i *cebollas* yn ôl cefndir ieithyddol; 'nionod' ac 'win(i)wns' yn draddodiadol ($n$=121)

Cyn gorffen â'r canlyniadau, mae'n werth cofnodi peth o'r dystiolaeth a gafwyd o amrywio lluosog, h.y. rhwng mwy na dwy ffurf. Yr hyn sydd fwyaf trawiadol am Ffigur 8 yw'r gyfran sylweddol uwch (77%) o'r DAI ($n$=31)[38] a ddewisodd 'hances' yn unig o'i chymharu â chanrannau cyfatebol y DT ($n$=21) a'r ST ($n$=54), sef 48% a 22% yn yr un drefn. Mae'r ST yn wahanol i'r ddau grŵp arall felly gan fod y gyfran uchaf (30%) o'r garfan hon wedi dewis 'nisied (poced)' yn unig,[39] o'i chymharu â chanran is (22%) o'r grŵp hwn a ddewisodd 'hances' yn unig. Ymhellach, gwelir bod amrywio ar lefel unigolyn yn llawer mwy cyffredin ymhlith ST wrth i 35% ohonynt ddewis cyfuniad o ffurfiau, yn wahanol iawn i sefyllfa'r DAI lle na chafwyd unrhyw amrywio rhwng mwy nag un ffurf, neu sefyllfa'r DT lle na chafwyd ond un ymatebwr yn dewis 'hances' a 'cadach poced'.[40] Mae canlyniadau'r DT unwaith eto'n clymu'r garfan hon â'r ddau grŵp arall: tra bo'r gyfran uchaf ohonynt (48%) yn defnyddio'r 'hances' safonol yn unig, mae'n ddadlennol hefyd fod 'nisied (poced)' yn unig yn ymddangos gan 29% ohonynt, yn ogystal â 'cadach (poced)' yn unig gan 19%. Mae prawf ystadegol yn profi bod y gwahaniaethau rhwng y grwpiau yn arwyddocaol yn yr achos hwn (Prawf Tebygolrwydd Union Fisher, $p < 0.001$).





Ffigur 8: Ymatebion i *pañuelo* yn ôl cefndir ieithyddol; 'hances', 'nisied (poced)' a 'cadach (poced)' yn draddodiadol ($n$=106)

[38] Amlyga'r nifer cymharol fychan (31) yma nad oedd gan 21 arall o'r DAI air Cymraeg am y *pañuelo* Sbaeneg.

[39] Gair cymharol brin yng Nghymru bellach yw hwn gan ei fod yn tarddu o dafodiaith draddodiadol de-ddwyrain Cymru, sef y Wenhwyseg. Mae'n werth nodi hefyd y cofnoda *Geiriadur Prifysgol Cymru* – ar-lein ar https://geiriadur.ac.uk/gpc/gpc.html – fod 'neisied' ar lafar 'gynt yn Sir Ddinb[ych] yn yr ystyr 'cadach gwddf''.

[40] O gyplysu nifer pob gair unigol (pan nad oedd amrywio ar waith) â nifer pob cyfuniad sy'n cynnwys y geiriau dan sylw, mae'n drawiadol mai 'nisied' unwaith eto sydd â'r gyfran uchaf (57%) o atebion ymhlith y ST, o'i gymharu â 'hances' (48%) a 'cadach poced' (33%). Cafwyd pedwar cyfuniad gwahanol ymhlith y ST, sef 1. 'hances' a 'nisied', 2. 'hances' a 'cadach poced', 3. 'nisied' a 'cadach poced', a 4. 'hanes', 'nisied' a 'cadach poced'.

Yn olaf, rhaid ystyried dylanwad benthyceiriau a addaswyd o'r Saesneg ar eirfa amrywiadol y Wladfa heddiw. Amlygir yn Ffigur 9 mai 'carets(h)'/'garets(h)'/'carits(h)' yn unig yw'r ateb mwyaf poblogaidd ymhlith y ST ($n$=55), h.y. gan 44% o'r grŵp hwn, tra bo 'carots' yn unig yn ail agos (gan 25% ohonynt),[41] gyda chyfran lai (13%) wedi dewis y ffurf safonol 'moron' yn unig. Sefyllfa wahanol iawn a welwn oddi wrth y DAI ($n$=50), gyda 60% ohonynt â'r 'moron' safonol yn unig. Yn achos y DT ($n$=26) wedyn, gwelir mai patrymu'n agosach i ddata'r dysgwyr eraill y mae'r garfan hon yn yr achos hwn wrth i 58% ddewis y 'moron' safonol yn unig. Awgrymir er hynny fod cyfran uwch o'r DT (12% ohonynt o'u cymharu â 2% o'r DAI) â thuedd i ddefnyddio 'carets(h)'/'garets(h)'/'carits(h)' yn unig, sef y set fwyaf poblogaidd ymhlith y ST mwyaf traddodiadol. Dengys prawf ystadegol fod y gwahaniaethau rhwng y grwpiau yn arwyddocaol yma (Prawf Tebygolrwydd Union Fisher, $p < 0.001$).




Ffigur 9: Ymatebion i *zanahorias* yn ôl cefndir ieithyddol; 'carets(h)'/'garets(h)'/'carits(h)', 'carots' a 'moron' yn draddodiadol ($n$=131)

## 5. Trafodaeth

Mae'r canlyniadau empiraidd uchod yn sylfaen gadarn ar gyfer cynnig dadansoddiad newydd o batrymau geirfaol yng Nghymraeg y Wladfa heddiw wedi ei osod mewn cyd-destun hanesyddol, sef prif amcan yr astudiaeth hon. Ymdrinia'r adran hon felly â phob un o'r tri chwestiwn ymchwil a gyflwynwyd ar ddiwedd adran 1 uchod yng ngoleuni'r data a gafwyd. Ystyrir wedyn oblygiadau ehangach y data, gan gynnwys eu perthnasedd i ideolegau ieithyddol penodol, cyn awgrymu trywyddau ymchwil pellach yn olaf.

[41] Yn ychwanegol at y gwahaniaeth ffonolegol amlwg rhwng 'carets(h)'/'garets(h)'/'carits(h)' ar y naill law a 'carots' ar y llaw arall, awgryma *Geiriadur Prifysgol Cymru* – ar-lein ar https://geiriadur.ac.uk/gpc/gpc.html – mai o'r ffurf Saesneg dafodieithol *garrit* (nid *carrots*) y mae 'garets' yn tarddu. Nid oes tystiolaeth gadarn i awgrymu bod yr elfen lafarog olaf yn 'carets(h)'/'carits(h)' yn ddatblygiad annibynnol o safbwynt geirdarddol.

## *Deongliadau o'r canlyniadau*

(a) **A yw patrymau geirfaol Cymraeg y Wladfa heddiw yn cydamrywio â grwpiau gwahanol o siaradwyr y gellir eu rhannu yn ôl cefndiroedd ieithyddol?**

Yn ddiamheuol, un o ganfyddiadau amlycaf y canlyniadau yw bod y patrymau amrywio a gafwyd wedi eu cyflyru i raddau helaeth gan y modd y caffaelwyd yr iaith gan y grwpiau gwahanol o siaradwyr. Yn wir, dangosodd y profion ystadegol a wnaed fod gwahaniaethau ystadegol arwyddocaol yn codi yn Ffigurau 4–9 ar sail cefndiroedd ieithyddol y grwpiau gwahanol, h.y. rhwng 'siaradwyr treftadol', 'dysgwyr treftadol' a 'dysgwyr ail iaith'.[42]

Fodd bynnag, yr un mor bwysig â'r gwahaniaethau niferus hyn yw'r ddau achos yn Ffigurau 2–3 lle y gwelwyd nad oedd gwahaniaethau ystadegol arwyddocaol yn codi oherwydd cefndir ieithyddol y tri grŵp o siaradwyr. Dengys y canlyniadau hyn felly fod parhad i'w weld yn y defnydd o rai eitemau yng ngeirfa gyson draddodiadol y Wladfa, ac yn benodol, yn achos 'nain' a 'llaeth'. Awgryma hyn yn gryf fod cyrsiau'r Cynllun yn arwain at drosglwyddo (neu atgyfnerthu) rhai elfennau o'r eirfa gyson draddodiadol i 'ddysgwyr ail iaith' a 'dysgwyr treftadol' fel ei gilydd, er na ellir chwaith ddiystyru'r posibiliad fod y gymuned Gymraeg y tu allan i'r dosbarth hefyd yn chwarae rhan yng nghaffaeliad dysgwyr o'r geiriau hyn.[43]

(b) **Faint o newidiadau geirfaol sydd i'w gweld yn nhafodiaith draddodiadol y Wladfa ers i'r elfennau hyn gael eu harchwilio am y tro cyntaf ar ddechrau'r 1970au, a pham?**

Gan droi at ddefnydd geirfaol y 'siaradwyr treftadol' hynny nad ydynt wedi eu dylanwadu'n uniongyrchol gan gyrsiau'r Cynllun, efallai mai'r hyn sydd fwyaf trawiadol yn achos patrymau geirfaol y garfan hon yw eu bod i'w gweld yn hynod debyg i'r hyn a adroddwyd yn flaenorol, sy'n awgrymu nad oes newidiadau sylweddol i'w gweld yn y dafodiaith draddodiadol. Dangoswyd yn y lle cyntaf (cf. Ffigurau 2–4 uchod), er enghraifft, fod yr eirfa gyson draddodiadol yn parhau i ddangos diffyg amrywio ymhlith y grŵp hwn. O droi wedyn at yr eirfa amrywiadol draddodiadol, yr hyn sy'n bendant yw bod amrywio ar waith o hyd, ond ni ellir canfod cydberthynas syml neu gyffredinol rhwng amlder ffurfiau a'u tarddiad daearyddol yng Nghymru – yn sicr, nid ffafrio ffurfiau gogleddol yn gyson a wna'r grŵp hwn. Yn Ffigurau 5, 7 ac 8, er enghraifft, gwelwyd mai 'goriad' gogleddol, 'win(i)wns' deheuol a 'nisied' de-ddwyreiniol sydd â'r cyfraddau uchaf ymhlith y 'siaradwyr treftadol' a gafwyd. Ymddengys felly fod geiriau enwog Jules Gilliéron, tad tafodieitheg fodern – 'chaque mot a son histoire' – yn gydnaws â'r sefyllfa hon o gydgyffyrddiad tafodieithol.

Er nad yw'r data a gafwyd felly yn gwyrdroi yr hyn a nodwyd yn flaenorol am rôl allweddol lefelu tafodieithol, ar y cyd â safoni (rhannol), yn ffurfiant a datblygiad tafodiaith

[42] Trafodir natur y gwahaniaethau hyn yn fanylach wrth ymdrin â'r cwestiynau ymchwil nesaf sy'n ymwneud â newidiadau geirfaol.

[43] Mae'n werth nodi yn y cyswllt hwn fod y geiriau 'taid' a 'nain' yn codi yn Sbaeneg rhai siaradwyr yn Chubut, hyd yn oed ymhlith siaradwyr di-Gymraeg.

Gymraeg y Wladfa (gweler adran 2 uchod), ni ellir dweud yn derfynol faint o lefelu (a/neu safoni) pellach sydd wedi digwydd ymysg 'siaradwyr treftadol'. Yn achos lefelau 'goriad' ac 'allwedd'/'-eth' (Ffigur 5), er enghraifft, lle y gellid dychmygu'r ail ffurf yn darfod o'r tir dros amser (pe na bai dim ond esblygiad 'naturiol' yn berthnasol), pwysleisio mai 'goriad' a oedd â'r dosbarthiad 'lletaf' a wnaeth R. O. Jones (2015: t. 167) hefyd ar sail ei waith maes yntau ar ddechrau'r 1970au.

Mae'n anodd cadarnhau unrhyw brosesau diweddar heb ddata meintiol blaenorol felly, ond yr hyn y gellir ei ddweud yn bendant yw nad oes unrhyw dystiolaeth o lefelu yn arwain at ehangu'r eirfa gyson draddodiadol, h.y. 'ffocysu' fel y geilw tafodieithegwyr y cam terfynol hwn lle nad oes ond un amrywiolyn yn aros ar gyfer pob newidyn (Trudgill et al. 2000: tt. 307–8). Mae hyn ynddo'i hun yn bwysig o ystyried un arall o honiadau Trudgill (2006: t. 23) ar sail dadansoddiad o Saesneg Seland Newydd eto, sef bod 'the development of a new unitary dialect out of a dialect mixture situation takes approximately fifty years (i.e. two generations)'. O gofio mai ar ôl canmlwyddiant a hanner y Wladfa (yn 2015) y gwnaed y gwaith maes sy'n sail i ganlyniadau'r erthygl hon, heb anghofio hefyd mai'n dilyn canmlwyddiant y Wladfa (yn 1965) y gwnaeth R. O. Jones yntau ei waith maes, gellir awgrymu'n gryf nad oes modd cymhwyso amcangyfrifiad Trudgill o 50 mlynedd cyn bod tafodiaith yn 'ffocysu' i sefyllfa Cymraeg y Wladfa. Yn wir, o ystyried bod enghreifftiau o dair ffurf yn amrywio â'i gilydd hyd heddiw yn iaith 'siaradwyr treftadol' y Wladfa (cf. Ffigur 8 uchod), go brin fod modd treblu ystadegyn Trudgill hyd yn oed.

Yn wyneb diffyg newidiadau amlwg ers dechrau'r 1970au felly, y cwestiwn a gyfyd yw pam? Ar gyfer cynnig ateb posib i hyn, mae'n werth ystyried sylw Trudgill (2006: t. 89) am fecanwaith hollbwysig wrth i dafodiaith newydd ymffurfio: '[...] a key micro-sociolinguistic mechanism involved in new-dialect formation is accommodation between speakers in face-to-face interaction'. Gellir awgrymu bod tebygolrwydd ymgymhwyso rhwng siaradwyr Cymraeg wedi graddol brinhau yn ystod yr ugeinfed ganrif hyd at y presennol wrth i'r Sbaeneg ddod i dra-arglwyddiaethu'n fwyfwy (Rees 2021[a]: tt. 244–5), gan gynnwys yn ymwneud siaradwyr Cymraeg â'i gilydd, ac, o'r herwydd, fod atgynhyrchu geiriau cenedlaethau blaenorol (a phatrymau amrywio teuluol efallai) yn fwy tebygol mewn sefyllfa o'r fath na newid ffurfiau. Os felly, gellir awgrymu nad yw dadansoddiadau Saesneg-ganolog o ffenomen lefelu tafodieithol, gan gynnwys dadansoddiad Trudgill et al. (2000: tt. 303–8) o'r camau a geir wrth ffurfio tafodiaith newydd, o angenrheidrwydd yn ganllaw dibynadwy ar gyfer deall yr un prosesau yng nghyd-destun iaith leiafrifol dreftadol mewn cymdeithas ddwyieithog.[44]

[44] Mae'n werth cyfeirio yma hefyd at astudiaeth Gruffydd (2023) o effeithiau cydgyffyrddiad tafodieithol ar ffurfiant tafodiaith Gymraeg newydd yn un o ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg Caerdydd, lle'r awgryma yntau y gall fod yn 'anos i amrywiolion ffocysu' (t. 64), neu y gall y camau o ffurfio tafodiaith newydd gymryd mwy o amser yng nghyd-destun adfywio iaith leiafrifol na'r hyn sy'n arferol mewn cymunedau uniaith Saesneg.

(c) **I ba raddau y mae data'r grwpiau o ddysgwyr yn amlygu newidiadau geirfaol mwy diweddar, a beth a all roi cyfrif am y patrymau hyn?**

Os mai diffyg newidiadau ieithyddol sylweddol sy'n nodweddu patrymau diweddar 'siaradwyr treftadol' traddodiadol, mae'r gwahaniaethau ystadegol arwyddocaol a gafwyd yn Ffigurau 4–9 ar sail cefndir ieithyddol y grwpiau yn sicr yn dangos bod newidiadau geirfaol i'w gweld er hynny ers dechrau'r 1970au. Gellir awgrymu felly mai dylanwad y Cynllun yn bennaf sydd wedi arwain at drallwysiad o newidiadau (yn ogystal ag elfen o barhad, fel a welwyd eisoes).

O ran newidiadau yn yr eirfa gyson draddodiadol, gwelwyd enghraifft o newid sylweddol ar waith yn Ffigur 4 wrth i 'pen tost' deheuol ennill ei blwyf ar draul y 'cur pen' gogleddol traddodiadol gan fwyafrif o'r 'dysgwyr' (o'r ddau fath fel ei gilydd). Oherwydd absenoldeb cyffredinol y ffurf ddeheuol ymhlith 'siaradwyr treftadol', mae'n amlwg mai'r hyn sy'n egluro'r newid hwn yw dylanwad y Cynllun – yn fwy penodol, dylanwad fersiynau deheuol o hen werslyfrau Cymraeg i Oedolion a ddefnyddiwyd mewn gwersi yn Chubut ar adeg y gwaith maes yn 2018 (a chyn hynny).[45]

Gan droi nesaf at yr eirfa amrywiadol draddodiadol, y canfyddiad sylfaenol yw bod amrywio'n parhau'n gyffredin yn y categori hwn ymhlith pob un o'r grwpiau (ac o fewn lleferydd siaradwyr unigol o bob carfan), yn enwedig lle y ceir dau air yn amrywio â'i gilydd yn y dafodiaith draddodiadol (cf. Ffigurau 5–7 uchod). O ran union natur y newidiadau sydd ar waith felly, gellir dweud bod yr amrywiaeth o wahaniaethau ystadegol arwyddocaol a gafwyd ar sail cefndiroedd ieithyddol yr ymatebwyr yn awgrymu'r datblygiadau canlynol:

- cynnydd yn amlder rhai ffurfiau deheuol, e.e. 'allwedd' a 'nawr' (cf. Ffigurau 5–6);
- cynnydd yn amlder ffurf ogleddol benodol, sef 'nionod' (cf. Ffigur 7);
- cyfran uwch o'r geiriau a ddefnyddir yn ffurfiau safonol (cf. Ffigurau 8–9), a hynny ar draul rhai ffurfiau cyffredin yn nhafodiaith draddodiadol y Wladfa, e.e. 'nisied' y de-ddwyrain a'r benthycair Saesneg 'carets(h)'.

Sut y mae egluro'r cymysgedd hwn o newidiadau, felly? Tra ei bod yn bosib fod fersiynau deheuol o werslyfrau o Gymru wedi arwain at gynnydd yn y defnydd o rai ffurfiau deheuol a ffurfiau safonol, awgryma'r cynnydd a welwyd yn achos 'nionod' gogleddol nad dyna'r unig fewnbwn sy'n gysylltiedig â'r Cynllun. Rhaid cofio bod athrawon o Gymru (a benodir yn flynyddol gan y Cyngor Prydeinig) yn ffynhonnell arall, a bod amrywiaeth o dafodieithoedd o'r 'famwlad' i'w clywed yn yr ystafell ddosbarth felly. Gan hynny, gellir awgrymu ar sail y gwahaniaethau ystadegol arwyddocaol a gafwyd yn achos pob eitem a archwiliwyd o'r

[45] Diddorol nodi yn y cyswllt hwn mai patrwm tebyg a welwyd yn achos 'pigyn clust' a 'dolur gwddw(g)' yr eirfa gyson draddodiadol, sef mai'r ffurfiau deheuol cyfatebol 'clust tost' a 'gwddw(g) tost' yn unig sy'n arferol ymhlith 'dysgwyr ail iaith' y Wladfa bellach. Mae'n debygol hefyd fod ffafrio symlrwydd y patrwm rheolaidd a geir i 'pen tost', 'clust tost', 'gwddw(g) tost' etc. (o'i gymharu ag anghysondeb mwy heriol y ffurfiau gogleddol cyfatebol) yn rhan o'r dewisiadau a wnaed gan rai athrawon a thiwtoriaid.

eirfa amrywiadol draddodiadol fod a wnelo'r amrywio sydd ar waith ymhlith 'dysgwyr ail iaith' Chubut fwy â chysylltiadau trawsgenedlaethol (Johnson 2010: tt. 560–1) nag unrhyw ryngweithio Cymraeg rhyngddynt a 'siaradwyr treftadol' y Wladfa.[46]

Yn olaf, o safbwynt y newidiadau mwy graddol a amlygir yng nghanlyniadau'r 'dysgwyr treftadol', mae'n amlwg mai cynrychioli tir canol ieithyddol pendant rhwng 'siaradwyr treftadol' a 'dysgwyr ail iaith' y mae'r grŵp hwn. Gwelir hyn ar waith yn yr eirfa gyson draddodiadol (cf. Ffigur 4) ac yn yr eirfa amrywiadol draddodiadol (cf. Ffigurau 5–8 yn arbennig). Gan hynny, mae'r canfyddiad hwn yn cefnogi un o ddadleuon astudiaeth ddiweddar arall gennyf (Rees 2021[a]: t. 259), sef bod i'r grŵp hybrid hwn statws 'rhyngol' hefyd o safbwynt y safoni ehangach sydd ar waith yn achos y defnydd o fenthyciadau Sbaeneg a Saesneg.[47]

## *Goblygiadau ehangach y data*

O droi at gwestiwn cellweirus teitl yr erthygl hon, sef a yw Cymraeg y Wladfa yn 'un o fethiannau godidocaf' puryddiaeth ieithyddol, disgrifiad enwog R. Bryn Williams (1962: t. 298) o'r Wladfa fel 'un o fethiannau godidocaf cenedl y Cymry' yw'r gyfeiriadaeth yma. Os mai methiant cenedlaetholdeb Cymreig oedd dan sylw ganddo yntau, amcan fy llurguniad innau o'i ddyfyniad yw holi a oes gwedd dafodieithol bosib i'r cyfryw 'fethiant'?

Fel yr awgrymwyd yn adran 2 eisoes, gellir herio safbwynt dadleuol Trudgill (2006: tt. 153–7) nad yw ideolegau ieithyddol yn berthnasol i ffurfiant tafodieithoedd newydd mewn cyd-destun *tabula rasa* fel yr un sydd dan sylw yma ar sail awgrymiadau cryfion fod ideoleg iaith safonol wedi chwarae rôl allweddol yn natblygiad hanesyddol Cymraeg y Wladfa. Ymhellach, awgrymwyd yn y dyfyniad o gyfweliad a gefais â Siaradwr 1 (gweler diwedd adran 2) nad yw pob siaradwr yn y Wladfa hyd heddiw yn cymeradwyo elfennau o'r eirfa amrywiadol draddodiadol. Canfyddiad trawiadol arall er hynny (ar sail data adran 4) yw bod rhai o'r ffurfiau a oedd dan lach Siaradwr 1, e.e. 'win(i)wns' y de a benthyciadau Saesneg ar gyfer 'moron', nid yn unig yn gyffredin, ond hefyd yn y mwyafrif ymhlith y 'siaradwyr treftadol' traddodiadol a gafwyd (cf. Ffigurau 7 a 9 uchod). Awgryma hyn yn gryf mai lleiafrif llethol o 'siaradwyr treftadol' y Wladfa sydd bellach yn arddel ideolegau sy'n ffafrio safoni pellach.

Gellir awgrymu felly fod cysylltiad anochel rhwng methiant 'rhannol' puryddiaeth – neu ideoleg iaith safonol – a methiant 'rhannol' cenedlaetholdeb Cymreig yn y Wladfa, yn enwedig o ystyried mai ysgogiad cychwynnol safoni yn aml yw 'the need to create prominent ideological symbols of shared purpose, nationhood, etc.' (Romaine 2007: t. 687).[48] Ond o droi'r dehongliad hwn ar ei ben, rhaid pwysleisio bod y 'methiant' honedig hwn – hynny

[46] Gall y cysylltiadau hyn gynnwys athrawon ac ymwelwyr o Gymru, yn ogystal â chyfleoedd drwy'r Cynllun i ddilyn cyrsiau Cymraeg (Ysgolion Haf) yng Nghymru.

[47] Dangosais hefyd yn yr astudiaeth hon fel y gallai un 'dysgwr treftadol' penodol dynnu cymariaethau hyd yn oed rhwng ei 'hen' fenthyceiriau a'i ffurfiau safonol 'mwy diweddar'.

[48] Gellir dadlau bod bodolaeth yr eirfa gyson draddodiadol yn dyst mai methiant 'rhannol' (nid un 'llwyr') fu puryddiaeth ieithyddol yn y Wladfa.

yw, aflwyddiant ideoleg ieithyddol a âi (o safbwynt hanesyddol, cymharol) law yn llaw fel rheol â dyheadau cenedlaetholgar (a rhai trefedigaethol yn achos cenedl-wladwriaethau) (Costa et al. 2018) – yn gyfystyr ag 'enillion' sylweddol o safbwynt amrywiaeth geirfaol yn nhafodiaith Gymraeg y Wladfa heddiw.[49]

Ond er gwaetha'r 'enillion' hyn o ran amrywiaeth tafodieithol, rhaid gofyn hefyd yng ngoleuni'r safoni pellach a welwyd yn achos rhai o ganlyniadau adran 4 (gweler Ffigurau 8 a 9, er enghraifft) i ba raddau y mae'r Cynllun heddiw (yn eironig iawn) yn arwain at atgynhyrchu ideolegau ieithyddol yr ymddengys iddynt gael eu gwrthod gan fwyafrif 'siaradwyr treftadol' traddodiadol y Wladfa? Yn y cyswllt hwnnw, mae'n werth crybwyll bod cryn dipyn o sôn bellach (gan gynnwys yn y byd academaidd) am 'ddad-drefedigaethu ieithoedd safonol' mewn cyd-destunau ôl-drefedigaethol. Cyfeiria Deumert a Mabandla, er enghraifft, at dystiolaeth o'r hyn a ystyrir ganddynt yn 'decolonial future for standard languages, i.e. a future in which a diversity of voices rather than a monolithic norm is the way in which we imagine the standard language' (2018: t. 218). O gymhwyso hyn i'r sefyllfa yn Chubut, nid ymyrryd yn esblygiad naturiol Cymraeg y Wladfa fyddai'r nod yma; yn hytrach, perthnasedd y model yw ei fod yn cymell athrawon a rhanddeiliaid y Cynllun (ar ddwy ochr yr Iwerydd) i roi sylw teilwng i'r amrywio sydd ar waith yn nhafodiaith draddodiadol y Wladfa fel nad yw 'safonau' neu 'normau' ieithyddol *o Gymru heddiw* yn tra-arglwyddiaethu ac, o ganlyniad, yn annilysu ffurfiau pob-dydd 'siaradwyr' a 'dysgwyr treftadol' Chubut, gan gynyddu eu diffyg hyder.[50]

## *Ymchwil pellach*

Yn ddigamsyniol, mae'r astudiaeth hon yn gosod sail gadarn i ymchwilio ymhellach i Gymraeg y Wladfa o safbwynt cydgyffyrddiad tafodieithol yn ogystal â chaffael iaith. Y cam naturiol nesaf, er enghraifft, fyddai dadansoddi elfennau geirfaol yn lleferydd go iawn grwpiau o siaradwyr mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd, e.e. ar sail recordiadau o gyfweliadau

[49] Mae'n werth pwysleisio yn y cyswllt hwn fod goroesiad elfennau sy'n tarddu o dde-ddwyrain diwydiannol Cymru (h.y. o'r Wenhwyseg warthnodedig) yn rhan o'r 'enillion' hyn. Gwelwyd, er enghraifft, fod 'nisied' yn parhau i drechu'r 'hances' safonol ymhlith 'siaradwyr treftadol' (cf. Ffigur 8), a hynny ar ôl dros 150 mlynedd o gydgyffyrddiad tafodieithol, a cheir 'ffroes' yn gyffredin iawn o fewn yr eirfa gyson draddodiadol. Os mai 'trech gwlad nag arglwydd' yw'r ddihareb yng Nghymru, dichon mai 'trech gwladfa nag arglwyddi' yw'r hyn a awgrymir yma.

[50] Rhaid cydnabod yma y gallai camau i ymwrthod yn llwyr ag elfennau neo-drefedigaethol anfwriadol fod yn heriol heb fuddsoddiad ariannol, a bod cyfrifoldeb ar Lywodraeth Cymru felly fel prif gyllidwr y Cynllun i gefnogi ymdrechion o'r math hwn i arloesi yn rhyngwladol. Byddai angen hyfforddiant priodol ar athrawon ar dafodiaith draddodiadol y Wladfa, er enghraifft, gan roi sylw penodol i ddylanwad y Sbaeneg arni hefyd. Yn yr un modd, byddai angen buddsoddiad sylweddol mewn adnoddau addysgol (digidol a ffisegol) er mwyn sicrhau nad ailgylchu deunyddiau 'estron' o Gymru y byddid. O ran yr elfen ddiwethaf, mae'n galonogol fod camau i'r cyfeiriad hwn wedi eu cymryd eisoes wrthi i fersiynau o gyrsiau Mynediad newydd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol gael eu haddasu (yn ieithyddol ac yn ddiwylliannol) at ddibenion dysgwyr yn y Wladfa (gweler manylion pellach yn British Council 2020: t. 23). Mae potensial cyffrous yma i adeiladu ar hyn mewn modd a fyddai'n galluogi ystod ehangach o siaradwyr ar lawr gwlad yn Chubut i ymbweru: gellid, er enghraifft, sefydlu prosiectau cymunedol a fyddai'n grymuso 'siaradwyr treftadol' drwy ganiatáu iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau cwricwlaidd.

sosioieithyddol, neu gyfnodau estynedig o arsylwi.[51] Gan fod amrywio rhwng dwy ffurf eirfaol yn amlwg yn gyffredin, nid yn unig o fewn pob grŵp ieithyddol, ond hefyd o fewn lleferydd unigolion o bob grŵp, erys sawl cwestiwn pellach i'w hateb felly, e.e. i ba raddau y gellir disgrifio'r ymgyfnewid hwn fel 'amrywio rhydd', ynteu a yw wedi ei gyflyru gan ffactorau ieithyddol ac allieithyddol penodol?[52]

Posibilrwydd amlwg arall yw ehangu'r dadansoddi i nodweddion ffonolegol a chystrawennol. Dylid crybwyll yma fod R. O. Jones (1988) eisoes wedi dadansoddi'r amrywio ffonolegol a geid rhwng /a/ ac /e/ yn y sillaf olaf ddiacen yng Nghymraeg y Wladfa o safbwynt cydgyffyrddiad tafodieithol, eto ar sail gwaith maes yn y 1970au. Gan fod hyn yn amlwg cyn dyddiau'r Cynllun, mae ymchwil sylweddol i'w wneud ar ddatblygiad diweddar y nodwedd hon ymhlith gwahanol grwpiau o siaradwyr yn y Wladfa.[53]

## 6. Casgliadau

Ar sail y data empiraidd a gafwyd o 134 holiadur, canfyddiad amlycaf yr astudiaeth hon yw bod patrymau geirfaol Cymraeg y Wladfa heddiw wedi eu cyflyru i raddau helaeth gan yr amrywiaeth o gefndiroedd ieithyddol a welir bellach ymhlith siaradwyr Cymraeg Chubut. Amlygwyd felly sut y mae cydgyffyrddiad tafodieithol hanesyddol yn ein helpu i ddeall patrymau geirfaol 'siaradwyr treftadol' heddiw, ond awgrymwyd er hynny nad oes newidiadau amlwg i'w gweld yn iaith y garfan draddodiadol hon ers y 1970au. Ar y llaw arall, dangoswyd bod newidiadau geirfaol sylweddol i'w gweld ymhlith carfanau eraill o siaradwyr Cymraeg yn Chubut ('dysgwyr treftadol' a 'dysgwyr ail iaith' yn benodol), a dadleuwyd bod modd priodoli'r rheini yn bennaf i ddylanwad rhaglen addysgol benodol, sef 'Cynllun yr Iaith Gymraeg' y Cyngor Prydeinig. Dyma'r tro cyntaf i effaith y Cynllun ar batrymau amrywio geirfaol yng Nghymraeg y Wladfa fod yn destun ymchwil manwl, felly ceir bellach sail gadarn i gyflawni astudiaethau pellach yn y maes hwn (gweler trywyddau posib yn adran 5 uchod).

Ymdriniwyd hefyd â rhai o oblygiadau ehangach canlyniadau newydd yr astudiaeth hon, ac ar sail tystiolaeth ansoddol, heriwyd safbwynt Trudgill (2006: tt. 153–7) nad yw ideolegau ieithyddol yn berthnasol i ffurfiant tafodieithoedd newydd mewn cyd-destun *tabula rasa* fel yr un sydd dan sylw yma. Ymhellach, awgrymwyd ar sail canlyniadau'r astudiaeth hon fod ideoleg iaith safonol yn dal i effeithio ar ddatblygiadau geirfaol yng Nghymraeg y Wladfa, yn enwedig ymhlith grwpiau sy'n dod o dan ddylanwad y Cynllun.

---

[51] Gallai'r arsylwi hwn fod yn rhan o astudiaeth ethnograffig ehangach (gweler, er enghraifft, Gruffydd 2022: tt. 79–114 am fanylion astudiaeth sosioieithyddol a arbrofodd â dulliau o'r math hwn).

[52] O safbwynt theori cydgyffyrddiad tafodieithol, gallai mynd i'r afael â'r cwestiwn diwethaf ddatgelu hefyd i ba raddau y mae ffenomen ailddosbarthu (*reallocation*) (Trudgill 2006: tt. 87–8) yn berthnasol i'r amrywio, h.y. sefyllfa pan fo amrywiolion yn perthyn i wahanol gyd-destunau (ieithyddol neu gymdeithasol).

[53] Diddorol nodi hefyd fod astudiaeth ddiweddar Gruffydd (2023) yn canolbwyntio ar yr union elfen hon yn iaith disgyblion un o ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg Caerdydd. Ceir potensial cyffrous yma felly i gymharu amrywiadau newydd o Chubut â rhai cyfatebol o Gymru o safbwynt defnydd o'r nodwedd ffonolegol hon.

Yn y cyswllt hwnnw, tynnwyd sylw at beryglon arddel 'safonau' neu 'normau' ieithyddol *o Gymru heddiw* o safbwynt cydlyniad y gymdeithas Gymraeg yn Chubut, gan gynnig y gallai mabwysiadu model amgen 'dad-drefedigaethu ieithoedd safonol' Deumert a Mabandla (2018) fod yn fodd effeithiol o drosglwyddo treftadaeth dafodieithol y Wladfa yn ei holl amrywiaeth i genedlaethau'r dyfodol. Gellir mentro dweud hefyd y byddai arbrofi â model addysgol gwrthdrefedigaethol o'r math hwn yn gydnaws iawn ag arloesedd ieithyddol sylfaenwyr y Wladfa, pencampwyr ymreolaeth Gymreig na ddylid eu halltudio o hanes eu mamwlad.

## Llyfryddiaeth


Birt, P. (2005), 'The Welsh Language in Chubut Province, Argentina', yn Ó Néill, D. (gol.), *Rebuilding the Celtic Languages: Reversing Language Shift in the Celtic Countries* (Tal-y-bont: Y Lolfa), tt. 115–51.

Bortoni-Ricardo, S. M. (1985), *The Urbanization of Rural Dialect Speakers: A Sociolinguistic Study of Brazil* (Cambridge & New York: Cambridge University Press).

Brooks, W. A. (2012), 'Welsh Print Culture in *Y Wladfa*: The Role of Ethnic Newspapers in Welsh Patagonia, 1868–1933', traethawd PhD nas cyhoeddwyd, Prifysgol Caerdydd. Hefyd ar gael ar-lein: https://orca.cardiff.ac.uk/id/eprint/46450/1/WelshPrintCultureInYWladfaWalterBrooks.pdf [Cyrchwyd: 6 Gorffennaf 2023].

Costa, J. et al. (2018), 'Standardising Minority Languages: Reinventing Peripheral Languages in the 21st Century', yn Lane, P., Costa, J. a De Korne, H. (goln), *Standardizing Minority Languages: Competing Ideologies of Authority and Authenticity in the Global Periphery* (New York & London: Routledge), tt. 1–23.

Coupland, N. a Garrett, P. (2010), 'Linguistic landscapes, discursive frames and metacultural performance: the case of Welsh Patagonia', *International Journal of the Sociology of Language*, 205, 7–36.

Davies, G. A. (1976), *Tan Tro Nesaf: Darlun o Wladfa Gymreig Patagonia* (Llandysul: Gomer).

Deumert, A. a Mabandla, N. (2018), 'Beyond Colonial Linguistics: The Dialectic of Control and Resistance in the Standardization of isiXhosa', yn Lane, P., Costa, J. a De Korne, H. (goln), *Standardizing Minority Languages: Competing Ideologies of Authority and Authenticity in the Global Periphery* (New York & London: Routledge), tt. 200–21.

Dołowy-Rybińska, N. a Hornsby, M. (2021), 'Attitudes and Ideologies in Language Revitalisation', yn Olko, J. a Sallabank, J. (goln), *Revitalizing Endangered Languages: A Practical Guide* (Cambridge: Cambridge University Press), tt. 104–17.

Emlyn, M. (gol.) (2009), *Llythyrau'r Wladfa Cyfrol 1 (1865–1945)* (Llanrwst: Gwasg Carreg Gwalch).

Gordon, E., et al. (2004), *New Zealand English: Its Origins and Evolution* (Cambridge: Cambridge University Press).

Gruffydd, I. (2022), 'Astudiaeth o amrywio ieithyddol yng nghyd-destun adfywio ieithyddol yng Nghymraeg Caerdydd', traethawd PhD nas cyhoeddwyd, Prifysgol Caerdydd. Hefyd ar gael ar-lein: https://orca.cardiff.ac.uk/id/eprint/150172/1/PhD%20Drafft%20Llawn%20Terfynol-IANTO%20GRUFFYDD.pdf [Cyrchwyd: 10 Tachwedd 2023].

Gruffydd, I. (2023), 'Amrywio ffonolegol (ai) yn y sillaf olaf ddiacen yng Nghymraeg Caerdydd', *Gwerddon*, 35, 47–75. Hefyd ar gael ar-lein: https://gwerddon.cymru/en/articles/amrywio-ffonolegol-ai-yn-y-sillaf-olaf-ddiacen-yng-nghymraeg-caerdydd [Cyrchwyd: 10 Tachwedd 2023].

Holmes, J., et al. (1991), *Variation and Change in New Zealand English: A Social Dialect Investigation* (Wellington: Victoria University).

Horvath, B. M. (1985), *Variation in Australian English* (Cambridge and New York: Cambridge University Press).

James, E. W. a Jones, B. (goln) (2009), *Michael D. Jones a'i Wladfa Gymreig* (Llanrwst: Gwasg Carreg Gwalch).

Johnson, I. (2010), 'Tourism, transnationality and ethnolinguistic vitality: The Welsh in the Chubut Province, Argentina', *Journal of Multilingual and Multicultural Development*, 36(6), 553–68.

Jones, L. (1898), *Hanes y Wladva Gymreig: Cymru Newydd yn Ne America* (Caernarfon: Cwmni'r Wasg Genedlaethol Gymreig).

Jones, R. O. (1973–4), 'Amrywiadau Geirfaol yn Nhafodieithoedd Cymraeg y Wladfa', *Studia Celtica*, VIII/IX, 287–98.

Jones, R. O. (1987), *Yr Efengyl yn y Wladfa* (Pen-y-bont ar Ogwr: Llyfrgell Efengylaidd Cymru).

Jones, R. O. (1988), 'Language variation and social stratification: Linguistic change in progress', yn Ball, M. J. (gol.), *The Use of Welsh: A Contribution to Sociolinguistics* (Clevedon: Multilingual Matters), tt. 289–306.

Jones, R. O. (1996), 'A report on the Welsh language in Argentina's Chubut Province 1996/ Adroddiad ar yr iaith Gymraeg yn Nhalaith Chubut, yr Ariannin 1996' (Caerdydd: British Council).

Jones, R. O. (1998), 'Yr Iaith Gymraeg yn y Wladfa', yn Jenkins, G. H. (gol.), *Iaith Carreg fy Aelwyd: Iaith a Chymuned yn y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru), tt. 281–305.

Jones, R. O. (2015), 'Amrywiadau geirfaol yng Nghymraeg y Wladfa', *Y Traethodydd: Y Wladfa 150*, CLXX (714), 159–73.

Lippi-Green, R. L. (1989), 'Social Network Integration and Language Change in Progress in a Rural Alpine Village', *Language in Society*, 18, 213–34.

Lipski, J. (1994), *Latin American Spanish* (London: Longman).

Milroy, L. (1987), *Observing and Analysing Natural Language* (Oxford: Basil Blackwell).

Polinsky, M. a Kagan, O. (2007), 'Heritage Languages: In the "Wild" and in the Classroom', *Language and Linguistics Compass*, 1(5), 368–95.

Rees, I. W. (2009), 'Tafodiaith Ardudwy: Astudiaeth o Iaith y Genhedlaeth Hŷn a'r To Iau yn Harlech a'r Cyffiniau', traethawd MPhil nas cyhoeddwyd, Prifysgol Aberystwyth.

Rees, I. W. (2021[a]), 'Hispanicisation in the Welsh Settlement of Chubut Province, Argentina: Some Current Linguistic Developments', yn Perez, D. a Sippola, E. (goln), *Postcolonial Varieties in the Americas*, Colonial and Postcolonial Linguistics (CPL) (Berlin: De Gruyter), tt. 239–69.

Rees, I. W. (2021[b]), 'The Welsh in diaspora: Patagonia', yn Morgan, W. J. a Bowie, F. (goln), *Social Anthropologies of the Welsh: Past and Present* (Canon Pyon: Sean Kingston Publishing), tt. 123–44.

Romaine, S. (2007), 'Linguistic diversity and language standardization', yn Hellinger, M. a Pauwels, A. (goln), *Handbook of Language and Communication: Diversity and Change* (Berlin & New York: De Gruyter Mouton), tt. 685–713.

Sleeper, M. (2020), 'Contact effects on voice-onset time (VOT) in Patagonian Welsh', *Journal of the International Phonetic Association*, 50(2), 153–67.

Thomas, A. R. (1973), *The Linguistic Geography of Wales: A Contribution to Welsh Dialectology* (Cardiff: University of Wales Press).

Thomas, B. a Thomas, P. W. (1989), *Cymraeg, Cymrâg, Cymrêg... Cyflwyno'r Tafodieithoedd* (Caerdydd: Gwasg Taf).

Trudgill, P. (1986), *Dialects in Contact* (Oxford: Basil Blackwell).

Trudgill, P. (2006), *New-Dialect Formation: The Inevitability of Colonial Englishes* (Edinburgh: Edinburgh University Press).

Trudgill, P. (2008), 'Colonial Dialect Contact in the History of European Languages: On the Irrelevance of Identity to New-Dialect Formation', *Language in Society*, 37, 241–54.

Trudgill, P., et al. (2000), 'Determinism in New-Dialect Formation and the Genesis of New Zealand English', *Journal of Linguistics*, 36(2), 299–318.

Williams, A. a Kerswill, P. (1999), 'Dialect levelling: change and continuity in Milton Keynes, Reading and Hull', yn Foulkes, P. a Docherty, G. (goln), *Urban Voices* (London: Arnold), tt. 141–62.

Williams, G. (1975), *The Desert and the Dream: A Study of Welsh Colonization in Chubut 1865–1915* (Cardiff: University of Wales Press).

Williams, G. (1991), *The Welsh in Patagonia: The State and the Ethnic Community* (Cardiff: University of Wales Press).

Williams, R. B. (1962), *Y Wladfa* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru).

## Gwefannau

British Council (2020), 'Adroddiad Cynllun yr Iaith Gymraeg, Patagonia 2020 (Ionawr–Rhagfyr 2020)', https://wales.britishcouncil.org/sites/default/files/adroddiad_cynllun_yr_iaith_gymraeg_2020_-_final_welsh.pdf [Cyrchwyd: 6 Gorffennaf 2023].

British Council Cymru (2023), 'Cynllun yr Iaith Gymraeg', https://wales.britishcouncil.org/rhaglenni/addysg/prosiect-yr-iaith-gymraeg [Cyrchwyd: 6 Gorffennaf 2023].

Brooks, W. A. (2018), 'The Welsh language in Patagonia: a brief history', https://www.britishcouncil.org/voices-magazine/welsh-language-in-patagonia-and-wales [Cyrchwyd: 6 Gorffennaf 2023].

Casgliad y Werin Cymru (2023[a]), '"Gwerslyvr Cyntav i ddysgu darllen Cymraeg at wasanaeth ysgolion y Wladva" gan R. J. Berwyn (Ail argraffiad, 1881)', https://www.casgliadywerin.cymru/items/13273#?xywh=-250%2C-2%2C1045%2C749&cv= [Cyrchwyd: 6 Gorffennaf 2023].

Casgliad y Werin Cymru (2023[b]), 'Llyfr y Barnwr', https://www.casgliadywerin.cymru/items/14202#?xywh=-6%2C-1%2C1211%2C750&cv=2 [Cyrchwyd: 6 Gorffennaf 2023].

James, E. W. (2014), 'Viewpoint: The Argentines who speak Welsh', *BBC News Magazine*, https://www.bbc.co.uk/news/magazine-29611380 [Cyrchwyd: 6 Gorffennaf 2023].

Rees, I. W. (2017), 'Cyflwyno Tafodieithoedd Cymraeg y Wladfa', *Llyfrgell Adnoddau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol*, https://llyfrgell.porth.ac.uk/Default.aspx?catid=528 [Cyrchwyd: 6 Gorffennaf 2023].

# Cyfranwyr

### *Fernando Williams*

Mae Fernando Williams yn bensaer (UBA (Prifysgol Buenos Aires)) sy'n meddu ar radd meistr mewn cymdeithaseg (UNSAM (Prifysgol Genedlaethol San Martín)) yn ogystal â doethuriaeth mewn hanes (UBA). Mae'n darlithio ar raglenni israddedig ac ôl-raddedig yn UNLP (Prifysgol Genedlaethol La Plata) ac UNSAM, ac yn perthyn hefyd i raglen Gyrfa Ymchwilydd Gwyddonol CONICET (Cyngor Ymchwil Gwyddonol a Thechnegol Cenedlaethol yr Ariannin). Mae wedi ymchwilio i bynciau yn ymwneud â hanes trefol a thiriogaethol, gwladychu amaethyddol, a thirwedd. Mae hefyd wedi cyhoeddi dau lyfr a nifer o erthyglau ar hanes y Wladfa ym Mhatagonia o safbwynt tirwedd. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae wedi ymroi i astudio tirweddau afonol ac wedi trefnu cynadleddau *Ríos Urbanos* (Afonydd Trefol), a gynhaliwyd yn yr Ariannin yn 2017 a 2019.

### *Guillermo Williams*

Graddiodd Guillermo Williams mewn hanes o Brifysgol Genedlaethol Patagonia ac mae'n ymgeisydd doethurol mewn hanes ym Mhrifysgol Genedlaethol La Plata. Mae'n darlithio ar Hanes Lladin-Americanaidd a Chymdeithaseg ym Mhrifysgol Genedlaethol Patagonia yn Esquel ac yn Comodoro Rivadavia (Talaith Chubut). Canolbwyntia ei feysydd ymchwil ar adeiladwaith atgofion swyddogol a naratifau hanesyddol ar lefelau lleol a thaleithiol, yn enwedig y rheini sy'n ymwneud â'r Wladfa Gymreig ym Mhatagonia. Mae ei ymchwil wedi ei gyflwyno mewn nifer o gynadleddau cenedlaethol a rhyngwladol a'i gyhoeddi mewn amryw o gyfnodolion a chyfrolau arbenigol.

### *Huw L. Williams*

Huw L. Williams yw Deon y Gymraeg ym Mhrifysgol Caerdydd, lle y mae'n ddarllenydd mewn Athroniaeth ac yn ddarlithydd cysylltiol gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Mae ganddo ddiddordeb penodol ym maes damcaniaeth wleidyddol ryngwladol, yn enwedig cwestiynau moesol ynghylch perthnasau rhwng y Gorllewin a'r Byd mwyafrifol. Mae hefyd wedi cyhoeddi'n helaeth ar hanes deallusol Cymru ac Athroniaeth yng Nghymru. Dwy o'i gyfrolau mwyaf diweddar yw *Ysbryd Morgan: Adferiad y Meddwl Cymreig* (2020) a *Global Justice: The Basics* (2016), a ysgrifennwyd ar y cyd â Carl Death.

### *Sara Borda Green*

Mae cefndir academaidd Sara Borda Green mewn Gwyddorau Cyfathrebu (gradd 'Polisi a Chynllunio Cyfathrebu' o Brifysgol Buenos Aires), ac arweiniodd hyn at radd MA mewn Astudiaethau Cymreig a Cheltaidd (Prifysgol Caerdydd) a PhD mewn Ieithoedd Modern (Prifysgol Bangor). Mae ei thraethawd doethurol diweddar yn canolbwyntio ar bortreadu'r

Wladfa mewn llenyddiaeth a ffilmiau Cymraeg ar ôl Datganoli. Mae'n cyfuno'i gwaith ymchwil â dyletswyddau addysgu yn Adran Sbaeneg Prifysgol Bangor. Mae hi hefyd yn awdur rhyddiaith a barddoniaeth, a chyhoeddwyd yn 2021 ei chyfieithiad i'r Sbaeneg *o Llyfr Glas Nebo* (Manon Steffan Ros, Y Lolfa) dan y teitl *El Libro Azul de Nebo* (Seix Barral).

### *Iwan Wyn Rees*

Mae Iwan Wyn Rees yn uwch-ddarlithydd yn Ysgol y Gymraeg ac yn gyfarwyddwr ar Ganolfan Uwchefrydiau Cymry America, Prifysgol Caerdydd. Mae ei waith ymchwil a'i ddarlithoedd yn ymwneud yn bennaf ag agweddau ar ieithyddiaeth a sosioieithyddiaeth, yn enwedig tafodieitheg y Gymraeg (yng Nghymru ac yn y Wladfa Gymreig). Maes ymchwil arall o ddiddordeb iddo yw anawsterau ynganu a'r defnydd o nodweddion tafodieithol ymhlith dysgwyr y Gymraeg, yn arbennig yn y sector Dysgu Cymraeg ac yng nghyd-destun 'Cynllun yr Iaith Gymraeg (Talaith Chubut)' y Cyngor Prydeinig.

Gwerddon

CYFNODOLYN ACADEMAIDD CYMRAEG

ISSN 1741-4261

9 771741 426008